# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 03/03/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[1. Questions to the First Minister](#)

[2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[2. Business Statement and Announcement](#)

[3. Datganiad: Cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar broses Dydd Gŵyl Dewi](#)
[3. Statement: UK Government Announcement on the St David's Day Process](#)

[4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)](#)
[4. Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments for the Well-being of Future Generations (Wales) Bill](#)

[5. Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgorau Cynghori ar Blaladdwyr) 2015](#)
[5. Statutory Instrument Consent Memorandum on the Public Bodies (Abolition of the Advisory Committees on Pesticides) Order 2015](#)

[6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Troseddu Difrifol (Memorandwm Rhif 4): Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Adrodd Gorfodol ynghylch Anffurfio Organau Rhywiol Merched](#)
[6. Supplementary Legislative Consent Motion Serious Crime Bill (Memorandum No. 4): Child Sexual Exploitation and Mandatory Reporting of Female Genital Mutilation](#)

[8. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)](#)
[8. Stage 3 Debate on the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

The first item this afternoon are questions to the First Minister, and question 1 is Jenny Rathbone.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma, a daw cwestiwn 1 gan Jenny Rathbone.

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

### Diwydiant Dur Cynaliadwy

### A Sustainable Steel Industry

13:31

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*1. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi diwydiant dur cynaliadwy yng Nghymru? OAQ(4)2149(FM)*

*1. What is the Welsh Government doing to support a sustainable steel industry in Wales? OAQ(4)2149(FM)*

13:31

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We recognise the importance of the steel industry to the economy of Wales. We've consistently raised with the UK Government the need to ensure that Welsh businesses can operate on a level playing field not only in the UK, but within the UK and global markets, and that of course also includes the need to do something to address the energy costs that many steel producers face.

Rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd y diwydiant dur i economi Cymru. Rydym ni wedi codi'n gyson gyda Llywodraeth y DU yr angen i sicrhau y gall busnesau Cymru weithredu ar sail deg, nid yn unig yn y DU, ond ym marchnad y DU a'r farchnad fyd-eang, ac mae hynny, wrth gwrs, hefyd yn cynnwys yr angen i wneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r costau ynni y mae llawer o gynhyrchwyr dur yn eu hwynebu.

13:31 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Celsa Steel has written to me to say that there is a flood of imports coming into this country that do not even meet the sustainable steel standards, BES 6001. This is putting at risk the very important number of jobs in Cardiff—3,000 jobs in Celsa Steel alone. Now, the leader of Cardiff council is writing to all local authorities, to make sure that all procurement documents specify BES 6001, which is the required standard for safety reasons. Will the Welsh Government support the charter for British sustainable steel, and look at incorporating that standard for responsible sourcing into its own procurement policies?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae Celsa Steel wedi ysgrifennu ataf i ddweud bod llu o fewnforion yn dod i mewn i'r wlad nad ydynt hyd yn oed yn bodloni'r safonau dur cynaliadwy, BES 6001. Mae hyn yn rhoi'r nifer pwysig iawn o swyddi yng Nghaerdydd mewn perygl—3,000 o swyddi yn Celsa Steel yn unig. Nawr, mae arweinydd cyngor Caerdydd yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol, er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau caffael yn nodi BES 6001, sef y safon ofynnol am resymau diogelwch. A wnaiff Llywodraeth Cymru gefnogi'r siarter ar gyfer dur cynaliadwy Prydain, ac ystyried ymgorffori'r safon honno ar gyfer cyrchu cyfrifol yn ei pholisïau caffael ei hun?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we have made representations to the UK Government about the challenges that the steel industry is facing as a consequence of the growth of steel imports and concerns about responsible sustainable sourcing. We do welcome UK Steel's charter for British sustainable steel. It does provide an opportunity to safeguard much high-value jobs, as well as to enable growth. But, in parallel, we also need to fully consider the impact such a charter would have on both private and public organisations, and we are looking at this in more detail.

Wel, rydym ni wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar yr heriau y mae'r diwydiant dur yn eu hwynebu o ganlyniad i'r twf i fewnforion dur a phryderon am gyrchu cynaliadwy cyfrifol. Rydym yn croesawu siarter UK Steel ar gyfer dur cynaliadwy Prydain. Mae yn cynnig cyfle i ddiogelu llawer o swyddi gwerth uchel, yn ogystal â galluogi twf. Ond, ar yr un pryd, mae angen hefyd i ni ystyried yn llawn yr effaith y byddai siarter o'r fath yn ei chael ar sefydliadau preifat a chyhoeddus, ac rydym ni'n edrych ar hyn yn fwy manwl.

13:33 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I'm sure that, with me, you'll welcome Tata Steel's investment in the new £11 million heavy-gauge decoiler—the largest in Europe—which will make demand, or rather extend the demand for products, particularly from the Llanwern works. What, Minister, are you going to be able to do to help Tata—they've got 100 new products in the last few years, completely diversifying the manufacture of steel in Wales—to bring these products to the market and to make them competitive in the future?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y gwnewch chi groesawu, gyda mi, buddsoddiad Tata Steel yn y datdorchwr medrydd trwm newydd £11 miliwn—y mwyaf yn Ewrop—a fydd yn creu galw, neu yn hytrach yn ehangu galw am gynhyrchion, yn enwedig o waith Llanwern. Beth, Weinidog, ydych chi'n mynd i allu ei wneud i helpu Tata—mae ganddyn nhw 100 o gynhyrchion newydd yn y blynyddoedd diwethaf, gan arallgyfeirio gweithgynhyrchiad dur yng Nghymru yn gyfan gwbl—i ddod â'r cynhyrchion hyn i'r farchnad a'u gwneud yn gystadleuol yn y dyfodol?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we work very closely with Tata, of course. I've met with Tata on two occasions on my visits to India, and we've seen the investment that has come to Wales as a result. Tata know the challenges that they will face in the market over the next few years, and they are certainly meeting those challenges. We are fortunate that they are a company that believe in investing their way towards profit, rather than making cuts, and that is something to be acknowledged and welcomed. But, we'll continue to work with Tata, of course, to make sure that steel production continues to be an important part of the Welsh economy.

Wel, rydym ni'n gweithio'n agos iawn gyda Tata, wrth gwrs. Rwyf wedi cyfarfod â Tata ar ddau achlysur yn ystod fy ymweliadau ag India, ac rydym ni wedi gweld y buddsoddiad sydd wedi dod i Gymru o ganlyniad. Mae Tata yn ymwybodol o'r heriau y byddant yn eu hwynebu yn y farchnad yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac maen nhw'n sicr yn ymateb i'r heriau hynny. Rydym ni'n ffodus ei fod yn gwmni sy'n credu mewn buddsoddi eu ffordd tuag at elw, yn hytrach na gwneud toriadau, ac mae hynny'n rhywbeth i'w gydnabod a'i groesawu. Ond, byddwn yn parhau i weithio gyda Tata, wrth gwrs, i wneud yn siŵr bod cynhyrchu dur yn parhau i fod yn rhan bwysig o economi Cymru.

13:34 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A ydy'r Prif Weinidog, tybed, yn gweld cymhariaeth yn fan hyn efo'n galwad ni am gryfhau y polisi ar gaffael yn y sector cyhoeddus, a bod ymrwymiad gan Lywodraeth, a bod y Llywodraeth yn cael eu gweld yn ymrwymo i gefnogi diwydiant, yn bwysig, a bod glynu at, neu fynnu cael y safon yma—safon BES 6001—yn fodd y gall y Llywodraeth ddangos eu hymrwymiad nhw i gefnogi'r diwydiant dur yng Nghymru?

Does the First Minister perhaps see a comparison here with our call for procurement policy in the public sector to be strengthened, and that a commitment from the Government, and that the Government is seen to be committing to supporting industry, is important, and that adhering to, or insisting on having this standard—BES 6001—is a means by which the Government can demonstrate its commitment to support the steel industry in Wales?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

O ran y ffordd y byddai hyn yn gweithio dros y Deyrnas Unedig yn gyfan gwbl, nid oes ffordd gyfreithiol o fynnu bod pobl yn prynu dur o Gymru neu o Brydain. Ond, wrth gwrs, mae hi'n bosibl sicrhau bod yna safon y dylai pob cynnyrch ei chyrraedd er mwyn cael bod yn rhan o'r system gaffael yma yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.

In relation to how this would work across the United Kingdom as a whole, there's no legal way to insist that people buy steel from Wales or, indeed, Britain. But, of course, it's possible to ensure that there is a standard that all products should reach in order to be part of the procurement system here in Wales and in the United Kingdom.

13:35 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in your answer to the Member for Cardiff Central you highlighted the question of high energy costs. I met with the new hub director of strip products in Wales last week and he also indicated to the high costs of energy, which was one of the major issues of adding cost to the tonnage that they are selling in the marketplace. What discussions have you had with the UK Government and, perhaps, with the EU, particularly in light of the EU's energy union consideration that they announced last week?

Brif Weinidog, yn eich ateb i'r Aelod dros Ganol Caerdydd, tynnwyd sylw gennych at y cwestiwn o gostau ynni uchel. Cefais gyfarfod â'r cyfarwyddwr canolbwynt newydd o gynhyrchion stribed yng Nghymru yr wythnos diwethaf a chyfeiriodd yntau hefyd at y costau ynni uchel, sef un o'r prif elfennau sy'n ychwanegu cost at y tunelli maen nhw'n eu gwerthu yn y farchnad. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ac, efallai, gyda'r UE, yn enwedig yng ngoleuni ystyriaeth undeb ynni'r UE a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We've consistently raised concerns with the UK Government regarding the challenges that are impacting on energy-intensive industries in Wales. Most recently—last month, indeed—I wrote to Vince Cable, outlining the need to introduce support at the earliest opportunity and also to provide the industry with the confidence to continue investing in its long-term future and that all other avenues of support are fully explored. It is essential that action is taken sooner rather than later in order to make sure that our energy-intensive industries are able to compete on a level playing field.

Rydym ni wedi codi pryderon gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr heriau sy'n effeithio ar ddiwydiannau ynni-ddwys yng Nghymru yn gyson. Yn fwyaf diweddar—y mis diwethaf, yn wir—ysgrifennais at Vince Cable, yn amlinellu'r angen i gyflwyno cymorth ar y cyfle cyntaf yn ogystal â rhoi'r hyder i'r diwydiant barhau i fuddsoddi yn ei ddyfodol hirdymor a bod pob llwybr cymorth arall yn cael ei archwilio'n llawn. Mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd cyn gynted â phosibl er mwyn gwneud yn siŵr y gall ein diwydiannau ynni-ddwys gystadlu ar sail deg.

## Gofal Newyddenedigol yn Ysbyty Glan Clwyd

## Neonatal Care at Glan Clwyd Hospital

13:36 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran sefydlu canolfan isranbarthol ar gyfer gofal newyddenedigol dwys yn Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)2137(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on progress to establish the sub-regional neonatal intensive care centre at Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)2137(FM)*

13:36

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. I met with the chair and chief executive of the local health board yesterday. This was an issue we discussed. I expect the board to be in a position to submit the outline business case for the SuRNICC development by the autumn. The Minister for Health and Social Services will shortly be writing to Members—today, I believe—setting out the good progress already made by the health board.

Gwnaf. Cefais gyfarfod â chadeirydd a phrif weithredwr y bwrdd iechyd lleol ddoe. Roedd hwn yn fater a drafodwyd gennym. Rwy'n disgwyl i'r bwrdd fod mewn sefyllfa i gyflwyno'r achos busnes amlinellol ar gyfer datblygiad y Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig erbyn yr hydref. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ysgrifennu at yr Aelodau yn fuan—heddiw, rwy'n credu—yn nodi'r cynnydd da a wnaed eisoes gan y bwrdd iechyd.

13:36

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much for that, First Minister. I do welcome your total commitment to seeing that the neonatal centre is, in fact, as per the independent review, housed at Ysbyty Glan Clwyd. At lunch time, I joined other north Wales Members to receive a petition from the people of north Wales on the removal of the consultant-led maternity services. Nearly 16,000 people signed that petition. I want to give thanks to the 'Daily Post' and to Marsha for organising that; they are sitting in the gallery to listen. Can I just say, First Minister, that when we met with the board, the board told us that there were some delays about the framework that was being used to do this neonatal centre at Glan Clwyd? Can you give me your assurances that you will not tolerate any delays that will hinder the progress of mothers and babies in a neonatal centre in Glan Clwyd?

Diolch yn fawr iawn am hynna, Brif Weinidog. Rwy'n croesawu eich ymrwymiad llwyr i sicrhau bod y ganolfan babanod newydd-anedig, mewn gwirionedd, yn unol â'r adolygiad annibynnol, yn cael ei lleoli yn Ysbyty Glan Clwyd. Amser cinio, ymunais ag Aelodau eraill o'r gogledd i dderbyn deiseb gan bobl y gogledd ar gael gwared ar y gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol. Mae bron i 16,000 o bobl wedi llofnodi'r ddeiseb honno. Hoffwn ddiolch i'r 'Daily Post' ac i Marsha am drefnu hynny; maen nhw'n eistedd yn yr oriel i wrando. A gaf i ddweud, Brif Weinidog, pan gawsom gyfarfod gyda'r bwrdd, fe'n hysbyswyd gan y bwrdd bod rhywfaint o oedi o ran y fframwaith a oedd yn cael ei ddefnyddio i greu'r ganolfan babanod newydd-anedig hon yng Nglan Clwyd? A allwch chi roi eich sicrhad i mi na fyddwch chi'n goddef unrhyw oediadau a fydd yn atal cynnydd mamau a babanod mewn canolfan babanod newydd-anedig yng Nglan Clwyd?

13:37

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Indeed not. I can confirm to the Member, on top of what I've just said about the SuRNICC, that, as part of the meeting yesterday, I made it clear that I want to see consultant-led maternity services back at Ysbyty Glan Clwyd within 12 months, as was originally intended. It's right to say that the department has to be rebuilt. It cannot be suddenly reopened overnight, but, nevertheless, it is imperative that the board works as quickly as possible to make sure that those services are restored in the shortest time possible.

Na fyddaf wir. Gallaf gadarnhau i'r Aelod, ar ben yr hyn yr wyf newydd ei ddweud am y Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig, i mi ei gwneud yn eglur, yn rhan o'r cyfarfod ddoe, fy mod i eisiau gweld gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn ôl yn Ysbyty Glan Clwyd o fewn 12 mis, fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Mae'n gywir i ddweud bod yn rhaid ail-adeiladu'r adran. Ni ellir ei hailagor yn sydyn dros nos, ond, serch hynny, mae'n hanfodol bod y bwrdd yn gweithio cyn gynted â phosibl i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau hynny'n cael eu hailgyflwyno yn yr amser byrraf posibl.

13:38

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I too want to put on record my thanks to Marsha Davies of Little Miracles and, indeed, the 'Daily Post' for getting behind the campaign in north Wales. It is very clear that tens of thousands of people are unhappy with the health board's decision. The petition today calls on the Welsh Government to intervene in the process to ensure that there is continuity of a doctor-led service in Glan Clwyd Hospital in that maternity unit. Will you give your response to that petition now?

Brif Weinidog, hoffwn innau hefyd gofnodi fy niolch i Marsha Davies o Little Miracles ac, yn wir, y 'Daily Post' am gefnogi'r ymgyrch yn y gogledd. Mae'n amlwg iawn bod degau o filoedd o bobl yn anfodlon â phenderfyniad y bwrdd iechyd. Mae'r ddeiseb yn galw heddiw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd yn y broses i sicrhau bod gwasanaeth a arweinir gan feddygon yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd yn yr uned famolaeth honno. A wnewch chi roi eich ymateb i'r ddeiseb honno nawr?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is a formal process here, where the community health council, for example, can write formally to request a Minister's attention and possible intervention. They've not done that yet. They've sent a letter but they haven't made that formal request, and we wait to see whether that request will be made. But, I think it is worth cautioning and to say that it simply isn't possible to reopen the department as things stand at the moment, having looked at the issue very, very closely, or rather to continue with the service—the Member is right; to continue with the service—in the future. The reason is this: there are no trainees there. Trainees were withdrawn because they were complaining about the quality of the training they were getting there. Middle-grade doctors are not applying to go there. That's why there are so many locums in place and agency doctors. I don't believe it's going to be possible for the department to be where we would want it to be without those issues being addressed, and we know, of course, of the difficulties that were addressed in the Royal College of Obstetricians and Gynaecologists' report and the Steel report. The department has to be rebuilt in order for it to be sustainable in the future. We see, of course, what's happened in Morecambe bay. We would want to avoid any suggestion of anything like that happening in the future in Wales, and that's why the local health board have had to take action now.

Ceir proses ffurfiol yma, lle gall y cyngor iechyd cymuned, er enghraifft, ysgrifennu'n ffurfiol i ofyn am sylw ac ymyrraeth bosibl Gweinidog. Nid yw wedi gwneud hynny eto. Maen nhw wedi anfon llythyr ond nid ydyn nhw wedi gwneud y cais ffurfiol hwnnw, ac rydym ni'n aros i weld a fydd y cais hwnnw'n cael ei wneud. Ond, rwy'n credu ei bod yn werth rhybuddio a dweud yn syml nad yw'n bosibl ailagor yr adran fel y mae pethau ar hyn o bryd, ar ôl ystyried y mater yn ofalus iawn, iawn, neu, yn hytrach, i barhau â'r gwasanaeth—mae'r Aelod yn iawn; i barhau gyda'r gwasanaeth—yn y dyfodol. Y rheswm yw hyn: nid oes unrhyw hyfforddeion yno. Cafwyd gwared ar hyfforddeion oherwydd eu bod nhw'n cwyno am ansawdd yr hyfforddiant yr oedden nhw'n ei gael yno. Nid yw meddygon canolradd yn ymgeisio i fynd yno. Dyna pam mae cymaint o feddygon locwm ac asiantaeth yno. Nid wyf yn credu ei bod yn mynd i fod yn bosibl i'r adran fod yn y sefyllfa y byddem yn dymuno iddi fod ynddi heb fynd i'r afael â'r materion hynny, ac rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, am yr anawsterau y rhoddwyd sylw iddynt yn adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr ac adroddiad Steel. Mae'n rhaid ailadeiladu'r adran er mwyn iddi fod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Rydym ni'n gweld, wrth gwrs, yr hyn sydd wedi digwydd ym mae Morecambe. Byddem yn awyddus i osgoi unrhyw awgrym o unrhyw beth fel yna'n digwydd yn y dyfodol yng Nghymru, a dyna pam y bu'n rhaid i'r bwrdd iechyd lleol gymryd camau nawr.

Senedd.tv
Fideo Video

13:39 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Fe wnaethoch chi eich cyhoeddiad ynglŷn â'r ganolfan gofal dwys i fabanod—y SuRNICC yma—fis Mai y llynedd. Ers hynny, mae bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi bod yn disgwyl cadarnhad gan y Llywodraeth am y penderfyniad yna. Fe gyrhaeddodd y llythyr gan y Llywodraeth bythefnos yn ôl, naw mis ar ôl i chi wneud y cyhoeddiad, ac, yn ddiddorol iawn, fe gyrhaeddodd jest ychydig ddyddiau ar ôl y cyhoeddiad bod y gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan ddoctoriaid yn cael ei dynnu o Glan Clwyd. Pam mae wedi cymryd naw mis i'r Llywodraeth gadarnhau'r penderfyniad yna, a beth yw'r amserlen yr ydych chi wedi'i gosod i Betsi Cadwaladr ar gyfer sefydlu'r ganolfan?

You made your announcement on the intensive care centre for babies—the SuRNICC—in May of last year. Since then, the Betsi Cadwaladr health board has been awaiting confirmation from the Government on that decision. The letter from the Government arrived just a fortnight ago. That's nine months after you had made your announcement and, very interestingly, it arrived just a few days after the announcement that the consultant-led service was to be withdrawn from Glan Clwyd. Why has it taken nine months for the Government to confirm that decision, and what is the timetable put in place for Betsi Cadwaladr to establish the centre?

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mae'r Aelod yn rhoi'r argraff nad oes dim byd wedi digwydd yn y cyfamser. Fel y dywedais i, bydd y Gweinidog yn ysgrifennu y prynhawn yma at Aelodau i ddangos beth sydd wedi digwydd yn y cyfamser, er mwyn dweud wrth bobl fod pethau wedi digwydd, ac i sicrhau bod y SuRNICC yn cael ei sefydlu yn yr amser y gwnaethom ni ei ddweud y llynedd.

Well, the Member gives the impression that nothing had happened in the meantime. As I said, the Minister will be writing this afternoon to say what has happened in the meantime, to tell people that things have happened and to ensure that the SuRNICC is established within the timetable that we set out last year.

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, yn ystod y cyfarfod efo Aelodau o'r gogledd, fe ddywedodd y bwrdd iechyd nad yw hi'n bosib i gynnal tair uned ar draws y gogledd. Rwy'n derbyn eich cadarnhad chi ynglŷn â'r sefyllfa yng Nglan Clwyd, er rwy'n meddwl bod y cyngor iechyd cymuned wedi gwneud y pwynt ei fod yn disgwyl i'r Gweinidog ddod i mewn i'r sefyllfa. Ond, a ydych chi'n gallu gwarantu i ni y prynhawn yma y bydd tair uned yn y gogledd ar ôl blwyddyn, yn hytrach na gadael i'r bwrdd iechyd, hwyrach, benderfynu ar yr adeg hynny i gau uned naill ai yn Wrecsam neu ym Mangor?

First Minister, during a meeting with Members from north Wales, the health board said that it wasn't possible to maintain three units across north Wales. Now, I accept your confirmation of the situation in Glan Clwyd, although I do think that the community health council has made the point that they expect the Minister to become involved in the situation. But, can you give us a guarantee this afternoon that there will be three units in north Wales in a year's time, rather than allowing the health board to perhaps decide at that point to close a unit either in Wrexham or in Bangor?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, nid felly yw'r bwriad. A gaf i ddweud nad oes dim byd ffurfiol wedi dod o'r cyngor iechyd cymuned yn gofyn i'r Gweinidog ymyrryd? Os bydd hynny'n dod—os bydd y llythyr yn dod—bydd hynny, wrth gwrs, yn cael ei ystyried. Maen nhw wedi hala llythyr, ond nid llythyr ffurfiol yn y ffordd hynny. Os ydynt yn moyn gwneud hynny, mae yna wahoddiad iddyn nhw wneud hynny, wrth gwrs. Fel rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, pan fydd y SuRNICC ei hunan yn cael ei sefydlu, bydd yna newidiadau yn yr adrannau eraill. Mae hynnny'n mynd i ddigwydd; mae pawb yn erfyn i hynny ddigwydd. Felly, bydd yna beth newidiadau ta beth yn yr adrannau eraill, wrth gofio beth fydd y SuRNICC yn ei wneud yn y dyfodol. Ond, beth sy'n bwysig yw bod gyda ni adran fel y SuRNICC yng Nglan Clwyd er mwyn sicrhau, fel roedd Aelodau'n moyn gweld, fod mwy o fabis yn cael eu geni yng Nghymru, ac nid, wrth gwrs, yn Arrowe Park.

Well, that's not the intention. May I say that nothing formal has come from the community health council requesting that the Minister should intervene? If that does come, if that letter arrives, then that will, of course, be considered. They have sent a letter, but not a formal letter in that regard. If they want to do that, then they are very free to do so. As I've said before, when the SuRNICC itself is established, there will be changes in the other departments. That's going to happen; everyone is expecting that to happen. So, there will be some changes regardless in other department, bearing in mind what the SuRNICC will be doing in future. But, what's important is that we have a department, such as the SuRNICC, in Glan Clwyd to ensure, in line with calls made by Members, that more babies are born in Wales rather than in Arrowe Park.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr. Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, is the smart way to access North America through Cardiff Airport?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, ai trwy Faes Awyr Caerdydd yw'r ffordd ddoeth o gael mynediad at Ogledd America?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It depends how much time you have.

Mae'n dibynnu faint o amser sydd gennych chi.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry that you gave such a short answer, because a major advertising campaign at the moment says that the smart way to access North America, as we can see in the adverts this morning, is through Cardiff Airport and Aer Lingus. You have invested £80 million as a Government in that airport. Surely, if you're going on a trade mission to one of our most important markets, you should be advertising the connectivity that we do have and do enjoy via the Aer Lingus route to North America. Why on earth didn't you make use of that so that you could promote the airport and support the airport management in developing this route?

Mae'n ddrwg gen i eich bod wedi rhoi ateb mor fyr, gan fod ymgyrch hysbysebu fawr ar hyn o bryd yn dweud mai'r ffordd ddoeth i gael mynediad at Ogledd America, fel y gwelwn yn yr hysbysebion y bore yma, yw trwy Faes Awyr Caerdydd ac Aer Lingus. Rydych chi wedi buddsoddi £80 miliwn fel Llywodraeth yn y maes awyr hwnnw. Does bosib, os ydych chi'n mynd ar daith fasnach i un o'n marchnadoedd pwysicaf, y dylech chi fod yn hysbysebu'r cysylltedd sydd gennym ni ac yr ydym yn ei fwynhau trwy lwybr Aer Lingus i Ogledd America. Pam ar y ddaear na wnaethoch chi wneud defnydd o hynny fel y gallech chi hyrwyddo'r maes awyr a chefnogi rheolwyr y maes awyr i ddatblygu'r llwybr hwn?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it would have meant me leaving a day before and staying a day after. That was part of the issue. We always look not just at the Aer Lingus link but also at the KLM link via Schiphol to see whether that's feasible, but the reality is that the timescale was so squeezed that it wasn't possible to do it. For example, when I arrived in Washington on Wednesday afternoon at 3.00 p.m., I was then hosting an event at 5.30 p.m. on Capitol Hill. So, the timescale was very very squeezed, but where it is possible and feasible to do it, of course, Cardiff Airport would be the first choice.

Wel, byddai wedi golygu fy mod yn gadael diwrnod yn gynharach ac yn aros diwrnod arall. Roedd hynny'n rhan o'r broblem. Rydym ni bob amser yn ystyried nid yn unig y cysylltiad Aer Lingus ond hefyd y cysylltiad KLM trwy Schiphol i weld a yw hynny'n ymarferol, ond y gwir amdani yw bod yr amserlen mor dynn fel nad oedd yn bosibl gwneud hynny. Er enghraifft, pan gyrhaeddais yn Washington brynhawn ddydd Mercher am 3.00 p.m., roeddwn i'n cynnal digwyddiad wedyn am 5.30 p.m. ar Capitol Hill. Felly, roedd yr amserlen yn dynn iawn, iawn, ond pan ei bod yn bosibl ac yn ymarferol i wneud hynny, wrth gwrs, Maes Awyr Caerdydd fyddai'r dewis cyntaf.

13:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that answer's really disappointing, First Minister, because it was a trade mission, you were promoting St David's Day and one of the key requirements of business, as you and your Ministers point out, is connectivity and the ability to get from A to B in as quick a fashion as possible. You're in fact saying that what Cardiff Airport are doing just isn't good enough if you're on business or have a tight timescale. Will you commit today to backing up the investment, which, in fairness, you've made in the airport, of £80 million and make sure that as many trips as possible on business that you undertake will go from Cardiff Airport, because there is great connectivity via KLM to Schiphol—Schiphol been one of the major gateways in Europe—or via the Aer Lingus option, for which, only 10 days ago, the airport along with Aer Lingus had a major promotional event here in Cardiff, promoting it as a means for business and leisure? Yet, you undermined that campaign with your visit to North America just last weekend.

Rwy'n meddwl bod yr ateb yna'n hynod siomedig, Brif Weinidog, gan mai taith fasnach oedd hon, roeddech chi'n hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi ac un o ofynion allweddol busnes, fel yr ydych chi a'ch Gweinidogion yn ei nodi, yw cysylltedd a'r gallu i fynd o A i B mor gyflym â phosibl. Rydych chi'n dweud mewn gwirionedd nad yw'r hyn y mae Maes Awyr Caerdydd yn ei wneud yn ddigon da os ydych chi ar fusnes neu os oes gennych chi amserlen dynn. A wnewch chi ymrwymo heddiw i gefnogi'r buddsoddiad o £80 miliwn, yr ydych chi, a bod yn deg, wedi ei wneud yn y maes awyr, a gwneud yn siŵr bod cynifer â phosibl o'r teithiau yr ydych chi'n mynd arnynt ar fusnes yn mynd o Faes Awyr Caerdydd, gan fod cysylltedd gwych trwy KLM i Schiphol—a Schiphol yw un o'r prif byrth yn Ewrop—neu drwy'r dewis Aer Lingus, y cynhaliodd y maes awyr, ynghyd ag Aer Lingus, ddigwyddiad hyrwyddo mawr ar ei gyfer yma yng Nghaerdydd ddim ond 10 diwrnod yn ôl, gan ei hyrwyddo ar gyfer busnes a hamdden? Eto i gyd, tanseiliwyd yr ymgyrch honno gennych chi gyda'ch ymweliad â Gogledd America dim ond y penwythnos diwethaf.

13:44

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It was not possible to get to North America in the time allowed and back again without spending more time there at taxpayers' expense. That was the reality of it. I will always try and use Cardiff. I will be using Cardiff in a fortnight's time when I travel once again. I always use Cardiff when it's possible to do that, but, given the fact that it was such a tight squeeze in terms of the timescale that I had in North America, it wasn't possible to consider that option at that stage, but it's always the first choice and I would encourage more people to use our airport. He's very generous—he says we've invested £80 million in the airport; I don't think it's quite as much as that, but nevertheless, I'm glad that he acknowledges the fact that the airport has received significant investment, and he acknowledges the fact that the airport has attracted more business. It is all the more ironic given the fact that his party would happily have seen the airport close.

Nid oedd yn bosibl mynd i Ogledd America yn yr amser a oedd ar gael ac yn ôl eto heb dreulio mwy o amser yno ar draul y trethdalwyr. Dyna oedd y gwir amdani. Byddaf bob amser yn ceisio defnyddio Caerdydd. Byddaf yn defnyddio Caerdydd ymhen pythefnos pan fyddaf yn teithio unwaith eto. Rwyf bob amser yn defnyddio Caerdydd pan fo'n bosibl gwneud hynny, ond, o ystyried y ffaith ei bod yn dynn o ran yr amser yr oedd gen i yng Ngogledd America, nid oedd yn bosibl ystyried y dewis hwnnw y tro hwnnw, ond dyna'r dewis cyntaf bob amser a byddwn yn annog mwy o bobl i ddefnyddio ein maes awyr. Mae'n hael iawn—mae'n dweud ein bod ni wedi buddsoddi £80 miliwn yn y maes awyr; nid wyf yn credu ei fod gymaint â hynny, ond serch hynny, rwy'n falch ei fod yn cydnabod y ffaith bod y maes awyr wedi derbyn buddsoddiad sylweddol, a'i fod yn cydnabod y ffaith bod y maes awyr wedi denu mwy o fusnes. Mae'n fwy eironig fyth o ystyried y ffaith y byddai ei blaid ef wedi bod yn fodlon gweld y maes awyr yn cau.

Senedd.tv
Fideo Video

13:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv
Fideo Video

13:45

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, there can be no greater responsibility for public bodies than the protection of children from abuse and sexual exploitation. In Downing Street today, the Prime Minister is holding a summit on combating the sexual exploitation of children. The proposals made will have implications for Wales, as many of the matters are led by the Home Office on behalf of England and Wales. Are there representatives from the Welsh Government, Welsh public services, and, most importantly of all, advocates on behalf of Welsh victims and survivors at that summit today?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, ni all fod unrhyw gyfrifoldeb pwysicach i gyrff cyhoeddus nag amddiffyn plant rhag camdriniaeth a cham-fanteisio rhywiol. Yn Stryd Downing heddiw, mae'r Prif Weinidog yn cynnal uwchgynhadledd ar fynd i'r afael â cham-fanteisio yn rhywiol ar blant. Bydd y cynigion a wneir yn arwain at oblygiadau i Gymru, gan yr arweinir llawer o'r materion gan y Swyddfa Gartref ar ran Cymru a Lloegr. A oes cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus Cymru, ac, yn bwysicaf oll, eiriolwyr ar ran dioddefwyr a goroeswyr o Gymru yn yr uwchgynhadledd honno heddiw?

Senedd.tv
Fideo Video

13:46

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of Plaid Cymru makes the assumption that these matters are not devolved; it's not quite as clear as that. There are some areas where it appears to us that matters are devolved. There's no difference in terms of the objective of course. When it comes to child protection, we shouldn't automatically assume that because the Home Office is dealing with it, it's not devolved. That's why we are bringing legislative consent motions like the one today in order to ensure that the Assembly's viewpoint is heard. Now, on that basis, we have said, and we will always say, that where something is taken forward on an England-and-Wales basis, there needs to be Welsh representation. We've done that, of course, quite recently, and it's imperative that the Home Office listens to that.

Mae arweinydd Plaid Cymru'n cymryd yn ganiataol nad yw'r materion hyn wedi'u datganoli; nid yw mor eglur â hynny. Ceir rhai meysydd lle mae'n ymddangos i ni fod materion wedi'u datganoli. Nid oes unrhyw wahaniaeth o ran yr amcan wrth gwrs. Pan ddaw i amddiffyn plant, ni ddylem ni dybio'n awtomatig nad yw wedi'i ddatganoli oherwydd bod y Swyddfa Gartref yn ymdrin ag ef. Dyna pam rydym ni'n cyflwyno cynigion cydsyniad deddfwriaethol fel yr un heddiw er mwyn sicrhau bod safbwynt y Cynulliad yn cael ei glywed. Nawr, ar y sail honno, rydym ni wedi dweud, a byddwn ni bob amser yn dweud, pan fo rhywbeth yn cael ei ddatblygu ar sail Cymru a Lloegr, mae angen cynrychiolaeth o Gymru. Rydym ni wedi gwneud hynny, wrth gwrs, yn eithaf diweddar, ac mae'n hanfodol bod y Swyddfa Gartref yn gwrando ar hynny.

Senedd.tv
Fideo Video

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister, and I know that you've called on the Home Office to include Welsh voices in this process, including the inquiry into child sexual exploitation, which is a non-devolved matter, although I accept the points you make on other aspects of this being devolved. Now, among the Prime Minister's proposals today is the creation of a criminal offence of wilful neglect in England and Wales, which could impact on teachers, councillors and social workers. What assessment have you made of the impact of these proposals on Welsh public services, and were you consulted on them?

Diolch i chi, Brif Weinidog, a gwn eich bod wedi galw ar y Swyddfa Gartref i gynnwys lleisiau o Gymru yn y broses hon, gan gynnwys yr ymchwiliad i gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, sy'n fater nad yw wedi'i ddatganoli, er fy mod i'n derbyn y pwyntiau yr ydych chi'n eu gwneud o ran y ffaith fod agweddau eraill ar hyn wedi'u datganoli. Nawr, ymhlith cynigion y Prif Weinidog heddiw, mae gwneud esgeulustod bwriadol yn drosedd yng Nghymru a Lloegr, a gallai hyn effeithio ar athrawon, cynghorwyr a gweithwyr cymdeithasol. Pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o effaith y cynigion hyn ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac a ymgynghorwyd â chi arnynt?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We take the view that this is a devolved matter. The view of the UK Government is that it isn't, which brings us, I suppose, forward to the St David's Day process and what happens beyond that with the reserved powers model. But that is the view that we've taken. That's why we bring forward LCMs in this area, so that the UK Government is able to legislate. We would expect, once they legislate, or during the course of the period of legislation, that there is full consultation not just with Welsh Government, but, where appropriate, with the National Assembly itself, and of course, with those bodies in Wales which might be required to fulfil certain duties as a result of that legislation.

Rydym ni o'r farn bod hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad ydyw, sy'n dod â ni, mae'n debyg, ymlaen at broses Dydd Gŵyl Dewi a beth sy'n digwydd y tu hwnt i hynny gyda'r model pwerau neilltuedig. Ond dyna'r safbwynt yr ydym ni wedi ei gymryd. Dyna pam yr ydym ni'n cyflwyno cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn y maes hwn, fel y gall Llywodraeth y DU ddeddfu. Byddem yn disgwyl, ar ôl iddynt ddeddfu, neu yn ystod y cyfnod o ddeddfu, y bydd ymgynghori llawn, nid yn unig gyda Llywodraeth Cymru, ond, pan fo hynny'n briodol, gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun, ac wrth gwrs, gyda'r cyrff hynny yng Nghymru y gallai fod yn ofynnol iddynt gyflawni dyletswyddau penodol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth honno.

13:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. It's disappointing from my perspective that Welsh voices are not being heard adequately in this process. It's a criminal offence that we're talking about, and criminal justice is not devolved. I understand that the inquiry on child sexual exploitation held a listening meeting in Wales recently and another is due this week. As there is little in the way of a direct Welsh voice in the inquiry itself, are you satisfied that if concerns are raised regarding Welsh public bodies, the Welsh Government will be properly informed, and that you'll be in a position to intervene if you need to? Are you of the view that the process does enough to protect past victims and survivors of abuse in Wales today?

Diolch yn fawr. Mae'n siomedig o'm safbwynt i nad yw lleisiau o Gymru'n cael eu clywed yn ddigonol yn y broses hon. Rydym ni'n sôn am drosedd, ac nid yw cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli. Rwy'n deall bod yr ymchwiliad i gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi cynnal cyfarfod gwrando yng Nghymru yn ddiweddar, ac mae un arall i'w gynnal yr wythnos hon. Gan fod yr elfen o lais uniongyrchol o Gymru yn brin yn yr ymchwiliad ei hun, a ydych chi'n fodlon, os codir pryderon ynghylch cyrff cyhoeddus Cymru, y bydd Llywodraeth Cymru'n cael ei hysbysu'n briodol, ac y byddwch chi mewn sefyllfa i ymyrryd os bydd angen i chi wneud hynny? A ydych chi o'r farn bod y broses yn gwneud digon i amddiffyn dioddefwyr y gorffennol a goroeswyr camdriniaeth yng Nghymru heddiw?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I think it's certainly the case. Well, two things: first of all, it's absolutely imperative that, where legislation is taken forward on an England-and-Wales basis, Wales is fully involved; secondly, do I believe that as much protection is in place as can be? There's always the scope for more, and this is why it's proposed that this offence should be taken forward. I would say one thing, however. Criminal justice is not devolved, but criminal law is potentially devolved. If it's the case that we can't create criminal offences, then amendment 66 today is out of competence, and I don't believe that, necessarily, and I'm sure she doesn't believe that either; otherwise, we wouldn't be voting on it.

Ydw, rwy'n meddwl bod hynny'n sicr yn wir. Wel, dau beth: yn gyntaf oll, mae'n gwbl hanfodol, pan ddatblygir deddfwriaeth ar sail Cymru a Lloegr, bod Cymru'n cymryd rhan lawn; yn ail, a ydw i'n credu bod cymaint o amddiffyniad ar waith ag y gallai fod? Mae lle i fwy bob amser, a dyna pam y cynigir y dylid creu'r drosedd hon. Byddwn yn dweud un peth, fodd bynnag. Nid yw cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli, ond mae cyfraith droseddol wedi'i datganoli o bosibl. Os yw'n wir na allwn ni greu troseddau, yna mae gwelliant 66 heddiw y tu allan i gymhwysedd, ac nid wyf yn credu hynny, o reidrwydd, ac rwy'n siŵr nad yw hi'n credu hynny ychwaith; fel arall, ni fyddem ni'n pleidleisio arno.

I have always taken the view, and indeed, the Supreme Court in the ruling on the Agricultural Sector (Wales) Bill took the view, that, where we can show that something is partially within competence, then we have the ability to legislate. I would argue that, for example, when it comes to child protection, it is within a devolved field and it is open to us to create criminal offences in that devolved field, should we see fit. It's important to make that distinction between the criminal law on the one hand, where the present settlement is silent, and criminal justice on the other, where the settlement says clearly that it's not devolved. There's nothing to stop the Assembly, to my mind, passing criminal law, or creating criminal offences in areas where we can show that that area is at least partially devolved.

Rwyf wedi bod o'r farn erioed, ac yn wir, roedd y Goruchaf Lys yn y dyfarniad ar Fil Sector Amaethyddol (Cymru) o'r farn, bod y gallu i ddeddfu gennym lle gallwn ddangos bod rhywbeth yn rhannol o fewn cymhwysedd. Byddwn yn dadlau, er enghraifft, pan ddaw i amddiffyn plant, ei fod o fewn maes datganoledig ac yn agored i ni greu troseddau yn y maes datganoledig hwnnw, os ystyriwn fod hynny'n briodol. Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth hwnnw rhwng y gyfraith droseddol ar y naill law, lle mae'r setliad presennol yn dawel, a chyfiawnder troseddol ar y llaw arall, lle mae'r setliad yn dweud yn eglur nad yw wedi'i ddatganoli. Nid oes unrhyw beth i atal y Cynulliad, yn fy marn i, rhag pasio cyfraith droseddol, neu greu troseddau mewn meysydd lle gallwn ddangos bod y maes hwnnw wedi'i ddatganoli'n rhannol o leiaf.

13:50

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrats, and this afternoon the questions will be asked by Aled Roberts.

Symudwn nawr at Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, a gofynnir y cwestiynau gan Aled Roberts y prynhawn yma.

13:50

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, yn 2012, fe wnaeth clinigwyr o fewn Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr godi pryderon ynghylch y gwasanaeth offthalmoleg. Roedden nhw'n cyfeirio at nifer o achosion a oedd wedi arwain at niwed diangen i gleifion. Pa bryd y daeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o natur y pryderon hynny?

First Minister, in 2012, clinicians within the Betsi Cadwaladr University Local Health Board raised concerns about the ophthalmology service. They referred to a number of cases that had led to unnecessary harm to patients. When did the Welsh Government become aware of the nature of those concerns?

13:50

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, yn gyntaf i gyd, rydym ni'n erfyn wrth gwrs i bob claf gael ei weld yn unol â'i flaenoriaeth glinigol. Rwy'n gwybod bod y bwrdd iechyd wedi bod yn ceisio rheoli rhai o'r problemau sydd wedi bod gyda nhw dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae yna gynllun gweithredu yn ei le er mwyn delio â hwn. Mae yna beilot, rwy'n deall, y tu fewn i'r bwrdd ei hunan i wella pethau, ac wrth gwrs mae'n bosibl y bydd y peilot yn llwyddiannus ac felly bydd yna gyfle i wella pethau ynglŷn â rhai o'r problemau sydd wedi bod yna dros flwyddyn neu ddwy.

Well, first of all, we expect all patients to be seen in accordance with their own clinical priorities. I know that the health board has been trying to manage some of the problems that have arisen over the past two years, and there is an action plan in place to deal with this issue. There is a pilot, I understand, within the board itself to improve matters, and of course it is possible that the pilot will be successful and so there will be an opportunity to improve things in relation to some of the problems that have arisen there over the past year or two.

13:51

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Betsi Cadwaladr university health board, from an ombudsman's report going back to May last year, is putting the sight of thousands of patients at risk because of a failure to ensure that people are seen in a timely manner. I accept that there's a pilot scheme, but the pilot scheme covers 300 patients, and figures suggest that there are currently 7,000 patients waiting more than 50% beyond the clinically safe waiting time in ophthalmology. There are 33,000 patients waiting more than 50% beyond the waiting times in services overall. What is your Government doing to ensure that, across Wales, people have access to timely follow-up appointments to ensure that their sight is protected, certainly in ophthalmology?

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ôl adroddiad ombwdsmon yn mynd yn ôl i fis Mai y llynedd, yn rhoi golwg miloedd o gleifion mewn perygl oherwydd methiant i sicrhau bod pobl yn cael eu gweld yn brydlon. Rwy'n derbyn bod cynllun arbrofol, ond mae'r cynllun hwnnw yn cynnwys 300 o gleifion, ac mae'r ffigurau'n awgrymu bod 7,000 o gleifion yn aros mwy na 50% y tu hwnt i'r amser aros diogel yn glinigol mewn offthalmoleg ar hyn o bryd. Mae 33,000 o gleifion yn aros mwy na 50% y tu hwnt i'r amseroedd aros mewn gwasanaethau'n gyffredinol. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod apwyntiadau dilynol prydlon ar gael i bobl, ledled Cymru, i sicrhau bod eu golwg yn cael ei ddiogelu, yn sicr ym maes offthalmoleg?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, there is an action plan in place to reduce the number of patients waiting over their target time. You would expect, of course, patients to be seen in order of clinical priority and, indeed, within the waiting-time targets. More generally across Wales, ophthalmology is one of the first priorities of the NHS Wales national planned care board, and we did bring together in January all the ophthalmologists in Wales to share best practice and to launch a specific, clinically led improvement plan for ophthalmology.

Wel, mae cynllun gweithredu ar waith i leihau nifer y cleifion sy'n aros yn hwy na'u hamser targed. Byddech yn disgwyl, wrth gwrs, i gleifion gael eu gweld yn nhrefn blaenoriaeth glinigol ac, yn wir, yn unol â'r targedau amser aros. Yn fwy cyffredinol ledled Cymru, offthalmoleg yw un o brif flaenoriaethau'r bwrdd gofal wedi'i gynllunio cenedlaethol GIG Cymru, a daethom â'r holl offthalmolegwyr yng Nghymru at ei gilydd ym mis Ionawr i rannu arfer gorau ac i lansio cynllun gwella penodol dan arweiniad clinigol ar gyfer offthalmoleg.

13:52 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

When the RNIB reported last year that this was a growing problem, Government Ministers dismissed the report because of methodology problems, but I think the disclosures today as far as Betsi Cadwaladr is concerned make it very clear that the RNIB were spot on. Let us be clear: the reports today in north Wales confirm that, in some cases, people have gone blind unnecessarily, and cancers have remained untreated, not because they cannot be treated, but because the NHS in Wales currently presides over a system that makes them wait too long. When will you be able, as a Government, to give us cast-iron guarantees that no Welsh patient will actually go blind merely because of waiting times?

Pan adroddodd yr RNIB y llynedd bod hon yn broblem gynyddol, diystyrwyd yr adroddiad gan Weinidogion y Llywodraeth oherwydd problemau methodoleg, ond rwy'n credu bod y datgeliadau heddiw cyn belled ag y mae Betsi Cadwaladr yn y cwestiwn yn ei gwneud yn eglur iawn bod yr RNIB yn llygad ei le. Gadewch i ni fod yn eglur: mae'r adroddiadau heddiw yn y gogledd yn cadarnhau, mewn rhai achosion, bod pobl wedi mynd yn ddall yn ddiangen, a bod canserau wedi aros heb eu trin, nid oherwydd na ellir eu trin, ond oherwydd bod y GIG yng Nghymru yn gyfrifol am system sy'n gwneud iddyn nhw aros yn rhy hir ar hyn o bryd. Pryd byddwch chi, fel Llywodraeth, yn gallu rhoi sicrwydd cwbl bendant i ni na fydd unrhyw glaf yng Nghymru yn mynd yn ddall dim ond oherwydd amseroedd aros?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, that would be unacceptable. There is no reason in trying to defend the situation if that is the case. I can say that the chief medical officer did visit with the RNIB recently to meet patients and to listen to their concerns, and we do expect that the ophthalmic planned care plan should deliver the sustainable ophthalmic services in the future that people would expect.

Wel, byddai hynny'n annerbyniol. Nid oes unrhyw reswm ceisio amddiffyn y sefyllfa os yw hynny'n wir. Gallaf ddweud bod y prif swyddog meddygol wedi ymweld â'r RNIB yn ddiweddar i gyfarfod â chleifion ac i wrando ar eu pryderon, ac rydym ni'n disgwyl y dylai'r cynllun gofal offthalmig wedi'i gynllunio, ddarparu'r gwasanaethau offthalmig cynaliadwy y byddai pobl yn ei ddisgwyl, yn y dyfodol.

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move back to questions on the paper. Question 3 is from David Rees.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr. Daw cwestiwn 3 gan David Rees.

### Twf Economaidd

### Economic Growth

13:53 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau ar gyfer twf economaidd yn rhanbarth Gorllewin De Cymru am weddill tymor y Cynulliad? OAQ(4)2151(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on plans for economic growth in the South Wales West region for the remainder of the Assembly term? OAQ(4)2151(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, our plans for economic growth and sustainable jobs are set out in the programme for government.

Gwnaf, mae ein cynlluniau ar gyfer twf economaidd a swyddi cynaliadwy wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

13:53 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, First Minister. As you're aware, transportation is a critical element of economic growth. From what I understand, one of the reasons for doing the trialled part-time closure of junction 41 was because of the pinch-point in the flow of traffic going westwards of there, but the consequence of that is heavy congestion on the roads. Local residents have actually had difficulty in getting to work, and some have actually been threatened with dismissal as a consequence of the delays they've experienced by unsympathetic employers, and the economic retail aspect of Port Talbot town has taken a hit. I accept that you've indicated that the trial will continue until the end of March and the data will be collected after that point, but, after that point, will you look at the opportunity to actually suspend the trial to see if the economic growth of the town can get back to the situation it was in before?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch, mae trafnidiaeth yn elfen hanfodol o dwf economaidd. O'r hyn rwy'n ei ddeall, un o'r rhesymau dros gynnal y prawf o gau cyffordd 41 yn rhan-amser oedd y man cyfyng yn llif y traffig yn teithio tua'r gorllewin o'r fan honno, ond canlyniad hynny yw tagfeydd trwm ar y ffyrdd. Mae trigolion lleol wedi cael trafferth i gyrraedd eu gwaith, ac, yn wir mae rhai wedi eu bygwth gyda diswyddiad gan gyflogwyr digydymdeimlad o ganlyniad i'r oedi maen nhw wedi ei ddioddef, ac mae tref Port Talbot wedi dioddef o ran yr elfen manwerthu economaidd. Rwy'n derbyn eich bod wedi dynodi y bydd y prawf yn parhau tan ddiwedd fis Mawrth ac y bydd y data'n cael ei gasglu ar ôl yr adeg honno, ond, ar ôl yr adeg honno, a wnewch chi edrych ar y cyfle i ohirio'r prawf i weld a all twf economaidd y dref ddychwelyd i'r sefyllfa yr oedd ynddi gynt?

13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I can say to the Member that the current trial period, as he said, runs until the end of this month. A decision will be taken before the end of the trial on whether to continue the temporary closures, based on the evidence to date. A decision will then be taken in May, following analysis of the full trial data, including discussion obviously with Neath Port Talbot County Borough Council as well as to whether to proceed with public consultation—and it is 'whether'—for a full permanent closure order. So, the next stage is to take the decision on whether the closure should remain or not while the evidence is being assessed.

Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod y cyfnod prawf cyfredol, fel y dywedodd, yn para tan ddiwedd y mis hwn. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn diwedd y prawf o ran a ddylid parhau â'r cau dros dro, yn seiliedig ar y dystiolaeth hyd hynny. Yna bydd penderfyniad yn cael ei wneud ym mis Mai, yn dilyn dadansoddiad o ddata llawn y prawf, gan gynnwys trafodaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn amlwg, yn ogystal â pha un a ddylid bwrw ymlaen ag ymgynghoriad cyhoeddus—ac rwy'n golygu 'pa un a ddylid'—ar gyfer gorchymyn cau parhaol llawn. Felly, y cam nesaf yw gwneud y penderfyniad a ddylai'r cau barhau ai peidio tra bod y dystiolaeth yn cael ei hasesu.

13:55 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I'm sure that you agree with me that the quicker we establish clear governance and budgetary arrangements for the city regions, the faster we can support economic growth, just as we are seeing across the UK in other city regions. With that in mind, can you outline a timescale when we will see the governance and budgetary arrangements for the city regions and a clear line on their objectives?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â mi mai cynta'n byd y byddwn ni'n gwneud trefniadau llywodraethu a chyllidebol eglur ar gyfer y dinas-ranbarthau, cynta'n byd y gallwn ni gefnogi twf economaidd, yn union fel yr ydym ni'n ei weld ar draws y DU mewn dinas-ranbarthau eraill. Gyda hynny mewn golwg, a allwch chi amlinellu amserlen o ran pryd y byddwn ni'n gweld y trefniadau llywodraethu a chyllidebol ar gyfer y dinas-ranbarthau yn ogystal â safbwynt eglur ar eu hamcanion?

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'd argue that's happening now. Sir Terry Matthews in the Swansea city region is being very dynamic and constructive in developing a vision that is bold and deliverable for the benefit of the city, and indeed for Wales as a whole. I do very much welcome the progress made by the board, and the vision they have set out for Swansea.

Byddwn yn dadlau bod hynny'n digwydd nawr. Mae Syr Terry Matthews yn ninas-ranbarth Abertawe yn bod yn ddeinamig ac yn adeiladol iawn wrth ddatblygu gweledigaeth sy'n feiddgar ac yn gyraeddadwy er budd y ddinas, ac yn wir er budd Cymru gyfan. Rwy'n croesawu'n fawr iawn y cynnydd a wnaed gan y bwrdd, a'r weledigaeth y mae wedi ei chyflwyno ar gyfer Abertawe.

13:55 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, yn amlwg, mae yna lot o ddicter ym Mhort Talbot ynglŷn â chau 'junction' 41. Hefyd, tybed a fyddech chi'n gallu dweud wrthym ni beth sydd yn digwydd gyda marchnata y tir llwyd o gwmpas yr ardal lle mae'r PDR—y 'peripheral distributor road'—sydd nawr yn Harbour Way, achos rwy'n credu bod lot o bobl yn meddwl nad yw'r ffordd hynny yn arwain at fawr o ddatblygiad. Rwy'n credu y byddai pobl leol yn gallu deall mwy am beth sydd yn digwydd gan eich Llywodraeth chi yng nghyd-destun 'junction' 41 petasen nhw'n gwybod beth yn gymwys sydd ar y gweill gyda datblygu busnesau ar hyd y ffordd yna.

First Minister, clearly, there's a great deal of anger in Port Talbot about the closure of junction 41. Also, I wonder whether you can tell us what is happening with the marketing of the brownfield sites around the area where the peripheral distributor road is, which is now Harbour Way, because I think that many people think that isn't leading to a great deal of development. I think the local people would be better able to understand what your Government is trying to do in the context of junction 41 if they knew exactly what's in the pipeline with the development of businesses along that road.

13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r heol ei hunan yn rhywbeth sydd wedi bod o les mawr i'r dref drwy roi ffordd osgoi i'r dref i'r de, a hefyd drwy agor lan llawer iawn o dir. Rydym ni'n gweld datblygiadau yn cymryd lle ar hyn o bryd, ac rydym ni'n erfyn, wrth weithio gyda rhai o berchnogion y tir, fel yr ABP ac yn y blaen, weld datblygiad yn cynyddu yn y pen draw.

The road itself is something that has been of great benefit to the town, by providing a bypass to the south of the town, and also by opening up large areas of land. We see developments taking place at the moment, and we hope, by working with some of the landowners, such as ABP and so on, that we'll see development increasing in the long run.

## Rhwymedigaethau Hawliau Dynol Rhyngwladol

## International Human Rights Obligations

13:56 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*4. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol? OAQ(4)2139(FM)*

*4. How is the Welsh Government meeting its international human rights obligations? OAQ(4)2139(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We're fully committed to meeting those obligations, and we work closely with bodies such as the Equality and Human Rights Commission, and account for our progress through formal reporting channels.

Rydym ni wedi ymrwymo'n llwyr i fodloni'r rhwymedigaethau hynny, ac rydym ni'n gweithio'n agos gyda chyrff fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac yn hysbysu am ein cynnydd trwy sianelau adrodd ffurfiol.

13:57 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm very pleased to hear that you're committed to meeting those obligations, because as you'll know, the UN Committee on the Rights of the Child has been unequivocal in saying that physical punishment of children must be prohibited for countries to meet those human rights obligations. So, First Minister, when will Wales stop being in breach?

Rwy'n falch iawn o glywed eich bod wedi ymrwymo i fodloni'r rhwymedigaethau hynny, oherwydd fel y gwyddoch, mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi bod yn ddiamwys wrth ddweud bod yn rhaid gwahardd cosbi plant yn gorfforol er mwyn i wledydd fodloni'r rhwymedigaethau hawliau dynol hynny. Felly, Brif Weinidog, pryd fydd Cymru'n rhoi'r gorau i beidio â chydymffurfio?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I don't accept that Wales is in breach, but the point she tries to make, of course, is in relation to the vote later on this afternoon. She and I are not necessarily in different positions over the principle here, but in different positions in terms of the potential implementation. I think it's important, first of all, for parties to declare in their manifestos what they plan to do with regard to the defence of reasonable chastisement, and secondly to have a full consultation with the public on this as to how that would work. I think that is a more sensible way forward. It can be done in a short space of time—there's no question about that—to take forward a principle that I know many Members are keen to move forward with.

Nid wyf yn derbyn nad yw Cymru'n cydymffurfio, ond mae'r pwynt y mae hi'n ceisio ei wneud, wrth gwrs, yn ymwneud â'r bleidlais yn ddiweddarach y prynhawn yma. Nid oes ganddi hi a minnau wahanol safbwyntiau ar yr egwyddor hon o reidrwydd, ond mae gennym wahanol safbwyntiau o ran y gweithredu posibl. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, yn gyntaf oll, i bleidiau ddatgan yn eu maniffestos yr hyn y maen nhw'n bwriadu ei wneud o ran amddiffyn cosbi rhesymol, ac yn ail i gael ymgynghoriad llawn gyda'r cyhoedd ar hyn o ran sut y byddai hynny'n gweithio. Rwy'n credu bod honno'n ffordd fwy synhwyrol ymlaen. Gellir ei wneud mewn cyfnod byr o amser—nid oes amheuaeth am hynny—sef bwrw ymlaen ag egwyddor yr wyf yn gwybod bod llawer o Aelodau'n awyddus i fwrw ymlaen â hi.

Senedd.tv
Fideo Video

13:58 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

First Minister, will you agree with me that the inclusive policy-making model developed by the Welsh Government requires that all policy and legislation is developed so that it meets the identified needs of individuals and communities, placing a citizen focus based on the principles of human rights—fairness, respect, equality and dignity—at the centre of all our policy actions? Will you also agree with me that the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 has an approach to social services that has, at its core, all of these factors?

Brif Weinidog, a wnewch chi gytuno â mi bod y model llunio polisïau cynhwysol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod pob polisi a deddfwriaeth yn cael ei ddatblygu fel ei fod yn diwallu anghenion a nodwyd unigolion a chymunedau, gan sicrhau bod canolbwyntio ar y dinesydd yn seiliedig ar egwyddorion hawliau dynol—tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas—yn ganolog i'n holl gamau gweithredu polisi? A wnewch chi gytuno â mi hefyd bod gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ymagwedd at wasanaethau cymdeithasol sy'n cynnwys, yn ei hanfod, yr holl ffactorau hyn?

Senedd.tv
Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Indeed, I would agree with the Member on both counts, and I'm grateful to her for the work that she put in in taking the Bill through when it became an Act. Inclusive policy making is fundamental to successful policy making. It's at the heart of the Act, as the Member has said, and it's underpinned the development of the regulations that build upon the framework of the Act. That is what we'll continue to do as that process develops.

Yn wir, byddwn yn cytuno â'r Aelod ar y ddau gyfrif, ac rwy'n ddiolchgar iddi am y gwaith y mae hi wedi ei wneud o ran symud y Mesur yn ei flaen pan ddaeth yn Ddeddf. Mae llunio polisïau mewn modd cynhwysol yn hanfodol i lunio polisïau yn llwyddiannus. Mae wrth wraidd y Ddeddf, fel y mae'r Aelod wedi ei ddweud, ac mae wedi bod yn sail i ddatblygiad y rheoliadau sy'n adeiladu ar fframwaith y Ddeddf. Dyna'r hyn y byddwn yn parhau i'w wneud wrth i'r broses honno ddatblygu.

Senedd.tv
Fideo Video

13:59 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

First Minister, in November last year, the Wales UNCRC monitoring group published a briefing to mark the twenty-fifth anniversary of the United Nations Convention on the Rights of the Child. They expressed concern that there was insufficient focus on children's human rights in governmental policy and legislation, and a lack of transparency and accountability in public expenditure for children and young people. What action will the Welsh Government take to ensure Wales meets its international human rights obligations with regard to the children?

Brif Weinidog, ym mis Tachwedd y llynedd, cyhoeddodd grŵp monitro CCUHP Cymru friff i nodi pumed pen-blwydd ar hugain Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mynegwyd pryder ganddynt nad oedd digon o bwyslais ar hawliau dynol plant mewn polisi a deddfwriaeth llywodraethau, a diffyg tryloywder ac atebolrwydd o ran gwariant cyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifanc. Pa gamau wnaiff Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod Cymru'n bodloni ei rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol o ran y plant?

Senedd.tv
Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We've done that through the Measure, but let's remember that we were the first nation to have a children's commissioner, and that is evidence of the commitment given not just by those who were in Government at the time, but all parties in this Chamber, to the importance of developing the right kind of opportunities and protection for children. I think that is something that we can take great pleasure from. That's not enough, of itself, of course. In the future, we'll build on the Measure, and, of course, we look to ensure that what is now being planned at Westminster, in terms of the criminal law, is something that would fit appropriately with what has been done here in terms of the establishment of the children's commissioner and the Measure in the past.

Rydym ni wedi gwneud hynny drwy'r Mesur, ond gadewch i ni gofio mai ni oedd y wlad gyntaf i gael comisiynydd plant, ac mae hynny'n dystiolaeth o'r ymrwymiad a roddwyd, nid yn unig gan y rhai a oedd yn y Llywodraeth ar y pryd, ond gan bob plaid yn y Siambr hon, i bwysigrwydd datblygu'r math cywir o gyfleoedd ac amddiffyniad i blant. Rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth y gallwn ni fod yn falch iawn ohono. Nid yw hynny'n ddigon, ynddo'i hun, wrth gwrs. Yn y dyfodol, byddwn yn adeiladu ar y Mesur, ac, wrth gwrs, rydym yn ceisio sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gynllunio nawr yn San Steffan, o ran y gyfraith droseddol, yn rhywbeth a fyddai'n cyd-fynd yn briodol â'r hyn a wnaed yma o ran sefydlu'r comisiynydd plant a'r Mesur yn y gorffennol.

## Adroddiad yr Athro Graham Donaldson

## Professor Graham Donaldson's Report

14:00 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gamau y bydd y Prif Weinidog yn eu cymryd i weithredu argymhellion adroddiad yr Athro Graham Donaldson? OAQ(4)2144(FM)*

*5. What steps will the First Minister take to implement the recommendations of Professor Graham Donaldson's report? OAQ(4)2144(FM)*

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r Athro Donaldson wedi llunio gweledigaeth gyffrous ar gyfer dyfodol dysgu yng Nghymru. Wrth gwrs, mae wedi cysylltu â'r rheini sy'n gweithio yn y proffesiwn a rhieni ac eraill sydd â sylwadau. Bydd y manylion ynglŷn â'r rheini'n cael eu cyhoeddi yfory, a bydd manylion pellach am y cynlluniau gweithredu yn dilyn yn yr haf.

Professor Donaldson has set out an exciting vision for the future of learning in Wales. Of course, he has contacted those who work in the profession and parents and others to seek their views. The details of those will be announced tomorrow, and further details on the plans for implementation will follow in the summer.

14:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog. Rwy'n cytuno gyda chi bod hwn yn adroddiad cyffrous ac yn adroddiad trylwyr iawn sydd wedi cael croeso, yn gyffredinol, gan y proffesiwn, gan rieni a gan bawb sy'n ymddiddori yn y maes addysg yng Nghymru.

Un o'r pethau sydd wedi digwydd, serch hynny, ers hynny, yw bod nifer o bobl wedi bod yn pwyso am ychwanegu mwy i mewn i'r cwricwlwm, ac yn ofni bod rhywbeth heb gael ei grybwyll, efallai, yn adroddiad yr Athro Donaldson. Ond, i fi, mantais yr adroddiad fel y mae, a'r argymhellion fel y maent, yw ei fod yn gadael lle i hyblygrwydd a dyfeisgarwch ac arweiniad gan athrawon a chan bobl broffesiynol yn y maes yma, a'i fod yn braf iawn gweld rhywbeth fel hynny'n cael ei sefydlu yng Nghymru heb law drwm unrhyw Lywodraeth ar y broses. Felly, a fyddech chi'n aros yn gadarn wrth yr egwyddorion hynny i ymddiried yn y proffesiwn, gyda'r gefnogaeth a hyfforddiant iawn, i arwain ein pobl ifanc, bellach, yn wir, drwy'r camau cyffrous hyn, fel eu bod yn gallu wir arwain y byd yn addysgiadol hefyd?

Thank you, First Minister. I agree with you that this is an exciting report and an extremely thorough report that has been given a general welcome from the profession, from parents and from everyone who's interested in education in Wales.

One of the things that has happened, however, in the meantime, is that many people have been pressing for the addition of more elements to the curriculum, and fear that some things may have been missed, perhaps, in Professor Donaldson'r report. But, for me, the advantage of the report and its recommendations is that it leaves scope for some flexibility and innovation and leadership from teachers and professionals in the area, and it's very positive to see something like that established in Wales without the heavy hand of any Government weighing down on the process. So, will you remain firmly to those principles to trust in the profession, with the support and training necessary, to lead our young people through these exciting new steps so that they can be world leaders in education too?

14:02

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wrth gwrs, mae yna gydbwysedd fan hyn, onid oes? Yn gyntaf, wrth gwrs, mae'n bwysig bod yna fframwaith o du fewn y mae athrawon yn gallu dysgu, a hefyd fframwaith ynglŷn â pha bynciau sydd ar gael, ac, ar yr un pryd, i adael i athrawon i ddefnyddio'u sgiliau proffesiynol er mwyn dysgu. Rydym ni'n deall hynny. Un o'r problemau yw, wrth gwrs, mae cymaint o sylwadau ynglŷn â beth ddylai fod yn y cwricwlwm nid oes lle yn y cwricwlwm i bopeth. Felly, bydd rhan o'r ymgynghori a fydd yn cymryd lle dros yr haf yn ystyried beth ddylai fod yn y cwricwlwm a beth, efallai, na allai fod yn y cwricwlwm ar hyn o bryd. Ond mae hwn yn amser cyffrous iawn, mae'n rhaid imi ddweud. Mae'n rhywbeth hollol newydd i Gymru. Mae yna gyfle mawr i ni fan hyn i sicrhau bod gennym gwricwlwm yn y dyfodol sydd yn gryf iawn i'n pobl ifanc ni.

Of course, there's a balance to be struck here, isn't there? First, of course, it's important that there is a framework within which teachers can teach, and also a framework for what subjects are available, and, at the same time, to let teachers use their professional skills in order to teach. We understand that. One of the problems, of course, is that there are so many comments about what should be in the curriculum there's no room in the curriculum for everything. So, part of the consultation that will take place over the summer will consider what should be in the curriculum and what perhaps can't be included in the curriculum at present. But this is a very exciting time, I have to say. It's something entirely new for Wales. There is an opportunity here for us to ensure that we have a curriculum in future that is very robust for our young people.

14:02

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, in terms of that balance that you mention and frameworks, I wonder if you would agree with me that we must encourage our young people to develop their physical abilities and a love of physical activity and sport for confidence, achievement, quality of life and good health. And would you further agree that that can be effectively achieved through a physical literacy framework that would put physical activity at the core of our curriculum?

Brif Weinidog, o ran y cydbwysedd hwnnw yr ydych chi'n ei grybwyll a'r fframweithiau, tybed a fyddech chi'n cytuno â mi bod yn rhaid i ni annog ein pobl ifanc i ddatblygu eu galluoedd corfforol a chariad at ymarfer corff a chwaraeon ar gyfer hyder, cyflawniad, ansawdd bywyd ac iechyd da. Ac a fyddech chi hefyd yn cytuno y gellir cyflawni hynny'n effeithiol drwy fframwaith llythrennedd corfforol a fyddai'n rhoi ymarfer corff wrth wraidd ein cwricwlwm?

14:03

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We know the importance of physical activity. He and I share a love of sport; he has been more successful of late than myself, as my shape will show, in terms of being able to carry that through. But, yes, it is important that we develop the whole character of an individual; that much is true. The question, then, is: how do we fit in physical activity to the curriculum and try and get that balance right?

Rydym ni'n gwybod pa mor bwysig yw ymarfer corff. Mae ef a minnau'n rhannu cariad at chwaraeon; mae ef wedi bod yn fwy llwyddiannus na mi yn ddiweddar, fel y bydd fy siâp yn dangos, o ran gallu cymryd rhan. Ond, ydy, mae'n bwysig ein bod yn datblygu cymeriad cyfan unigolyn; mae cymaint â hynny'n wir. Y cwestiwn, felly, yw: sut yr ydym ni'n mynd i gynnwys ymarfer corff yn y cwricwlwm a cheisio cael y cydbwysedd hwnnw'n iawn?

14:03

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yn ei ddatganiad yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog addysg fe fydd yn cynnal sgwrs fawr gyda'r cyhoedd ynglŷn ag argymhellion Donaldson a fydd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau ar draws Cymru a fydd yn ceisio holi barn y proffesiwn addysg, busnesau, rhieni, plant a phobl ifanc. A allwch chi ddweud wrthym ba fath o ddigwyddiadau mae'r Gweinidog yn sôn amdanynt? Yn dilyn cwestiwn Simon Thomas, a allwch chi hefyd sicrhau y bydd y digwyddiadau hyn yn ystyrlon ac yn ystyried barn pawb?

In his statement of last week, the education Minister said that he would hold a conversation with the public on the Donaldson recommendations that will include a series of events across Wales where he would seek the views of the education profession, businesses, parents, children and young people. Can you tell us what kind of events the Minister is considering here? Following on from Simon Thomas's questions, can you also give us an assurance that these events will be meaningful and will take everyone's views into account?

14:04

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, fel y dywedais yn gynharach, bydd y manylion ynglŷn â'r gweithgareddau a fydd yn cymryd lle yn cael eu datgan yfory. Wrth gwrs, bydd Aelodau wedyn yn gallu gweld beth yw'r cynlluniau ynglŷn â'r dyfodol.

Well, as I said earlier, the details about the activities that will take place will be revealed tomorrow and Members can then see what the plans are for the future.

14:04 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as a parent, school governor, and, indeed, qualified teacher, I was pleased to see that my former union, the Association of Teachers and Lecturers, welcomed strongly the recommendations and the breadth and depth of Professor Donaldson's report. I concur, particularly, with the renewed emphasis that there is upon the individual focused learning experience that must be at the very heart of teaching in our schools. One concern, however, that has been expressed in some quarters is how that greater breadth of the curriculum is to be delivered in some parts of rural Wales, where the size of schools makes it more challenging to have that full breadth of the curriculum. What reassurance can you offer that the needs of a broad curriculum will also be delivered for pupils across rural Wales?

Brif Weinidog, fel rhiant, llywodraethwr ysgol, ac, yn wir, athro cymwysedig, roeddwn i'n falch o weld fy nghyn-undeb, Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, yn croesawu'n gryf argymhellion ac ehangder a dyfnder adroddiad yr Athro Donaldson. Rwy'n cytuno, yn arbennig, gyda'r pwyslais o'r newydd ar y profiad dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y mae'n rhaid iddo fod wrth wraidd addysgu yn ein hysgolion. Un pryder, fodd bynnag, a fynegwyd gan rai yw sut y bydd yr ehangder mwy hwnnw yn y cwricwlwm yn cael ei ddarparu mewn rhai rhannau o'r Gymru wledig, lle mae maint yr ysgolion yn ei gwneud yn fwy o her cael ehangder llawn y cwricwlwm. Pa anogaeth allwch chi ei chynnig y bydd anghenion cwricwlwm eang hefyd yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion ar draws cefn gwlad Cymru?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are matters, of course, which we consider. It's important that pupils in rural areas are not substantially disadvantaged by the fact they live in rural areas. It's not always possible to replicate the education system exactly across Wales, and there are good reasons, perhaps, why that shouldn't be there, anyway, in terms of replication, but the opportunities should be there. As part of the consultation process that'll be announced tomorrow, we hope that these matters will be raised, and then, of course, they can be worked through towards a solution.

Mae'r rhain yn faterion, wrth gwrs, yr ydym ni'n eu hystyried. Mae'n bwysig nad yw disgyblion mewn ardaloedd gwledig yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol oherwydd y ffaith eu bod yn byw mewn ardaloedd gwledig. Nid yw'n bosibl bob amser cyflwyno'r un system addysg yn union ledled Cymru, ac mae rhesymau da, efallai, pam na ddylai hynny fod yn digwydd, beth bynnag, o ran cyflwyno'r un system, ond dylai'r cyfleoedd fod yno. Yn rhan o'r broses ymgynghori a fydd yn cael ei chyhoeddi yfory, rydym ni'n gobeithio y bydd y materion hyn yn cael eu codi, ac yna, wrth gwrs, gellir gweithio drwyddynt tuag at ateb.

### Gwella Trafnidiaeth

### Improving Transport

14:05 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella trafnidiaeth yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2142(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for improving transport in South Wales Central? OAQ(4)2142(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. They're in the draft national transport plan.

Gwnaf. Maen nhw yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol drafft.

14:06 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Overcrowding, as you will well know, on the Valleys lines is a huge issue for my constituents, and, of course, the design of the current franchise is not at all helpful in that. But, before we order any new trains, we must produce a specification for the services and the capacity that we want to deliver in the long term. Indeed, we can't design a new franchise, or even begin to think about ordering any new trains, until that work is done. The franchise ends in three years' time; when will that specification be completed and published?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae gorlenwi, fel y gwyddoch yn iawn, ar reilffyrdd y Cymoedd yn broblem enfawr i'm hetholwyr, ac, wrth gwrs, nid yw cynllun y fasnachfraint bresennol yn ddefnyddiol o gwbl yn hynny o beth. Ond, cyn i ni archebu unrhyw drenau newydd, mae'n rhaid i ni lunio manyleb ar gyfer y gwasanaethau a'r capasiti yr ydym ni eisiau ei ddarparu yn yr hirdymor. Yn wir, ni allwn gynllunio masnachfraint newydd, na hyd yn oed dechrau meddwl am archebu unrhyw drenau newydd, tan fydd y gwaith hwnnw wedi'i wneud. Mae'r fasnachfraint yn dod i ben ymhen tair blynedd; pryd bydd y fanyleb yn cael ei chwblhau a'i chyhoeddi?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, that is something that we're moving forward with. I mean, bear in mind that it's only relatively recently that there was agreement to devolve rail franchising functions to the Welsh Government from 2017. That will now enable us to control, specify and award future Wales and borders franchises. These are matters that we are now considering now that we know where we stand in terms of the devolution of the franchise.

Wel, mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n bwrw ymlaen ag ef. Hynny yw, cofiwch mai dim ond yn gymharol ddiweddar y cafwyd cytundeb i ddatganoli swyddogaethau masnachfreintio rheilffyrdd i Lywodraeth Cymru o 2017. Bydd hynny'n ein galluogi nawr i reoli, nodi a dyfarnu masnachfreintiau Cymru a'r gororau yn y dyfodol. Mae'r rhain yn faterion yr ydym ni'n eu hystyried gan ein bod ni'n gwybod erbyn hyn ble'r ydym ni'n sefyll o ran datganoli'r fasnachfraint.

14:06 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, one of the objectives, obviously, of the transport plan is to increase connectivity between some of the connectivity blackspots that we actually have, for example, in my constituency, around the Beddau, Llantwit Fardre, Tonyrefail and Church Village areas, which are, effectively, rail connectivity blackspots. Do you agree with me that one of the objectives to come out of the metro and the transport planning should be to improve that connectivity to give people an opportunity, possibly with railway developments and so on, and in order to ensure that people have the option, when travelling to Cardiff or travelling to work opportunities around south Wales, to get off the road and to get on to rail or other forms of transport?

Brif Weinidog, un o amcanion y cynllun trafnidiaeth, yn amlwg, yw cynyddu cysylltedd rhwng rhai o'r mannau cysylltedd gwael sydd gennym ni, er enghraifft, yn fy etholaeth i, o amgylch ardaloedd Beddau, Llanilltud Faerdref, Tonyrefail a Gartholwg, sydd, i bob pwrpas, yn fannau cysylltedd rheilffyrdd gwael. A ydych chi'n cytuno â mi mai un o'r amcanion a ddylai ddod allan o'r metro a'r cynllunio trafnidiaeth yw gwella'r cysylltedd hwnnw i roi cyfle i bobl, o bosibl gyda datblygiadau rheilffordd ac yn y blaen, ac er mwyn sicrhau bod gan bobl y dewis, wrth deithio i Gaerdydd neu deithio i swyddi o gwmpas y de, i gael oddi ar y ffordd a mynd ar y rheilffyrdd neu fathau eraill o gludiant?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I know the Member is particularly keen to see the reopening of the line from Pontyclun and Beddau to Cardiff. Of course, what the national transport plan commits to doing is to developing and assessing schemes identified in the metro impact study, and part of all of that work will consider the needs of people living to the north-west of Cardiff, and the need to make sure that the needs they have will be met in the future.

Rwy'n gwybod yr Aelod yn arbennig o awyddus i weld y rheilffordd o Bontyclun a Beddau i Gaerdydd yn ailagor. Wrth gwrs, yr hyn y mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn ymrwymo i'w wneud yw datblygu ac asesu cynlluniau a nodwyd yn astudiaeth effaith y metro, a bydd rhan o'r holl waith hwnnw yn ystyried anghenion pobl sy'n byw i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd, a'r angen i wneud yn siŵr y bydd yr anghenion sydd ganddynt yn cael eu diwallu yn y dyfodol.

14:08 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, obviously, anyone travelling into Cardiff, especially in the mornings, on Llantrisant Road, for example, or coming from the east, from St Mellons and along the A48, or, indeed, from the Vale of Glamorgan, is faced with a pretty horrendous experience. We're all looking forward to the delivery of the metro system, but that is some considerable time away. What encouragement or what words of comfort can you give to many of the motorists who find themselves in the daily grind that the Welsh Government is working with local authorities to develop alternatives, and sustainable alternatives, that will take traffic off the roads and provide a realistic transport model for south Wales?

Brif Weinidog, yn amlwg, mae unrhyw un sy'n teithio i mewn i Gaerdydd, yn enwedig yn y bore, ar Heol Llantrisant, er enghraifft, neu wrth ddod o'r dwyrain, o Laneirwg ac ar hyd yr A48, neu, yn wir, o Fro Morgannwg, yn wynebu profiad eithaf echrydus. Rydym ni i gyd yn edrych ymlaen at gyflwyno'r system metro, ond mae hynny gryn amser i ffwrdd. Pa anogaeth neu pa eiriau o gysur allwch chi eu rhoi i lawer o'r modurwyr sy'n canfod eu hunain yn y diflastod beunyddiol, bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dewisiadau eraill, a dewisiadau eraill cynaliadwy, a fydd yn mynd â thraffig oddi ar y ffyrdd ac yn darparu model trafnidiaeth realistig ar gyfer y de?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, look at what we've done in the past, with the reopening of the Ebbw Valley line and the reopening of the Vale of Glamorgan line, of course, which had been long closed until it was reopened. One of the areas we need to look at now is to look at increasing frequency on the Vale of Glamorgan line, potentially as well on the Llynfi Valley line, when considering, of course, the metro system as a whole. But we've seen, of course, a significant increase in the numbers of people using public transport, particularly the trains, over the past 10 years. That is a trend that I expect to continue in the future, and the metro will be exceptionally important in terms of delivering a more frequent service and, possibly, new services to many people in the future.

Wel, edrychwch ar yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud yn y gorffennol, gydag ailagor rheilffordd Cwm Ebwy ac ailagor rheilffordd Bro Morgannwg, wrth gwrs, a oedd wedi bod ar gau ers amser maith tan iddi gael ei hailagor. Un o'r meysydd y mae angen i ni ei ystyried nawr yw ceisio cynyddu amlder ar reilffordd Bro Morgannwg, o bosibl, yn ogystal ag ar reilffordd Cwm Llynfi, wrth ystyried, wrth gwrs, y system metro yn ei chyfanrwydd. Ond rydym ni wedi gweld, wrth gwrs, cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus, yn enwedig y trenau, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae hynny'n duedd yr wyf yn disgwyl iddi barhau yn y dyfodol, a bydd y metro'n eithriadol o bwysig o ran darparu gwasanaeth amlach ac, o bosibl, gwasanaethau newydd i lawer o bobl yn y dyfodol.

14:09 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, due to a combination of funding cuts from both the Welsh Government and local authorities, there are many bus services that have been cut throughout the country. Some of these have been in my region in South Wales Central, and I'm concerned that a situation could develop whereby people are unable to travel to work or to important hospital appointments unless they have a car. Is the Welsh Government keeping a record of the bus services that have been lost and, if so, what plans or mechanisms do you have to restore them if demand is there for that?

Brif Weinidog, oherwydd cyfuniad o doriadau mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, mae llawer o wasanaethau bws sydd wedi cael eu torri ar hyd a lled y wlad. Mae rhai ohonynt yn fy rhanbarth i yng Nghanol De Cymru, ac rwy'n poeni y gallai sefyllfa ddatblygu sy'n golygu na all pobl deithio i'r gwaith neu i apwyntiadau ysbyty pwysig oni bai fod ganddyn nhw gar. A yw Llywodraeth Cymru yn cadw cofnod o'r gwasanaethau bws a gollwyd ac, os felly, pa gynlluniau neu fecanweithiau sydd gennych chi i'w hailgyflwyno os yw'r galw yno am hynny?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Devolution of bus regulation would be a start, which we don't have at the moment. That is something that is at least agreed to be devolved under the current system. One of the problems that I face as a constituency Member, as I'm sure she does as well, is that, where there are complaints about bus services, the bus regulator, if I remember rightly, is in Birmingham. The experience I've had has been a poor one in terms of taking up complaints. I look very much forward to seeing the deregulation—the regulation, I beg your pardon, of buses being devolved in order that we can offer a more holistic approach to bus services in the future.

Byddai datganoli rheoleiddio bysiau yn ddechrau, nad yw gennym ar hyn o bryd. Mae hynny'n rhywbeth o leiaf y cytunwyd y bydd yn cael ei ddatganoli dan y system bresennol. Un o'r problemau yr wyf fi'n eu hwynebu fel Aelod etholaeth, fel yr wyf yn siŵr y mae hithau hefyd, yw, pan geir cwynion am wasanaethau bws, mae'r rheoleiddiwr bysiau yn Birmingham, os cofiaf yn iawn. Mae'r profiad yr wyf i wedi ei gael wedi bod yn un gwael o ran dilyn cwynion. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld dadreoleiddio—rheoleiddio, mae'n ddrwg gen i, bysiau'n cael ei ddatganoli fel y gallwn gynnig dull mwy cyfannol o ddarparu gwasanaethau bws yn y dyfodol.

### Caeau Chwarae

### Playing Fields

14:10 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl caeau chwarae o ran bodloni amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â lles? OAQ(4)2148(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the role of playing fields in meeting Welsh Government objectives in relation to wellbeing? OAQ(4)2148(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. Having access to playing fields is important. It ensures, of course, that people have opportunities to participate in recreational facilities and we are now moving forward to dealing with the implementation of the playing fields regulations.

Gwnaf. Mae cael mynediad at gaeau chwarae yn bwysig. Mae'n sicrhau, wrth gwrs, bod pobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn cyfleusterau hamdden, ac rydym ni'n symud ymlaen i ymdrin â gweithrediad y rheoliadau caeau chwarae erbyn hyn.

14:10 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. I heard your very positive response to John Griffiths's question earlier regarding the physical elements of the school curriculum, yet, as a result of your local authority cuts, some local authorities are taking a rather panicked approach to playing fields and green public spaces. Swansea council has already targeted playing fields in Sketty and unsuccessfully in Pontarddulais, driven by a dash-for-cash for other projects, rather than pupils' health needs. With Donaldson's recommendations fresh in your mind, what advice can you give schools to defend their position against those raids? Thank you.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Clywais eich ymateb cadarnhaol iawn i gwestiwn John Griffiths yn gynharach ynghylch elfennau corfforol y cwricwlwm ysgol, ac eto, o ganlyniad i'ch toriadau awdurdod lleol, mae rhai awdurdodau lleol yn mabwysiadu agwedd o banig braidd tuag at gaeau chwarae a mannau cyhoeddus gwyrdd. Mae cyngor Abertawe eisoes wedi targedu caeau chwarae yn Sgeti ac yn aflwyddiannus ym Mhontarddulais, wedi'i sbarduno gan ras am arian ar gyfer prosiectau eraill, yn hytrach nag anghenion iechyd disgyblion. Gydag argymhellion Donaldson yn fyw yn eich cof, pa gyngor allwch chi ei roi i ysgolion i amddiffyn eu sefyllfa rhag y cyrchoedd hynny? Diolch yn fawr.

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, as I said, we're considering now the regulations and how to proceed with them. Ultimately, of course, the sale of school land is a matter for each local authority. There are safeguards in place in terms of how planning permission is granted, but the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2010, of course, which was passed here some years ago, is something that we're considering now in terms of passing regulations. We certainly wouldn't want to get to the position of seeing the same situation in Wales as we have seen in England, with mass sell-offs of playing fields.

Wel, fel y dywedais, rydym ni'n ystyried rheoliadau nawr a sut i fwrw ymlaen â nhw. Yn y pen draw, wrth gwrs, mater i bob awdurdod lleol yw gwerthu tir ysgol. Ceir mesurau diogelu ar waith o ran sut y rhoddir caniatâd cynllunio, ond mae Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010, wrth gwrs, a basiwyd yma rai blynyddoedd yn ôl, yn rhywbeth yr ydym ni'n ei ystyried nawr o ran pasio rheoliadau. Yn sicr, ni fyddem ni eisiau cyrraedd y pwynt o weld yr un sefyllfa yng Nghymru ag yr ydym ni wedi ei gweld yn Lloegr, gyda llu o gaeau chwarae'n cael eu gwerthu.

14:11 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae cymuned Maesglas yn Aberteifi ar hyn o bryd yn ceisio gwarchod eu cae chwarae nhw rhag datblygiad, ac yn mynd drwy'r broses o geisio cofrestru'r cae chwarae fel 'village green'—fel llecyn glas. Mae'r Mesur cynllunio y mae eich Llywodraeth chi wedi ei gyflwyno ar hyn o bryd yn mynd i gwtogi ar allu cymunedau i allu cofrestru eu caeau chwarae a diogelu caeau chwarae drwy'r broses hon. A ydych chi'n barod i edrych ac i drafod gyda'r Gweinidog cynllunio i sicrhau bod yr hawl yma sydd gan gymunedau ar hyn o bryd ddim yn cael ei lastwreiddio gan y ddeddfwriaeth yr ydych chi'n ei chyflwyno?

First Minister, the community of Maesglas in Cardigan are at present trying to protect their playing field from development, and are going through the process of seeking to register the playing field as a village green. The planning Bill brought forward by your own Government is going to limit the ability of communities to register their playing fields and safeguard those playing fields through that process. Are you willing, therefore, to look at this and have discussions with the planning Minister to ensure that this right that communities currently have is not diluted by the legislation that you're bringing forward?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Beth sy'n bwysig yw bod yna gydbwysedd fan hyn. Mae yna system sydd wedi bod mewn lle lan hyd nawr sydd wedi bod yn system sydd wedi cael ei defnyddio llawer o weithiau yn y gorffennol ddim yn y ffordd, efallai, y byddai pobl wedi meddwl y byddai yn cael ei defnyddio. Ond, wrth ddweud hynny, rydym ni'n moyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth newydd yn sicrhau bod yna lefydd agored ar gael i gymunedau, o gofio'r ffaith, wrth gwrs, weithiau, yn y gorffennol, ei bod wedi cael ei defnyddio fel ffordd o stopio tai rhag cael eu hadeiladu mewn cymuned. Felly, mae'r cydbwysedd yna yn mynd i fod yn bwysig yn y dyfodol.

What is important here is that there's a balance. There is a system that has been in place up to now that's a system that's been used many times in the past perhaps not in the way that people would have thought it would have been used. But, having said that, we want to ensure that the new legislation does ensure that there are open spaces available for communities, remembering, of course, that, sometimes, in the past, this has been used as a way of preventing homes from being built in communities. So, that balance is going to be important in future.

14:13 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Suzy Davies has already referred to the situation in Swansea, where, in fact, there are proposals to sell off a lot of playing fields, very similar to what happened in England under the previous UK Government. In England, though, there is, of course, the Localism Act 2011, which protects sports fields, but that has not been brought in in Wales. Is it your Government's intention to try to bring that extra protection to playing fields in Wales by commencing the Localism Act here?

Brif Weinidog, mae Suzy Davies eisoes wedi cyfeirio at y sefyllfa yn Abertawe, lle, mewn gwirionedd, mae cynigion i werthu llawer o gaeau chwarae, yn debyg iawn i'r hyn a ddigwyddodd yn Lloegr dan Lywodraeth flaenorol y DU. Yn Lloegr, fodd bynnag, ceir Deddf Lleoliaeth 2011, wrth gwrs, sy'n diogelu meysydd chwarae, ond nid yw honno wedi ei chyflwyno yng Nghymru. A yw eich Llywodraeth yn bwriadu ceisio cynnig y diogelwch ychwanegol hwnnw i gaeau chwarae yng Nghymru trwy gychwyn y Ddeddf Lleoliaeth yma?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's an English Act. I mean, work has begun to amend the draft regulations under the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2010, which is Welsh legislation, prior to a final decision on the introduction of those regulations over the course of the next few months. Legislation already exists in Wales to deal with this. It has historically not been the problem in Wales that it was in England. But, nevertheless, I hear and I see what's being proposed in Swansea and that's why, of course, we're considering now how best to take these regulations forward.

Wel, Deddf Lloegr yw hi. Hynny yw, mae gwaith wedi dechrau i ddiwygio'r rheoliadau drafft dan Fesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010, sef deddfwriaeth Cymru, cyn gwneud penderfyniad terfynol ar gyflwyno'r rheoliadau hynny yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Mae deddfwriaeth eisoes yn bodoli yng Nghymru i ymdrin â hyn. Nid yw wedi bod yn gymaint o broblem yng Nghymru ag y mae yn Lloegr yn hanesyddol. Ond, serch hynny, rwy'n clywed ac rwy'n gweld beth sy'n cael ei gynnig yn Abertawe a dyna pam, wrth gwrs, yr ydym ni'n ystyried y ffordd orau nawr o fwrw ymlaen â'r rheoliadau hyn.

### Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe

### Swansea University's School of Management

14:14 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bryderon a godwyd ynghylch ysgol reolaeth Prifysgol Abertawe? OAQ(4)2138(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement about concerns raised regarding Swansea University's school of management? OAQ(4)2138(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, these are, of course, entirely a matter for management and governors at Swansea University. They are autonomous bodies and they are responsible for their own affairs.

Wel, materion i reolwyr a llywodraethwyr ym Mhrifysgol Abertawe yw'r rhain yn gyfan gwbl, wrth gwrs. Maen nhw'n gyrff ymreolaethol ac maen nhw'n gyfrifol am eu materion eu hunain.

14:14 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hear what you say, First Minister, but you will know that the internal paper last year described certain economic staff as a cancer and since then I've been contacted, and I've met, many students and interested parties that feel intimidated enough to ask that I keep their names confidential for fear that the department or the university will take action against them. One of them said, and I quote: 'a university is where freedom of speech and the ability to learn and question should be encouraged.' First Minister, do you support this view and what can your Government do to raise these very real issues with Swansea University, whereby students are fearful to go and access education because of intimidation and bullying within that department?

Rwy'n clywed yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud, Brif Weinidog, ond byddwch yn gwybod bod y papur mewnol y llynedd wedi disgrifio staff economaidd penodol fel canser ac, ers hynny, mae llawer o fyfyrwyr a phartïon â buddiant wedi cysylltu â mi, ac rwyf wedi cyfarfod â hwy, sydd wedi cael eu dychryn ddigon i ofyn i mi gadw eu henwau'n gyfrinachol rhag ofn y bydd yr adran neu'r brifysgol yn cymryd camau yn eu herbyn. Dywedodd un ohonynt, ac rwy'n dyfynnu: 'lle y dylai rhyddid i siarad a'r gallu i ddysgu a chwestiynu gael eu hannog yw prifysgol.' Brif Weinidog, a ydych chi'n cefnogi'r farn hon a beth all eich Llywodraeth ei wneud i godi'r materion real iawn hyn gyda Phrifysgol Abertawe, lle mae myfyrwyr yn ofni mynd i dderbyn addysg oherwydd y bygythiadau a'r bwlio yn yr adran honno?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I am aware of some of the issues that have been reported in the press in respect of the School of Management at Swansea University. It wouldn't be appropriate for me to comment in detail on those issues with regard to an autonomous HE institution. What I will say, of course, is that I hope that these managerial issues can be resolved swiftly, to the satisfaction of staff and students, because if this continues, it will be detrimental to the good reputation of the department and the university. So, I would encourage all those involved, including the university itself, of course, to resolve this issue as quickly as possible.

Wel, rwy'n ymwybodol o rai o'r materion yr adroddwyd amdanynt yn y wasg o ran yr Ysgol Reolaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau manwl ar y materion hynny o ran sefydliad AU ymreolaethol. Yr hyn y gwnaf ei ddweud, wrth gwrs, yw fy mod i'n gobeithio y gellir datrys y materion rheoli hyn yn gyflym, er boddhad staff a myfyrwyr, oherwydd os bydd hyn yn parhau, bydd yn niweidiol i enw da'r adran a'r brifysgol. Felly, byddwn yn annog pawb sy'n ymwneud â'r mater, gan gynnwys y brifysgol ei hun, wrth gwrs, i ddatrys y mater hwn cyn gynted â phosibl.

14:15 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n cytuno: mae'n drueni i weld y dadlau ynglŷn â'r Ysgol Reolaeth yn cael ei ddarlledu yn yr arena gyhoeddus. Nid oes mater penodol i'r Llywodraeth, rwy'n gwybod, ond a oes unrhyw beth yn y cyfnewidfeydd hyn sydd wedi gwneud y brifysgol yn llai deniadol yn eich barn chi—yn ddigon, efallai, i godi pryderon ynglŷn â chynlluniau ehangu mynediad, er enghraifft?

First Minister, I agree: it is a shame to see disagreements about the School of Management broadcast in the public arena. There is no specific matter for the Government, I know, but is there anything in these exchanges that have made the university less attractive in your opinion—sufficient, perhaps, to raise concerns about the widening access scheme?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Na. Ynglŷn â'r brifysgol ei hun, mae'n ymddangos bod yna gynnydd mawr wedi bod, nid dim ond yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf ond yn y flwyddyn academaidd hon hefyd. Mae Prifysgol Abertawe yn cael ei hystyried yn brifysgol dda dros ben i fynd iddi. Beth sy'n bwysig, wrth gwrs, yw sicrhau bod hynny'n parhau, yn y pen draw, a sicrhau nad yw'r problemau y soniwyd amdanynt y prynhawn yma yn effeithio ar enw da'r brifysgol.

No. In terms of the university itself, it appears that there has been a great increase, not only in the last academic year but also in this academic year. Swansea University is considered to be an excellent university at which to study. What is ultimately important, of course, is that that should continue and that the problems that have been raised this afternoon do not have an impact on the reputation of the university.

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:16

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement. I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef y datganiad busnes. Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. I have one change to announce to this week's business. The Minister for Natural Resources will now be making a written statement on climate change, in place of the oral statement scheduled for 4 March. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Mae gennyf un newid i'w gyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol bellach yn gwneud datganiad ysgrifenedig am newid yn yr hinsawdd, yn lle'r datganiad llafar a drefnwyd ar gyfer 4 Mawrth. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:17 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister. Can I ask for an explanation as to why a written statement is being given outside the sitting time of this Chamber by the Minister for Natural Resources in respect of the climate change refresh? That statement, scheduled for tomorrow, has been delayed at least three times. Given the recent climate change data for Wales, it's disappointing that we are not having an opportunity to question the Minister on this issue. It is also disappointing that it is being published as a written statement, not in this Chamber. The 'The Wales We Want' report, only recently disclosed by Welsh Government, showed that 26% of the population felt that climate change was a key concern of theirs. It is unfortunate, given the background of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill and the history of the environment Bill, that the statement is not being given to Plenary. One would have hoped that a statement of the substance of this type would have been given to the Chamber first.

Diolch i chi am hynna, Weinidog. A gaf fi ofyn am esboniad ynghylch pam mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn rhoi datganiad ysgrifenedig ynglŷn â'r diweddariad o ran newid yn yr hinsawdd y tu allan i amser eistedd y Siambr hon? Mae'r datganiad hwnnw, a drefnwyd ar gyfer yfory, wedi cael ei ohirio o leiaf dair gwaith. O ystyried y data diweddar ynglŷn â newid yn yr hinsawdd ar gyfer Cymru, mae'n siomedig nad ydym yn cael cyfle i holi'r Gweinidog am y mater hwn. Mae hefyd yn siomedig ei fod yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig, ac nid yn y Siambr hon. Roedd yr adroddiad 'Y Gymru a Garem', a ddatgelwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, yn dangos bod 26% o'r boblogaeth yn teimlo bod newid yn yr hinsawdd yn bryder allweddol iddynt. Mae'n anffodus, o ystyried cefndir Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a hanes y Bil amgylchedd, nad yw'r datganiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Llawn. Byddai rhywun wedi gobeithio y byddai datganiad o sylwedd o'r math hwn yn cael ei gyflwyno i'r Siambr yn gyntaf.

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm sure that Antoinette Sandbach will take full advantage of the Minister's appearance at the Environment and Sustainability Committee tomorrow. Of course, there will be an opportunity to scrutinise the Minister as part of the general scrutiny session. This will cover progress on climate change. The Minister is publishing a written statement on climate change on Thursday. That's coinciding with his attendance at the Climate Change Commission for Wales, and he'll also be highlighting climate change action with a visit, for example, to see an Arbed 2 project, which is clearly showing how Welsh Government investment is acting on climate change, tackling fuel poverty and benefiting local communities.

Wel, rwy'n siŵr y bydd Antoinette Sandbach yn manteisio'n llawn ar ymddangosiad y Gweinidog yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yfory. Wrth gwrs, ceir cyfle i graffu ar y Gweinidog yn rhan o'r sesiwn craffu gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys cynnydd ar newid yn yr hinsawdd. Mae'r Gweinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig am y newid yn yr hinsawdd ddydd Iau. Mae hynny'n cyd-daro â'i bresenoldeb yng Nghomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, a bydd hefyd yn tynnu sylw at weithredu ar newid yn yr hinsawdd gydag ymweliad, er enghraifft, i weld prosiect Arbed 2, sy'n amlwg yn dangos sut mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru'n gweithredu ar newid yn yr hinsawdd, yn trechu tlodi tanwydd ac yn creu budd i gymunedau lleol.

14:19 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Business Minister, it's worth just recalling what the First Minister said in answer to a question from Jocelyn Davies a little earlier today: he believes amendment 66 to the Bill that we're considering later on today on the removal of the defence of reasonable punishment to be within the competence of this Assembly. He's consistently said that, of course, in the past, and previous Labour-led Governments have not only said that, but they have also said that they wish to legislate on this issue. As it was said in reply to a question, and as it is important for debate later on, because it means that we can debate the Bill knowing full well that, if we do accept that amendment, it does not endanger the Bill in any way, is it the intention of the Government to make a written statement on the competence or otherwise of this amendment, to ensure us that we can debate, therefore, with the knowledge of what the Government's understanding is? Secondly, can you confirm that the Labour Members of this Chamber have a free vote on that amendment?

Weinidog Busnes, mae'n werth cofio'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog wrth ateb cwestiwn gan Jocelyn Davies ychydig yn gynharach heddiw: mae'n credu bod gwelliant 66 y Bil y byddwn yn ei ystyried yn nes ymlaen heddiw ar gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol o fewn cymhwysedd y Cynulliad hwn. Mae wedi dweud hynny'n gyson, wrth gwrs, yn y gorffennol, ac mae Llywodraethau blaenorol dan arweiniad Llafur nid yn unig wedi dweud hynny, ond maent hefyd wedi dweud yr hoffent ddeddfu ar y mater hwn. Fel y dywedwyd wrth ateb cwestiwn, a gan ei fod yn bwysig i ddadl yn nes ymlaen, gan ei fod yn golygu y gallwn drafod y Bil gan wybod yn iawn, os ydym yn derbyn y gwelliant hwnnw, nad yw'n peryglu'r Bil mewn unrhyw ffordd, a yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud datganiad ysgrifenedig am gymhwysedd neu ddiffyg cymhwysedd y gwelliant hwn, er mwyn ein sicrhau y gallwn gael dadl, felly, gan wybod beth yw dealltwriaeth y Llywodraeth? Yn ail, a allwch chi gadarnhau bod yr Aelodau Llafur yn y Siambr hon yn cael pleidlais rydd ar y gwelliant hwnnw?

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, as Simon Thomas is clearly aware, there will be an opportunity for debate on this this afternoon, in terms of the discussions around amendments that are forthcoming, and, of course, the Minister for Public Services will be responding to all amendments that are forthcoming on this point.

Wrth gwrs, fel y mae Simon Thomas yn amlwg yn ei wybod, bydd cyfle am ddadl ar hyn y prynhawn yma, o ran y trafodaethau ynghylch gwelliannau sydd ar y gweill, ac, wrth gwrs, bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb i'r holl welliannau sydd ar y gweill yn hyn o beth.

14:20 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mi fydd yna adolygiad o'r cynlluniau strategol addysg Gymraeg yn ystod y mis yma. Mae nifer ohonom ni yn synnu at gynnwys rhai o'r cynlluniau hynny. Felly, a gaf i ofyn i'r Llywodraeth sicrhau y bydd yna gyfle inni gael datganiad llafar ar lawr y Cynulliad ynghylch beth yn union mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud o ran y cynghorau sir hynny sy'n methu o ran datblygiad addysg Gymraeg i'r dyfodol?

Minister, this month, there will be a review of the Welsh in education strategic plans. A number of us are surprised at the content of some of those schemes. So, may I ask the Government to secure time for an oral statement in the Assembly about what exactly the Government is going to do about those county councils that fail in terms of developing Welsh-language education for the future?

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There will be a full opportunity for that as, obviously, this is critical in terms of ensuring that there is compliance, as well as delivery and implementation, in terms of Welsh-medium education.

Bydd cyfle llawn i hynny gan fod hyn, yn amlwg, yn allweddol o ran sicrhau y ceir cydymffurfio, yn ogystal â darparu a gweithredu, o ran addysg cyfrwng Cymraeg.

14:21 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for two statements, the first one on the Blanefield precedent and implications for land contamination in Wales. In February 2014, the UK Chief Secretary to the Treasury told residents in Blanefield, Stirlingshire, faced with high costs to clean up land polluted by industry where their homes were, that the UK Government would fund 50% of costs if the Scottish Parliament and the Scottish Government would fund the other 50%. Now, 17 households in Coedpoeth and one in Brymbo near Wrexham face costs of between £2,300 and £10,000 to rid land there of pollution from centuries-old work. I call for statement in the context of the 50% Welsh Government funding. Will the Welsh Government provide that funding if the UK Government agree to do so, and on what dialogue the Welsh Government is having with UK Government—noting dissolution there is fast approaching—to support residents in Coedpoeth and Brymbo in pursuit of funding for remediation of their contaminated land and rescue from costs, which many of them simply cannot afford.

Galwaf am ddau ddatganiad, y cyntaf am gynsail Blanefield a'i oblygiadau i halogiad tir yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2014, dywedodd Prif Ysgrifennydd Trysorlys y DU wrth drigolion yn Blanefield, Stirlingshire, a oedd yn wynebu costau uchel i lanhau tir wedi'i lygru gan ddiwydiant lle'r oedd eu cartrefi, y byddai Llywodraeth y DU yn ariannu 50% o'r costau pe byddai Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban yn ariannu'r 50% arall. Erbyn hyn, mae 17 o aelwydydd yng Nghoedpoeth ac un ym Mrymbo ger Wrecsam yn wynebu costau rhwng £2,300 a £10,000 i gael gwared ar lygredd o dir yno o ganlyniad i waith canrifoedd oed. Galwaf am ddatganiad yng nghyd-destun y 50% o gyllid gan Lywodraeth Cymru. A wnaiff Llywodraeth Cymru ddarparu'r cyllid hwnnw os gwnaiff Llywodraeth y DU gytuno i wneud hynny, a pha ddeialog y mae Llywodraeth Cymru'n ei chael gyda Llywodraeth y DU—gan nodi bod diddymiad yno'n agosáu'n gyflym—i gefnogi trigolion Coedpoeth a Brymbo i ganfod arian i adfer eu tir halogedig a'u harbed rhag costau, nad yw llawer ohonynt yn syml yn gallu eu fforddio.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Mark Isherwood, this is a matter—

Wel, Mark Isherwood, mae hwn yn fater—

14:22 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There's—

Mae yna—

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry?

Mae'n ddrwg gennyf?

14:22 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry. If I may. Thank you.

Mae'n ddrwg gennyf. Os caf fi. Diolch yn fawr.

14:22

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Off you go.

I ffwrdd â chi.

14:22

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. My second and final call for a statement is in the context of something that we've heard much about today and previously: women's clinical services at Ysbyty Glan Clwyd. When Assembly Members met the health board a couple of weeks ago—those of us who were there—we were told that they would now look at clinical pathways and risk gateways before they pressed the 'go' button, working with clinicians and managers accordingly. Earlier, we heard the First Minister dismissing a letter from the chief officer of north Wales community health council as not a request for intervention regarding the removal of consultant-led maternity services at Glan Clwyd when, clearly, the letter is a request for intervention read by anybody of any normal literacy standards. They conclude that the north Wales community health council supports Welsh Government guidance that local people should have the opportunity to be involved and engaged in discussions and decisions about their NHS, and the health board believes that the urgent change protocol agreed with the health board should not be used as a device to avoid that dialogue. This is clearly a request for Welsh Government intervention, and it's simply not sufficient to apply delaying tactics and make the north Wales health council—the voice of patients in north Wales—jump through hoops in order to avoid ministerial responsibility for the letter sent to them. It's simply not good enough to shake your head, First Minister; this is too important.

Diolch. Mae fy ail alwad am ddatganiad, a'r un olaf, yng nghyd-destun rhywbeth yr ydym wedi clywed llawer amdano heddiw ac o'r blaen: gwasanaethau clinigol i fenywod yn Ysbyty Glan Clwyd. Pan gyfarfu Aelodau'r Cynulliad â'r bwrdd iechyd wythnos neu ddwy yn ôl—y rhai ohonom a oedd yno—dywedwyd wrthym y byddent nawr yn edrych ar lwybrau clinigol a phyrth risg cyn gwasgu'r botwm 'mynd', gan weithio gyda chlinigwyr a rheolwyr fel y bo'n briodol. Yn gynharach, clywsom y Prif Weinidog yn diystyru llythyr gan brif swyddog cyngor iechyd cymuned y gogledd gan ddweud nad oedd yn gais am ymyrraeth o ran cael gwared ar wasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol yng Nglan Clwyd, pan ei bod yn amlwg i unrhyw un ag unrhyw safonau llythrennedd arferol mai cais am ymyrraeth yw'r llythyr. Maent yn dod i'r casgliad bod cyngor iechyd cymuned y gogledd yn cefnogi canllawiau Llywodraeth Cymru y dylai pobl leol gael y cyfle i gael eu cynnwys a chymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau am eu GIG, ac mae'r bwrdd iechyd yn credu na ddylid defnyddio'r protocol newid brys y cytunwyd arno gyda'r bwrdd iechyd fel dyfais i osgoi'r ddeialog honno. Mae hwn yn amlwg yn gais am ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru, ac, yn syml, nid yw'n ddigon da defnyddio tactegau oedi a gwneud i gyngor iechyd y gogledd—llais cleifion yn y gogledd—fynd drwy'r felin er mwyn osgoi cyfrifoldeb gweinidogol am y llythyr a anfonwyd atynt. Nid yw ysgwyd eich pen yn ddigon da, Brif Weinidog; mae hyn yn rhy bwysig.

14:24

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, Mark Isherwood, in response to your first question, this is a matter, and it has been a matter, for negotiation with the UK Government, and indeed, this matter has been raised with the Chief Secretary to the Treasury. It is an ongoing matter, which the Minister for Natural Resources is handling and managing.

Rwyf yn meddwl, Mark Isherwood, i ateb eich cwestiwn cyntaf, bod hwn yn fater, a'i fod wedi bod yn fater, i'w drafod â Llywodraeth y DU, ac yn wir, mae'r mater hwn wedi cael ei godi gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae'n fater parhaus, ac mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn ymdrin ag ef ac yn ei reoli.

In response to your second point, I don't think much more should be and could be added to what the First Minister has already said this afternoon. But I would say that the health board is expecting all interim arrangements to be completed by May this year and to begin widespread public engagement on its proposed new service models. The aim is that the obstetric services will be established at Ysbyty Glan Clwyd from July 2016.

I ateb eich ail bwynt, nid wyf yn meddwl y dylid, nac y gellir, ychwanegu llawer mwy at yr hyn y mae'r Prif Weinidog eisoes wedi'i ddweud y prynhawn yma. Ond byddwn yn dweud bod y bwrdd iechyd yn disgwyl i'r holl drefniadau dros dro fod wedi'u cwblhau erbyn mis Mai eleni ac yn disgwyl dechrau ymgysylltiad cyhoeddus eang ynglŷn â'i fodelau gwasanaeth newydd arfaethedig. Y nod yw sefydlu'r gwasanaethau obstetrig yn Ysbyty Glan Clwyd o fis Gorffennaf 2016.

14:25

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

14:25

# 3. Datganiad: Cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar broses Dydd Gŵyl Dewi

# 3. Statement: UK Government Announcement on the St David's Day Process

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the First Minister on the UK Government announcement on the St David's Day process. First Minister.

Symudwn nawr at eitem 3, sef datganiad gan y Prif Weinidog am gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynglŷn â phroses Dydd Gŵyl Dewi. Brif Weinidog.

14:25 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Llywydd. I want to make an announcement on the UK Government's St David's Day process, the outcome of which was published on Friday. I would like to begin by reflecting on what has happened over the last six or seven months. We know that, in September, we saw a Scottish referendum, which briefly threatened to bring the United Kingdom to an end—or the UK as it has existed since 1920. In the event, the Scottish people voted decisively to stay, and far-reaching commitments were made about how the union needed to be further reformed, and the Prime Minister vowed to put Wales at the heart of the debate.

Diolch, Lywydd. Rwyf eisiau gwneud cyhoeddiad am broses Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU, y cyhoeddwyd ei chanlyniad ddydd Gwener. Hoffwn ddechrau drwy fyfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd dros y chwech neu saith mis diwethaf. Rydym yn gwybod ein bod wedi gweld refferendwm yr Alban ym mis Medi, a oedd, am gyfnod byr, yn bygwth dod â'r Deyrnas Unedig i ben—neu'r DU fel y mae wedi bodoli ers 1920. Fel y digwyddodd, pleidleisiodd pobl yr Alban yn bendant dros aros, a gwnaethpwyd ymrwymiadau pellgyrhaeddol ynglŷn â sut yr oedd angen diwygio'r undeb ymhellach, ac addawodd y Prif Weinidog y byddai'n sicrhau bod Cymru wrth wraidd y ddadl.

In October, the four parties here in the Assembly were united in agreeing a motion calling for progress on fair funding, for a reserved-powers model, for the National Assembly to have powers to determine its electoral arrangements, for progress on Silk 2, for the devolution of air passenger duty, and for all these matters to be taken forward in legislative proposals to be published before the end of the current Westminster parliamentary session. In November, the Smith Commission published its proposals for new powers for Scotland, and the Secretary of State for Wales announced his intention to publish, by St David's Day, a set of commitments agreed by the four main political parties in Wales on the way forward for Welsh devolution.

Ym mis Hydref, roedd y pedair plaid yma yn y Cynulliad yn unedig wrth gytuno ar gynnig yn galw am symud ymlaen ar gyllid teg, am fodel cadw pwerau, am i'r Cynulliad gael pwerau i bennu ei drefniadau etholiadol, am gynnydd ar Silk 2, am ddatganoli'r doll teithwyr awyr, ac am fwrw ymlaen â'r holl faterion hyn mewn cynigion deddfwriaethol i'w cyhoeddi cyn diwedd y sesiwn seneddol presennol yn San Steffan. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Comisiwn Smith ei gynigion am bwerau newydd i'r Alban, a chyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei fwriad i gyhoeddi, erbyn Dydd Gŵyl Dewi, cyfres o ymrwymiadau y cytunwyd arnynt gan y pedair prif blaid wleidyddol yng Nghymru ar y ffordd ymlaen ar gyfer datganoli yng Nghymru.

So it felt as if there were grounds for genuine optimism—that this time, the desire of the Welsh public to see Wales take greater control of its own affairs would be properly addressed. But it's rapidly becoming clear that the Secretary of State's process was not going to deliver what was expected, in particular in relation to the Silk commission's recommendations. While I acknowledge the efforts of those from all parties who have worked to get the best out of this process for the good of Wales, it has been rushed, incoherent and unsatisfactory. I will run through the key points.

Felly, roedd teimlad bod lle i fod yn wir obeithiol—y tro hwn, y byddai awydd cyhoedd Cymru i weld Cymru'n cael mwy o reolaeth dros ei materion ei hun yn cael sylw priodol. Ond mae'n prysur ddod yn glir nad oedd proses yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynd i gyflawni'r hyn a ddisgwyliwyd, yn enwedig o ran argymhellion comisiwn Silk. Er fy mod yn cydnabod ymdrechion y rhai hynny o bob plaid sydd wedi gweithio i gael y gorau o'r broses hon er lles Cymru, bu'n broses frysiog, anghydlynol ac anfoddhaol. Soniaf am y pwyntiau allweddol.

On funding, the UK Government has agreed to

O ran cyllid, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i

'introduce a floor in the level of relative funding provided to the Welsh Government'.

'gyflwyno terfyn isaf i lefel y cyllid cymharol a ddarperir i Lywodraeth Cymru'.

Without a floor, as we know, Welsh funding levels will fall further below what's needed for our front-line public services. So I welcome the fact that the UK Government has, at last, recognised the need for it. Now, we've working towards implementation of a floor since the Holtham commission recommended it in July 2009, and I know it is something other parties here in the National Assembly have supported. But last week's announcement was a missed opportunity. It provided no assurances as to how a floor would work in practice, when it would commence or what it would mean in terms of public spending for Wales. A vague commitment to a floor of some sort, at some point is just not good enough. We can only be confident that funding for Wales has been put on a fair, sustainable footing for the future when the detail is agreed, and that will be a matter for the next Government, after the general election, at the next spending review.

Heb derfyn isaf, fel y gwyddom, bydd lefelau ariannu Cymru'n disgyn ymhellach islaw'r hyn sydd ei angen ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Felly rwyf yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU, o'r diwedd, wedi cydnabod yr angen amdano. Nawr, rydym wedi gweithio tuag at weithredu terfyn isaf ers i gomisiwn Holtham ei argymell ym mis Gorffennaf 2009, a gwn ei fod yn rhywbeth y mae pleidiau eraill yma yn y Cynulliad wedi'i gefnogi. Ond roedd cyhoeddiad yr wythnos diwethaf yn gyfle a gollwyd. Nid oedd yn darparu unrhyw sicrwydd o ran sut y byddai terfyn isaf yn gweithio'n ymarferol, pryd y byddai'n dechrau na'r hyn y byddai'n ei olygu o ran gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw ymrwymiad amwys i ryw fath o derfyn isaf, ar ryw adeg, yn ddigon da. Ni allwn fod yn hyderus bod cyllid i Gymru wedi ei roi ar sylfaen teg a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol hyd nes y cytunir ar y manylion, a bydd hynny'n fater i'r Llywodraeth nesaf, ar ôl yr etholiad cyffredinol, yn yr adolygiad nesaf o wariant.

The Prime Minister and Secretary of State for Wales have made much of the link between last week's statement and income tax devolution. Let me be clear: we've always said that the issue of fair funding was a major obstacle to further tax devolution, but last week's statement has changed nothing. Only when the details of the funding floor are satisfactorily finalised will we be able even to begin to consider partial devolution of income tax.

Mae'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi sôn llawer am y cysylltiad rhwng datganiad yr wythnos ddiwethaf a datganoli treth incwm. Gadewch imi fod yn glir: rydym wedi dweud erioed bod ariannu teg yn rhwystr mawr i ddatganoli treth ymhellach, ond nid yw datganiad yr wythnos diwethaf wedi newid unrhyw beth. Bydd yn rhaid cwblhau manylion y terfyn ariannu isaf yn foddhaol cyn y gallwn hyd yn oed ddechrau ystyried datganoli treth incwm yn rhannol.

The UK Government has agreed to new powers to enable the Welsh Government to issue bonds to borrow for capital expenditure, as recommended by the Silk commission, but on APD, we remain no further forward. Let's not forget that two independent commissions have recommended that it should be devolved. It is already devolved, at least partially, to Northern Ireland and it will now be devolved to Scotland. Yet for Wales, the UK Government will only consider the case in the next Parliament, and it will review options to mitigate the impacts of APD devolution on regional airports. This serves only to illustrate that Wales is still not being treated with the same respect as Scotland. This continuing imbalanced approach is damaging to Wales, and to the UK, I believe, as a whole.

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i bwerau newydd er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi bondiau i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf, fel yr argymhellodd comisiwn Silk, ond o ran toll teithwyr awyr, nid ydym wedi symud gam ymlaen. Dewch inni beidio ag anghofio bod dau gomisiwn annibynnol wedi argymell y dylid ei datganoli. Mae eisoes wedi'i datganoli, o leiaf yn rhannol, i Ogledd Iwerddon a nawr bydd yn cael ei datganoli i'r Alban. Eto i Gymru, ni wnaiff Llywodraeth y DU ystyried yr achos tan y Senedd nesaf, a bydd yn adolygu dewisiadau i liniaru effeithiau datganoli toll teithwyr awyr ar feysydd awyr rhanbarthol. Yr unig beth y mae hyn yn ei gyflawni yw dangos nad yw Cymru'n cael ei thrin gyda'r un parch â'r Alban o hyd. Mae cadw'r dulliau anghytbwys hyn yn niweidiol i Gymru, ac i'r DU, yn fy marn i, yn ei chyfanrwydd.

On Silk 2, there is progress in a number of areas: an extension of our powers on energy consenting, new powers for bus and taxi licensing, speed limits and trust ports, action on the water boundary and sewerage powers, and progress on broadcasting appointments. The proposals to give the National Assembly control over its own affairs, including elections, electoral systems and operating procedures, are all essential and consistent with what is being done for the Scottish Parliament. In short, all these proposals are positive but there is no question that they fall short of fair and equitable treatment for Wales. Our consenting powers on energy will still be capped at what is an arbitrary limit, albeit one substantially higher than now. There is no progress at all on policing, no commitment to even the further review on justice that Silk recommended, nor any transfer of executive powers for youth justice.

O ran Silk 2, ceir cynnydd mewn nifer o feysydd: ymestyn ein pwerau cydsynio ynni, pwerau newydd i drwyddedu bysiau a thacsis, cyfyngiadau cyflymder a phorthladdoedd ymddiriedaeth, gweithredu ar y pwerau ffiniau dŵr a charthffosiaeth, a chynnydd ar benodiadau darlledu. Mae'r cynigion i roi rheolaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol dros ei faterion ei hun, gan gynnwys etholiadau, systemau etholiadol a threfniadau gweithredu, i gyd yn hanfodol ac yn gyson â'r hyn sy'n cael ei wneud ar gyfer Senedd yr Alban. Yn gryno, mae'r holl gynigion hyn yn gadarnhaol, ond nid oes amheuaeth er hynny nad ydynt yn trin Cymru mewn modd teg a chyfartal. Bydd ein pwerau cydsynio ar ynni'n dal i gael eu capio ar derfyn mympwyol, er y bydd yn un sylweddol uwch nag ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gynnydd o gwbl ar blismona, dim ymrwymiad i hyd yn oed yr adolygiad pellach ar gyfiawnder a argymhellodd Silk, na throsglwyddo unrhyw bwerau gweithredol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid.

The clear commitment to the reserved-powers model was widely expected, and some illustrative material has been produced to compensate for the absence of the framework promised in November. Now, given the complexity of the work needed in this respect, I do not criticize the UK Government for the lack of detail: even getting Whitehall to focus on this is a step forward, but I have to say that what's been published is more worrying than reassuring.

Roedd yr ymrwymiad clir i'r model cadw pwerau i'w ddisgwyl yn gyffredinol, ac mae rhywfaint o ddeunydd enghreifftiol wedi'i gynhyrchu i wneud iawn am absenoldeb y fframwaith a addawyd ym mis Tachwedd. Nawr, o ystyried cymhlethdod y gwaith sydd ei angen yn hyn o beth, nid wyf yn beirniadu Llywodraeth y DU am y diffyg manylion: mae hyd yn oed perswadio Whitehall i ganolbwyntio ar hyn yn gam ymlaen, ond mae'n rhaid imi ddweud bod yr hyn sydd wedi'i gyhoeddi yn peri mwy o bryder na thawelwch meddwl.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:30.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:30.*

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are indications that the UK Government may use this exercise to row back from Wales's current powers. The annex listing areas where reservations would be needed is of limited value, because it doesn't include any of the exceptions that will be required simply to maintain the current settlement. It does, however, highlight the risk that some Whitehall departments may take this as an opportunity to actually narrow the devolution settlement rather than take it forward. These annexes reinforce my view that we'll need to scrutinise the draft Wales Bill with the utmost caution, to ensure that our existing powers are protected, and, here, the devil will be in the detail.

Mae yna arwyddion y gallai Llywodraeth y DU ddefnyddio'r ymarfer hwn i rwyfo at yn ôl oddi wrth bwerau presennol Cymru. Nid oes llawer o werth i'r atodiad sy'n rhestru meysydd lle byddai angen cadw pwerau, gan nad yw'n cynnwys unrhyw un o'r eithriadau a fydd yn ofynnol dim ond i gynnal y setliad presennol. Mae, fodd bynnag, yn tynnu sylw at y risg y gallai rhai o adrannau Whitehall fanteisio ar hyn fel cyfle i gulhau'r setliad datganoli, mewn gwirionedd, yn hytrach na'i symud ymlaen. Mae'r atodiadau hyn yn atgyfnerthu fy marn i y bydd angen inni graffu ar y Bil Cymru drafft yn arbennig o ofalus, er mwyn sicrhau bod ein pwerau presennol yn cael eu diogelu, ac, yn hyn o beth, bydd angen inni fod yn wyliadwrus iawn o'r manylion.

It is very disappointing that there is no progress on some practical matters, where Silk did not make a recommendation, but which I have made clear are high priorities for the Welsh Government, notably alcohol licensing and ministerial powers for emergency co-ordination. There's no doubt in my mind that alcohol licensing is a public health issue, and that we should be tackling coherently this issue with our relevant responsibilities.

Mae'n siomedig iawn na fu unrhyw gynnydd ar rai materion ymarferol, lle na wnaeth Silk argymhelliad, ond yr wyf wedi'i gwneud yn glir eu bod yn flaenoriaethau uchel i Lywodraeth Cymru, yn enwedig trwyddedu alcohol a phwerau gweinidogol am gydgysylltu argyfyngau. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl i bod trwyddedu alcohol yn fater iechyd cyhoeddus, ac y dylem fod yn ymdrin â'r mater hwn yn gydlynol gyda'n cyfrifoldebau perthnasol.

I'm absolutely clear that we should view these proposals as no more, as it were, than a starter for 10. It's the precursor to very detailed work by both Governments over the coming months, and this work must be undertaken with a mindset that recognises the new reality of the United Kingdom, and fulfils the commitment to a clear, robust and lasting settlement set out in the command paper.

Rwy'n gwbl glir na ddylem weld y cynigion hyn fel dim mwy, fel petai, na chwestiwn cyntaf am 10 pwynt. Mae'n rhagflaenydd i waith manwl iawn gan y ddwy Lywodraeth yn ystod y misoedd nesaf, ac mae'n rhaid i'r gwaith hwn gael ei wneud â meddylfryd sy'n cydnabod realiti newydd y Deyrnas Unedig, ac sy'n gwireddu'r ymrwymiad i setliad clir, cadarn a pharhaol a nodir yn y papur gorchymyn.

To conclude, then, the Secretary of State's announcement represents the baseline offer—the things we can expect to get no matter who takes office after the general election. It is progress, and I do acknowledge the efforts that the Secretary of State has made to get us to this point. But this is no more than a staging post to which we will now return after the general election in order to craft a new and sustainable system of Government: one that will resolve many of the constitutional anomalies and disparities that currently exist. I look forward to fully participating in that process.

I gloi, felly, mae cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynrychioli'r cynnig llinell sylfaen—y pethau y gallwn ddisgwyl eu cael ni waeth pwy fydd yn y swydd ar ôl yr etholiad cyffredinol. Mae'n gam ymlaen, ac rwyf yn cydnabod yr ymdrechion y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u gwneud er mwyn inni gyrraedd y pwynt hwn. Ond nid yw hyn yn ddim mwy na man aros y byddwn bellach yn dychwelyd ato ar ôl yr etholiad cyffredinol er mwyn llunio system newydd a chynaliadwy o Lywodraethu: un a fydd yn datrys llawer o'r anghysondebau a'r gwahaniaethau cyfansoddiadol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rwy'n edrych ymlaen at gymryd rhan lawn yn y broses honno.

14:32 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the First Minister for his statement this afternoon. Obviously, we've spent a few meetings together, in various rooms, either this side of the M4, or the other side of the M4. I do have to say that I don't recognise some of the comments he makes in his statement today, in particular when he talks about a 'rushed, incoherent and unsatisfactory' process. I don't recall you ever passing comment that you felt that that was the process that we were engaged in, and I do recall that, like everyone else who was engaged in this process—and I pay tribute to everyone who was engaged in the process—they found it a very constructive process.

Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Yn amlwg, rydym wedi treulio ambell i gyfarfod gyda'n gilydd, mewn gwahanol ystafelloedd, naill ai ar yr ochr hon i'r M4, neu ar yr ochr draw i'r M4. Mae'n rhaid imi ddweud nad wyf yn adnabod rhai o'r sylwadau y mae'n eu gwneud yn ei ddatganiad heddiw, yn enwedig pan ei fod yn sôn am broses 'frysiog, anghydlynol ac anfoddhaol'. Nid wyf yn eich cofio erioed yn dweud eich bod yn teimlo ein bod yn cymryd rhan mewn proses o'r fath, ac rwyf yn cofio, fel pawb arall a fu'n cymryd rhan yn y broses hon—a hoffwn dalu teyrnged i bawb a fu'n cymryd rhan yn y broses—eu bod yn ei gweld yn broses adeiladol iawn.

I mean, it is a fact that we are not going to go down the road that the party opposite wish to endure, which is independence, as such, but there is a willingness to understand the devolution settlement that we want for the future, and that we want to shape, in light of the Scottish referendum. And so, it is bringing all that together, and finding a consensus where we can agree. I do take the point that the First Minister makes about this, obviously, being the base offer, because, in those types of negotiations, it is always going to be what is the lowest common denominator that everyone can agree to, and what is taken off the table as those negotiations progress.

Hynny yw, mae'n ffaith nad ydym yn mynd i fynd ar hyd y ffordd yr hoffai'r blaid gyferbyn inni ei dilyn, sef annibyniaeth, fel y cyfryw, ond mae yma barodrwydd i ddeall y setliad datganoli yr hoffem ei gael yn y dyfodol, ac yr hoffem ei lunio, yng ngoleuni refferendwm yr Alban. Ac felly, mae'n fater o ddod â hynny i gyd at ei gilydd, a dod o hyd i gonsensws y gallwn gytuno arno. Rwyf yn derbyn pwynt y Prif Weinidog mai'r cynnig sylfaen, yn amlwg, yw hwn, oherwydd bydd unrhyw drafodaeth o'r math hwnnw yn fater o ganfod beth yw'r nodwedd gyffredin y gall pawb gytuno arni, a beth a gymerir oddi ar y bwrdd wrth i'r trafodaethau hynny fynd rhagddynt.

I believe that the St David's Day announcement, speech—call it what you will—last Friday, was a very positive move forward in areas where, at the start of this Assembly, and, indeed, the start of the Westminster Parliament, in 2010, many people could have only dreamed that this devolution settlement was going to enter into, around energy consents, for example, the reserved powers model, and the other areas that are encapsulated in the agreement, and also around funding, which are areas that you and the Minister for Finance and Government Business have brought forward time and time again. In the letter that you have sent out today, saying that the Chancellor has not engaged in the process with the Welsh Government, there are letters between the finance Minister, back in October, and at the end of January, with the discussions that she was having with the Chief Secretary to the Treasury, Danny Alexander, who was leading the discussions for the Government, on these particular issues. So, I do believe that you are putting a red herring before people, when such significant progress has been made on the funding issue about putting forward the floor.

Credaf fod cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi, neu'r araith—galwch ef yn beth bynnag y mynnwch—ddydd Gwener diwethaf, yn gam cadarnhaol iawn ymlaen mewn meysydd lle, ar ddechrau'r Cynulliad hwn, ac, yn wir, ar ddechrau Senedd San Steffan, yn 2010, na allai llawer o bobl ond bod wedi breuddwydio y byddai'r setliad datganoli hwn yn cyrraedd, o ran cydsyniadau ynni, er enghraifft, y model cadw pwerau, a'r meysydd eraill sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb, a hefyd o amgylch ariannu, sef meysydd yr ydych chi a Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi'u codi dro ar ôl tro. Yn y llythyr yr ydych wedi'i anfon allan heddiw, i ddweud nad oedd y Canghellor wedi cymryd rhan yn y broses gyda Llywodraeth Cymru, mae llythyrau rhwng y Gweinidog cyllid, yn ôl ym mis Hydref, ac ar ddiwedd mis Ionawr, gyda'r trafodaethau yr oedd hi'n eu cael gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, Danny Alexander, a oedd yn arwain y trafodaethau ar ran y Llywodraeth, ar y materion penodol hyn. Felly, rwyf yn credu eich bod yn codi sgwarnogod i bobl, pan fo cynnydd mor sylweddol wedi'i wneud o ran ariannu ynglŷn â chyflwyno'r terfyn isaf.

I do ask the First Minister: why the change of heart? You clearly were signed up to making sure that the funding issue was addressed; it has been addressed by this announcement. Ultimately, there is now a need to progress to the referendum for income tax powers here in Wales. We know that's not going to be tomorrow. We know that's not going to be next week; it's going to be some time in the future. But this constant prevarication by the First Minister really does nothing to win the confidence of the people of Wales that a future Government coming out of this institution should have those powers and responsibilities, so that it is empowered to raise some of its money and be accountable for the way it spends it. I do also ask the First Minister if there is any rolling back from Labour support for this process, by the language that is used in his speech today about it being 'rushed, incoherent and unsatisfactory' and, in particular, comments in the press attributed to senior Labour sources, on the weekend, criticising the process as well. Can you confirm that Labour are firmly signed up to what is in this agreement and, irrespective of whatever the outcome after May—and I very much hope it will be a majority Conservative Government as you'd expect me to say—there will be no rolling back on Labour's part and using some of the lines that they have been putting out over the last couple of days?

Rwyf yn gofyn i'r Prif Weinidog: pam y newid meddwl? Roeddech yn amlwg wedi ymrwymo i sicrhau bod y mater cyllid yn cael sylw; mae wedi cael sylw drwy'r cyhoeddiad hwn. Yn y pen draw, mae angen symud ymlaen nawr at y refferendwm ar bwerau treth incwm yma yng Nghymru. Rydym yn gwybod na fydd hynny'n digwydd yfory. Rydym yn gwybod na fydd yn digwydd yr wythnos nesaf; bydd yn digwydd rhyw dro yn y dyfodol. Ond, yn wir, nid yw'r osgoi ateb cyson hwn gan y Prif Weinidog yn gwneud dim i ennill hyder pobl Cymru y dylid rhoi'r pwerau a'r cyfrifoldebau hynny i Lywodraeth yn y dyfodol yn y sefydliad hwn, fel bod ganddi'r grym i godi rhywfaint o'i harian ei hun a bod yn atebol am sut y mae'n ei wario. Gofynnaf i'r Prif Weinidog hefyd a yw cefnogaeth Llafur i'r broses hon yn lleihau o gwbl, o ran yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn ei araith heddiw am ei bod yn 'frysiog, yn anghydlynol ac yn anfoddhaol' ac, yn arbennig, sylwadau yn y wasg a briodolir i swyddogion uwch Llafur, ar y penwythnos, hefyd yn beirniadu'r broses. A allwch chi gadarnhau bod Llafur yn gwbl ymroddedig i'r hyn sydd yn y cytundeb hwn ac, ni waeth beth fydd y canlyniad ar ôl mis Mai—ac rwyf yn gobeithio'n fawr mai Llywodraeth Geidwadol gyda mwyafrif a gawn ni, fel y byddech yn disgwyl imi ei ddweud—na fydd unrhyw droi'n ôl ar ran Llafur gan ddefnyddio rhai o'r llinellau y maent wedi bod yn eu defnyddio yn ystod y diwrnodau diwethaf?

I also note in the statement today that the First Minister talks about little or no progress—well, no progress—on policing and criminal justice. Again, I'd be most grateful if the First Minister could indicate if there is Labour support for the devolution of policing and criminal justice, namely Labour support in London for that particular process, not the Welsh Government, because, obviously, these were parties that were engaged in this discussion. They weren't discussions that we were participating in, Government to Government; it was the parties collectively, with Westminster representatives and Assembly representatives in the same room.

Nodaf hefyd yn y datganiad heddiw fod y Prif Weinidog yn sôn am ychydig neu ddim cynnydd—wel, dim cynnydd—ar blismona a chyfiawnder troseddol. Unwaith eto, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Prif Weinidog nodi a yw Llafur yn cefnogi datganoli plismona a chyfiawnder troseddol, hynny yw a yw Llafur yn Llundain yn cefnogi'r broses benodol honno, nid Llywodraeth Cymru, oherwydd, yn amlwg, pleidiau oedd y rhain a fu'n cymryd rhan yn y drafodaeth hon. Nid oeddent yn drafodaethau yr oeddem ni'n cymryd rhan ynddynt, Lywodraeth i Lywodraeth; y pleidiau a wnaeth hynny ar y cyd, gyda chynrychiolwyr o San Steffan a chynrychiolwyr y Cynulliad yn yr un ystafell.

I would also ask the First Minister if he could actually elaborate on where he believes Wales have been treated as second-class citizens in this process. I do believe, as I said in my opening remarks, that this process has met many, if not all, the needs to create a sustainable devolved settlement that many people would have laughed at at the start of 2011 or 2010 when Westminster and the Assembly came into being. The reserved powers model, for example, was very much an issue that was discussed at length in this Chamber and this is a model of governance that we're going to move to. I do take the point that the First Minister makes in his statement that, like any legislation, it would have to be scrutinised line by line to make sure that there is no rowing back. But, I don't believe for one minute that there is the intention or the will to try and do that. There is a will to try and create a sustainable devolution settlement that ultimately will support this institution and, indeed, support future Governments that flow out of this institution.

Byddwn hefyd yn gofyn i'r Prif Weinidog a allai ymhelaethu mewn gwirionedd ar ble mae'n credu y cafodd Cymru eu trin fel dinasyddion eilradd yn y broses hon. Rwyf yn credu, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, bod y broses hon wedi bodloni llawer, os nad y cyfan, o'r anghenion i greu setliad datganoledig cynaliadwy y byddai llawer o bobl wedi chwerthin am ei ben ar ddechrau 2011 neu 2010 pan ddaeth San Steffan a'r Cynulliad i fodolaeth. Roedd y model cadw pwerau, er enghraifft, yn bendant yn fater a drafodwyd yn helaeth yn y Siambr hon ac mae hwn yn fodel llywodraethu yr ydym am symud ato. Rwyf yn derbyn y pwynt y mae'r Prif Weinidog yn ei wneud yn ei ddatganiad y byddai'n rhaid, fel unrhyw ddeddfwriaeth, craffu arno fesul llinell i wneud yn siŵr nad oes unrhyw rwyfo at yn ôl. Ond, nid wyf yn credu am funud bod bwriad nac ewyllys i geisio gwneud hynny. Mae yna ewyllys i geisio creu setliad datganoli cynaliadwy a fydd yn y pen draw yn cefnogi'r sefydliad hwn ac, yn wir, yn cefnogi Llywodraethau'r dyfodol a fydd yn llifo allan o'r sefydliad hwn.

I do pay tribute to the work of the Secretary of State in this who has led a process that has brought this process out of the deep freeze. I think the First Minister will recognise that term, because it was used on several occasions and the First Minister did agree with the leadership that the Secretary of State did offer. We might disagree around this Chamber, as I said. I am not likely to move to the position of what Plaid Cymru would want, which is independence. However, I think we all agree that there is a position that we can rally around and this St David's Day offering does offer us, as an institution and as parties, solutions to many of the issues that have been constitutionally challenging to the discussion and debate here in Wales. I just very much hope that now we don't end up in political point scoring and that we ultimately seek to deliver these options for the betterment of the country of Wales within the union of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland.

Rwyf yn talu teyrnged i waith yr Ysgrifennydd Gwladol yn hyn o beth; mae ef wedi arwain proses sydd wedi dod â'r broses hon allan o'r rhewgell. Rwy'n credu y bydd y Prif Weinidog yn adnabod y term hwnnw, oherwydd cafodd ei ddefnyddio ar sawl achlysur ac roedd y Prif Weinidog yn cytuno â'r arweinyddiaeth yr oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei chynnig. Efallai y gwnawn ni anghytuno o amgylch y Siambr hon, fel y dywedais. Nid wyf yn debygol o symud i'r safbwynt y byddai ei eisiau ar Blaid Cymru, sef annibyniaeth. Fodd bynnag, credaf y gallwn ni gytuno bod yna safbwynt y gallwn ni i gyd gytuno arno a bod y cynnig Dydd Gŵyl Dewi hwn yn cynnig i ni, fel sefydliad ac fel pleidiau, atebion i lawer o'r materion sydd wedi bod yn gyfansoddiadol heriol i'r drafodaeth a'r ddadl yma yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio'n fawr iawn na fyddwn nawr yn ceisio sgorio pwyntiau gwleidyddol, ac y byddwn yn y pen draw yn ceisio cyflawni'r dewisiadau hyn er lles gwlad Cymru o fewn undeb Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

14:38

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Can I thank the leader of the opposition for his comments? First of all, there is no rowing back from this as a baseline offer. All parties, to my mind, should be supporting this and mine, certainly, will do that. The process was rushed. I don't think the Secretary of State himself would have, on reflection, chosen a process that went so quickly, but we had to make the most of it and I believe that that is exactly what happened. Initially, of course, the discussions were taking place with Westminster representatives and representatives here in different rooms at different times. I made the suggestion that we all had to be in the same room. That eventually came about. We only saw one written document towards the end of the process. It was a detailed document—we went through it; he'll know that, we were there—in terms of some of the fine detail of what was agreed and what was not.

A gaf fi ddiolch i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau? Yn gyntaf oll, nid oes unrhyw rwyfo at yn ôl oddi wrth y cynnig llinell sylfaen hwn. Dylai fod pob plaid, yn fy marn i, yn cefnogi hyn a bydd fy un i, yn sicr, yn gwneud hynny. Roedd y broses yn frysiog. Nid wyf yn credu y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol ei hun, ar ôl myfyrio, wedi dewis proses a aeth mor gyflym, ond roedd yn rhaid inni wneud y gorau ohoni a chredaf mai dyna'n union a ddigwyddodd. I ddechrau, wrth gwrs, roedd y trafodaethau'n cael eu cynnal â chynrychiolwyr San Steffan a chynrychiolwyr yma mewn gwahanol ystafelloedd ar wahanol adegau. Fi awgrymodd y dylem ni i gyd fod yn yr un ystafell. Digwyddodd hynny yn y pen draw. Dim ond un ddogfen ysgrifenedig a welsom tua diwedd y broses. Roedd yn ddogfen fanwl—aethom drwyddi; bydd yn gwybod hynny, roeddem yno—o ran rhai o fân fanylion yr hyn y cytunwyd arno a'r hyn na chytunwyd arno.

In terms of my own party's support, he mentioned policing. He'll have heard what Ed Miliband said about policing: it's going to be devolved. Neighbourhood policing, the number of constabularies that we have in Wales, the structure of policing in Wales and the way that policing is carried out in Wales are areas that we will want to see devolved. I know his party doesn't support that. We're not looking for the devolution of counter-terrorism or national security or the inspectorate or training. Those are not areas that I think need to concern us, certainly at this moment. It's all to do with the way that policing is carried out in Wales. Nothing on civil contingencies, which is exceptionally important, and there's a jagged edge there that needs to be resolved in terms of civil contingencies.

O ran cefnogaeth fy mhlaid fy hun, soniodd am blismona. Bydd wedi clywed yr hyn a ddywedodd Ed Miliband am blismona: bydd yn cael ei ddatganoli. Mae plismona yn y gymdogaeth, nifer yr heddluoedd sydd gennym yng Nghymru, strwythur plismona yng Nghymru a'r ffordd y mae plismona'n cael ei wneud yng Nghymru yn feysydd y byddwn o blaid eu datganoli. Rwy'n gwybod nad yw ei blaid ef yn cefnogi hynny. Nid ydym yn gofyn am ddatganoli gwrthderfysgaeth na diogelwch cenedlaethol na'r arolygiaeth na hyfforddiant. Nid yw'r rheini'n feysydd y credaf fod angen inni boeni amdanynt, yn sicr ar hyn o bryd. Mae hyn i gyd yn ymwneud â'r ffordd y caiff gwaith plismona ei wneud yng Nghymru. Dim byd ar argyfyngau sifil, sy'n eithriadol o bwysig, ac mae 'na ymyl garw yna y mae angen ei ddatrys o ran argyfyngau sifil posibl.

In terms of air passenger duty, again, he asks me how Wales has been treated differently. There is an example for you. Now, I suspect that the Treasury greatly regret the fact that air passenger duty is being offered to Scotland, but the fact that they regret that does not mean that it shouldn't be offered to Wales. Two wrongs don't make a right in that sense. Unfortunately, there was no progress made in that regard, without any real reason being given as to why that should be.

O ran toll teithwyr awyr, unwaith eto, mae'n gofyn imi sut y cafodd Cymru ei thrin yn wahanol. Dyna enghraifft ichi. Nawr, rwyf yn amau bod y Trysorlys yn difaru'n fawr y ffaith bod toll teithwyr awyr yn cael ei chynnig i'r Alban, ond nid yw'r ffaith eu bod yn difaru hynny'n golygu na ddylid ei chynnig i Gymru. Nid yw dau ddrwg yn gwneud da yn hynny o beth. Yn anffodus, ni wnaethpwyd dim cynnydd yn hynny o beth, ac ni roddwyd rheswm gwirioneddol am hynny ychwaith.

On the issue of funding, it's right to say that there have been discussions between the finance Minister and the Chief Secretary to the Treasury, substantial discussions, but it's also right to say—and I say this quite plainly—that it was important for us to understand in the last week or two that there was agreement across the UK Government on certain matters. We knew that Ministers in one party were telling us one thing and that Ministers in another party were telling us something different. Such is the disengagement as the general election is coming. We asked the Chancellor of the Exchequer for meetings; he wouldn't meet. We asked for a discussion; he wouldn't discuss it. I asked the Prime Minister for a meeting. He rang me last Tuesday and said to me, 'Well, this is what's going to happen. Do you like it?' I said, 'no'. That's not negotiation. Ringing me up and saying, 'This is what we're going to do' is not negotiation. I said quite plainly to him that what we needed to see was detail in terms of the funding floor, not just, as it was put to me by the Secretary of State, warm words—they are not enough, warm words—but detail on that and progress on air passenger duty. In return, I said to him that we would then move to the next stage in terms of income tax devolution, which would be to analyse the effect on Wales, how it might work in Wales and what the benefits might be for the people of Wales, but short of a referendum. I explained to the Prime Minister that agreeing to an income tax referendum for me was the equivalent of him agreeing to the devolution of criminal justice—that was the resonance of the issue to me.

O ran ariannu, mae'n wir i ddweud y bu trafodaethau rhwng y Gweinidog Cyllid a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, trafodaethau sylweddol, ond mae hefyd yn wir i ddweud—a dywedaf hyn yn ddigon plaen—ei bod yn bwysig inni ddeall yn yr wythnos neu ddwy ddiwethaf bod cytundeb yn bodoli ar draws Llywodraeth y DU ar faterion penodol. Roeddem yn gwybod bod Gweinidogion mewn un blaid yn dweud un peth wrthym ni a bod Gweinidogion mewn plaid arall yn dweud rhywbeth gwahanol wrthym ni. Dyna'r math o ddadymafael a welwn wrth i'r etholiad cyffredinol nesáu. Gwnaethom ofyn i Ganghellor y Trysorlys am gyfarfodydd; nid oedd yn fodlon cwrdd. Gwnaethom ofyn am drafodaeth; nid oed yn fodlon trafod y peth. Gofynnais i'r Prif Weinidog am gyfarfod. Ffoniodd fi ddydd Mawrth diwethaf, a dywedodd wrthyf, 'Wel, dyma beth sy'n mynd i ddigwydd. Ydych chi'n ei hoffi?' Dywedais, 'na'. Nid negodi yw hynny. Nid negodi yw fy ffonio a dweud, 'Dyma beth yr ydym ni'n mynd i'w wneud'. Dywedais yn eithaf clir wrtho fod arnom angen gweld manylion y terfyn ariannu isaf, nid dim ond, fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrthyf, geiriau cynnes—nid yw geiriau cynnes yn ddigon—ond manylion am hynny a'r cynnydd ar doll teithwyr awyr. Yn gyfnewid, dywedais wrtho y byddem wedyn yn symud i'r cam nesaf o ran datganoli treth incwm, sef dadansoddi'r effaith ar Gymru, sut y gallai weithio yng Nghymru a'r manteision posibl i bobl Cymru, ond heb gael refferendwm. Eglurais i'r Prif Weinidog fod cytuno â refferendwm treth incwm i mi yr un fath ag ef yn cytuno i ddatganoli cyfiawnder troseddol—dyna sut yr oeddwn i'n teimlo am y mater.

We then asked the Treasury to put down in writing what had been offered. I have to say, that never came. We asked on more than one occasion for something in writing that we could look at to see what the offer was as far as Wales was concerned. They refused to do it. We asked the Wales Office, it didn't come from the Wales Office. We asked the Treasury, it didn't come from the Treasury. So, by Friday of last week, we had nothing in writing: no documentation in terms of what the financial offer might be. Now, that is not negotiation, I have to say. I used to negotiate professionally at one time before I came into this job, and that's not negotiation. There should have been further discussion; there should have been discussion at high level to a greater extent than did occur. That said, we have a recognition that Wales needs a floor. What we don't have is any detail on how that floor will actually operate. Until we get that detail, it's very difficult, of course, to examine once again the issue of income tax devolution.

Fe wnaethom ofyn i'r Trysorlys wedyn i nodi'n ysgrifenedig yr hyn a gynigiwyd. Mae'n rhaid imi ddweud na ddaeth hynny byth. Gwnaethom ofyn ar fwy nag un achlysur am rywbeth yn ysgrifenedig y gallem edrych arno i weld beth oedd y cynnig cyn belled ag yr oedd Cymru dan sylw. Roeddent yn gwrthod gwneud hynny. Gwnaethom ofyn i Swyddfa Cymru, ni ddaeth gan Swyddfa Cymru. Gwnaethom ofyn i'r Trysorlys, ni ddaeth gan y Trysorlys. Felly, erbyn dydd Gwener yr wythnos diwethaf, nid oedd gennym unrhyw beth ysgrifenedig: dim dogfennaeth ynglŷn â'r hyn y gallai'r cynnig ariannol fod. Nawr, nid negodi yw hynny, mae'n rhaid imi ddweud. Roeddwn yn arfer negodi'n broffesiynol ar un adeg cyn imi ddod i'r swydd hon, ac nid negodi yw hynny. Dylid bod wedi cael trafodaeth bellach; dylid bod wedi cael trafodaeth ar lefel uchel i raddau mwy nag a fu. Wedi dweud hynny, mae gennym gydnabyddiaeth bod angen terfyn isaf ar Gymru. Yr hyn nad oes gennym unrhyw fanylion amdano yw sut y bydd y terfyn isaf hwnnw'n gweithio mewn gwirionedd. Hyd nes y cawn y manylion, mae'n anodd iawn, wrth gwrs, edrych unwaith eto ar y mater o ddatganoli treth incwm.

But I have to say that one of the issues that troubles me, again—and I think this is an issue in Westminster; it's an issue that affects more than one party—is that there is a lack of understanding that the UK needs constitutional change as a whole. Trying to deal with Scotland, Wales and Northern Ireland in different rooms—and indeed England in a different room—is not going to be sustainable for the future. If there's a lesson to be learned from this process, it's that we need to make sure that there is a proper constitutional convention and that there's a proper understanding of how the different bits of the UK fit together for the future, because I want to make sure that the UK continues. At the moment, I'm not convinced that there is an understanding of the seriousness of the situation amongst some in Westminster.

Ond mae'n rhaid imi ddweud mai un o'r materion sy'n fy mhoeni, unwaith eto—ac rwy'n credu bod hyn yn broblem yn San Steffan; mae'n fater sy'n effeithio ar fwy nag un blaid—yw bod diffyg dealltwriaeth bod angen newid cyfansoddiadol ar y DU yn ei chyfanrwydd. Ni fydd ceisio ymdrin â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn gwahanol ystafelloedd—ac yn wir Lloegr mewn gwahanol ystafell—yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Os oes gwers i'w dysgu o'r broses hon, y wers yw bod angen inni wneud yn siŵr bod gennym gonfensiwn cyfansoddiadol priodol a bod gennym ddealltwriaeth briodol o sut y mae'r gwahanol rannau o'r DU yn cydweddu â'i gilydd ar gyfer y dyfodol, oherwydd rwyf i eisiau gwneud yn siŵr bod y DU yn parhau. Ar hyn o bryd, nid wyf yn argyhoeddedig bod rhai pobl yn San Steffan yn deall difrifoldeb y sefyllfa.

So, some progress made; more to do; process not ideal. But, you know, I agree with the leader of the opposition: much more has been devolved than would have been envisaged even four years ago, and certainly 16 years ago.

Felly, rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud; mwy i'w wneud; proses nad yw'n ddelfrydol. Ond, wyddoch chi, rwyf yn cytuno ag arweinydd yr wrthblaid: mae llawer mwy wedi ei ddatganoli nag y byddai neb wedi ei ragweld hyd yn oed bedair blynedd yn ôl, ac yn sicr 16 mlynedd yn ôl.

14:43

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement, First Minister. We've got a Plaid Cymru debate here tomorrow, where I hope to be able to set out our position in greater detail and also to set out a way forward. But, before I ask you some questions, I will say at the outset that we as a Chamber should not be welcoming last week's announcement. It represents another small step when what this country needs right now are great strides. It doesn't settle the constitutional question, but leaves us with another mess that will now need to be cleaned up in the next Westminster Parliament.

Diolch am eich datganiad, Brif Weinidog. Mae gennym ddadl Plaid Cymru yma yfory, pryd yr wyf yn gobeithio gallu nodi ein safbwynt yn fwy manwl a hefyd nodi ffordd ymlaen. Ond, cyn imi ofyn rhai cwestiynau ichi, dywedaf ar y dechrau na ddylem fel Siambr groesawu cyhoeddiad yr wythnos diwethaf. Mae'n cynrychioli cam bach arall pan fo angen camau mawr ar y wlad hon ar hyn o bryd. Nid yw'n setlo'r cwestiwn cyfansoddiadol, ond mae'n ein gadael mewn llanast arall a fydd nawr yn gorfod cael ei lanhau gan Senedd nesaf San Steffan.

First Minister, given the accusations that your party is divided and that your party blocked proposals for further devolution, do you take any responsibility for the nature of the package that has been put on the table? You, as a Welsh Government, should have had a clear view on what should be reserved, and, more importantly, it should have been made clearer earlier in the process whether you have the permission and support of your party. You noted last week that the package did not deliver parity with Scotland. What are you proposing to do differently on funding?

Brif Weinidog, o ystyried y cyhuddiadau bod eich plaid wedi'i rhannu a bod eich plaid wedi rhwystro cynigion ar gyfer datganoli pellach, a ydych chi'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb am natur y pecyn a roddwyd ar y bwrdd? Dylech chi, fel Llywodraeth Cymru, fod wedi cael golwg clir ar yr hyn y dylid bod wedi'i gadw, ac, yn bwysicach, dylid bod wedi ei gwneud yn gliriach yn gynharach yn y broses pa un a oes gennych ganiatâd a chefnogaeth eich plaid. Nodwyd gennych yr wythnos diwethaf nad oedd y pecyn yn cyflwyno cydraddoldeb â'r Alban. Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud yn wahanol o ran ariannu?

Also, we've heard mixed signals from you and your party and your Government on policing. Your leader referred to a model of policing developed in consultation with the Home Office. Can you confirm this afternoon whether policing will be a reserved matter under the plans of your party and of your Government? Related to the question of policing, do you support the gradual and phased transfer of criminal justice powers that was recommended by the Silk commission?

Hefyd, rydym wedi clywed arwyddion cymysg gennych chi a'ch plaid a'ch Llywodraeth ar blismona. Cyfeiriodd eich arweinydd at fodel plismona wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Swyddfa Gartref. A allwch chi gadarnhau y prynhawn yma pa un a fydd plismona'n fater a gedwir yn ôl o dan gynlluniau eich plaid a'ch Llywodraeth? Yn gysylltiedig â'r cwestiwn am blismona, a ydych chi o blaid trosglwyddo pwerau cyfiawnder troseddol yn raddol a fesul cam, fel yr argymhellodd comisiwn Silk?

14:45

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, she offers no evidence as to divisions within my own party, nor does she offer any evidence that, in some way, we have blocked further devolution. No evidence at all of that. I'm not going to go into the detail of what happened at those meetings; I don't think that's right. One of the great advantages of those meetings is that nothing was leaked from those meetings, nor were any documents, and I welcome that. I'm not going to go into detail in terms of what happened in the meetings, but she will know that we went through, in some detail, particularly in the final meeting, some of the areas of devolution. I'm not revealing too much if I say that she and I had questions in certain areas as to why something was felt that is shouldn't be devolved, and those issues were clarified. That much was important, and, of course, Elfyn Llwyd, who led the conversation, also raised issues, which were then clarified. But, there was no question of blocking further devolution at all.

Yn gyntaf oll, nid yw hi'n cynnig unrhyw dystiolaeth o raniadau o fewn fy mhlaid fy hun, nac ychwaith yn cynnig unrhyw dystiolaeth ein bod, mewn rhyw ffordd, wedi rhwystro datganoli pellach. Dim tystiolaeth o gwbl o hynny. Nid wyf yn mynd i sôn am fanylion yr hyn a ddigwyddodd yn y cyfarfodydd hynny; nid wyf yn credu bod hynny'n iawn. Un o fanteision mawr y cyfarfodydd hynny yw na chafodd unrhyw beth ei ollwng o'r cyfarfodydd hynny, nac unrhyw ddogfennau ychwaith, a chroesawaf hynny. Nid wyf yn mynd i sôn am fanylion yr hyn a ddigwyddodd yn y cyfarfodydd, ond bydd hi'n gwybod ein bod wedi sôn yn eithaf manwl, yn enwedig yn y cyfarfod olaf, am rai o'r meysydd datganoli. Nid wyf yn datgelu gormod os wyf yn dweud bod ganddi hi a minnau gwestiynau mewn meysydd penodol ynghylch pam y teimlwyd na ddylid datganoli rhywbeth, ac eglurwyd y materion hynny. Roedd cymaint â hynny'n bwysig, ac, wrth gwrs, cododd Elfyn Llwyd, a arweiniodd y sgwrs, faterion hefyd, a gafodd yna eu hegluro. Ond, nid oedd dim sôn am rwystro datganoli pellach o gwbl.

We have made our position clear on policing in terms of there being policing powers devolved to Wales, in terms of the structure of the constabularies being devolved, and in terms of whether or not Wales gets police and crime commissioners; that will be devolved to Wales. Whether that's done via a reserved matter with exceptions or in another way, that's a constitutional matter to be resolved, but that is where we stand as a party. That is not where the Conservative party are; they don't want to see any policing or justice devolved. They've said that, but that is not where we are as a party.

Rydym wedi gwneud ein safbwynt yn glir ar blismona o ran datganoli pwerau plismona i Gymru, o ran strwythur yr heddluoedd i'w datganoli, ac o ran a yw Cymru'n cael comisiynwyr heddlu a throseddu ai peidio; bydd hynny yn cael ei ddatganoli i Gymru. Mater cyfansoddiadol i'w ddatrys fydd pa un a wneir hynny drwy fater a gadwyd yn ôl gydag eithriadau ynteu mewn ffordd arall, ond dyna ble'r ydym ni'n sefyll fel plaid. Nid dyna ble mae'r blaid Geidwadol; nid ydynt hwy am weld datganoli unrhyw blismona na chyfiawnder. Maent wedi dweud hynny, ond nid dyna ble'r ydym ni fel plaid.

In terms of funding, we have said many times that we will address the issue of Wales's fair funding. The floor is accepted in principle; that must be accepted in principle by all parties and then built on in terms of a timetable for the future.

O ran ariannu, rydym wedi dweud sawl gwaith y byddwn yn ymdrin â mater ariannu teg i Gymru. Mae'r terfyn isaf yn cael ei dderbyn mewn egwyddor; mae'n rhaid i bob plaid ei dderbyn mewn egwyddor ac yna adeiladu arno o ran amserlen ar gyfer y dyfodol.

14:46

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Parity with Scotland?

Cydraddoldeb â'r Alban?

14:46

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will come to that in a second; this is an important point. In terms of criminal justice, she will know my position, that, in time, I would support moves towards the devolution of criminal justice. I wouldn't say it's a priority now, but it is certainly an issue for the future, as recommended by Silk. I can say to her that I don't need permission from my party to say or do anything; I lead my party in Wales. I do work with my colleagues in Westminster; we don't spend all our time not talking to each other—of course not; we work very closely with our colleagues in Westminster. But, as the leader of the Welsh Government, working with my colleagues on these benches, it's for me to put forward what the Welsh Government's view is, regardless of the views of others. I think it's important to state that.

Dof at hynny mewn eiliad; mae hwn yn bwynt pwysig. O ran cyfiawnder troseddol, bydd hi'n gwybod fy safbwynt, sef y byddwn, mewn amser, o blaid symudiadau tuag at ddatganoli cyfiawnder troseddol. Ni fyddwn yn dweud bod hynny'n flaenoriaeth nawr, ond mae'n sicr yn fater ar gyfer y dyfodol, fel yr argymhellodd Silk. Gallaf ddweud wrthi nad oes angen caniatâd arnaf gan fy mhlaid i ddweud na gwneud unrhyw beth; fi sy'n arwain fy mhlaid yng Nghymru. Rwyf yn gweithio gyda fy nghydweithwyr yn San Steffan; nid ydym yn treulio ein holl amser ddim yn siarad â'n gilydd—wrth gwrs nad ydym; rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n cydweithwyr yn San Steffan. Ond, fel arweinydd Llywodraeth Cymru, yn gweithio gyda fy nghydweithwyr ar y meinciau hyn, fy lle i yw cyflwyno barn Llywodraeth Cymru, ni waeth beth yw barn pobl eraill. Rwy'n credu ei bod yn bwysig nodi hynny.

On parity with Scotland, she will have heard me say—. I have to say that, at the beginning of what she said, she mentioned the point that she wasn't happy with this, which I understand—that it didn't go far enough, which I understand—in a slightly accusatory way at me, as if it was my fault. But, I can say to her that she will have heard me say that I believe that what is on offer to Scotland should be on offer to Wales; I've used that phrase many, many times. It doesn't necessarily mean that the powers should be identical. We would have to assess what powers would be appropriate for Wales. In terms of financing—she mentions money—Wales needs to be funded fairly and the floor is a start in that direction, and an important move in that direction.

O ran cydraddoldeb â'r Alban, bydd hi wedi fy nghlywed yn dweud—. Mae'n rhaid imi ddweud, ar ddechrau'r hyn a ddywedodd hi, ei bod wedi sôn am y pwynt nad oedd hi'n hapus gyda hyn, ac rwyf yn deall hynny—nad oedd yn mynd yn ddigon pell, ac rwyf yn deall hynny—mewn modd ychydig yn gyhuddgar tuag ataf fi, fel petasai hynny fy mai i. Ond, gallaf ddweud wrthi y bydd wedi fy nghlywed yn dweud fy mod yn credu y dylai'r hyn sy'n cael ei gynnig i'r Alban yn cael ei gynnig i Gymru hefyd; rwyf wedi defnyddio'r ymadrodd hwnnw lawer, lawer gwaith. Nid yw o reidrwydd yn golygu y dylai'r pwerau fod yn union yr un fath. Byddai'n rhaid i ni asesu pa bwerau fyddai'n briodol i Gymru. O ran ariannu—mae hi'n sôn am arian—mae angen ariannu Cymru'n deg ac mae'r terfyn isaf yn ddechreuad i'r cyfeiriad hwnnw, ac yn symudiad pwysig i'r cyfeiriad hwnnw.

In terms of what we must avoid—and she must understand this—what we must avoid are traps. For example, one of the areas discussed was the devolution of S4C. At the moment, the funding situation of S4C is so precarious, because of the licence, which we have no control over, it would be very difficult to take control over S4C without knowing what the financial outlook of S4C would be in the future. It would make no sense at all to do that. So, we can't just leap in and grab things without thinking about what the long-term implication might be, which is why, of course, when it came to the short discussions that we had on finance, I was not prepared to sign up to a situation where we did not have exact clarity in terms of a floor, where we did not have progress on APD, while at the same time being asked to concede a referendum on income tax. There needed to be a quid pro quo. That was not there to the extent that I wanted to see, but that is the essence of the way you deal with these matters.

O ran yr hyn y mae'n rhaid inni ei osgoi—ac mae'n rhaid iddi ddeall hyn—yr hyn y mae'n rhaid inni ei osgoi yw trapiau. Er enghraifft, un o'r meysydd a drafodwyd oedd datganoli S4C. Ar hyn o bryd, mae sefyllfa ariannu S4C mor ansicr, oherwydd y drwydded, sy'n rhywbeth nad oes gennym unrhyw reolaeth drosto, byddai'n anodd iawn cymryd rheolaeth dros S4C heb wybod beth fyddai rhagolygon ariannol S4C yn y dyfodol. Ni fyddai'n gwneud dim synnwyr o gwbl i wneud hynny. Felly, ni allwn neidio i mewn a chymryd gafael ar bethau heb feddwl beth y gallai'r goblygiad tymor hir fod, a dyna pam, wrth gwrs, pan gawsom ein trafodaethau byr am gyllid, nad oeddwn yn fodlon ymrwymo i sefyllfa lle nad oedd gennym eglurder llwyr o ran y terfyn isaf, lle nad oedd gennym gynnydd ar doll teithwyr awyr, tra'r oeddent ar yr un pryd yn gofyn inni ildio i refferendwm ar dreth incwm. Roedd angen quid pro quo. Nid oedd hynny nar gael i'r graddau yr oeddwn yn dymuno ei weld, ond dyna yw hanfod y ffordd yr ydych chi'n ymdrin â'r materion hyn.

She and I are not in a very different place, leaving aside the question of independence. She and I both take the view that Wales should have the same kind of, if I can use the phrase, parity of esteem with Scotland. I don't believe that's the case. I will give one example as to why I don't believe that's the case: a letter came from the Secretary of State yesterday to my office and it went to the media first, before I saw it. So, the first I heard of it was when I first heard of the letter being referred to on the BBC. That is not respect and that is not parity of esteem, and I trust that won't happen in the future.

Nid yw hi a minnau mewn lle gwahanol iawn, gan adael y cwestiwn o annibyniaeth o'r neilltu. Mae hi a minnau o'r farn y dylai Cymru gael yr un math o, os caf ddefnyddio'r ymadrodd, barch cydradd â'r Alban. Nid wyf yn credu bod gennym hynny. Rhoddaf un enghraifft o pam nad wyf yn credu bod gennym hynny: daeth llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddoe i fy swyddfa i ac aeth i'r cyfryngau'n gyntaf, cyn imi ei weld. Felly, y tro cyntaf imi glywed amdano oedd y tro cyntaf imi glywed rhywun yn cyfeirio at y llythyr ar y BBC. Nid yw hynny'n barch ac nid yw hynny'n barch cydradd, a hyderaf na fydd hynny'n digwydd yn y dyfodol.

14:49

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I first of all start by welcoming the St David's Day agreement as a step in the right direction? I think the First Minister and other Members here will know that the Welsh Liberal Democrats would go further, but, of course, what we have in front of us is an agreement that, effectively, is the lowest common denominator, one which everyone can agree on. It'll be for the next Government to move forward in terms of how that is negotiated. It seems to me, First Minister, that, just in the reserved powers issue, we have a fundamental and very important step forward, which will actually transform the way we do business here in the Welsh Assembly. That would apply particularly in relation to Mick Antoniw's Bill as well as a number of other items of legislation that we want to do but feel we cannot at this stage because of the way the powers have been set out. So, I would hope that we can recognise that that reserved powers model is a major step forward.

A gaf fi ddechrau'n gyntaf oll drwy groesawu'r cytundeb Dydd Gŵyl Dewi fel cam i'r cyfeiriad cywir? Rwy'n credu y bydd y Prif Weinidog ac Aelodau eraill yma'n gwybod y byddai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n mynd ymhellach, ond, wrth gwrs, yr hyn sydd gennym ger ein bron yw cytundeb sydd, i bob diben, yn nodwedd gyffredin, un y gall pawb gytuno arno. Lle'r Llywodraeth nesaf fydd symud ymlaen o ran sut i negodi hynny. Mae'n ymddangos i mi, Brif Weinidog, o ran y mater cadw pwerau yn unig, ein bod wedi cymryd cam sylfaenol a phwysig iawn ymlaen, a fydd mewn gwirionedd yn gweddnewid y ffordd yr ydym yn cynnal busnes yma yn y Cynulliad. Byddai hynny'n arbennig o berthnasol i Fil Mick Antoniw yn ogystal â nifer o eitemau deddfwriaeth eraill yr hoffem eu gwneud ond yr ydym yn teimlo na allwn ar hyn o bryd oherwydd y ffordd y mae'r pwerau wedi eu gosod. Felly, byddwn yn gobeithio y gallwn gydnabod bod y model cadw pwerau hwnnw'n gam mawr ymlaen.

I think it is right, as I said, that the Welsh Liberal Democrats would go further than this. What we have is a step change. Can you confirm, First Minister, in relation to the funding floor—I accept what you say, that the detail is not there—that your Ministers will now be talking to the Treasury to get that detail in place as soon as possible? Will you acknowledge the comments by Gerry Holtham on the IWA website today that the St David's Day agreement effectively delivers as near as possible fair funding for Wales? That, in itself, raises issues as to what we consider to be fair funding, but certainly it indicates that more work now needs to be done in terms of what exactly the floor means for Wales and what level of funding we would accept and we would consider to be a fair and equitable one for the delivery of services in Wales.

Rwy'n credu ei bod yn wir, fel y dywedais, y byddai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn mynd ymhellach na hyn. Mae'r hyn sydd gennym yn newid sylweddol. A allwch chi gadarnhau, Brif Weinidog, o ran y terfyn ariannu isaf—derbyniaf yr hyn a ddywedwch, nad yw'r manylion yno—y bydd eich Gweinidogion nawr yn siarad â'r Trysorlys i roi'r manylion hynny yn eu lle cyn gynted ag y bo modd? A wnewch chi gydnabod y sylwadau gan Gerry Holtham ar wefan y Sefydliad Materion Cymreig heddiw bod y cytundeb Dydd Gŵyl Dewi i bob diben yn darparu cyllid sydd mor agos ag y bo modd i fod yn deg i Gymru? Mae hynny, ynddo'i hun, yn codi materion ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei ystyried yn ariannu teg, ond yn sicr mae'n dangos bod angen gwneud mwy o waith nawr o ran union ystyr y terfyn isaf i Gymru a pha lefel o gyllid y byddem yn ei dderbyn ac yn ei ystyried yn deg a chyfiawn ar gyfer darparu gwasanaethau yng Nghymru.

In terms of the other issues, First Minister, I understand, of course, that Plaid Cymru would like to go further, as we would. I do think that, in terms of the approach of the different parties to this, it is quite clear that what you're saying in this Chamber is different to what Owen Smith is saying on Radio Wales for example. For example, you've talked about having the same offer as Scotland. He has talked about not wanting justice being devolved to Wales. He has never gone as far as you have in this Chamber in terms of what is being delivered. If we are to move forward from this, it is important that all the parties are united, both in Cardiff bay and in Westminster, in terms of what we want to deliver from this. But, do you agree with me, in conclusion, that this is a major step forward? Unsatisfactory as it might be, it is a major step forward and it does give us a basis on which we can build, and a step forward in the sense that we have moved much further in the last five years than we have in the 10 before it in terms of putting in place the powers and responsibilities that this Welsh Government and Welsh Assembly need to deliver services for the people of Wales.

O ran y materion eraill, Brif Weinidog, rwyf yn deall, wrth gwrs, yr hoffai Plaid Cymru fynd ymhellach, fel y byddem ninnau. Rwyf yn meddwl, o ran agweddau'r gwahanol bleidiau at hyn, ei bod yn eithaf amlwg bod yr hyn yr ydych yn ei ddweud yn y Siambr hon yn wahanol i'r hyn y mae Owen Smith yn ei ddweud ar Radio Wales er enghraifft. Er enghraifft, rydych wedi sôn am gael yr un cynnig â'r Alban. Mae ef wedi dweud na hoffai i gyfiawnder gael ei ddatganoli i Gymru. Nid yw erioed wedi mynd cyn belled ag y gwnaethoch chi yn y Siambr hon o ran yr hyn sy'n cael ei ddarparu. Os ydym am symud ymlaen o hyn, mae'n bwysig bod yr holl bleidiau'n unedig, ym mae Caerdydd ac yn San Steffan, o ran yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni o hyn. Ond, a ydych chi'n cytuno â mi, i gloi, bod hwn yn gam mawr ymlaen? Er ei fod efallai'n anfoddhaol, mae'n gam mawr ymlaen ac mae'n rhoi sylfaen y gallwn adeiladu arno, ac mae'n gam ymlaen yn yr ystyr ein bod wedi symud yn llawer pellach yn y pum mlynedd diwethaf nag a wnaethom yn y 10 mlynedd cynt o ran rhoi ar waith y pwerau a'r cyfrifoldebau sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru.

14:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I entirely agree that it is a step forward. I entirely agree this takes us well beyond where we were. He and I have been here since the start. He will remember the restrictions that we faced in those days. I well remember the time of foot and mouth disease, being the Minister perceived to have responsibility even though I had no powers at all because it wasn't devolved, bizarrely, but, nevertheless, that was the situation at that time. We've moved on a lot since then, and it's provided greater clarity not just for Members in this Chamber, but for the Welsh public, many of whom already think we have powers such as policing, according to the polls.

Cytunaf yn llwyr ei fod yn gam ymlaen. Cytunaf yn llwyr fod hyn yn mynd â ni ymhell y tu hwnt i lle'r oeddem ni. Mae ef a minnau wedi bod yma ers y dechrau. Bydd yn cofio'r cyfyngiadau a oedd yn ein hwynebu yn y dyddiau hynny. Cofiaf yn dda adeg clwy'r traed a'r genau; fi oedd y Gweinidog yr ystyriwyd ei fod yn gyfrifol er nad oedd gennyf unrhyw bwerau o gwbl oherwydd nad oedd wedi'i ddatganoli, yn rhyfedd iawn, ond, beth bynnag, dyna oedd y sefyllfa bryd hynny. Rydym wedi symud ymlaen yn helaeth ers hynny, ac mae wedi darparu mwy o eglurder nid dim ond i'r Aelodau yn y Siambr hon, ond i'r cyhoedd yng Nghymru; mae llawer ohonynt eisoes yn meddwl bod gennym bwerau megis plismona, yn ôl y polau.

In terms of the funding floor, as I say, we don't have anything in writing yet. We need something in writing first—a document that we can discuss. We don't have such a document yet, and we need it. Of course we will continue discussion; there is no problem with that. Although, let's be blunt in this Chamber, I think those discussions are bound to be somewhat constrained given the fact there's a general election in May and minds will be elsewhere. I think we all understand that that will be the case. In terms of Gerry Holtham, I think that, in principle, yes, this does resolve the issue of funding as far as Wales is concerned. In principle, it does. What we need is a timescale and an understanding of when it would start, how much it's worth—all the things that I mentioned earlier on. It's that detail that's important.

O ran y terfyn ariannu isaf, fel y dywedais, nid oes gennym unrhyw beth yn ysgrifenedig hyd yma. Mae arnom angen rhywbeth yn ysgrifenedig yn gyntaf—dogfen y gallwn ei thrafod. Nid oes gennym ddogfen o'r fath hyd yn hyn, ac mae ei hangen arnom. Wrth gwrs byddwn yn parhau i drafod; nid oes problem gyda hynny. Er, dewch inni siarad yn blaen yn y Siambr hon, rwyf yn meddwl ei bod yn siŵr y bydd y ffaith bod etholiad cyffredinol ym mis Mai yn cyfyngu ar y trafodaethau hynny ac y bydd meddyliau yn rhywle arall. Rwy'n credu ein bod i gyd yn deall hynny. O ran Gerry Holtham, credaf, mewn egwyddor, ydy, mae hyn yn datrys mater ariannu cyn belled ag y mae Cymru dan sylw. Mewn egwyddor, mae'n gwneud hynny. Yr hyn sydd ei angen arnom yw amserlen a dealltwriaeth o bryd y byddai'n dechrau, faint yw ei werth—yr holl bethau y soniais amdanynt yn gynharach. Y manylion sy'n bwysig.

In terms of the reserved powers model, it potentially provides enormous clarity as far as we are concerned, as far as the people of Wales are concerned, but, again, experience tells me that there will be some departments in Whitehall—and this is not politicians necessarily—that will try to constrain devolution and try to row back from what they think has gone too far already. They must be watched very, very carefully, because that is the way they operate. We would operate in the same way, they would operate in that way and that must be examined very, very carefully.

O ran y model cadw pwerau, mae'n bosibl y gallai roi eglurder enfawr cyn belled ag yr ydym ni dan sylw, cyn belled ag y mae pobl Cymru dan sylw, ond, unwaith eto, mae profiad yn dweud wrthyf y bydd rhai adrannau yn Whitehall—ac nid gwleidyddion yw'r rhain o reidrwydd—yn ceisio cyfyngu ar ddatganoli ac yn ceisio rhwyfo at yn ôl oddi wrth yr hyn y maent yn ei gredu sydd eisoes wedi mynd yn rhy bell. Mae'n rhaid eu gwylio'n ofalus iawn, iawn, oherwydd dyna sut y maent yn gweithredu. Byddem ninnau'n gweithredu yn yr un ffordd, byddent hwy'n gweithredu yn y ffordd honno ac mae'n rhaid archwilio hynny'n ofalus iawn, iawn.

Just to make the distinction between Scotland and Wales, the offer to Wales should be the same. It does not mean that the powers that we take are exactly the same, but, in principle, the offer must be the same. In terms of powers, it's for the people of Wales, through their elected representatives, to determine which of those powers they would want. But, in principle, there's no reason why this can't be done. It comes back to my point that, if we're going to do this properly in the future, this would be done via a convention process, involving everybody, and not just by looking at Wales in isolation, Northern Ireland in isolation, Scotland in isolation, and dealing with the English question. The English question is the biggest unanswered question of them all, and that question cannot be ignored in the future. I'm glad to say that many parties are coming around to my original idea.

Dim ond i nodi'r gwahaniaeth rhwng Cymru a'r Alban, dylai fod y cynnig i Gymru yr un fath. Nid yw'n golygu bod y pwerau a gymerwn yn union yr un fath, ond, mewn egwyddor, mae'n rhaid i'r cynnig fod yr un fath. O ran pwerau, lle pobl Cymru, drwy eu cynrychiolwyr etholedig, yw penderfynu pa rai o'r pwerau hynny y byddai eu heisiau arnynt. Ond, mewn egwyddor, nid oes unrhyw reswm pam na ellir gwneud hyn. Mae'n dod yn ôl at fy mhwynt sef, os ydym yn mynd i wneud hyn yn iawn yn y dyfodol, y byddem yn ei wneud drwy broses confensiwn, sy'n cynnwys pawb, ac nid dim ond drwy edrych ar Gymru ar wahân, ar Ogledd Iwerddon ar wahân, ar yr Alban ar wahân, ac ymdrin â'r cwestiwn am Loegr. Y cwestiwn am Loegr yw'r cwestiwn heb ei ateb mwyaf ohonynt i gyd, ac ni ellir anwybyddu'r cwestiwn hwnnw yn y dyfodol. Rwy'n falch o ddweud bod llawer o bleidiau'n dod i dderbyn fy syniad gwreiddiol.

14:55 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the First Minister's statement. There are good things in the St David's Day statement, although, overall, it is disappointing. The introduction of a Barnett floor is welcome, but details are desperately needed. The devolution of bus regulation means that we can work towards a coherent bus network, something that many of us have been calling for for the last 20 years or so. The introduction of a reserved powers model, something I've talked about many times in here, should clarify the devolution settlement. The opportunity to issue bonds, in the same way as local authorities in Wales can issue bonds, has been long overdue. I am, however, disappointed that local policing, which, up until the late 1960s, used to be a local government function, and, up until the bringing in of police commissioners, mainly came under local authority representatives, is not proposed to be devolved. But, emergency co-ordination, much of which is co-ordinating work delivered by devolved bodies, is not proposed to be devolved, and the management of benefits has not been devolved, so that we in Wales would have the opportunity to end the bedroom tax and stop the unfair sanctioning currently being carried out. Does the First Minister share my disappointment in those three areas?

Rwyf yn croesawu datganiad y Prif Weinidog. Mae pethau da yn natganiad Dydd Gŵyl Dewi, er ei fod, ar y cyfan, yn siomedig. Mae croeso i gyflwyniad terfyn isaf Barnett, ond mae angen dirfawr am fanylion. Mae datganoli rheoleiddio bysiau'n golygu y gallwn weithio tuag at rwydwaith bysiau cydlynol, rhywbeth y mae llawer ohonom wedi bod yn galw amdano am yr 20 mlynedd diwethaf mwy neu lai. Dylai cyflwyno model cadw pwerau, rhywbeth yr wyf wedi sôn amdano lawer gwaith yma, egluro'r setliad datganoli. Roedd yn hen bryd inni gael cyfle i gyhoeddi bondiau, yn yr un modd ag y gall awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi bondiau. Rwyf, fodd bynnag, yn siomedig na chynigiwyd datganoli plismona lleol, a oedd, hyd at ddiwedd yr 1960au, yn arfer bod yn swyddogaeth llywodraeth leol, ac a oedd, tan i gomisiynwyr heddlu gael eu cyflwyno, yn bennaf yn gyfrifoldeb i gynrychiolwyr awdurdodau lleol. Ond, nid oes cynnig i ddatganoli cydgysylltu argyfyngau, sef, gan fwyaf, cydgysylltu gwaith a wneir gan gyrff datganoledig, ac nid yw rheoli budd-daliadau wedi'i ddatganoli, fel y byddem ni yng Nghymru'n cael y cyfle i roi terfyn ar y dreth ystafell wely ac atal y cosbi annheg sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy siom yn y tri maes hynny?

14:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I do. In terms of the management of benefits, I think it's important that it should have gone further, as far as we are concerned. The issue, of course, is that care must be taken to make sure that we don't lose the redistributive element of the benefits system. I know that the Member shares my view on that. That does not mean, of course, that greater control over the management of benefits could not have been devolved. Again, Wales is being treated differently from Scotland in that regard.

Ydw. O ran rheoli budd-daliadau, rwy'n credu ei bod yn bwysig y dylai fod wedi mynd ymhellach, cyn belled ag yr ydym ni yn y cwestiwn. Y broblem, wrth gwrs, yw bod rhaid bod yn ofalus i wneud yn siŵr nad ydym yn colli elfen ailddosbarthu'r system fudd-daliadau. Gwn fod yr Aelod o'r un farn â mi ynglŷn â hynny. Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, na ellid bod wedi datganoli mwy o reolaeth dros reoli budd-daliadau. Unwaith eto, mae Cymru'n cael ei thrin yn wahanol i'r Alban yn hynny o beth.

14:56 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, First Minister, I'm disappointed that you don't recognise that, sometimes, Wales is different from Scotland. In your submission to the Silk report, you said this, or the Welsh Government said this:

'The UK's constitutional fundamentals; Foreign Affairs and Defence; Home Affairs matters such as National Security, Immigration and Emergency Powers; most macro-economic and UK internal market matters; and Social Security, should all be within Westminster's exclusive remit. This should also be the case for Energy, Employment rights and Health and Safety matters.'

Wel, Brif Weinidog, rwy'n siomedig nad ydych yn cydnabod bod Cymru, weithiau, yn wahanol i'r Alban. Yn eich cyflwyniad i adroddiad Silk, dywedasoch hyn, neu dywedodd Llywodraeth Cymru hyn:

'Dylai hanfodion cyfansoddiadol y DU; Materion Tramor ac Amddiffyn; Materion Cartref megis Diogelwch Cenedlaethol, Mewnfudo a Phwerau Argyfwng; y rhan fwyaf o faterion macro-economaidd a marchnad fewnol y DU; a Nawdd Cymdeithasol, i gyd fod o fewn cylch gwaith unigryw San Steffan. Dylai hyn hefyd fod yn wir am Ynni, Hawliau Cyflogaeth a materion Iechyd a Diogelwch.'

You can find that on page 2 of your submission to the Silk commission report. You very much welcomed the Silk commission report part 2, which indicated the devolution of energy consenting up to 350 MW, which is what has been delivered. That is something that you supported. You voted in support of that motion, and yet, in your statement today, you called it an arbitrary figure. You should welcome the fact that, in most large projects, you have been given the power of consenting and that the associated development of that consenting has been given to you. Nowhere in your submission did you call for energy consenting greater than 350 MW. You didn't specify a limit at all. That limit was set by Paul Silk, and nowhere since has there been any argument from Welsh Government that that Paul Silk limit should be increased. In fact, as I understand, you've supported it. I wanted to particularly concentrate on the energy matters, as obviously that is my area of responsibility, and I would be grateful if you could answer those questions.

Gallwch weld hynny ar dudalen 2 eich cyflwyniad i adroddiad comisiwn Silk. Rhoesoch groeso mawr i adroddiad comisiwn Silk rhan 2, a oedd yn dangos datganoli caniatâd ynni hyd at 350 MW, sef yr hyn a roddwyd. Mae hynny'n rhywbeth yr oeddech chi'n ei gefnogi. Fe wnaethoch bleidleisio o blaid y cynnig hwnnw, ac eto, yn eich datganiad heddiw, fe wnaethoch ei alw'n ffigur mympwyol. Dylech groesawu'r ffaith eich bod, yn y rhan fwyaf o brosiectau mawr, wedi cael y pŵer caniatâd a bod datblygiad cysylltiedig y caniatâd hwnnw wedi'i roi ichi. Ni wnaethoch alw am ganiatâd ynni mwy na 350 MW yn unman yn eich cyflwyniad. Ni wnaethoch bennu terfyn o gwbl. Gosodwyd y terfyn hwnnw gan Paul Silk, ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi dadlau yn unman ers hynny y dylid cynyddu terfyn Paul Silk. Yn wir, fel y deallaf, rydych chi wedi ei gefnogi. Roeddwn eisiau canolbwyntio'n arbennig ar y materion ynni, oherwydd yn amlwg dyna fy maes cyfrifoldeb, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau hynny.

14:58

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the fact that energy up to 350 MW is being devolved. It takes us up from the 50 MW on land and 1 MW offshore that we have at the moment. There is no reason in logic why it should be 350 MW, but that perhaps is for another day. But, I do certainly welcome the progress that's being made on that.

Croesawaf y ffaith bod ynni hyd at 350 MW yn cael ei ddatganoli. Mae'n mynd â ni i fyny o'r 50 MW ar dir ac 1 MW ar y môr sydd gennym ar hyn o bryd. Nid oes dim rheswm rhesymegol pam y dylai fod yn 350 MW, ond efallai fod hynny ar gyfer diwrnod arall. Ond, rwyf yn sicr yn croesawu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar hynny.

Wales is different to Scotland, but I can say to the Member that Wales is not inferior to Scotland, and that is something that I would not accept. [Interruption.] She did not say that; I know that, but that is something that I would never accept—although she did say that we were being given powers of consenting in terms of energy. Well, I take the view that those powers actually reside with the people of Wales. It's not for Westminster to give the people of Wales powers; these are powers that do belong inherently in the hands of the people of Wales, and it's a matter for the people of Wales to decide what they wish to see dealt with at a UK level and what they wish to be dealt with at a GB level.

Mae Cymru'n wahanol i'r Alban, ond gallaf ddweud wrth yr Aelod nad yw Cymru'n israddol i'r Alban, ac mae hynny'n rhywbeth na fyddwn yn ei dderbyn. [Torri ar draws.] Ni ddywedodd hi hynny; rwyf yn gwybod hynny, ond mae hynny'n rhywbeth na fyddwn byth yn ei dderbyn—er ei bod wedi dweud bod pwerau caniatâd yn cael eu rhoi i ni o ran ynni. Wel, rwyf fi o'r farn bod y pwerau hynny mewn gwirionedd yn perthyn i bobl Cymru. Nid lle San Steffan yw rhoi pwerau i bobl Cymru; mae'r rhain yn bwerau sy'n perthyn yn gynhenid yn nwylo pobl Cymru, a mater i bobl Cymru yw penderfynu beth maent am ei weld yn cael ei drin ar lefel y DU a beth maent am ei weld yn cael ei drin ar lefel Prydain Fawr.

Of course, we don't want to see the devolution of immigration—well, my party doesn't want to see the devolution of immigration—or border control, or national security. Social security actually is devolved in Northern Ireland—executive devolution of social security exists there. There are, in fact, very few things the UK Government does across the whole of the UK, and she's listed them all pretty much there—not even driver and vehicle licensing, which is devolved in Northern Ireland. It's perfectly sensible for health and safety to be operated at a wider level, that much is true. She gives the impression I don't welcome any of the progress that's been made; I do welcome the progress that has been made. I think this is where we need to go in terms of the next stage of devolution. I would have gone further, and I suspect most Members in this Chamber would have gone further, but I'll never accept that Wales is different from Scotland to the extent that what is on offer to Wales should be inferior to what is on offer to Scotland. I will not accept that. As I've said, that doesn't mean that everything should be absolutely the same, but it does mean that the people of Wales should have the same options in terms of their future within the UK as the people of Scotland.

Wrth gwrs, nid ydym eisiau gweld mewnfudo yn cael ei ddatganoli —wel, nid yw fy mhlaid i'n dymuno gweld mewnfudo'n cael ei ddatganoli—na rheoli ffiniau, na diogelwch gwladol. Mae nawdd cymdeithasol wedi'i ddatganoli mewn gwirionedd yng Ngogledd Iwerddon—mae datganoli gweithredol nawdd cymdeithasol yn bodoli yno. Mewn gwirionedd, ychydig iawn o bethau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud ar hyd a lled y DU, ac mae hi wedi rhestru bron bob un ohonynt yn y fan yna—dim hyd yn oed trwyddedu gyrwyr a cherbydau, sydd wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n gwbl synhwyrol gweithredu iechyd a diogelwch ar lefel ehangach, mae cymaint â hynny'n wir. Mae hi'n rhoi'r argraff nad wyf yn croesawu dim o'r cynnydd a wnaethpwyd; rwyf yn croesawu'r cynnydd a wnaethpwyd. Rwy'n credu mai dyma lle mae angen inni fynd o ran cam nesaf datganoli. Byddwn i wedi mynd ymhellach, ac rwyf yn amau y byddai'r rhan fwyaf o'r Aelodau yn y Siambr hon wedi mynd ymhellach, ond ni wnaf dderbyn bod Cymru'n wahanol i'r Alban i'r graddau y dylai'r hyn sydd ar gael i Gymru fod yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r Alban. Ni wnaf dderbyn hynny. Fel yr wyf wedi'i ddweud, nid yw hynny'n golygu y dylai popeth fod yn union yr un fath, ond mae'n golygu y dylai pobl Cymru gael yr un dewisiadau o ran eu dyfodol o fewn y DU â phobl yr Alban.

15:00

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I'm less optimistic about the outcome and what is actually being put on offer. The stability of any settlement for Wales ultimately is going to tie in with a stable and sustainable settlement for the whole of the United Kingdom, and I don't see that. I see that the process adopted by the UK Government is one that is not only dysfunctional but, it seems to me, is constitutionally inept. I have to say, if the Tories were to be returned in May, I cannot see how the UK could possibly survive a further five years of that type of Government.

Brif Weinidog, rwy'n llai gobeithiol am y canlyniad a'r hyn sy'n cael ei gynnig mewn gwirionedd. Mae sefydlogrwydd unrhyw setliad i Gymru yn y pen draw'n mynd i gyd-fynd â setliad sefydlog a chynaliadwy i'r Deyrnas Unedig gyfan, ac nid wyf yn gweld hynny. Gwelaf fod y broses a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU yn un sydd nid yn unig yn gamweithredol, ond, mae'n ymddangos i mi, yn gyfansoddiadol anhylaw. Mae'n rhaid imi ddweud, pe byddai'r Toriaid yn cael eu hailethol ym mis Mai, ni allaf weld sut y byddai'n bosibl i'r DU oroesi pum mlynedd arall o Lywodraeth o'r math hwnnw.

Firstly, fair funding has got to be based on not only a fair settlement for Wales, but it's got to be a fair settlement for the whole of the United Kingdom. Otherwise, it is not sustainable—and that also includes the regions of England. When we see constitutional decisions being taken, for example the devolution of £6 billion-worth of responsibility to the Manchester area, without any constitutional reform or without any proper democratic or accountable discussion, you wonder where the whole constitutional process is going, other than a sort of knee-jerk reaction coming from Westminster.

Yn gyntaf, mae'n rhaid i ariannu teg fod yn seiliedig nid yn unig ar setliad teg i Gymru, ond mae'n rhaid iddo fod yn setliad teg i'r Deyrnas Unedig gyfan. Fel arall, nid yw'n gynaliadwy—ac mae hynny hefyd yn cynnwys rhanbarthau Lloegr. Pan fyddwn yn gweld penderfyniadau cyfansoddiadol yn cael eu gwneud, er enghraifft datganoli gwerth £6 biliwn o gyfrifoldeb i ardal Manceinion, heb unrhyw ddiwygio cyfansoddiadol nac unrhyw drafodaeth ddemocrataidd neu atebol briodol, rydych yn gofyn i ble mae'r holl broses gyfansoddiadol yn mynd, heblaw rhyw fath o ymateb difeddwl gan San Steffan.

Do you agree with me that, in order to achieve that future sustainability, the proposal you've made in respect of a constitutional convention has got to be the way in which we actually resolve these constitutional problems and achieve stability and consistency for the future, rather than having a constitutional debate for the whole of the next generation?

A ydych yn cytuno â mi, er mwyn cyflawni'r cynaliadwyedd hwnnw yn y dyfodol, mai'r cynnig yr ydych wedi'i wneud ar gyfer confensiwn cyfansoddiadol yw'r unig ffordd y gallwn ddatrys y problemau cyfansoddiadol hyn mewn gwirionedd a chyflawni sefydlogrwydd a chysondeb ar gyfer y dyfodol, yn hytrach na chael dadl gyfansoddiadol drwy'r holl genhedlaeth nesaf?

15:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Constitutional change shouldn't be about a series of parallel bilaterals between Westminster and the devolved administrations; it should be a system where all administrations sit around the table and plot the course of the future, talking to the public, understanding what they wish to see, and putting in place a constitution that recognises, in the words of the Prime Minister, the four nations that make up the UK. We're a long way from that position yet.

Ni ddylai newid cyfansoddiadol fod yn fater o gyfres o gyfarfodydd dwyochrog cyfochrog rhwng San Steffan a'r gweinyddiaethau datganoledig; dylai fod yn system lle mae'r holl weinyddiaethau'n eistedd o gwmpas y bwrdd ac yn cynllunio cwrs y dyfodol, gan siarad â'r cyhoedd, deall yr hyn y maent yn dymuno ei weld, a sefydlu cyfansoddiad sy'n cydnabod, yng ngeiriau'r Prif Weinidog, y pedair gwlad sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig. Rydym yn bell oddi wrth y sefyllfa honno eto.

When the Member talked about the UK not surviving another five years of Conservative Government, it was interesting to hear the simultaneous derision and joy at both sides of the Chamber here. We'll try and chart the middle ground here, and move to a situation where we can see a United Kingdom that—. The old system doesn't work—it's finished. The old UK constitution will not work in the future if the UK is to survive. What we want to see is a proper approach to a constitutional convention, to get a constitution for the UK that recognises the four nations within it, that recognises the common ground that exists between those four institutions, and that gets a better understanding of who does what. At the moment, we are a long way from that situation. Simply trying to run the whole thing by remote control from Westminster will never work.

Pan ddywedodd yr Aelod na allai'r DU oroesi pum mlynedd arall o Lywodraeth Geidwadol, roedd yn ddiddorol clywed y gwatwar a'r llawenydd ar yr un pryd ar y ddwy ochr i'r Siambr yma. Byddwn yn ceisio aros ar y tir canol yma, a symud i sefyllfa lle y gallwn weld Teyrnas Unedig sydd—. Nid yw'r hen system yn gweithio—mae wedi darfod. Ni fydd hen gyfansoddiad y DU yn gweithio yn y dyfodol os yw'r DU am oroesi. Yr hyn yr ydym eisiau ei weld yw agwedd briodol at gonfensiwn cyfansoddiadol, i gael cyfansoddiad ar gyfer y DU sy'n cydnabod y pedair gwlad oddi mewn iddi, sy'n cydnabod y tir cyffredin sy'n bodoli rhwng y pedwar sefydliad hynny, ac sy'n rhoi gwell dealltwriaeth o bwy sy'n gwneud beth. Ar hyn o bryd, rydym yn bell oddi wrth y sefyllfa honno. Ni wnaiff ceisio cynnal yr holl beth drwy reoli o bell o San Steffan byth weithio.

15:03 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome your statement, First Minister, and I hope you'll agree that we require stability, clarity and simplicity in our constitutional arrangements.

Rwyf yn croesawu eich datganiad yn fawr iawn, Brif Weinidog, ac rwyf yn gobeithio y gwnewch gytuno bod arnom angen sefydlogrwydd, eglurder a symlrwydd yn ein trefniadau cyfansoddiadol.

I was concerned to see some of the detail of the announcement made on Friday. The agreements on water are things that can be moved forward immediately and don't need to be reviewed. The issue you've already referred to on energy is also something where an arbitrary limit has been placed on the ability of this place to properly exercise powers that should properly reside here. Do you not agree with me that we need broader and deeper powers here to ensure that we do have a clear settlement that will be durable in the future?

Roeddwn yn bryderus o weld rhai o fanylion y cyhoeddiad a wnaethpwyd ddydd Gwener. Mae'r cytundebau ar ddŵr yn bethau y gellir bwrw ymlaen â hwy ar unwaith ac nid oes angen eu hadolygu. Mae'r mater yr ydych eisoes wedi cyfeirio ato ar ynni hefyd yn rhywbeth lle mae terfyn mympwyol wedi ei roi ar allu'r lle hwn i weithredu pwerau'n briodol—pwerau y dylent yn briodol fod yma. Onid ydych yn cytuno â mi bod arnom angen pwerau ehangach a dyfnach yma i sicrhau bod gennym setliad clir a fydd yn gadarn yn y dyfodol?

I very much agree with the points made by my friend, Mick Antoniw, in that the powers that we have must be based on a financial settlement that is rooted in the redistribution of wealth across the United Kingdom equally between all parts of the United Kingdom. That requires a new financial structure in the United Kingdom, which will support the whole of the United Kingdom wherever we happen to be, whether it's in Scotland or Pembrokeshire, and that will be at the heart of our new constitutional arrangements, which will ensure proper home rule here in Wales within a strong United Kingdom that is able to sustain communities across the face of these islands.

Cytunaf yn llwyr â'r pwyntiau a wnaeth fy ffrind, Mick Antoniw, sef bod yn rhaid i'r pwerau sydd gennym fod yn seiliedig ar setliad ariannol sydd wedi'i wreiddio mewn ailddosbarthu cyfoeth ar draws y Deyrnas Unedig yn gyfartal rhwng pob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae hynny'n golygu bod angen strwythur ariannol newydd yn y Deyrnas Unedig, a fydd yn cefnogi'r Deyrnas Unedig gyfan ble bynnag yr ydym yn digwydd bod, boed hynny yn yr Alban neu yn Sir Benfro, a bydd hynny wrth wraidd ein trefniadau cyfansoddiadol newydd, a fydd yn sicrhau hunan lywodraeth briodol yma yng Nghymru o fewn Teyrnas Unedig gref sy'n gallu cynnal cymunedau ar draws wyneb yr ynysoedd hyn.

15:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I very much agree with what the Member has said. It's a sign of how far things have come that he and I can refer to 'home rule' in this Chamber and not be metaphorically strung up. It shows that we've understood that what we're talking about here is a constitutional settlement that is good for Wales, but, obviously from us on these benches and other benches in this Chamber, it means that Wales is fully part of the UK, as I believe Wales should be fully part of the EU. Those two unions are both good for us in terms of our economic future.

Ydw, rwyf yn cytuno i raddau helaeth iawn â'r hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud. Mae'n arwydd o ba mor bell y mae pethau wedi dod ei fod ef a minnau yn gallu cyfeirio at 'hunan lywodraeth' yn y Siambr hon heb gael ein crogi, yn drosiadol. Mae'n dangos ein bod wedi deall mai'r hyn yr ydym yn sôn amdano yma yw setliad cyfansoddiadol sy'n dda i Gymru, ond, yn amlwg o'n rhan ni ar y meinciau hyn a meinciau eraill yn y Siambr hon, mae'n golygu bod Cymru'n rhan lawn o'r DU, fel yr wyf yn credu y dylai Cymru fod yn rhan lawn o'r UE. Mae'r ddau uniad hyn ill dau'n dda inni o ran ein dyfodol economaidd.

He is right to point out that there is a need to overhaul the UK's constitution. It will not suffice in the future for it to continue as it has been, and that, of course, is the intention of we, as a Government, and, no doubt, of other parties in this Chamber, to make sure that the momentum that has been created leads to a situation where Wales is treated fairly—yes, that much is true—but also that Wales has the right constitutional settlement, and that that constitutional settlement is decided upon by the people of Wales.

Mae'n iawn i nodi bod angen ailwampio cyfansoddiad y DU. Ni fydd yn ddigon da yn y dyfodol iddo barhau fel ag y bu, a dyna, wrth gwrs, yw ein bwriad ni, fel Llywodraeth, ac, yn ddiau, pleidiau eraill yn y Siambr hon, i sicrhau bod y momentwm sydd wedi ei greu yn arwain at sefyllfa lle mae Cymru'n cael ei thrin yn deg—ie, mae cymaint â hynny'n wir—ond hefyd bod gan Gymru y setliad cyfansoddiadol cywir, ac mai pobl Cymru sy'n gwneud y penderfyniad ynglŷn â'r setliad cyfansoddiadol hwnnw.

At the end of the day, my view has always been that powers reside with the people of Wales and it's for us all to decide, in the UK, how those powers are shared across the UK. It's not an unusual system: Canada has it. It's called 'pooled sovereignty'. Canada seems to me to be a very stable country and there is no reason why the Canadian system of pooled sovereignty cannot be a system that we can examine here in the UK.

Yn y pen draw, fy marn i erioed yw bod pwerau'n perthyn i bobl Cymru ac mai ein lle ni i gyd yw penderfynu, yn y DU, sut i rannu'r pwerau hynny ar draws y DU. Nid yw'n system anarferol: mae'n bodoli yng Nghanada. Fe'i gelwir yn 'sofraniaeth gyfun'. Mae'n ymddangos i mi bod Canada'n wlad sefydlog iawn ac nid oes unrhyw reswm pam na all system sofraniaeth gyfun Canada fod yn system y gallwn ni ei hystyried yma yn y DU.

15:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch, Brif Weinidog.

15:06

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

## 4. Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments for the Well-being of Future Generations (Wales) Bill

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 4 is a motion under Standing Order 26.36 to vary the order of consideration of Stage 3 amendments to the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Cynnig yw Eitem 4 o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn yr ystyriaeth o welliannau Cyfnod 3 i Fil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5706 Jane Hutt

Motion NDM5706 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Well-being of Future Generations (Wales) Bill at Stage 3 in the following order:

a) adrannau 2-11

a) sections 2-11

b) Atodlen 1 | b) Schedule 1

c) adrannau 12-14 | c) sections 12-14

d) Atodlen 2 | d) Schedule 2

e) adrannau 15-31 | e) sections 15-31

f) Atodlen 3 | f) Schedule 3

g) adrannau 32-44 | g) sections 32-44

h) Atodlen 4 | h) Schedule 4

i) adrannau 45-55 | i) sections 45-55

j) adran 1 | j) section 1

k) teitl hir. | k) long title.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:06

**Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

I formally move.

Cynigiaf yn ffurfiol.

15:06

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. Therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff y cynnig ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:06

## 5. Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgorau Cynghori ar Blaladdwyr) 2015

## 5. Statutory Instrument Consent Memorandum on the Public Bodies (Abolition of the Advisory Committees on Pesticides) Order 2015

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 5 is a statutory instrument consent memorandum on the public bodies Order 2015. I call on the Deputy Minister for Farming and Food to move the motion—Rebecca Evans.

Memorandwm cydsyniad offeryn statudol yw Eitem 5 ar Orchymyn cyrff cyhoeddus 2015. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i gynnig y cynnig—Rebecca Evans.

Cynnig NDM5704 Rebecca Evans

Motion NDM5704 Rebecca Evans

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, yn cytuno i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgorau Cynghori ar Blaladdwyr) 2015 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2014.

To propose that the National Assembly for Wales agrees, in accordance with section 9(6) of the Public Bodies Act 2011, and Standing Order 30A.10, that the Secretary of State makes The Public Bodies (Abolition of the Advisory Committees on Pesticides) Order 2015, in accordance with the draft laid in Table Office on 16 December 2014.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:06 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Senedd.tv
Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I would like to begin by expressing my thanks to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for considering the statutory instrument consent memorandum on the abolition of the advisory committee on pesticides. I would also like to thank the committee for its report, which states that it's content with the memorandum.

Hoffwn ddechrau drwy fynegi fy niolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y memorandwm cydsyniad offeryn statudol ar ddiddymu'r pwyllgor ymgynghorol ar blaladdwyr. Hoffwn hefyd ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad, sy'n dweud ei fod yn fodlon â'r memorandwm.

The advisory committee on pesticides was established some 30 years ago to advise on all matters relating to the control and approval of pesticides in the UK. Since then, the pesticide regulatory landscape has changed considerably, with decisions on the approval of active substances now being taken at European Union level under the provisions of the legislation covering plant protection products.

Sefydlwyd y pwyllgor ymgynghorol ar blaladdwyr tua 30 mlynedd yn ôl i roi cyngor ar yr holl faterion yn ymwneud â rheoli a chymeradwyo plaladdwyr yn y DU. Ers hynny, mae'r dirwedd rheoleiddio plaladdwyr wedi newid yn sylweddol, ac mae penderfyniadau am gymeradwyo sylweddau actif bellach yn cael eu gwneud ar lefel yr Undeb Ewropeaidd o dan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynhyrchion amddiffyn planhigion.

However, this doesn't mean that there's no remaining role for the UK regulator or for independent expert advice to support and challenge this work. The requirements are different now, in that the process for deciding whether an active substance can be approved for use in the EU involves all member states, the European Food Safety Authority and the European Commission.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw swyddogaeth ar ôl i reolydd y DU nac i gyngor arbenigol annibynnol i gefnogi'r gwaith hwn a'i herio. Mae'r gofynion yn wahanol erbyn hyn, gan fod y broses o benderfynu pa un a ellir cymeradwyo sylwedd actif i'w ddefnyddio yn yr UE yn cynnwys yr holl aelod-wladwriaethau, Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd.

The abolition of the advisory committee on pesticides, as a statutory, non-departmental public body, is one of the outcomes of the UK Government's 2010 review of public bodies. The intention, following the abolition of the advisory committee on pesticides, is to establish a non-statutory scientific committee as a successor body. The successor body will ensure that Welsh Ministers, amongst others, will continue to receive expert impartial and independent advice against a changing regulatory landscape, and allow a more flexible and integrated approach to the use of scientific evidence to support Welsh Government policy now and in the future.

Mae diddymu'r pwyllgor cynghori ar blaladdwyr, fel corff cyhoeddus statudol, anadrannol, yn un o ganlyniadau adolygiad Llywodraeth y DU o gyrff cyhoeddus yn 2010. Y bwriad, ar ôl diddymu'r pwyllgor cynghori ar blaladdwyr, yw sefydlu pwyllgor gwyddonol anstatudol fel corff olynol. Bydd y corff olynol yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru, ymhlith eraill, yn parhau i gael cyngor diduedd ac annibynnol arbenigol wrth i dirwedd rheoleiddio newid, ac yn caniatáu agwedd fwy hyblyg ac integredig tuag at ddefnyddio tystiolaeth wyddonol i ategu polisïau Llywodraeth Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

The proposed terms of reference for the successor body are also more explicit in its relationship with, and accountability to, Welsh Ministers. They make it clear that the new body is able to give advice to Welsh Ministers either in response to a request, or at its own initiative. The Public Bodies Act 2011 is the correct mechanism for abolishing the advisory committee on pesticides and immediately reconstituting it as an expert scientific committee. The procedure outlined under the Act allows Assembly Members to consider this proposal and respects the roles of both the UK Parliament and the National Assembly for Wales. I am satisfied with the proposals and hereby move the motion.

Mae'r cylch gorchwyl arfaethedig ar gyfer y corff olynol hefyd yn fwy eglur o ran ei berthynas â Gweinidogion Cymru a'i atebolrwydd iddynt. Mae'n ei gwneud yn glir bod y corff newydd yn gallu rhoi cyngor i Weinidogion Cymru naill ai mewn ymateb i gais, neu ar ei liwt ei hun. Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yw'r mecanwaith cywir i ddiddymu'r pwyllgor cynghori ar blaladdwyr a'i ailgyfansoddi ar unwaith fel pwyllgor gwyddonol arbenigol. Mae'r weithdrefn a amlinellir o dan y Ddeddf yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad ystyried y cynnig hwn ac yn parchu swyddogaethau Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ill dau. Rwyf yn fodlon â'r cynigion ac felly yn cynnig y cynnig.

15:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have no speakers. Therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff y cynnig ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:09

# 6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Troseddu Difrifol (Memorandwm Rhif 4): Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Adrodd Gorfodol ynghylch Anffurfio Organau Rhywiol Merched

# 6. Supplementary Legislative Consent Motion Serious Crime Bill (Memorandum No. 4): Child Sexual Exploitation and Mandatory Reporting of Female Genital Mutilation

Y Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 6 is a supplementary legislative consent motion on the Serious Crime Bill, and I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol yw Eitem 6 ar y Bil Troseddau Difrifol, a galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5705 Leighton Andrews

Motion NDM5705 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Troseddu Difrifol sy'n ymwneud ag ecsbloetio plant yn rhywiol a'r drosedd o loetran neu lithio at ddibenion puteindra, a gosod dyletswydd ar amrywiol weithwyr proffesiynol i roi hysbysiad am achosion a nodir o anffurfio organau cenhedlu benywod a phŵer cysylltiedig i wneud canllawiau statudol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Serious Crime Bill relating to child sexual exploitation and the offence of loitering or soliciting for the purposes of prostitution, and the imposition of a notification duty on various professionals in respect of identified cases of female genital mutilation and an associated statutory guidance power, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:09

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Today, I want to explain the background to the legislative consent motion in relation to the Serious Crime Bill. This LCM is required because of very late amendments to the Bill, which fall within the legislative competence of the National Assembly.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Heddiw, rwyf yn dymuno egluro cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol sy’n ymwneud â'r Bil Troseddau Difrifol. Mae angen y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn oherwydd gwelliannau hwyr iawn i'r Bil, sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

The amendments seek to do two things. First, they create a new, mandatory duty to report cases of female genital mutilation. Second, they replace references in the Sexual Offences Act 2003 to child prostitution and child pornography.

Mae'r gwelliannau yn ceisio gwneud dau beth. Yn gyntaf, maent yn creu dyletswydd newydd, orfodol i adrodd am achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod. Yn ail, maent yn disodli cyfeiriadau yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 at buteindra plant a phornograffi plant.

In respect of FGM, our efforts must be focused on improving the comprehensive, system-wide response to protect victims and potential victims. The amendments to the Serious Crime Bill are aimed at increasing the number of referrals to the police so that more victims are identified, the abusers are brought to justice, and others are deterred from performing FGM. The existing all-Wales child protection procedures require relevant partners of the local authority to report child abuse, including FGM, to the relevant agencies. The UK Government has introduced this amendment to respond to concerns that cases aren't being referred due to the cultural sensitivities involved in cases of FGM. The FGM amendment looks to strengthen the safeguarding process by making it mandatory for known cases among under-18s to be reported to the police.

O ran anffurfio organau cenhedlu benywod, mae'n rhaid i'n hymdrechion ganolbwyntio ar wella'r ymateb cynhwysfawr, system gyfan i amddiffyn dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Bwriad y gwelliannau i'r Bil Troseddau Difrifol yw cynyddu nifer yr atgyfeiriadau i'r heddlu fel bod mwy o ddioddefwyr yn cael eu nodi, bod y camdrinwyr yn cael eu dwyn o flaen eu gwell, a bod eraill yn cael eu hanghymell rhag anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae'r gweithdrefnau amddiffyn plant sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Cymru gyfan yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid perthnasol yr awdurdod lleol roi gwybod am gam-drin plant, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod, i'r asiantaethau perthnasol. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r gwelliant hwn i ymateb i bryderon nad yw achosion yn cael eu hatgyfeirio oherwydd y sensitifrwydd diwylliannol sy'n gysylltiedig ag achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae'r gwelliant anffurfio organau cenhedlu benywod yn ceisio cryfhau'r broses ddiogelu drwy ei gwneud yn orfodol i ddweud wrth yr heddlu am achosion hysbys ymhlith merched dan 18 oed.

The Government does share some of the concerns expressed by the Royal College of Paediatrics and Child Health, in particular the risk of deterring vulnerable girls from accessing health services for fear of being drawn into the criminal justice system. In developing a reporting framework, we need to strike the correct balance between protecting victims and deterring FGM.

Mae'r Llywodraeth yn rhannu rhai o'r pryderon a fynegwyd gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, yn enwedig y risg o anghymell merched sy'n agored i niwed rhag defnyddio gwasanaethau iechyd rhag iddynt gael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Wrth ddatblygu fframwaith adrodd, mae angen inni daro'r cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn dioddefwyr ac atal anffurfio organau cenhedlu benywod.

On balance, we have decided to support the introduction of this mandatory reporting duty. We believe it will provide more robust evidence of the prevalence of this practice and, crucially, will identify victims so that the help they need can be provided.

Ar ôl ystyried, rydym wedi penderfynu cefnogi cyflwyno'r ddyletswydd orfodol hon i adrodd. Rydym yn credu y bydd yn darparu tystiolaeth fwy cadarn o nifer yr achosion o'r arfer hwn ac, yn hollbwysig, yn canfod dioddefwyr fel y gellir darparu'r cymorth y maent ei angen.

Section 130 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, to report children at risk of abuse, comes into force in April 2016, and will further strengthen the Welsh Government's work on safeguarding children. We have raised with the Home Office the importance of working together to ensure these reporting requirements complement, rather than conflict with, one another. The Home Office has recognised this.

Mae Adran 130 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, i adrodd am blant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, yn dod i rym ym mis Ebrill 2016, a bydd yn cryfhau gwaith Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant ymhellach. Rydym wedi sôn wrth y Swyddfa Gartref am bwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y gofynion adrodd hyn yn ategu ei gilydd, yn hytrach na gwrthdaro â'i gilydd. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cydnabod hyn.

The Welsh Government's focus continues around education, protection and eradication of FGM, but the prosecution of those who allow it to occur is an important part of the jigsaw. Mandatory reporting would help to deter the abuse of potential victims by sending a clear message to perpetrators that they'll be held responsible for their actions.

Mae pwyslais Llywodraeth Cymru yn parhau o gwmpas addysg, diogelu a dileu anffurfio organau cenhedlu benywod, ond mae erlyn pobl sy'n caniatáu iddo ddigwydd yn rhan bwysig o'r jig-so. Byddai adrodd gorfodol yn helpu i atal cam-drin dioddefwyr posibl drwy anfon neges glir i droseddwyr y cânt eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd.

Mandatory reporting does need to be handled carefully to ensure that we achieve the benefits. Some instances of FGM may be difficult to spot, and health professionals may be concerned that mandatory reporting will result in sanctions on them for not reporting something that they did not recognise as FGM. The implementation and associated training and guidance need to support adequately the regulated professions covered under the amendment to help mitigate these issues. We recognise the wider work NHS Wales is developing to help tackle FGM, including strengthening the FGM element of safeguarding training, the appointment of health board FGM leads, and the development of data-capture systems in recognition of recommendations from the intercollegiate report on tackling FGM in the UK. This work will also help to minimise any such concerns.

Mae angen bod yn ofalus wrth ymdrin ag adrodd gorfodol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r buddion. Efallai y bydd rhai achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod yn anodd eu gweld, ac efallai y bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn pryderu y bydd adrodd gorfodol yn arwain at gosbau arnynt hwy am beidio ag adrodd am rywbeth na wnaethant ei adnabod fel anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae angen rhoi hyn ar waith, a darparu’r hyfforddiant a’r arweiniad cysylltiedig, mewn modd sy’n rhoi cymorth digonol i'r proffesiynau rheoledig a gwmpesir o dan y gwelliant i helpu i liniaru’r materion hyn. Rydym yn cydnabod y gwaith ehangach y mae GIG Cymru yn ei ddatblygu i helpu i ymdrin ag anffurfio organau cenhedlu benywod, gan gynnwys cryfhau'r rhan o’u hyfforddiant diogelu sy’n ymwneud ag anffurfio organau cenhedlu benywod, penodi arweinyddion anffurfio organau cenhedlu benywod mewn byrddau iechyd, a datblygu systemau dal data i gydnabod argymhellion yr adroddiad rhyng-golegol ar ymdrin ag anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU. Bydd y gwaith hwn hefyd yn helpu i leihau unrhyw bryderon o'r fath.

The second amendment relates to the removal of statutory references to child prostitution and child pornography, and restricts the offence of loitering or soliciting for the purpose of prostitution to persons aged 18 or over. Importantly, buying sex from an under-18 in any circumstances would remain illegal. It is clear the purpose of these provisions is to protect children by recognising them as victims and not criminals. Children who are exploited in this way very often are deterred from seeking help because of the threat of prosecution. This can also result in young people taking health risks, and it puts young people at increased risk of HIV infection and other sexually transmitted diseases. I believe that the proposed amendments would enable more children to seek help and protection.

Mae’r ail welliant yn ymwneud â chael gwared ar gyfeiriadau statudol at buteindra plant a phornograffi plant, ac yn cyfyngu ar y drosedd o loetran neu gymell at ddibenion puteindra i bobl 18 oed neu hŷn. Yn bwysig, byddai prynu rhyw gan rywun o dan 18 oed o dan unrhyw amgylchiadau yn dal i fod yn anghyfreithlon. Mae'n amlwg mai diben y darpariaethau hyn yw amddiffyn plant drwy eu cydnabod fel dioddefwyr ac nid troseddwyr. Mae plant y camfanteisir arnynt fel hyn yn aml iawn yn cael eu hanghymell rhag chwilio am gymorth oherwydd y bygythiad o erlyniad. Gall hyn hefyd achosi i bobl ifanc gymryd risgiau iechyd, ac mae'n cynyddu’r risg i bobl ifanc o haint HIV a chlefydau eraill a drosglwyddir yn rhywiol. Credaf y byddai'r newidiadau arfaethedig yn galluogi mwy o blant i ofyn am gymorth ac amddiffyniad.

The issue of the decriminalisation of children in relation to this offence has been raised by the Joint Committee on Human Rights and the Standing Committee for Youth Justice. It has been recommended by the UN, following a report on the UK’s compliance with the UN Convention on the Rights of the Child. This amendment will better enable the police and other relevant authorities to tackle the harm caused to children who are exploited, rather than criminalising and punishing them.

Mae mater dad-droseddoli plant mewn cysylltiad â'r drosedd hon wedi cael ei godi gan y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol a'r Pwyllgor Sefydlog ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Mae wedi ei argymell gan y Cenhedloedd Unedig, yn dilyn adroddiad ar gydymffurfiad y DU â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd y gwelliant hwn yn ei gwneud yn haws i’r heddlu ac awdurdodau perthnasol eraill ymdrin â'r niwed a achosir i blant y camfanteisir arnynt, yn hytrach na’u troseddoli a’u cosbi.

Regrettably, the legislative consent memorandum has not had the benefit of scrutiny by an Assembly committee. The UK Government brought forward this amendment at a very late stage of the Bill, which has allowed us very little time. But in our view, we should agree to these amendments applying in Wales.

Yn anffodus, nid yw’r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol wedi cael y fantais o gael ei graffu gan un o bwyllgorau'r Cynulliad. Cyflwynodd Llywodraeth y DU y gwelliant hwn yn hwyr iawn yn y Bil, sy’n golygu mai ychydig iawn o amser a gawsom. Ond yn ein barn ni, dylem gytuno i'r gwelliannau hyn fod yn berthnasol yng Nghymru.

15:14

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy’n dechrau gyda’r pwynt olaf y mae’r Gweinidog wedi’i wneud, nad yw’r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yma wedi cael ei graffu arno mewn pwyllgor. Mae hynny’n anffodus. Nid oes bai ar y Gweinidog na’r Llywodraeth. Dyna’r ffordd y mae’r drefn wedi gweithio y tro yma. Ond, yn y cyd-destun yna, mae’n bwysig, serch hynny, nodi dau neu dri pheth o bwys, yn atgyfnerthu’r hyn y mae’r Gweinidog wedi’i ddweud.

I start by addressing the final point made by the Minister, that this LCM hasn’t had the opportunity of being scrutinised in committee. That’s unfortunate. There’s no blame attached to the Minister of the Government. That’s the way things have worked out this time. But, in that context, it is important, however, to note two or three important issues, reinforcing some of what the Minister has already said.

Yn gyntaf oll, mae Plaid Cymru'n cydnabod bod angen LCM yn y cyd-destun yma. Rydym yn credu bod hwn yn ymwneud â meysydd sydd yn briodol yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad hwn, yn enwedig pan fyddwch yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, ac, yn enwedig, wrth gwrs, wrth ymwneud â'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol o dan y ddarpariaeth yng nghyd-destun anffurfio organau cenhedlu menywod, sydd yn destun pryder mewn nifer o gymunedau yng Nghymru yn ogystal. Felly, rydym ni'n nodi yr angen am gynnig cydsyniad deddfwriaethol, ac yn cytuno gyda'r Gweinidog a'r Llywodraeth ei bod yn briodol, yn y cyd-destun sydd ohoni, i hynny gael ei wneud yn San Steffan. Gan fod yna gryn dipyn yn mynd i effeithio ar ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru os derbynnir y gwelliannau hyn i'r Bil yn San Steffan, rwy'n meddwl ei bod yn gwbl briodol ein bod yn nodi hynny heddiw, gan nad oes cyfle wedi bod i bwyllgorau graffu ar hyn.

First of all, Plaid Cymru recognises that an LCM is required in this context. We do believe that this relates to areas that are appropriately within the Assembly's competence, particularly in relation to children and young people, and especially in the context of health and social services as regards the provision relating to female genital mutilation, which is a cause for concern in many communities in Wales as well. So, we recognise the need for a legislative consent motion in this area, and we agree with the Minister and the Government that it is appropriate in the current context for that to be done in Westminster. As there will be quite an impact on public services in Wales if these amendments to the Westminster Bill are carried, then I think that it is entirely appropriate that we also note that today, as there has not been an opportunity for a community to scrutinise this.

Ar yr ail bwynt y mae'r Gweinidog wedi'i godi, wrth gwrs—dad-droseddoli pobl ifanc mewn sefyllfa lle maen nhw'n fregus—rydym wedi gweld yn glir yn Lloegr, os nad yng Nghymru, yr hyn a ddigwyddodd yn Rotherham, lle roedd plant a phobl ifanc eu hunain yn cael eu trin fel troseddwyr, yn hytrach na bod cymorth yn cael ei roi iddyn nhw i'w ddod â nhw allan o'r sefyllfa roeddent yn ffeindio eu hunain ynddi. Felly, mae'r neges wedi bod yn glir fanna, mewn enghreifftiau yn y Deyrnas Gyfunol, fod angen ailedrych ar y darn yma o'r gyfraith yn y cyd-destun yma. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae talu am ryw yn y cyd-destun yna yn dal yn anghyfreithlon—mewn unrhyw gyd-destun—felly nid wyf yn credu ei fod yn cymryd amddiffyniad oddi ar berson ifanc, ond yn hytrach mae'n ei alluogi i chwilio am help os ydyw'n canfod eu hun yn y sefyllfa yna.

On the second point made by the Minister—the decriminalisation of young people in vulnerable positions—we have seen clearly in England, if not in Wales, in the context of what happened in Rotherham, children and young people being treated as offenders, rather than being supported and therefore removed from the situation in which they found themselves. So, the message has been clear there, in examples across the United Kingdom, that we need to review the law in that context. As the Minister said, payment for sex in that context is still illegal—in all contexts—and I don't think therefore that it takes a defence away from a young person, but rather it enables them to seek assistance if they find themselves in that position.

Er ei fod yn anffodus yn wastad i drafod polisi mor ddifrifol heb i bwyllgor gael y cyfle i edrych ar y polisi hwnnw, rŷm ni, serch hynny, yn derbyn ei bod yn briodol inni ei drafod yn y Cyfarfod Llawn, ac yn briodol i ofyn am gefnogaeth, ac fe fyddwn ni, yn sicr, fel Plaid Cymru, yn cefnogi'r LCM heddiw.

Although it is always unfortunate to discuss such an important policy without a committee having had the opportunity to look at it, we do, however, accept that this is appropriate for debate in Plenary and that it is appropriate to seek support for it, and we in Plaid Cymru will certainly be supporting this LCM today.

15:17 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This LCM does represent a practical way for Wales to keep women and children safe from exploitation and abuse, and that is what is at stake. That is, actually, what matters and it is right that the Welsh Government should make use of the Bill to do just that.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn cynrychioli ffordd ymarferol i Gymru gadw menywod a phlant yn ddiogel rhag camfanteisio a chamdriniaeth, a dyna beth sydd yn y fantol. Dyna, mewn gwirionedd, beth sy'n bwysig ac mae'n iawn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil i wneud yn union hynny.

Children should never be referred to as prostitutes—absolutely not. A child who is exploited is always the victim and never the criminal, and I commend the House for recognising that. So, I do wholeheartedly support the removal of the reference to child prostitution in the Sexual Offences Act 2003. It doesn't change the law, but it does send an important message about how we as a society view children who get entrapped in this illicit trade.

Ni ddylid byth cyfeirio at blant fel puteiniaid—ddim o gwbl. Dioddefwr yw'r plentyn y camfanteisir arno bob amser ac nid fyth y troseddwr, a chanmolaf y Tŷ am gydnabod hynny. Felly, rwyf yn llwyr gefnogi cael gwared ar y cyfeiriad at buteindra plant yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003. Nid yw'n newid y gyfraith, ond mae'n anfon neges bwysig am sut yr ydym ni fel cymdeithas yn edrych ar blant sy'n cael eu dal yn y fasnach anghyfreithlon hon.

With regard to the LCM before us today, on the provision regarding female genital mutilation particularly, it does place a duty on healthcare professionals, social workers and teachers to report that to the police. So, I'd like to hear more about how those professionals will be supported in that role, and does the LCM have any relevance for the child safeguarding provision of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Minister, which comes into force in April 2016?

O ran y cynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd ger ein bron heddiw, ar y ddarpariaeth o ran anffurfio organau cenhedlu benywod yn arbennig, mae'n rhoi dyletswydd ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol ac athrawon i adrodd am hynny i'r heddlu. Felly, hoffwn glywed mwy am sut y bydd y gweithwyr proffesiynol hynny'n cael eu cefnogi yn hynny o beth, ac a yw'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn berthnasol o gwbl i ddarpariaeth diogelu plant Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, Weinidog, sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2016?

15:18

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to thank the Minister for bringing forward this LCM today and I would like to welcome it on behalf of my group. I think the three amendments in this LCM are perhaps subtle, but, I think, incredibly significant steps forward that will change the way we approach the sexual exploitation of children in our society. I'd like to pay tribute to my colleague in Westminster Lynne Featherstone, who has campaigned very strongly to make sure that elements to do with FGM in particular were brought forward in this way, although we do, of course, regret the lack of scrutiny that was available because of the late amendment.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw a hoffwn ei groesawu ar ran fy ngrŵp. Rwy'n meddwl bod y tri gwelliant yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn gynnil efallai, ond rwyf yn meddwl eu bod yn gamau hynod arwyddocaol ymlaen a fydd yn newid y ffordd yr ydym yn ymdrin â chamfanteisio yn rhywiol ar blant yn ein cymdeithas. Hoffwn dalu teyrnged i fy nghydweithiwr yn San Steffan, Lynne Featherstone, sydd wedi ymgyrchu'n gryf iawn i wneud yn siŵr bod elfennau sy'n ymwneud ag anffurfio organau cenhedlu benywod yn arbennig yn cael eu dwyn ymlaen fel hyn, er ein bod, wrth gwrs, yn gresynu at y diffyg craffu a oedd ar gael oherwydd y gwelliant hwyr.

But I think if we look, for example, at the amendment NC8, which replaces references to 'child prostitution' with 'sexual exploitation', it, of course, also restricts to adults the offence of soliciting for the purposes of prostitution. That is incredibly significant. It decriminalises the child and places very much a signal that the clear emphasis will be on those exploiting that child and not the child themselves. I think that emphasis that the children involved in such exploitative practices are always the victims and never the perpetrators of crime is a very clear signal to our society. I hope that it will help to reshape society's attitudes towards such children, perhaps particularly towards older children involved in such practices, and end a culture of victim-blaming, which sadly persists in some quarters of our society. I, too, share the Minister's hope that it will also enable children and young people who are involved in these practices to come forward and seek help without that fear of stigmatisation, that fear of getting into trouble themselves, which they may feel at present with the way that the law is worded.

Ond rwy'n credu os edrychwn, er enghraifft, ar welliant NC8, sy'n disodli cyfeiriadau at 'buteindra plant' gyda 'chamfanteisio'n rhywiol', mae, wrth gwrs, hefyd yn cyfyngu'r drosedd o gymell at ddibenion puteindra i oedolion. Mae hynny'n hynod bwysig. Mae'n dad-droseddoli'r plentyn ac yn anfon arwydd cryf iawn y bydd y pwyslais clir ar y rhai sy'n camfanteisio ar y plentyn hwnnw ac nid y plentyn ei hun. Credaf fod y pwyslais bod y plant dan sylw mewn arferion camfanteisio o'r fath yn ddioddefwyr bob tro, a byth yn droseddwyr, yn arwydd clir iawn i'n cymdeithas. Rwyf yn gobeithio y bydd yn helpu i ail-lunio agweddau cymdeithas tuag at blant o'r fath, efallai yn enwedig tuag at blant hŷn sy'n cymryd rhan mewn arferion o'r fath, ac yn diweddu diwylliant o feio dioddefwyr, sy'n anffodus yn parhau mewn rhai rhannau o'n cymdeithas. Rwyf finnau, hefyd, yn rhannu gobaith y Gweinidog y bydd hefyd yn galluogi plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn yr arferion hyn i ddod ymlaen a gofyn am gymorth heb fod ag ofn stigma, yr ofn hwnnw o fynd i drwbl eu hunain, y gallent ei deimlo ar hyn o bryd oherwydd y ffordd y mae'r gyfraith wedi'i geirio.

With regard to the amendment that places a duty on regulated professions to notify the authorities when a case of FGM appears to have happened, I think this is incredibly welcome in making sure that we are aware of the prevalence of FGM in our society. I have seen concerns raised that it will drive the practice underground. But, of course, the problem is that the practice is already underground. It is underreported, meaning that girls who have become victims miss out on the support—both emotionally and, of course, physically—that they may need. We must act to change that so that we can better understand how and where it happens, we can understand who is at risk, we can prevent cases, and we can provide that support is put in place for those victims, as well, of course, as identifying and prosecuting where a crime has been committed.

O ran y gwelliant sy'n gosod dyletswydd ar broffesiynau rheoledig i roi gwybod i'r awdurdodau pryd yr ymddengys bod achos o anffurfio organau cenhedlu benywod wedi digwydd, rwyf yn credu bod croeso mawr i hyn o ran gwneud yn siŵr ein bod yn ymwybodol o nifer yr achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod yn ein cymdeithas. Rwyf wedi gweld pryderon yn cael eu mynegi y bydd yn gyrru'r arfer i'r dirgel. Ond, wrth gwrs, y broblem yw bod yr arfer eisoes yn y dirgel. Ni adroddir amdano yn ddigonol, sy'n golygu nad yw merched sydd wedi dod yn ddioddefwyr yn cael y gefnogaeth—yn emosiynol ac, wrth gwrs, yn gorfforol—y gall fod eu hangen arnynt. Mae'n rhaid inni weithredu i newid hynny fel y gallwn gael gwell dealltwriaeth o sut a ble mae'n digwydd, y gallwn ddeall pwy sydd mewn perygl, y gallwn atal achosion, ac y gallwn ddarparu'r gefnogaeth honno a'i rhoi ar waith ar gyfer y dioddefwyr hynny, yn ogystal, wrth gwrs, â nodi ac erlyn pan fo trosedd wedi'i chyflawni.

A final thing that I would like to raise, which I'm not sure the Minister mentioned in his opening statement, is, of course, a provision that enables the Secretary of State to issue guidance on quite a broad range of matters relating to FGM. I would welcome that, and I particularly welcome that it provides for Welsh Ministers to be fully consulted in any such matter. The Minister will be aware I have asked for greater focus on this issue from public bodies in Wales—and I have been grateful for his support—and, in particular, for schools to be given advice on how to deal with what is, of course, an exceptionally sensitive matter for them. I hope that the new power to issue guidance manifests itself as a desire to actually issue that guidance to assist public authorities in eliminating this absolutely appalling practice.

Un peth olaf yr hoffwn sôn amdano, ac nid wyf yn siŵr pa un a'i crybwyllwyd gan y Gweinidog yn ei ddatganiad agoriadol, yw, wrth gwrs, darpariaeth sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau am ystod eithaf eang o faterion sy'n ymwneud ag anffurfio organau cenhedlu benywod. Byddwn yn croesawu hynny, a chroesawaf yn arbennig y ffaith ei fod yn darparu ar gyfer ymgynghori'n llawn â Gweinidogion Cymru mewn unrhyw fater o'r fath. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol fy mod wedi gofyn am fwy o ganolbwyntio ar y mater hwn gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru—ac rwyf wedi bod yn ddiolchgar am ei gefnogaeth—ac, yn arbennig, bod ysgolion yn cael cyngor ar sut i ymdrin â mater sydd, wrth gwrs, yn eithriadol o sensitif iddynt. Rwyf yn gobeithio y bydd y pŵer newydd i gyhoeddi canllawiau'n creu awydd i gyhoeddi'r canllawiau hynny mewn gwirionedd i helpu awdurdodau cyhoeddus i ddileu'r arfer cwbl arswydus hwn.

15:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

15:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, can I thank colleagues for the comments they made during the course of this short debate? I particularly welcome what has been said by the spokespeople for Plaid Cymru and the Liberal Democrats in supporting the stance that we have taken in respect of the LCM. My colleague the Member for Mid and West Wales raised the question of the impact on specific professions. We have obviously been in close contact with the Home Office about the need to consult closely with us to ensure that the new duty to report FGM and the guidance about FGM work alongside our own policy initiatives. The Home Office Minister has agreed that they must consult with us, and our officials then will work closely on the implementation of the new provisions in Wales. Obviously, we have been at pains to ensure that any such guidance takes account of the different circumstances within Wales, and I think that the points that have been made by Members during this debate are obviously ones to which we would pay attention as we take these issues forward. I am grateful, as I say, to Members for their support for the LCM, and I ask the Chamber to approve it, having moved it.

Ddirprwy Lywydd, a gaf fi ddiolch i'm cydweithwyr am y sylwadau a wnaethant yn ystod y ddadl fer hon? Croesawaf yn arbennig yr hyn a ddywedodd llefarwyr Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol wrth gefnogi'r safbwynt yr ydym wedi'i gymryd o ran y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Cododd fy nghydweithiwr, Aelod Canolbarth a Gorllewin Cymru, fater yr effaith ar broffesiynau penodol. Rydym yn amlwg wedi bod mewn cysylltiad agos â'r Swyddfa Gartref ynglŷn â'r angen i ymgynghori'n agos gyda ni i sicrhau bod y ddyletswydd newydd i adrodd am anffurfio organau cenhedlu benywod a'r canllawiau ynghylch anffurfio organau cenhedlu benywod yn gweithio ochr yn ochr â'n mentrau polisi ni. Mae'r Gweinidog yn y Swyddfa Gartref wedi cytuno bod yn rhaid iddynt ymgynghori â ni, ac yna bydd ein swyddogion yn gweithio'n agos i roi'r darpariaethau newydd ar waith yng Nghymru. Yn amlwg, rydym wedi bod yn awyddus iawn i sicrhau bod unrhyw arweiniad o'r fath yn ystyried yr amgylchiadau gwahanol yng Nghymru, a chredaf fod y pwyntiau a wnaethpwyd gan yr Aelodau yn ystod y ddadl hon yn amlwg yn rhai y byddem yn talu sylw iddynt wrth inni fwrw ymlaen â'r materion hyn. Rwyf yn ddiolchgar, fel y dywedais, i'r Aelodau am eu cefnogaeth i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol, a gofynnaf i'r Siambr ei gymeradwyo, ar ôl ei gynnig.

15:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff y cynnig ei dderbyn felly, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Before we move to the Stage 3 debate on the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, I will suspend proceedings for 10 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene, and I would encourage Members to return to the Chamber promptly. Thank you.

Cyn inni symud at y ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), rwyf am atal y trafodion am 10 munud. Cenir y gloch bum munud cyn inni ailymgynnull, ac rwyf yn annog yr Aelodau i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon. Diolch.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:23.*

*Plenary was suspended at 15:23.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 15:33, gyda'r Llywydd yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 15:33, with the Presiding Officer in the Chair.*

15:33

## 8. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

## 8. Stage 3 Debate on the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you for coming back so promptly. We now move to the next item on the agenda, which is Stage 3 of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill.

Diolch i chi am ddod yn ôl mor brydlon. Symudwn nawr at yr eitem nesaf ar yr agenda, sef Cyfnod 3 y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

## Grŵp 1: Trais yn erbyn Menywod a Phlant (Gwelliannau 54, 55, 56 a 64)

## Group 1: Violence against Women and Children (Amendments 54, 55, 56 and 64)

15:34

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first group of amendments relates to violence against women and children. Now, the lead amendment in this group is amendment 54, and I call on Jocelyn Davies to move and speak to the lead amendment and other amendments in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a phlant. Nawr, gwelliant 54 yw'r prif welliant yn y grŵp hwn, a galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 54 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 54 (Jocelyn Davies) moved.*

15:34

### Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer.

Diolch i chi, Lywydd.

At Stage 2, I asked the Minister to consider adjusting the language used in section 2 of the Bill to say ‘children’ rather than ‘girls’ in recognition of the significant and lasting impact that being exposed to abuse and violence, both directly and indirectly, has on children regardless of their gender. I tabled the amendments in this group to make this change and to alter the short title of the Bill to the ‘violence against women and children, domestic abuse and sexual violence Bill’ to reflect that. Now, as women suffer violence because they are women, so children suffer violence because they are children—it's part of the same pattern of perpetrators using violence and abuse to control and create fear in those they see as being less powerful than themselves.

Yn ystod Cyfnod 2, gofynnais i'r Gweinidog ystyried diwygio’r iaith a ddefnyddir yn adran 2 y Bil i ddweud 'plant' yn hytrach na 'merched' gan gydnabod yr effaith sylweddol a pharhaol y mae cael eu hamlygu i gamdriniaeth a thrais, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn ei chael ar blant waeth beth fo’u rhyw. Cyflwynais y gwelliannau yn y grŵp hwn i wneud y newid hwn ac i newid teitl byr y Bil i’r ‘Bil trais yn erbyn menywod a phlant, cam-drin domestig a thrais rhywiol' i adlewyrchu hynny. Nawr, gan fod menywod yn dioddef trais oherwydd eu bod yn fenywod, felly hefyd mae plant yn dioddef trais oherwydd eu bod yn blant—mae'n rhan o'r un patrwm o droseddwyr yn defnyddio trais a chamdriniaeth i reoli a chreu ofn yn y rhai y maen nhw’n eu hystyried yn llai grymus na nhw eu hunain.

When there is violence in the home, the gender of the children present does not lessen the hugely traumatising effect it has, and the stress and upheaval that it causes. Of course, all victims, regardless of gender, must be protected.

Pan fo trais yn y cartref, nid yw rhyw y plant sy'n bresennol yn lleihau'r effaith hynod drawmatig y mae’n ei chael, a'r straen a'r cynnwrf y mae'n ei achosi. Wrth gwrs, mae’n rhaid diogelu pob dioddefwr, waeth beth fo'i ryw.

I’m pleased that the Minister listened to the many voices advocating that he reintroduce gender-specific language in this Bill—women disproportionately suffer domestic abuse and sexual violence, and we need to acknowledge that reality in order to address it. I hope Members understand that changing the reference in section 2 to children is part of the same argument.

Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi gwrando ar y lleisiau lawer a oedd yn argymell y dylai ailgyflwyno iaith ryw-benodol yn y Bil hwn—mae menywod yn dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol yn anghymesur, ac mae angen i ni gydnabod y gwirionedd hwnnw er mwyn mynd i’r afael ag ef. Rwy’n gobeithio bod yr Aelodau'n deall bod newid y cyfeiriad yn adran 2 i blant yn rhan o'r un ddadl.

The Bill must recognise that all children can be victimised by abuse and violence, regardless of their gender.

Mae'n rhaid i'r Bil gydnabod y gall pob plentyn ddioddef camdriniaeth a thrais, waeth beth fo’i ryw.

15:35

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I call the Minister.

Diolch yn fawr. Galwaf ar y Gweinidog.

15:36

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, Presiding Officer. Given that this is the first group of amendments at Stage 3, I would like to take a brief moment to say a few general remarks about this Stage.

Diolch i chi, Lywydd. O gofio mai hwn yw'r grŵp cyntaf o welliannau yng Nghyfnod 3, hoffwn gymryd munud i wneud ychydig o sylwadau cyffredinol am y Cyfnod hwn.

I would like to place on record my thanks to all Members of the Assembly, particularly those on the Communities, Equality and Local Government Committee, for their work during Stage 2. And I would also like to pay tribute to the work of my ministerial colleagues who preceded me in this portfolio area—Lesley Griffiths and Carl Sargeant—for the work that they did in developing the policy that underpins this Bill. I would also to thank Members who have tabled the amendments we will be debating today, and I assure Members I've considered each amendment carefully. I am also grateful for the support of stakeholders in the development of this Bill.

Hoffwn gofnodi fy niolch i holl Aelodau'r Cynulliad, yn enwedig y rhai ar y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, am eu gwaith yn ystod Cyfnod 2. A hoffwn dalu teyrnged hefyd i waith fy nghydweithwyr gweinidogol a'm rhagflaenodd yn y maes portffolio hwn—Lesley Griffiths a Carl Sargeant—am y gwaith a wnaethant i ddatblygu'r polisi sy'n sail i'r Bil hwn. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Aelodau sydd wedi cyflwyno'r gwelliannau y byddwn yn eu trafod heddiw, ac rwy'n sicrhau'r Aelodau fy mod i wedi ystyried pob gwelliant yn ofalus. Rwy'n ddiolchgar hefyd am gefnogaeth rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Bil hwn.

I have listened carefully to the arguments that Jocelyn Davies has made on these amendments, and we discussed them, of course, in principle, at earlier Stages. But, I do not consider that the amendments 54, 55 and 56 that she moves are necessary. Section 2 was added at Stage 2 to reflect the Welsh Government's recognition of the increased risk and disproportionate impact of violence against women and girls. The section helps ensure due regard is paid to the needs of women and girls affected by such violence and abuse, along with all other relevant matters.

Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y dadleuon y mae Jocelyn Davies wedi eu gwneud ar y gwelliannau hyn, a buom yn eu trafod, wrth gwrs, mewn egwyddor, yn ystod Cyfnodau cynharach. Ond, nid wyf o'r farn bod y gwelliannau 54, 55 a 56 y mae'n eu cynnig yn angenrheidiol. Ychwanegwyd Adran 2 yn ystod Cyfnod 2 i adlewyrchu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r risg gynyddol ac effaith anghymesur trais yn erbyn menywod a merched. Mae'r adran yn helpu i sicrhau y rhoddir sylw priodol i anghenion menywod a merched yr effeithir arnynt gan drais a cham-drin o'r fath, ynghyd â'r holl faterion perthnasol eraill.

Section 2 is specifically about the factors that increase the risk of violence against women and girls, or exacerbates the impact of such violence on female victims. The amendments being proposed now, therefore, dilute the intended focus of the section, which is meant to be on female victims. The scope of the Bill, of course, extends to all victims, regardless of age. In recognition of the substantial impact on children and young people, both in terms of witnessing and experiencing directly such violence and abuse, there is no age threshold applied to the Bill.

Mae Adran 2 yn ymwneud yn benodol â'r ffactorau sy'n cynyddu'r risg o drais yn erbyn menywod a merched, neu'n gwaethygu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr benywaidd. Mae'r gwelliannau sy'n cael eu cynnig nawr, felly, yn gwanhau'r pwyslais a fwriedir i'r adran, sef pwyslais ar ddioddefwyr benywaidd. Mae cwmpas y Bil, wrth gwrs, yn ymestyn i bob dioddefwr, waeth beth fo'i oedran. Er mwyn cydnabod yr effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc, o ran bod yn dyst a dioddef trais a chamdriniaeth o'r fath yn uniongyrchol, nid oes trothwy oedran yn gysylltiedig â'r Bil.

I consider amendment 64 to be unnecessary. The current title, as amended at Stage 2, provides the correct focus on the content of the Bill, whilst also reflecting the White Paper consultation, and addressing the concerns raised by stakeholders. I therefore urge Members to resist the amendments in this group.

Rwyf o'r farn bod gwelliant 64 yn ddiangen. Mae'r teitl presennol, fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2, yn darparu'r pwyslais cywir ar gynnwys y Bil, ond hefyd yn adlewyrchu'r ymgynghoriad Papur Gwyn, ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid. Rwy'n annog yr Aelodau felly i wrthsefyll y gwelliannau yn y grŵp hwn.

15:38

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Jocelyn Davies to reply to the debate.

Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

15:38

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, thank you, Presiding Officer. Well, the Minister and I do not see eye to eye on this one; let's hope that doesn't set the scene for the whole afternoon.

Ie, diolch i chi, Lywydd. Wel, nid yw'r Gweinidog a minnau'n gweld lygad yn llygad ar y mater hwn; gobeithio nad yw hynny'n gosod y llwyfan ar gyfer y prynhawn cyfan.

I mean, we are all pleased that at least women and girls are now on the face of the Bill, and it's good to see that the Government admit they were wrong on that one, and perhaps it was just too much to ask for all children's position to be recognised also. I'm disappointed, but not too surprised, because we've rehearsed these arguments already at Stage 2, and perhaps a future Government might take a slightly different view. But, obviously, for today, I accept that I cannot persuade the Government to change their mind on this one. Thanks, Presiding Officer.

Hynny yw, rydym ni i gyd yn falch bod menywod a merched o leiaf ar wyneb y Bil erbyn hyn, ac mae'n dda gweld bod y Llywodraeth yn cyfaddef ei bod yn anghywir yn hynny o beth, ac efallai ei bod braidd yn ormod i ofyn i sefyllfa bob plentyn gael ei chydnabod hefyd. Rwy'n siomedig, ond nid wedi fy synnu'n ormodol, gan ein bod ni wedi bod drwy'r dadleuon hyn eisoes yng Nghyfnod 2, ac efallai y byddai Llywodraeth yn y dyfodol yn cymryd safbwynt ychydig yn wahanol. Ond, yn amlwg, am heddiw, rwy'n derbyn na allaf berswadio'r Llywodraeth i newid ei meddwl ar y mater hwn. Diolch, Lywydd.

15:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 54 is not agreed to, amendment 55 will fall. So, the question is that amendment 54 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] Then, we move to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against, therefore I cast my casting vote against. So, the vote is 26 in favour, no abstentions, 27 against, therefore the amendment falls.

Os na dderbynnir gwelliant 54, bydd gwelliant 55 yn methu. Felly, y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 54. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Felly, symudwn at bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, neb yn ymatal, 26 yn erbyn, felly rwy'n bwrw fy mhleidlais fwrw i yn erbyn. Felly, y bleidlais yw 26 o blaid, neb yn ymatal, 27 yn erbyn, felly mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 54.

Result of the vote on amendment 54.

*Methodd gwelliant 55.*

*Amendment 55 fell.*

### Grŵp 2: Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch—Cyngor a Chanllawiau (Gwelliannau 22, 24, 17 a 53)

### Group 2: Further and Higher Education Institutions—Advice and Guidance (Amendments 22, 24, 17 and 53)

15:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The second group of amendments relates to further and higher education institutions—advice and guidance. The lead amendment in this group is amendment 22, and I call on the Minister to move, and speak to, the lead amendment, and the other amendments in the group. Minister.

Mae'r ail grŵp o welliannau yn ymwneud â sefydliadau addysg bellach ac uwch—cyngor a chanllawiau. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 22, a galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant, a'r gwelliannau eraill yn y grŵp. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 22 (Leighton Andrews).*

*Amendment 22 (Leighton Andrews) moved.*

15:39 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. During Stage 2, Peter Black tabled amendments on higher and further education. In the course of the debate, he did not push these amendments to a vote, to allow time for him to reflect further following concerns expressed by Universities Wales. I also committed to meet with him to discuss and explore options for bringing forward amendments at Stage 3. Following that meeting, I agreed to explore the full policy and legal considerations for including a power to issue guidance in the Bill from the Welsh Ministers to higher and further education institutions. Amendments 22, 24 and 53, in my name, are the results of that consideration. I am sure Members will have had an opportunity to consider these amendments before today's debate.

Diolch i chi, Lywydd. Yn ystod Cyfnod 2, cyflwynodd Peter Black welliannau ar addysg uwch a phellach. Yn ystod y ddadl, ni wthiodd y gwelliannau hyn i bleidlais, er mwyn rhoi amser iddo fyfyrio ymhellach yn dilyn pryderon a fynegwyd gan Brifysgolion Cymru. Ymrwymais hefyd i gyfarfod ag ef i drafod ac archwilio dewisiadau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, cytunais i ystyried yr ystyriaethau polisi a chyfreithiol yn llawn ar gyfer cynnwys grym i gyhoeddi canllawiau yn y Bil gan Weinidogion Cymru i sefydliadau addysg uwch a phellach. Gwelliannau 22, 24 a 53, yn fy enw i, yw canlyniadau'r ystyriaeth honno. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau wedi cael cyfle i ystyried y gwelliannau hyn cyn y ddadl heddiw.

Peter Black's amendment 17 provides for the Welsh Ministers to seek advice from the Higher Education Funding Council for Wales and HE and FE institutions on ways to help achieve the purposes of the Act. Although I understand the intent behind this amendment, the reference to 'institutions' is not defined, so that a school or other educational provider may fall within the scope of the amendment, which may lead to the Welsh Ministers seeking advice from individual schools and providers, which would not be appropriate.

Mae gwelliant 17 Peter Black yn caniatáu i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a sefydliadau AU ac AB ar ffyrdd o helpu i gyflawni dibenion y Ddeddf. Er fy mod i'n deall y bwriad y tu ôl i'r gwelliant hwn, nid yw'r cyfeiriad at 'sefydliadau' wedi'i ddiffinio, sy'n golygu y gall ysgol neu ddarparwr addysgol arall fod o fewn cwmpas y gwelliant, a allai arwain at Weinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan ysgolion a darparwyr unigol, ac ni fyddai hynny'n briodol.

Amendment 24 in my name provides the Welsh Ministers and HEFCW with the power to issue guidance to the governing bodies of HE and FE institutions and requires those institutions to have regard to such guidance. This could include, for example, publicity campaigns within institutions, availability of information regarding external services for victims and how voluntary organisations within the sector could assist institutions in raising awareness. I consider that amendment 24 provides a more robust solution than that offered by amendment 17 in relation to the further and higher education sectors, by targeting guidance at the institutions providing the education and requiring them to take that guidance into account.

Mae gwelliant 24 yn fy enw i yn rhoi'r grym i Weinidogion Cymru a CCAUC i gyflwyno canllawiau i gyrff llywodraethu sefydliadau AU ac AB ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau hynny roi sylw i ganllawiau o'r fath. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd mewn sefydliadau, bod gwybodaeth ar gael am wasanaethau allanol i ddioddefwyr a sut y gallai mudiadau gwirfoddol o fewn y sector gynorthwyo sefydliadau o ran codi ymwybyddiaeth. Rwyf o'r farn bod gwelliant 24 yn cynnig ateb mwy cadarn na'r hyn a gynigir gan welliant 17 o ran y sectorau addysg bellach ac uwch, trwy dargedu canllawiau at y sefydliadau sy'n darparu'r addysg a'i gwneud yn ofynnol iddynt gymryd y canllawiau hynny i ystyriaeth.

Amendment 22 is consequential to amendment 24. This means that the Welsh Ministers and HEFCW, when preparing such guidance, must have regard, along with all other relevant matters, to the need to remove or minimise any factors that increase the risk of violence against women and girls, or exacerbates the impact of such violence on victims. In taking account of any guidance issued by the Welsh Ministers and HEFCW, institutions would also have to have regard to the matters specified in section 2 of the Bill. Amendment 53 sets out when new guidance issuing power to higher and further education institutions will come into force.

Mae gwelliant 22 yn ganlyniadol i welliant 24. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru a CCAUC, wrth baratoi canllawiau o'r fath, roi sylw, ynghyd â'r holl faterion perthnasol eraill, i'r angen i ddileu neu leihau unrhyw ffactorau sy'n cynyddu'r risg o drais yn erbyn menywod a merched, neu'n gwaethygu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr. Wrth gymryd unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a CCAUC i ystyriaeth, byddai'n rhaid i sefydliadau roi sylw hefyd i'r materion a nodir yn adran 2 y Bil. Mae gwelliant 53 yn nodi pryd y bydd canllawiau newydd yn rhoi grym i sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn dod i rym.

Members will be aware of the Higher Education (Wales) Bill that was agreed by the Assembly on 27 January this year. These amendments have been developed to ensure that they do not cut across the institutional autonomy and academic freedom of universities that the Higher Education (Wales) Bill seeks to protect. In particular, Members will note the protections that have been built into sub-paragraph (3) of amendment 24 in this regard. Members will be also be aware of the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Act 2014, which received Royal Assent on 27 January, which enhanced the autonomy and decision-making abilities of further education institutions in Wales. These amendments do not impact on the purpose or intention of that Act.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r Bil Addysg Uwch (Cymru) a gafodd ei gytuno gan y Cynulliad ar 27 Ionawr eleni. Datblygwyd y gwelliannau hyn i sicrhau nad ydynt yn torri ar draws ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academaidd y prifysgolion y mae Bil Addysg Uwch (Cymru) yn ceisio eu diogelu. Yn arbennig, bydd yr Aelodau'n nodi'r amddiffyniadau sydd wedi eu cynnwys yn is-baragraff (3) o welliant 24 yn hyn o beth. Bydd yr aelodau'n ymwybodol hefyd o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr, ac a gynyddodd alluoedd ymreolaethol a gwneud penderfyniadau sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Nid yw'r gwelliannau hyn yn effeithio ar ddiben na bwriad y Ddeddf honno.

If Peter Black is not minded to withdraw his amendment, I urge Assembly Members to resist amendment 17 and support Governments amendments 22, 24 and 53 within this group.

Os nad yw Peter Black yn fodlon tynnu ei welliant yn ôl, rwy'n annog Aelodau'r Cynulliad i wrthod gwelliant 17 a chefnogi gwelliannau 22, 24 a 53 y Llywodraeth yn y grŵp hwn.

15:43 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm extremely pleased to see the Government bring amendments that will give Welsh Ministers the ability to issue guidance to further and higher education institutions on preventing violence against women, domestic abuse, sexual violence and protecting victims, because there can be no progress on these matters without education. But, education doesn't stop when you leave school, and further and higher educational institutions can play a hugely important role in informing their students about equality and respect. Now, the importance of issuing guidance to further and higher educational institutions is given particular significance, I think, by the rise of the so-called 'lad culture' in universities; this is an issue you'll all be aware that the National Union of Students has campaigned extensively on. I applaud the NUS for their campaign. They undertook some research that found that 50% of those who participated in the study identified prevailing sexism, 'laddism' and a culture of harassment at their particular university. The Everyday Sexism project has received reports of shocking sexual harassment and assault experienced by our students. Take this account, for example:

Rwy'n hynod o falch o weld y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliannau a fydd yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i sefydliadau addysg bellach ac uwch ar atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol ac amddiffyn dioddefwyr, gan na ellir cael unrhyw gynnydd ar y materion hyn heb addysg. Ond, nid yw addysg yn dod i ben pan eich bod chi'n gadael yr ysgol, a gall sefydliadau addysg bellach ac uwch chwarae rhan hynod o bwysig o ran hysbysu eu myfyrwyr am gydraddoldeb a pharch. Nawr, rhoddir arwyddocâd arbennig i bwysigrwydd cyflwyno canllawiau i sefydliadau addysg bellach ac uwch, rwy'n credu, drwy ddyfodiad yr hyn a elwir yn 'lad culture' mewn prifysgolion; mae hwn yn fater y byddwch chi i gyd yn ymwybodol bod Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wedi ymgyrchu'n helaeth arno. Rwy'n canmol UCM ar ei ymgyrch. Gwnaethpwyd gwaith ymchwil ganddynt a ganfu bod 50% o'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth wedi nodi bod rhywiaeth, 'laddism' a diwylliant o aflonyddu yn gyffredin yn eu prifysgolion penodol hwy. Mae'r prosiect Everyday Sexism wedi derbyn adroddiadau o aflonyddu rhywiol ac ymosodiadau dychrynllyd a ddioddefir gan ein myfyrwyr. Cymerwch hyn i ystyriaeth, er enghraifft:

'Waiting to get into a club and got grabbed from behind and someone whispered in my ear: 'I'm going to… rape you.' My stomach flipped, I turned round and it was a guy I know off my university course laughing like it was funny.'

Roeddwn i'n aros i fynd i mewn i glwb a gafaelodd rhywun ynof i o'r tu ôl a sibrwd yn fy nghlust: 'Rwy'n mynd i dy... dreisio'. Trodd fy stumog, a throais o gwmpas a dyn rwy'n ei adnabod o fy nghwrs prifysgol oedd e, yn chwerthin fel pe bai'n ddoniol.

Aberystwyth cricket club was banned from competing and had their funding withdrawn after wearing t-shirts that said 'casual rape' on the back on a night out, and Cardiff Met students' union had to apologise after displaying a poster advertising a night out that featured a photo of a person with 'I was raping a woman last night and she cried' written across their t-shirt. Now, these are all in extremely bad taste, but they also reveal something much darker. A culture in further and higher education that sees this sort of behaviour as acceptable makes female students feel unwelcome and unsafe in their own colleges and universities. And the banter doesn't necessarily stop at sexism, of course, because it can include homophobic and racist abuse. I hope that the Government's amendments on issuing guidance to further and higher education institutions will mean that Welsh Ministers can show leadership in acting to end this rise of lad culture and by expecting colleges and universities to now confront it. Thank you.

Cafodd clwb criced Aberystwyth ei wahardd rhag cystadlu a thynnwyd ei gyllid yn ôl ar ôl gwisgo crysau-t yn dweud 'casual rape' ar eu cefnau ar noson allan, a bu'n rhaid i undeb myfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd ymddiheuro ar ôl arddangos poster yn hysbysebu noson allan a oedd yn cynnwys llun o berson â 'I was raping a woman last night and she cried' wedi'i ysgrifennu ar draws ei grys-t. Nawr, mae'r rhain i gyd yn dangos chwaeth eithriadol o wael, ond maen nhw hefyd yn datgelu rhywbeth llawer tywyllach. Mae diwylliant mewn addysg bellach ac uwch sy'n ystyried y math hwn o ymddygiad yn dderbyniol yn gwneud i fyfyrwyr benywaidd deimlo nad oes croeso iddyn nhw a'u bod mewn perygl yn eu colegau a'u prifysgolion eu hunain. Ac nid rhywiaeth yw diwedd y tynnu coes o reidrwydd, wrth gwrs, gan y gall gynnwys difrïo homoffobig a hiliol. Rwy'n gobeithio y bydd gwelliannau'r Llywodraeth ar gyflwyno canllawiau i sefydliadau addysg bellach ac uwch yn golygu y gall Gweinidogion Cymru ddangos arweinyddiaeth wrth weithredu i roi terfyn ar y dyfodiad hwn o 'lad culture' a thrwy ddisgwyl i golegau a phrifysgolion fynd i'r afael ag ef nawr. Diolch yn fawr.

15:46 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I first of all start by saying that I will not be moving amendment 17? I think that the amendments that the Minister has brought forward are better than the ones I have brought forward and, I think, also have addressed very much the concerns I raised in committee. I'd very much like to thank the Minister, not just for meeting me before, but for considering this issue in some detail and for bringing forward what I consider to be very comprehensive amendments within the legal constraints within which we all have to work in relation to HE and FE.

A gaf i ddechrau yn y lle cyntaf trwy ddweud na fyddaf yn cynnig gwelliant 17? Rwy'n credu bod y gwelliannau y mae'r Gweinidog wedi eu cyflwyno yn well na'r rhai yr wyf i wedi eu cyflwyno a hefyd, rwy'n credu, wedi rhoi sylw yn bendant i'r pryderon a godais yn y pwyllgor. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog, nid yn unig am gyfarfod â mi o'r blaen, ond am ystyried y mater hwn yn fanwl ac am gyflwyno'r hyn rwy'n eu hystyried yn welliannau cynhwysfawr iawn o fewn y cyfyngiadau cyfreithiol y mae'n rhaid i bob un ohonom ni weithio yn unol â nhw o ran AU ac AB.

I think Jocelyn Davies has underlined the reasons why these amendments are necessary. I think it's absolutely crucial that the culture that is prevalent in some universities and colleges is tackled head-on, and I think that the guidance that the Minister's going to be able to issue under these particular amendments will enable the Welsh Government to take the lead, along with those colleges, in tackling that culture and, in particular, in trying to turn it around to one that is more sympathetic towards healthy relationships and less abusive towards people of the opposite sex, or even of the same sex for that matter. I think, therefore, that I very much hope that we can support these amendments and, as I said, Presiding Officer, I will not be moving amendment 17.

Rwy'n credu bod Jocelyn Davies wedi tanlinellu'r rhesymau pam mae angen y gwelliannau hyn. Rwy'n credu ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r diwylliant sy'n gyffredin mewn rhai prifysgolion a cholegau, ac rwy'n credu y bydd y canllawiau y mae'r Gweinidog yn mynd i allu eu cyhoeddi dan y gwelliannau penodol hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i arwain y ffordd, ynghyd â'r colegau hynny, i fynd i'r afael â'r diwylliant hwnnw ac, yn arbennig, mewn ceisio ei wrthdroi i un sy'n dangos mwy o gydymdeimlad â pherthnasoedd iach ac sy'n llai ymosodol tuag at bobl o'r rhyw arall, neu'r un rhyw hyd yn oed. Rwy'n credu, felly, fy mod i'n gobeithio'n fawr y gallwn ni gefnogi'r gwelliannau hyn ac, fel y dywedais, Lywydd, ni fyddaf yn cynnig gwelliant 17.

15:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ateb.

15:47

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, can I start by thanking Peter Black for his recognition of what we've sought to do as a Government and for the fact that he does not propose to move his amendments? I think both he and Jocelyn Davies have drawn attention to the work that has been done within the higher education sector but also the work that needs to continue to be done. Certainly, at this point, I want to pay tribute to the National Union of Students Wales, which, over the last seven or eight years, has been very much at the forefront of tackling the laddish culture that Jocelyn was referring to. My predecessors who had the portfolio responsibility for this area have supported campaigns by the National Union of Students Wales in the past. I think what we're doing with these amendments today will really take that work forward.

Lywydd, a gaf i ddechrau trwy ddiolch i Peter Black am ei gydnabyddiaeth o'r hyn yr ydym ni wedi ceisio ei wneud fel Llywodraeth ac am y ffaith nad yw'r bwriadu cynnig ei welliannau? Rwy'n credu ei fod ef a Jocelyn Davies wedi tynnu sylw at y gwaith sydd wedi ei wneud yn y sector addysg uwch ond hefyd y gwaith y mae angen parhau i'w wneud. Yn sicr, ar hyn o bryd, hoffwn dalu teyrnged i Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, sydd, dros y saith neu wyth mlynedd diwethaf, wedi bod ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â'r diwylliant 'laddish' yr oedd Jocelyn yn cyfeirio ato. Mae fy rhagflaenwyr a oedd â'r cyfrifoldeb portffolio am y maes hwn wedi cefnogi ymgyrchoedd gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru yn y gorffennol. Rwy'n credu y bydd yr hyn yr ydym ni'n ei wneud gyda'r gwelliannau hyn heddiw wir yn symud y gwaith hwnnw yn ei flaen.

15:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 22 be agreed to. Does anyone object? No objections. Therefore amendment 22 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 22. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Derbynnir gwelliant 22 felly.

*Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 22 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 3: Ystyr 'Swyddogaethau Perthnasol' (Gwelliannau 21 a 23)

### Group 3: Meaning of 'Relevant Functions' (Amendments 21 and 23)

15:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The third group of amendments relates to the meaning of 'relevant functions', and the lead amendment in this group is 21. I call the Minister to move and speak to that amendment and any others in the group.

Mae'r trydydd grŵp o welliannau yn ymwneud ag ystyr 'swyddogaethau perthnasol', a'r prif welliant yn y grŵp hwn yw 21. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y gwelliant hwnnw ac unrhyw rai eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 21 (Leighton Andrews).*

*Amendment 21 (Leighton Andrews) moved.*

15:48 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Llywydd. These are in a sense, perhaps, more technical. Amendment 21, tabled in my name, seeks to provide that a relevant function under section 2 does not include functions exercisable under section 5 by any person other than a local authority and local health board. Therefore, in the preparation of local strategies, section 2 only applies to local authorities and local health boards. My predecessor, Lesley Griffiths, set out when she introduced the Bill that it was the intention that section 5(4) of the Bill would extend to action that could be taken by a Minister of the Crown. In order to include such provision, the Secretary of State's consent was required. As previously outlined, the specific reference to excluding a Minister of the Crown was included until such consent was obtained. I have also previously outlined that such consent has been received and amendment 23 therefore seeks to remove the reference to the exclusion of a Minister of the Crown in section 5(4)(a). I therefore urge Members to support these amendments.

Diolch i chi, Lywydd. Mae'r rhain mewn ffordd, efallai, yn fwy technegol. Nod gwelliant 21, a gynigir yn fy enw i, yw darparu nad yw swyddogaeth berthnasol dan adran 2 yn cynnwys swyddogaethau sy'n arferadwy dan adran 5 gan unrhyw berson ac eithrio awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Felly, wrth baratoi strategaethau lleol, mae adran 2 yn berthnasol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn unig. Nododd fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths, pan gyflwynodd hi'r Bil, mai'r bwriad oedd y byddai adran 5(4) y Bil yn ymestyn at gamau a allai gael eu cymryd gan un o Weinidogion y Goron. Er mwyn cynnwys darpariaeth o'r fath, roedd angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, roedd cyfeiriad penodol at eithrio un o Weinidogion y Goron wedi ei gynnwys hyd nes y derbyniwyd cydsyniad o'r fath. Rwyf hefyd wedi amlinellu o'r blaen y derbyniwyd cydsyniad o'r fath a nod gwelliant 23, felly, yw cael gwared ar y cyfeiriad at eithrio un o Weinidogion y Goron yn adran 5(4)(a). Rwyf felly'n annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau hyn.

15:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I have no other speakers. So, the question is that amendment 21 be agreed to. Does any Member object? Amendment 21 is therefore agreed to.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Felly, y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 21. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 21, felly.

*Derbyniwyd gwelliant 21 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 21 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Jocelyn Davies, amendment 56.

Jocelyn Davies, gwelliant 56.

*Cynigiwyd gwelliant 56 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 56 (Jocelyn Davies) moved.*

15:49 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Yes, move.

Ie, cynnig.

15:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 56 be agreed to. Does anyone object? [Objection.] Object. We move straight to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I use my casting vote against. So, 26 for, no abstentions, 27 against; therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 56. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwn yn syth at bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, neb yn ymatal, 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn. Felly, 26 o blaid, neb yn ymatal, 27 yn erbyn; mae'r gwelliant yn methu felly.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 56.]

[Result of the vote on amendment 56.]

### Grŵp 4: Dyletswydd i Roi Sylw i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (Gwelliant 1)

### Group 4: Duty to Have Regard to the Convention on the Rights of the Child (Amendment 1)

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group four relates to the duty to have regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child and the only amendment in this group is amendment 1, and I call on Peter Black to move and speak to his amendment.

Mae grŵp pedwar yn ymwneud â'r ddyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1, a galwaf ar Peter Black i gynnig a siarad am ei welliant.

*Cynigiwyd gwelliant 1 (Peter Black).*

*Amendment 1 (Peter Black) moved.*

15:50 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I move amendment 1 and say that when the committee published this report, it recommended that the Minister amend the Bill to make specific reference to the UN Convention on the Rights of the Child to ensure that authorities have regard to this in complying with their duties under the Bill. Early intervention for children and young people is a positive investment in the reduction of family and inter-partner violence in the long term. It is my belief that a specific reference to the UNCRC on the face of the Bill would enable the extension of this duty to local personnel in showing that all relevant bodies under the Bill will need to pay due regard to the UNCRC when developing the elements of their strategies that apply to children. This is an important part of ensuring the Bill includes a rights-based framework to ensure a statutory right to services for victims, and that specific reference is made to the direct and indirect impact that violence against women, domestic violence and sexual violence has on children regardless.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiaf welliant 1 a dywedaf pan gyhoeddodd y pwyllgor yr adroddiad hwn, argymhellodd y dylai’r Gweinidog wella’r Bil i wneud cyfeiriad penodol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i sicrhau bod awdurdodau yn rhoi sylw i hyn wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau dan y Bil. Mae ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc yn fuddsoddiad cadarnhaol ar gyfer lleihau trais teuluol a rhwng partneriaid yn yr hirdymor. Fy nghred i yw y byddai cyfeiriad penodol at CCUHP ar wyneb y Bil yn galluogi’r ddyletswydd hon i gael ei hymestyn i bersonél lleol drwy ddangos y bydd angen i bob corff perthnasol dan y Bil roi sylw priodol i'r Confensiwn wrth ddatblygu elfennau o’u strategaethau sy'n berthnasol i blant. Mae hyn yn rhan bwysig o sicrhau bod y Bil yn cynnwys fframwaith sy’n seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau bod gan ddioddefwyr hawl statudol i wasanaethau, a bod cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at yr effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y mae trais yn erbyn menywod, trais yn y cartref a thrais rhywiol yn ei chael ar blant beth bynnag.

I think when this was opposed in committee, the Minister indicated that because the Government has to have regard to the UNCRC, the guidance that he issues will be compliant with it. But, of course, local authorities are not necessarily under the same duty to comply with the UNCRC, and I think it’s important, therefore, that we put this on the face of the Bill to make it clear that we expect them to carry out that function.

Rwy'n credu pan wrthwynebwyd hyn yn y pwyllgor, y dywedodd y Gweinidog oherwydd bod yn rhaid i’r Llywodraeth roi ystyriaeth i CCUHP, y bydd y canllawiau y bydd yn eu cyflwyno yn cydymffurfio â hwnnw. Ond, wrth gwrs, nid yw awdurdodau lleol o reidrwydd dan yr un ddyletswydd i gydymffurfio â CCUHP, ac rwy’n credu felly ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi hyn ar wyneb y Bil i’w gwneud yn eglur ein bod yn disgwyl iddyn nhw gyflawni’r swyddogaeth honno.

15:51 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister argued at Stage 2 that putting a reference to the convention on the rights of the child on the face of the Bill was unnecessary because Welsh Ministers already have a duty to have regard to the convention following the passing of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure back in 2011. But, as Peter’s just mentioned, not all authorities that have responsibilities under this Bill have ratified that convention, and I’m concerned also that unless we make it a duty to have regard to the convention explicit on the face of the Bill, we might see that there is not proper consideration of the rights of the child when those relevant agencies draw up their local strategies and put them into action.

Dadleuodd y Gweinidog yng Nghyfnod 2 nad oes angen rhoi cyfeiriad at y confensiwn ar hawliau'r plentyn ar wyneb y Bil gan ei bod yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r confensiwn yn dilyn pasio’r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn ôl yn 2011. Ond, fel y mae Peter newydd grybwyll, nid yw pob awdurdod sydd â chyfrifoldebau dan y Bil hwn wedi cadarnhau’r confensiwn hwnnw, ac rwy'n poeni hefyd y gallem weld na fydd ystyriaeth briodol o hawliau'r plentyn pan fydd yr asiantaethau perthnasol hynny’n llunio eu strategaethau lleol ac yn eu rhoi ar waith, oni bai ein bod yn gwneud y ddyletswydd i roi sylw i'r confensiwn yn eglur ar wyneb y Bil.

The other argument we heard at Stage 2 was concern that because there is not a similar reference to the UNCRC in all other pieces of legislation, some may interpret that as meaning that the duty to have regard to the convention does not apply in the other cases. I don't think that this is a strong argument. This Bill has particular significance for children and young people. The impact of domestic abuse and sexual violence on their lives is enormous, whether they are victims themselves, or witness it in their home or communities. Placing a duty to have regard to the convention on the face of the Bill is an appropriate acknowledgement of the devastating impact that violence and abuse have on children, and the necessity of always placing a consideration of their rights at the centre of both local and national strategies. Therefore, I will be supporting Peter's amendment.

Y ddadl arall a glywsom yn ystod Cyfnod 2 oedd pryder, gan nad oes cyfeiriad tebyg at CCUHP ym mhob darn arall o ddeddfwriaeth, efallai y bydd rhai yn dehongli hynny i olygu nad yw'r ddyletswydd i roi sylw i'r confensiwn yn berthnasol yn yr achosion eraill. Nid wyf yn credu bod hon yn ddadl gref. Mae gan y Bil hwn arwyddocâd arbennig i blant a phobl ifanc. Mae effaith cam-drin domestig a thrais rhywiol ar eu bywydau yn enfawr, pa un a ydynt yn ddioddefwyr eu hunain, neu'n ei weld yn eu cartrefi neu eu cymunedau. Mae cyflwyno dyletswydd i roi sylw i'r confensiwn ar wyneb y Bil yn gydnabyddiaeth briodol o'r effaith ddinistriol y mae trais a cham-drin yn ei chael ar blant, a'r angenrheidrwydd i sicrhau bob amser bod rhoi sylw i'w hawliau yn ganolog i strategaethau lleol a chenedlaethol. Felly, byddaf yn cefnogi gwelliant Peter.

15:53

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have listened to the views put forward by Members, but I do remain of the view that this amendment is unnecessary. As Peter Black acknowledged, Welsh Ministers are already under a duty to have regard to the UNCRC. It would therefore already be considered as part of the development of the national strategy, and under the Bill, local authorities and local health boards will have to pay due regard to the national strategy in preparing their own local strategies. Further, Welsh Ministers will be required to have regard to the UNCRC in implementing the national strategy, in preparing any guidance under section 14 of the Bill, in making any regulations under section 9 of the Bill and in exercising their functions in relation to the ministerial adviser.

Rwyf wedi gwrando ar y sylwadau a wnaed gan yr Aelodau, ond rwy'n dal i fod o'r farn bod y gwelliant hwn yn ddiangen. Fel y cydnabu Peter Black, mae eisoes yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i CCUHP. Byddai eisoes yn cael ei ystyried yn rhan o ddatblygiad y strategaeth genedlaethol felly, ac o dan y Bil, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol roi sylw priodol i'r strategaeth genedlaethol wrth baratoi eu strategaethau lleol eu hunain. Hefyd, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i CCUHP wrth weithredu'r strategaeth genedlaethol, wrth baratoi unrhyw ganllawiau dan adran 14 y Bil, wrth wneud unrhyw reoliadau dan adran 9 y Bil ac wrth arfer eu swyddogaethau o ran y cynghorwr gweinidogol.

Section 7(2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 provides that local authorities and local health boards, in exercising functions in relation to children under that Act, including children who have, or may have, needs for care and support, must have regard to part 1 of the UNCRC. This would include the function of conducting the section 14 population needs assessment. Under this Bill, local authorities and local health boards are under a duty to have regard to this needs assessment in the development of their local strategy. So, the UNCRC will therefore already be an integral part of identifying the objectives and actions in their local strategies. I therefore urge members to resist amendment 1.

Mae adran 7(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, wrth arfer swyddogaethau yn ymwneud â phlant dan y Ddeddf honno, gan gynnwys plant sydd angen, neu a allai fod angen, gofal a chefnogaeth, roi sylw i ran 1 y Confensiwn. Byddai hyn yn cynnwys y swyddogaeth o gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth adran 14. Dan y Bil hwn, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i roi sylw i'r asesiad o anghenion hwn wrth ddatblygu eu strategaeth leol. Felly, bydd y Confensiwn eisoes yn rhan annatod o nodi'r amcanion a'r camau gweithredu yn eu strategaethau lleol. Rwy'n annog yr aelodau felly i wrthod gwelliant 1.

15:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Peter Black to reply to the debate.

Peter Black i ateb i'r ddadl.

15:54 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I understand what the Minister is saying, and I understand also that Ministers themselves do have a duty to take account of the UNCRC. My concern is that local authorities in particular, most of which have not adopted the UNCRC, will take regard of the guidance, but in other actions that they carry out in this particular regard they will not pay attention to it. I think it's important, therefore, that not only do we put it on the face of the Bill, but also that, by doing so, we send a message to all the agencies associated with this particular Bill and the actions required under it that the UNCRC is absolutely paramount in terms of our attitude towards children, and how children should be treated with regard to this particular agenda. For that reason, Presiding Officer, I will be pressing this amendment.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n deall yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud, ac rwy'n deall hefyd bod gan Weinidogion eu hunain ddyletswydd i roi sylw i CCUHP. Fy mhryder i yw y bydd awdurdodau lleol yn arbennig, nad yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi mabwysiadu'r Confensiwn, yn rhoi sylw i'r canllawiau, ond mewn camau eraill y byddan nhw'n eu cymryd yn ynglŷn â'r mater penodol hwn, na fyddant yn rhoi sylw iddo. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, felly, nid yn unig ein bod ni'n ei roi ar wyneb y Bil, ond hefyd, trwy wneud hynny, ein bod yn anfon neges at yr holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r Bil penodol hwn, a'r camau sy'n ofynnol yn unol ag ef, bod CCUHP yn hollbwysig o ran ein hagwedd tuag at blant, a sut y dylai plant gael eu trin o ran yr agenda benodol hon. Am y rheswm hwnnw, Lywydd, byddaf yn gwthio'r gwelliant hwn.

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 1 be agreed to. Obviously there is an objection. [Objection.] So, we'll move straight to the electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour, 14; 12 abstentions and 26 against. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. Yn amlwg, mae gwrthwynebiad. [Gwrthwynebiad.] Felly, symudwn yn syth at y bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 14; 12 yn ymatal a 26 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 26, Ymatal 12.*

*Amendment not agreed: For 14, Against 26, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1.

Result of the vote on amendment 1.

**Grŵp 5: Hawliau Dioddefwyr (Gwelliant 57)**

**Group 5: Victims' Rights (Amendment 57)**

15:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group 5 relates to the rights of victims, and the only amendment in this group is amendment 57. I call on Jocelyn Davies to move her amendment and to speak to it.

Mae grŵp 5 yn ymwneud â hawliau dioddefwyr, a'r unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 57. Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig ei gwelliant ac i siarad amdano.

*Cynigiwyd gwelliant 57 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 57 (Jocelyn Davies) moved.*

15:56 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. The committee report on the Bill included a recommendation to amend the Bill to provide for a rights-based framework to ensure a statutory right to services for victims. Now, this is a necessary consequence of understanding that violence against women, domestic abuse and sexual violence are a violation of victims' human rights, and when the state fails to act to stop that violence, it becomes complicit in those violations. But the Welsh Government has been clear in the past that it understands that a life free from violence and abuse is a right. There is little precedent, however, for exactly what a victims-right approach in law would look like in the UK, but I believe this is an opportunity for us here in Wales to lead the way in putting victims at the heart of our legislation.

Diolch i chi, Lywydd. Roedd adroddiad y pwyllgor ar y Bil yn cynnwys argymhelliad i ddiwygio'r Bil i ddarparu ar gyfer fframwaith yn seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau hawl statudol i wasanaethau ar gyfer dioddefwyr. Nawr, mae hyn yn ganlyniad angenrheidiol o ddeall bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn mynd yn groes i hawliau dynol dioddefwyr, a phan fydd y wladwriaeth yn methu â gweithredu i roi terfyn ar y trais hwnnw, mae'n dod yn rhan o'r troseddau hynny. Ond mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn eglur yn y gorffennol ei bod yn deall bod bywyd sy'n rhydd o drais a cham-drin yn hawl. Prin yw'r cynsail, fodd bynnag, am sut un union y byddai dull hawliau dioddefwyr yn y gyfraith yn edrych yn y DU, ond rwy'n credu bod hwn yn gyfle i ni yma yng Nghymru arwain y ffordd wrth roi dioddefwyr wrth wraidd ein deddfwriaeth.

Amendment 57 gives every person a duty to have regard to the provisions of the European Parliament's victims' rights directive, which establishes minimum standards on the rights, support and protection of victims of crime. The directive strengthens the rights of victims and ensures that they have access to appropriate support and recourse. If this Bill is to improve the experiences of victims, it must make explicit provision to protect and promote their rights, and I believe that this amendment goes some way to achieving that.

Mae gwelliant 57 yn gosod dyletswydd ar bob unigolyn i roi sylw priodol i ddarpariaethau cyfarwyddeb hawliau dioddefwyr Senedd Ewrop, sy'n nodi safonau gofynnol ar hawliau, cefnogi ac amddiffyn dioddefwyr troseddau. Mae'r gyfarwyddeb yn cryfhau hawliau dioddefwyr ac yn sicrhau bod cefnogaeth ac atebolrwydd priodol ar gael iddynt. Os yw'r Bil hwn am wella profiadau dioddefwyr, mae'n rhaid iddo wneud darpariaeth benodol i amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau, ac rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn gwneud cryn dipyn i sicrhau hynny.

15:57

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The amendment seeks to insert a new section to the Bill, which would require a person exercising functions under this Act to have regard to the directive of the European Parliament and of the Council establishing minimum standards on the rights, support and protection of victims of crime. The directive deals with various aspects of the experience of victims of criminal offences. However, the directive is particularly focused on the experience of victims during criminal proceedings from their initial contact with the authorities. The directive therefore relates largely to the role of the police and the criminal justice system in supporting victims. The primary thrust of the directive, therefore, is on criminal justice matters, which are not the focus of this Bill. However, the directive does refer to the provision of information and support to victims of criminal offences.

Nod y gwelliant yw mewnosod adran newydd i'r Bil, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf hon roi sylw i gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi safonau gofynnol ar hawliau, cefnogi ac amddiffyn dioddefwyr troseddau. Mae'r gyfarwyddeb yn ymdrin â gwahanol agweddau ar brofiad ddioddefwyr troseddau. Fodd bynnag, mae'r gyfarwyddeb yn canolbwyntio'n benodol ar brofiad dioddefwyr yn ystod achos troseddol o'u cyswllt cyntaf â'r awdurdodau. Mae'r gyfarwyddeb, felly, yn ymwneud yn bennaf â swyddogaeth yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol o ran cefnogi dioddefwyr. Mae prif bwyslais y gyfarwyddeb, felly, ar faterion cyfiawnder troseddol, ac nid dyna y mae'r Bil hwn yn canolbwyntio arno. Fodd bynnag, mae'r gyfarwyddeb yn cyfeirio at y ddarpariaeth o wybodaeth a chefnogaeth i ddioddefwyr troseddau.

I do not, though, believe that the provision of an additional due-regard duty is required. Local authorities and local health boards already have the power, and often are under a duty, to provide particular services to those in need, including those suffering from gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. This is further strengthened, of course, by the provisions of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. The guidance that we would issue under section 14 of this Bill would strengthen these steps further. The guidance in relation to 'ask and act' and the national training framework, which has already been shared with the Assembly, will seek to ensure that, where victims come into contact with relevant authorities, they will be provided with all the necessary information about accessing any specialist support that they require. With regard to the existing provision of victim support and services more widely, I have also already committed to consult on and publish guidance relating to the effective commissioning of specialist services. This commissioning guidance will seek to improve service provision and standards, and ensure that, no matter where a victim lives, there is a strong public and specialist service ready to help. I therefore urge Members to resist this amendment.

Nid wyf yn credu, fodd bynnag, bod angen darparu dyletswydd sylw priodol ychwanegol. Mae gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol y grym eisoes, ac mae'n aml yn ddyletswydd arnynt, i ddarparu gwasanaethau penodol i'r rhai sydd mewn angen, gan gynnwys y rhai sy'n dioddef trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Caiff hyn ei gryfhau ymhellach, wrth gwrs, gan ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddai'r canllawiau y byddem ni'n eu cyhoeddi dan adran 14 y Bil hwn yn cryfhau'r camau hyn ymhellach. Bydd y canllawiau'n ymwneud â 'gofyn a gweithredu' a'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol, a rannwyd gyda'r Cynulliad eisoes, yn ceisio sicrhau, pan fo dioddefwyr yn dod i gysylltiad ag awdurdodau perthnasol, eu bod yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol am gael gafael ar unrhyw gymorth arbenigol sydd ei angen arnynt. O ran y ddarpariaeth bresennol o gymorth a gwasanaethau i ddioddefwyr yn ehangach, rwyf hefyd wedi ymrwymo eisoes i ymgynghori ar ganllawiau'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau arbenigol yn effeithiol, a'u cyhoeddi. Nod y canllawiau comisiynu hyn fydd gwella darpariaeth a safonau gwasanaeth, a sicrhau, waeth ble mae dioddefwr yn byw, bod gwasanaeth cyhoeddus ac arbenigol cryf yn barod i helpu. Rwy'n annog yr Aelodau felly i wrthod y gwelliant hwn.

15:59

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Jocelyn Davies to reply to the debate.

Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

15:59

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I doubt that the Bill would be framed as it is if you had started from a rights-based approach. I guess it would require a complete and utter re-write. I hear the Minister and I can see why he's framed his argument the way that he has. However, I feel we should begin to frame legislation differently and it is useful to have on the record the services that victims can expect. But, I would like to push this amendment to the vote.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n amau y byddai'r Bil wedi'i fframio fel ag y mae pe byddech chi wedi dechrau o ddull seiliedig ar hawliau. Mae'n debyg y byddai angen ei ail-ysgrifennu'n llwyr. Rwy'n clywed y Gweinidog a gallaf weld pam mae wedi fframio ei ddadl yn y modd y mae wedi ei wneud. Fodd bynnag, rwy'n teimlo y dylem ni ddechrau fframio deddfwriaeth yn wahanol ac mae'n ddefnyddiol cofnodi'r gwasanaethau y gall dioddefwyr eu disgwyl. Ond, hoffwn wthio'r gwelliant hwn i bleidlais.

16:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 57 be agreed to. [Objection] There is obviously an objection, so we move straight to the electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour, 15; 11 abstentions; 26 against. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 57. [Gwrthwynebiad] Mae'n amlwg bod gwrthwynebiad, felly symudwn yn syth at y bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 15; 11 yn ymatal; 26 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 26, Ymatal 11.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 26, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 57.

Result of the vote on amendment 57.

### Grŵp 6: Strategaethau Cenedlaethol a Lleol—Anghenion Rhywedd-benodol (Gwelliannau 69 a 72)

### Group 6: National and Local Strategies—Gender-specific Needs (Amendments 69 and 72)

16:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Group 6 relates to national and local strategies and gender-specific needs. The lead amendment in this group is amendment 69. I call on Mark Isherwood to move and speak to the lead amendment and other amendments in the group. Mark Isherwood.

Mae grŵp 6 yn ymwneud â strategaethau cenedlaethol a lleol ac anghenion rhyw-benodol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 69. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp. Mark Isherwood.

*Cynigiwyd gwelliant 69 (Mark Isherwood).*

*Amendment 69 (Mark Isherwood) moved.*

16:01

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. Amendment 69 is an insert with the effect that Welsh Ministers must prepare and publish a national strategy that meets the gender-specific needs of men and women. Amendment 72, similarly, sets that a local strategy must meet the gender-specific needs of women and men. Clearly, eliminating all forms of violence against women is a human rights issue and the act of perpetrating violence against women is a human rights violation, as it is against men. This requires a gender-specific approach. The Stage 1 committee report recommended that they should ensure that services are tailored to the specific needs of men and women respectively. Welsh Women's Aid have previously highlighted research showing that male and female victims of domestic abuse and violence have different levels of need, often requiring different kinds of services where gender-neutral responses were not helpful. In order to provide the best possible service and protection to all victims, we need to take into account the context, consequences and different gendered need.

Diolch, Lywydd. Mae gwelliant 69 yn fewnosodiad sydd â'r effaith bod yn rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth genedlaethol sy'n diwallu anghenion rhyw-benodol dynion a menywod. Yn yr un modd, mae gwelliant 72 yn nodi bod yn rhaid i strategaeth leol ddiwallu anghenion rhyw-benodol menywod a dynion. Yn amlwg, mae rhoi terfyn ar bob math o drais yn erbyn menywod yn fater hawliau dynol ac mae'r weithred o gyflawni trais yn erbyn menywod yn groes i hawliau dynol, fel y mae yn erbyn dynion. Mae hyn yn gofyn am ddull rhyw-benodol. Argymhellodd adroddiad pwyllgor Cyfnod 1 y dylent sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu teilwra i anghenion penodol dynion a menywod. Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi tynnu sylw yn y gorffennol at waith ymchwil sy'n dangos bod gan ddioddefwyr gwrywaidd a benywaidd o gam-drin a thrais domestig wahanol lefelau o angen, sy'n aml yn gofyn am wahanol fathau o wasanaethau lle nad yw ymatebion niwtral o ran rhyw yn ddefnyddiol. Er mwyn darparu'r gwasanaeth a'r amddiffyniad gorau posibl i bob dioddefwr, mae angen i ni gymryd cyd-destun, canlyniadau ac anghenion y gwahanol rywiau i ystyriaeth.

We must also embrace the support provided to both male and female victims by organisations such as Flintshire's domestic abuse safety unit. As the men's forum booklet they gave me states, it's important to recognise that men experience domestic violence, both as victims and perpetrators. In its evidence to committee, FNF Both Parents Matter Cymru stated that changing the title from ending 'violence against women' to 'gender-based violence' was ill-conceived and moved further away from the true purpose of the Bill. We welcome the fact that that concern has been addressed. But, as they also stated, in recognising that male victims of abuse exist and need specified support, a separate strategy for male victims should be initiated immediately by the Welsh Government. This Bill presents this Assembly with the opportunity to do just that.

Mae'n rhaid i ni groesawu hefyd y gefnogaeth a ddarperir i ddioddefwyr gwrywaidd a benywaidd gan sefydliadau fel uned diogelwch cam-drin domestig Sir y Fflint. Fel y mae'r llyfryn fforwm dynion a roesant i mi yn ei nodi, mae'n bwysig cydnabod bod gan ddynion brofiad o drais domestig, fel dioddefwyr a thramgwyddwyr. Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd FNF Both Parents Matter Cymru nad oedd newid diwedd y teitl o 'trais yn erbyn menywod' i 'trais seiliedig ar ryw' yn syniad da ac yn symud ymhellach oddi wrth gwir ddiben y Bil. Rydym ni'n croesawu'r ffaith bod y pryder hwnnw wedi cael sylw. Ond, fel y dywedasant hefyd, wrth gydnabod bod dynion sy'n dioddef cam-drin yn bodoli ac angen cefnogaeth benodedig, dylai Llywodraeth Cymru sefydlu strategaeth ar wahân ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd ar unwaith. Mae'r Bil hwn yn cynnig cyfle i'r Cynulliad wneud yn union hynny.

16:03

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We know that different victims have different needs, depending on a multitude of factors that affect their experience. To make a generalisation, these needs can be roughly divided along gendered lines. The evidence shows that female victims experience a greater amount and more severe abuse from male partners, with two women killed each week in the UK. That abuse is also more likely to be part of a pattern of fear and control, which is more unusual for male victims with female partners. Female perpetrators are more likely to use violence in defence or retaliation and are more likely to only act violently once. Men are very rarely killed in an attack. However, female perpetrators are more likely to be arrested than male perpetrators.

Gwyddom fod gan wahanol ddioddefwyr wahanol anghenion, yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau sy'n effeithio ar eu profiad. I gyffredinoli, gellir rhannu'r anghenion hyn yn fras yn ôl rhyw y dioddefwr. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod dioddefwyr benywaidd yn cael eu cam-drin yn fwy, ac yn fwy difrifol, gan bartneriaid gwrywaidd, a chaiff dwy fenyw eu lladd bob wythnos yn y DU. Mae'r gamdriniaeth hefyd yn fwy tebygol o fod yn rhan o batrwm o ofn a rheoli, sy'n fwy anarferol ym mhrofiad dynion sy'n cael eu cam-drin gan bartneriaid benywaidd. Mae menywod sy'n cam-drin yn fwy tebygol o ddefnyddio trais yn amddiffynol neu i ddial, ac yn llai tebygol o ymddwyn yn dreisgar fwy nag unwaith. Anaml iawn y caiff dynion eu lladd mewn ymosodiad. Fodd bynnag, mae menywod sy'n cam-drin yn fwy tebygol o gael eu harestio na dynion sy'n cam-drin.

These differences highlight just how different the needs of different victims can be and the importance of taking this into account when providing gender-appropriate support services for all. Of course, the patterns may be different again in gay and lesbian relationships. Given that the type and severity of abuse experienced by male and female victims is generally different, the services need to be different also. When drawing up national and local strategies, this must be taken into account. So, I will be voting in favour of Mark Isherwood's amendments today, but even if they fall, I would like to see a commitment from the Minister to put this into the Bill's explanatory notes and so on. Providing gender-neutral services will not grant the most effective support for victims. We need gender-appropriate services for all victims, so that they can get the help they have a right to expect.

Mae'r gwahaniaethau hyn yn tynnu sylw at ba mor wahanol yw anghenion gwahanol ddioddefwyr, a phwysigrwydd ystyried hyn wrth ddarparu gwasanaethau cymorth rhyw benodol i bawb. Wrth gwrs, gall y patrymau fod yn wahanol eto mewn perthynas hoyw a lesbiaidd. O ystyried bod difrifoldeb a ffurf y gamdriniaeth y mae dynion a menywod yn ei dioddef yn wahanol ar y cyfan, mae angen i'r gwasanaethau fod yn wahanol hefyd. Mae'n rhaid ystyried hyn wrth lunio strategaethau cenedlaethol a lleol. Byddaf, felly, yn pleidleisio o blaid gwelliannau Mark Isherwood heddiw, ond hyd yn oed os byddant yn methu, hoffwn weld ymrwymiad gan y Gweinidog i gynnwys hyn yn nodiadau esboniadol y Bil ac yn y blaen. Ni fydd darparu gwasanaethau niwtral o ran rhyw yn cynnig y gefnogaeth fwyaf effeithiol i'r rheiny sy'n cael eu cam-drin. Mae angen gwasanaethau rhyw briodol ar bawb sy'n cael eu cam-drin, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth y mae ganddynt yr hawl i'w ddisgwyl.

16:05

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

At Stage 2, I undertook to reflect further on the arguments that have been put forward by Mark Isherwood, and I do assure Members that I've considered his comments and what he's put to me and before the Assembly carefully. But, as I stated during debate at Stage 2, the Bill as currently drafted does not prevent authorities from providing gender-specific services. I certainly very much respect what both he and Jocelyn Davies have said in that respect, but I remain of the view that the amendments tabled today, 69 and 72, are unnecessary.

Yn ystod Cyfnod 2, addewais y byddwn yn myfyrio ymhellach ar y dadleuon a gyflwynwyd gan Mark Isherwood, ac yr wyf yn sicrhau'r Aelodau fy mod wedi ystyried yn ofalus ei sylwadau, a'r hyn y mae wedi'i gyflwyno ger fy mron i a gerbron y Cynulliad. Ond, fel y dywedais yn ystod trafodaethau Cyfnod 2, nid yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn atal awdurdodau rhag darparu gwasanaethau sy'n rhyw benodol. Yn sicr, rwyf yn parchu'n fawr iawn yr hyn a ddywedwyd ganddo ef a Jocelyn Davies yn hynny o beth, ond rwyf o'r farn bod y gwelliannau a gyflwynwyd heddiw, 69 a 72, yn ddiangen.

The strategies that are developed locally should be based on evidence and, where the Welsh Ministers consider, with the advice of the ministerial adviser, that evidence at any given time supports a focus in strategies on particular matters I consider this would be more appropriately set out in the guidance to be issued under section 14, and I would certainly expect that, in drawing up guidance under section 14, we would be looking at how relevant authorities should exercise their functions with a view, of course, to contributing to the pursuit of the purpose of the Bill and ensuring that relevant authorities follow that guidance. We fully intend to issue guidance to help shape the development of local strategies and I can assure both Members that requirements relating to how best to address the needs of both genders will be set out in this guidance.

Dylai'r strategaethau a ddatblygir yn lleol fod yn seiliedig ar dystiolaeth a, phan fo Gweinidogion Cymru, gyda chyngor y cynghorwr gweinidogol, o’r farn bod y dystiolaeth honno ar unrhyw adeg benodol yn argymell y dylai strategaethau ganolbwyntio ar faterion penodol, rwyf o'r farn y byddai’n fwy priodol pennu hyn yn y canllawiau sydd i'w cyhoeddi o dan adran 14. Yn sicr, byddwn yn disgwyl y byddem, wrth lunio canllawiau o dan adran 14, yn edrych ar sut y dylai awdurdodau perthnasol arfer eu swyddogaethau gyda’r bwriad, wrth gwrs, o gyfrannu at y broses o fynd ar drywydd diben y Bil, a sicrhau bod awdurdodau perthnasol yn dilyn y canllawiau hynny. Rydym yn llwyr fwriadu cyhoeddi canllawiau i helpu i lywio’r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol, a gallaf sicrhau’r ddau Aelod y bydd y canllawiau hyn yn cynnwys gofynion yn ymwneud â sut orau i fynd i'r afael ag anghenion y ddau ryw.

I consider that section 14 provides a more effective approach to providing a focus on particular issues. It enables Ministers to react in accordance with the latest available evidence, requiring focus on particular issues in local strategies. I believe strongly we must provide services that address the specific needs of those affected by gender-based violence, domestic abuse and sexual violence.

Rwyf o'r farn bod adran 14 yn cynnig dull mwy effeithiol o ganolbwyntio ar faterion penodol. Mae'n galluogi Gweinidogion i ymateb yn unol â'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, gan ei gwneud yn ofynnol i ganolbwyntio ar faterion penodol yn y strategaethau lleol. Credaf yn gryf bod yn rhaid i ni ddarparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol y rhai sy’n cael eu heffeithio gan drais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

The Equality Act 2010 already places the Welsh Ministers, local authorities and local health boards under an equality duty. It sets out that these, along with other public authorities, must have regard to the need to advance equality of opportunity. This, of course, includes having regard to the need to take steps to meet gender-specific needs. Meeting the specific needs of both genders will therefore already be taken into consideration by authorities in the preparation and implementation of national and local strategies.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 eisoes yn gosod dyletswydd cydraddoldeb ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae'n nodi bod yn rhaid i’r rhain, ynghyd ag awdurdodau cyhoeddus eraill, roi sylw i'r angen i hybu cyfle cyfartal. Mae hyn, wrth gwrs, yn cynnwys ystyried yr angen i gymryd camau i ddiwallu anghenion rhyw benodol. O ganlyniad, bydd awdurdodau eisoes yn ystyried yr angen i ddiwallu anghenion penodol y ddau ryw wrth baratoi a gweithredu strategaethau cenedlaethol a lleol.

I expect authorities, in the preparation and implementation of their local strategies, to focus on the different needs of victims, to recognise gender as an important consideration, and to reflect that in the services that are provided. Where evidence highlights the need for gender-specific services, this should be reflected in local strategies by acknowledging the differences in services these groups require and ensuring they are proportionate to need. I urge Members to resist the amendments.

Rwyf yn disgwyl i awdurdodau ganolbwyntio ar wahanol anghenion dioddefwyr, cydnabod bod rhyw yn ystyriaeth bwysig, ac adlewyrchu hynny yn y gwasanaethau a ddarperir wrth baratoi a gweithredu eu strategaethau lleol. Pan fo tystiolaeth yn amlygu’r angen am wasanaethau rhyw benodol, dylid adlewyrchu hyn mewn strategaethau lleol drwy gydnabod y gwahaniaethau yn y gwasanaethau sydd eu hangen ar y grwpiau hyn, a sicrhau eu bod yn gymesur â'r angen. Yr wyf yn annog yr Aelodau i wrthod y gwelliannau.

16:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood to reply to the debate.

Mark Isherwood i ymateb i'r ddadl.

16:07 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. I, obviously, welcome much of what the Minister has to say, but guidance is clearly necessary but not sufficient. As the Minister states, the Equality Act 2010 and the public sector equality duty already impose duties on authorities, but too often we hear from constituents individually that this hasn't occurred, not because of a lack of will or intention, but because of a lack of awareness and understanding of the issues at play and, in this case, of the often complex specificity relating to gendered needs, as well as, of course, occasionally, the cross-cutting issues as well. I am concerned that the Minister's response still doesn't sufficiently address the concerns raised by Barnardo's, which I did raise with him in committee but do merit referring to here briefly once again.

Diolch yn fawr. Rwyf fi, yn amlwg, yn croesawu llawer o'r hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud, ac yn amlwg, mae canllawiau yn angenrheidiol, ond nid yn ddigonol. Fel y dywed y Gweinidog, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus eisoes yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau, ond fe glywn yn rhy aml gan etholwyr unigol nad yw hyn wedi digwydd, a hynny nid oherwydd diffyg ewyllys neu fwriad, ond oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion dan sylw ac, yn yr achos hwn, diffyg ymwybyddiaeth o gymhlethdod anghenion penodol y ddau ryw, yn ogystal, wrth gwrs, â materion trawsbynciol weithiau. Rwy'n poeni nad yw ymateb y Gweinidog yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon a godwyd gan Barnardo's, pryderon yr wyf innau wedi'u codi gydag ef yn y pwyllgor ond sy'n haeddu cael eu crybwyll eto yma heddiw.

Their 'Hidden in plain sight' report, published last summer, into the sexual exploitation of boys and young men, said that this begins to address the gap created by the focus on female victims, with little attention given to males. It found that the sexual exploitation of boys and young men was a much bigger problem than previously thought, requiring a radical shift in professional attitudes and practice. It also identified

Mae eu hadroddiad 'Hidden in plain sight', a gyhoeddwyd yr haf diwethaf, yn trafod camfanteisio'n rhywiol ar fechgyn a dynion ifanc. Yn ôl yr adroddiad hwn, dyma ddechrau mynd i'r afael â'r bwlch a grëwyd gan y pwyslais ar ddioddefwyr benywaidd, heb fawr o sylw yn cael ei roi i ddynion. Canfu fod camfanteisio'n rhywiol ar fechgyn a dynion ifanc yn broblem fwy o lawer nag a dybiwyd, sy'n gofyn am newid mawr mewn agweddau ac arferion proffesiynol. Mae'n nodi hefyd

'a number of barriers to disclosure specific to boys and young men: discriminatory social attitudes and stereotypes; expectations of "masculine" behaviour; gender differences in educational initiatives; and gender differences in emotional responses.'

'nifer o rwystrau i ddatgelu sy'n benodol i fechgyn a dynion ifanc: agweddau a stereoteipiau cymdeithasol gwahaniaethol; disgwyliadau o ran ymddygiad "gwrywaidd"; gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn mentrau addysgol; a gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn ymateb emosiynol. '

And, of course, those barriers also apply to older men. It is for these reasons that I put these amendments down and for these reasons I urge the Assembly to support them.

Ac, wrth gwrs, mae'r rhwystrau hynny yn berthnasol i ddynion hŷn hefyd. Am y rhesymau hyn yr wyf yn cyflwyno'r gwelliannau hyn ac am y rhesymau hyn yr wyf yn annog y Cynulliad i'w cefnogi.

16:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

There'll obviously be an objection to amendment 69, yes? [Objection.] So, electronic vote: open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I use my casting vote against and the amendment falls.

Yn amlwg fe fydd gwrthwynebiad i welliant 69, oni fydd? [Gwrthwynebiad.] Felly, pleidlais electronig: Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, neb yn ymatal, 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 69.](#)

[Result of the vote on amendment 69.](#)

## Grŵp 7: Strategaeth Genedlaethol—Rhaglenni i Dramgwyddwyr (Gwelliannau 70 a 71)

## Group 7: National Strategy—Perpetrator Programmes (Amendments 70 and 71)

16:10

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to group 7, which relates to the national strategy and perpetrator programmes, and the lead amendment in this group is amendment 70. I call on Mark Isherwood to move the lead amendment and speak to the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 7, sy'n ymwneud â'r strategaeth genedlaethol a rhaglenni ar gyfer tramgwyddwyr a'r prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 70. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig y prif welliant ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 70 (Mark Isherwood).*

*Amendment 70 (Mark Isherwood) moved.*

16:10

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. The intended effect of these amendments is to ensure the national strategy must include provision of at least one perpetrator programme to assist and educate perpetrators that is reasonably available to perpetrators throughout Wales. The perpetrator programmes must require Welsh Ministers to consult relevant authorities and the third sector, and the meaning of 'perpetrator' is defined as a person who's engaged in violence against women, domestic abuse or sexual violence, and 'third sector' as meaning organisations existing wholly or mainly to provide benefits for society or the environment.

Diolch yn fawr. Bwriad y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y strategaeth genedlaethol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer o leiaf un rhaglen i dramgwyddwyr, i gynorthwyo ac addysgu tramgwyddwyr, a honno ar gael yn rhesymol i dramgwyddwyr ledled Cymru. Mae'n rhaid i'r rhaglenni i dramgwyddwyr ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau perthnasol a'r trydydd sector, a diffinir 'tramgwyddwr' fel rhywun sydd wedi cymryd rhan mewn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol, a 'trydydd sector' i olygu sefydliadau sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i gynnig buddion i'r gymdeithas neu'r amgylchedd.

The Communities, Equality and Local Government Committee heard from respondents concerned about the omission of a reference to perpetrators and perpetrator programmes from the Bill as drafted. As Relate Cymru told us, perpetrators

Clywodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gan ymatebwyr sy'n pryderu am hepgor cyfeiriad at dramgwyddwyr a rhaglenni i dramgwyddwyr yn y Bil fel y'i drafftiwyd. Fel y dywedodd Relate Cymru wrthym, tramgwyddwyr

'are, generally speaking, the cause of this problem. So, we think that it is very important that specific mention and instructions are included in this Bill on working with perpetrators.'

'yn gyffredinol, yw achos y broblem hon. Credwn felly ei bod yn bwysig iawn bod y Bil hwn yn sôn yn benodol am weithio gyda thramgwyddwyr a bod cyfarwyddiadau penodol wedi eu cynnwys ynddo.'

They told us about their voluntary perpetrator programme, saying that

Dywedasant wrthym am eu rhaglen i dramgwyddwyr, gan ddweud bod

'90% of the partners that we question sometime after the end of the programme say that there has been a complete stop in violence and intimidation by their partner.'

90% o'r partneriaid yr ydym yn eu cwestiynu ar ôl i'r rhaglen ddod i ben yn dweud bod eu partneriaid wedi rhoi'r gorau yn gyfan gwbl i ymddwyn yn dreisgar ac yn fygythiol. '

Nonetheless, they face withdrawn funding from the authority funding the programme, which will lead to greater costs and pressures on public services further down the road, and, rather than dealing with prevention, risks leading to a situation becoming worse and the greater likelihood of victims suffering violence and abuse.

Serch hynny, maent yn wynebu sefyllfa lle bydd yr awdurdod yn tynnu'r cyllid sy'n ariannu'r rhaglen yn ôl, a bydd hyn yn arwain at fwy o gostau a phwysau ar wasanaethau cyhoeddus ymhellach i lawr y ffordd, ac, yn hytrach na mynd i'r afael â'r gwaith o atal tramgwyddwyr, y perygl yw y bydd hyn yn arwain at i'r sefyllfa waethygu a mwy o debygolrwydd y bydd dioddefwyr yn dioddef trais a chamdriniaeth.

The Minister did meet me, and I'm grateful for that. Subsequent to that, he wrote to me stating his primary concern, in terms of making specific provision in the Bill for perpetrator programmes, is the potential lack of evidence around the effectiveness and required elements of such programmes, and that he remained unpersuaded on making specific reference on the face of the Bill.

Fe wnaeth y Gweinidog gyfarfod â mi, ac rwy'n ddiolchgar am hynny. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd ataf yn datgan mai ei brif bryder am wneud darpariaeth benodol yn y Bil ar gyfer rhaglenni i dramgwyddwyr, yw'r diffyg tystiolaeth posibl am effeithiolrwydd rhaglenni o'r fath a'r elfennau sy'n ofynnol ganddynt, ac nad yw wedi'i argyhoeddi i gyfeirio'n benodol atynt ar wyneb y Bil.

As Relate Cymru have subsequently stated, the current wording of the Bill in relation to perpetrator programmes fails to provide assurance that the Welsh Government is committed to ensuring easy access throughout Wales to high-quality pre-conviction programmes for perpetrators in order to increase the safety of women and children. Their understanding of the Welsh Government's logic is that there is research on the effectiveness of Respect-accredited pre-conviction programmes, but there's no research on the effectiveness of the pre-conviction programmes in Wales that have not been able to achieve Respect accreditation, and that the Welsh Government proposes therefore to put resource into evaluating non-accredited approaches. There is therefore a need for a broader understanding in Welsh Government of the Respect accreditation process. National standards that are flexible in approach, rather than prescribing any model of work for standards, ensure the programme is being delivered in a context that satisfies safeguarding requirements. Programmes that have not met these standards fail in these criteria.

Fel y mae Relate Cymru wedi datgan ers hynny, mae geiriad presennol y Bil ynglŷn â rhaglenni i dramgwyddwyr yn methu â rhoi sicrwydd bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod tramgwyddwyr yn cael mynediad hawdd ledled Cymru at raglenni cyn-euogfarn o ansawdd uchel er mwyn gwella diogelwch menywod a phlant. Eu dealltwriaeth nhw o resymeg Llywodraeth Cymru yw bod ymchwil wedi'i wneud ar effeithiolrwydd y rhaglenni cyn-euogfarn a achredir gan Respect, ond nad oes ymchwil wedi'i wneud ar effeithiolrwydd y rhaglenni cyn-euogfarn yng Nghymru nad ydynt wedi llwyddo i gael eu hachredu gan Respect, a bod Llywodraeth Cymru yn cynnig, felly, i gyfeirio adnoddau tuag at werthuso rhaglenni nad ydynt wedi'u hachredu. Mae angen i Lywodraeth Cymru gael dealltwriaeth ehangach o broses achredu Respect felly. Mae safonau cenedlaethol sy'n hyblyg, yn hytrach na phennu unrhyw fodelau gwaith ar gyfer y safonau, yn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn cyd-destun sy'n bodloni gofynion diogelu. Mae rhaglenni nad ydynt wedi cyrraedd y safonau hyn yn methu'r meini prawf hyn.

Being fully committed to perpetrator programmes as a preventative measure is not reflected in the current wording of the Bill. There is no requirement for non-mandatory pre-conviction programmes of consistent quality available around Wales. Although post-conviction programmes are important, if we're serious about a preventative early approach, it's more cost-effective and better for women, men and children in Wales to focus on engaging perpetrators in pre-conviction programmes. These programmes have a higher success rate than those for perpetrators who've already been convicted.

Nid yw geiriad presennol y Bil yn cyfleu ymrwymiad llawn i raglenni i dramgwyddwyr fel mesur ataliol. Nid oes unrhyw ofyniad ar gyfer rhaglenni cyn-euogfarn o ansawdd cyson, nad ydynt yn orfodol, ac sydd ar gael ledled Cymru. Er bod rhaglenni ôl-euogfarn yn bwysig, os ydym o ddifrif ynghylch cymryd camau ataliol cynnar, mae'n fwy cost-effeithiol ac yn well i fenywod, dynion a phlant yng Nghymru, i ganolbwyntio ar annog tramgwyddwyr i ddilyn rhaglenni cyn- euogfarn. Mae gan y rhaglenni hyn gyfraddau llwyddiant uwch na'r rhai ar gyfer tramgwyddwyr sydd eisoes wedi'u cael yn euog.

Wherever there are relationships, there is a need for perpetrator programmes. There will be no regions where there are no perpetrators, or where the proportion of perpetrators is lower per head. Leaving it up to regions to decide if they commission pre-conviction programmes is a mistake.

Lle bynnag y ceir perthynas rhwng pobl, mae angen rhaglenni i dramgwyddwyr. Ni fydd unrhyw ranbarthau lle nad oes unrhyw dramgwyddwyr, neu lle mae cyfran is o dramgwyddwyr. Camgymeriad yw rhoi'r dewis i ranbarthau benderfynu a ydynt yn dymuno comisiynu rhaglenni cyn-euogfarn ai peidio.

I'll finish by referring to the recent five-year evaluation of Respect-accredited programmes, including Relate Cymru's Choose 2 Change programme in north Wales. The Mirabal report, which I expect the Minister will be referring to, led by Professors Liz Kelly and Nicole Westmarland, found, amongst other things, that the vast majority of men who abused their partners stop their physical and sexual violence if they attend a Respect-accredited domestic violence perpetrator programme, that the cases of men using a weapon against their partner reduced from 29% to zero, that far fewer women reported being physically injured after the programme, with 61% before, compared to just 2% afterwards, and over half of the women reported feeling very safe after the programme, compared to less than one in 10 before the programme, with those feeling not safe at all reducing from 32% to 6%. To me, this argues clearly for the purpose behind these amendments and the need for this Assembly to support them.

I gloi, fe gyfeiriaf at y gwerthusiad pum mlynedd diweddar o raglenni a achredwyd gan Respect, gan gynnwys rhaglen Choose 2 Change Relate Cymru yn y gogledd. Rwyf yn disgwyl y bydd y Gweinidog yn cyfeirio at adroddiad Mirabal, a arweiniwyd gan yr Athro Liz Kelly a'r Athro Nicole Westmarland. Canfu'r adroddiad, ymysg pethau eraill, bod y mwyafrif helaeth o ddynion sy'n cam-drin eu partneriaid yn rhoi'r gorau i ddefnyddio trais corfforol a rhywiol os ydynt yn mynychu rhaglen i dramgwyddwyr trais domestig a achredir gan Respect, bod yr achosion o ddynion yn defnyddio arf yn erbyn eu partner yn gostwng o 29% i sero, a bod llai o fenywod o lawer yn dweud eu bod wedi'u hanafu'n gorfforol ar ôl y rhaglen, gyda 61% yn nodi hynny cyn y rhaglen, o'i gymharu â dim ond 2% ar ôl y rhaglen. Dywedodd dros hanner y menywod eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn ar ôl y rhaglen, o'i gymharu â llai nag un o bob 10 cyn y rhaglen, gyda'r rhai nad oeddent yn teimlo'n ddiogel o gwbl yn gostwng o 32% i 6%. I mi, mae hyn yn dadlau'n glir dros y gwelliannau hyn, a'r angen i'r Cynulliad hwn eu cefnogi.

16:15 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know Mark said earlier, in introducing his amendment, that perpetrators are generally the problem. I have to say they are always the problem. We must never ever be tempted to blame the victims of abuse. But the evidence on the effectiveness of perpetrator programmes remains mixed and debate continues on whether working with perpetrators of domestic abuse helps to keep victims of abuse safe. But we know that re-offending rates amongst perpetrators of domestic abuse are high.

Rwy'n gwybod bod Mark wedi dweud yn gynharach, wrth gyflwyno ei welliant, mai tramgwyddwyr yw'r broblem yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi ddweud mai nhw yw'r broblem bob tro. Mae'n rhaid i ni beidio byth â chael ein temtio i roi'r bai ar y sawl sy'n cael eu cam-drin. Ond mae'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd rhaglenni i dramgwyddwyr yn parhau i fod yn gymysg, ac mae'r ddadl yn parhau ar ba un a yw gweithio gyda'r sawl sy'n cam-drin yn y cartref yn helpu i gadw'r sawl sy'n dioddef yn ddiogel. Ond rydym ni yn gwybod bod cyfraddau aildroseddu ymhlith tramgwyddwyr cam-drin domestig yn uchel.

Research undertaken by the University of Bristol found that half of the perpetrators they studied were involved in at least one more domestic abuse incident within a three-year follow-up period and one in five re-offended against a different partner. It seems that perpetrators fall into patterns of abusive and destructive behaviour that continue, even following contact with the criminal justice system and a change in their personal circumstances. So, if we could tackle these patterns of re-offending and help perpetrators to change their behaviour, we could, possibly, have a significant impact on the lives of victims and even prevent perpetrators going on to victimise others.

Canfu ymchwil gan Brifysgol Bryste bod hanner y tramgwyddwyr a astudiwyd ganddynt wedi cyflawni o leiaf un achos arall o gam-drin domestig o fewn y cyfnod dilynol o dair blynedd, ac roedd un o bob pump wedi ail-droseddu yn erbyn partner gwahanol. Mae'n ymddangos bod tramgwyddwyr yn disgyn i batrymau o ymddygiad camdriniol a dinistriol sy'n parhau, hyd yn oed yn dilyn cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol a newid yn eu hamgylchiadau personol. Felly, pe gallem fynd i'r afael â'r patrymau hyn o aildroseddu a helpu tramgwyddwyr i newid eu hymddygiad, efallai y byddai modd i ni gael effaith sylweddol ar fywydau dioddefwyr a hyd yn oed atal tramgwyddwyr rhag mynd yn eu blaenau i gam-drin pobl eraill.

So, perpetrator programmes that have achieved a level of success take a holistic approach by involving their partners and families in the process and working alongside other services, such as the health service. So, given the scope of this Bill, it is perhaps the perfect opportunity to expand perpetrator programmes in Wales, because any service provision will have to fit into a wider rethink of domestic abuse support services. This may be our chance to create inclusive networks of service provision that both support victims and work with perpetrators. I therefore will support the introduction of provision of perpetrator programmes into this Bill, as long as programmes fit into a wider system of support and protection for victims. They could be, I think, a useful addition to a range of programmes to bring an end to domestic abuse in our communities, and I think access to these programmes should not rely on referral from the criminal justice system.

Felly, mae rhaglenni i dramgwyddwyr sydd wedi cael unrhyw lwyddiant yn cymryd ymagwedd gyfannol trwy gynnwys eu partneriaid a'u teuluoedd yn y broses a thrwy weithio ochr yn ochr â gwasanaethau eraill, fel y gwasanaeth iechyd. Felly, o ystyried cwmpas y Bil hwn, efallai mai hwn yw'r cyfle perffaith i ehangu rhaglenni i dramgwyddwyr yng Nghymru, gan y bydd yn rhaid i unrhyw wasanaeth a ddarperir fod yn rhan o broses ehangach o ailfeddwl am wasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin domestig. Efallai mai hwn yw ein cyfle ni i greu rhwydweithiau darparu gwasanaeth cynhwysol sy'n cefnogi dioddefwyr yn ogystal â gweithio gyda thramgwyddwyr. Fe fyddaf, felly, yn cefnogi cyflwyno'r ddarpariaeth o raglenni i dramgwyddwyr i'r Bil hwn, cyhyd â bod y rhaglenni yn rhan o system ehangach o gefnogi ac amddiffyn dioddefwyr. Rwyf o'r farn y gallent fod yn ychwanegiad defnyddiol at ystod o raglenni i roi diwedd ar gam-drin domestig yn ein cymunedau, ac nid wyf yn credu y dylai mynediad at y rhaglenni hyn dibynnu ar atgyfeiriad gan y system cyfiawnder troseddol.

16:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood and Jocelyn Davies have dealt with a large number of the arguments that I was going to put, so I'm not going to repeat what they said. I think, though, that this amendment and subsequent amendments do follow two basic themes in terms of the attitude towards this Bill.

Mae Mark Isherwood a Jocelyn Davies eisoes wedi ymdrin â nifer fawr o'r dadleuon yr oeddwn i'n mynd i'w cyflwyno, felly dydw i ddim yn mynd i ailadrodd yr hyn y maent wedi'i ddweud. Rwyf yn credu, fodd bynnag, fod y gwelliant hwn a gwelliannau dilynol yn dilyn dwy thema sylfaenol o ran yr ymagwedd tuag at y Bil hwn.

The first is that we need to change behaviour and we need to change behaviour through education and through working, in this particular case, with perpetrators, so that people not only respect those who they previously might have abused, but also understand and are able to practice healthy relationships and avoid the sort of abuse they might have fallen into otherwise.

Y cyntaf yw bod angen i ni newid ymddygiad a bod angen i ni newid ymddygiad trwy addysg a thrwy weithio, yn yr achos penodol hwn, gyda thramgwyddwyr, fel bod pobl, nid yn unig yn parchu'r rhai y gallent fod wedi'u cam-drin yn y gorffennol, ond hefyd yn deall beth yw perthynas iach ac yn gallu bod yn rhan ohoni, ac osgoi syrthio i fagl yr un math o gam-driniaeth y gallent fod yn ei chyflawni fel arall.

The second theme is, of course, that, in terms of any programme, and any guidance, if you don't have the right people in the right places with the right training to take forward those programmes, you are not going to be able to drive them forward in an effective manner. That will, I think, be addressed in future amendments.

Yr ail thema, wrth gwrs, gydag unrhyw raglen ac unrhyw ganllawiau, yw os nad oes gennych chi'r bobl gywir yn y mannau cywir sydd â'r hyfforddiant cywir er mwyn datblygu'r rhaglenni hynny, ni fydd modd i chi eu gwthio yn eu blaenau mewn ffordd effeithiol. Rwy'n credu y bydd gwelliannau yn y dyfodol yn mynd i'r afael â hynny.

I think that we haven't done enough in terms of perpetrator programmes in Wales. I recognise that Ministers think this can be addressed through guidance, but it does seem to me that, if we are to take forward this agenda in terms of changing behaviour, putting this on the face of the Bill in the way that these amendments have been drafted would actually be very useful in terms of ensuring that those perpetrator programmes are in place, that they are properly accredited programmes, and that they are programmes that will actually start to make a difference in terms of those who have perpetrated violence.

Rwyf o'r farn nad ydym wedi gwneud digon o ran rhaglenni i dramgwyddwyr yng Nghymru. Rwy'n cydnabod bod Gweinidogion yn credu y gellir gwneud hyn drwy gyfrwng canllawiau, ond mae'n ymddangos i mi, os ydym am fwrw ymlaen â'r agenda hon o ran newid ymddygiad, y byddai rhoi hyn ar wyneb y Bil, a hynny yn y ffordd y mae'r gwelliannau hyn wedi'u drafftio, yn ddefnyddiol iawn mewn gwirionedd o ran sicrhau bod y rhaglenni hynny i dramgwyddwyr ar waith, eu bod yn rhaglenni sydd wedi'u hachredu'n briodol, a'u bod yn rhaglenni a fydd yn dechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran y rheiny sydd wedi cyflawni trais.

Jocelyn is absolutely right; all violence is the fault of the perpetrator, not the victim, and if we don't start tackling the perpetrators and their attitudes and start to re-educate them as towards their attitude—. You can't always succeed, but, if you don't start doing that, then I think this Bill will not achieve the step-change that it is hoping to achieve. For that reason, Presiding Officer, I'm happy to support these amendments.

Mae Jocelyn yn llygad ei lle; ar y tramgwyddwyr y mae'r bai am bob trais, nid y dioddefwr, ac os na ddechreuwn ni fynd i'r afael â'r tramgwyddwyr a'u hagweddau a dechrau eu hail-addysgu am eu hagweddau—. Ni allwch lwyddo bob amser, ond os nad ydych yn dechrau ar hynny, nid wyf yn credu y bydd y Bil hwn yn cyflawni'r newid sylweddol y mae'n gobeithio'i gyflawni. Am y rheswm hwnnw, Lywydd, rwy'n hapus i gefnogi'r gwelliannau hyn.

16:19

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, these amendments were debated, but were not agreed, at Stage 2. Mark Isherwood, it is fair to say, has been a constant champion of the role of perpetrator programmes, and the Relate programme and Respect accreditation in particular. We have discussed the subject of perpetrator programmes a number of times since the Stage 2 debate. When we met at the end of January, I committed to publish guidance under section 14 in relation to perpetrator programmes and to strengthen the explanatory memorandum on this subject. Drafting of the guidance is under way and the explanatory memorandum has been strengthened. I agree that perpetrator programmes are an important element of prevention. However, as I have explained to Mark Isherwood, I remain of the view that both amendments are unnecessary and inappropriate.

Lywydd, cafodd y gwelliannau hyn eu trafod, ond nid eu derbyn, yn ystod Cyfnod 2. Mae'n deg dweud bod Mark Isherwood wedi bod yn eiriolwr cyson dros raglenni i dramgwyddwyr, a thros raglen Relate ac achrediad Respect yn arbennig. Yr ydym wedi trafod rhaglenni i dramgwyddwyr nifer o weithiau ers trafodaeth Cyfnod 2. Pan gawsom gyfarfod ddiwedd mis Ionawr, fe ymrwymais i i gyhoeddi canllawiau o dan adran 14 yn ymwneud â rhaglenni i dramgwyddwyr ac i gryfhau'r memorandwm esboniadol ar y pwnc hwn. Mae'r gwaith o ddrafftio'r canllawiau ar y gweill ac mae'r memorandwm esboniadol wedi'i gryfhau. Rwyf yn cytuno bod y rhaglenni i dramgwyddwyr yn elfen bwysig o atal. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi egluro i Mark Isherwood, rwyf yn dal i fod o'r farn bod y ddau welliant yn ddiangen ac yn amhriodol.

I do not wish to pre-empt the content of the national strategy; it should be based on evidence, and, as Jocelyn Davies said, the evidence on perpetrator programmes, at present, is mixed. So, in preparing the national strategy, consideration will be given to steps that the Welsh Ministers could take in assisting the development of perpetrator programmes. This will build on the emerging evidence base, including the significant piece of research published in January, which Mark Isherwood referred to, by the Mirabal Project, which my officials are currently considering. But, it's clear that further research is necessary.

Nid wyf yn dymuno achub y blaen ar gynnwys y strategaeth genedlaethol; dylai hynny fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac, fel y dywedodd Jocelyn Davies, mae'r dystiolaeth ar raglenni i dramgwyddwyr yn gymysg ar hyn o bryd. Felly, wrth baratoi'r strategaeth genedlaethol, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gamau y gallai Gweinidogion Cymru eu cymryd er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu rhaglenni i dramgwyddwyr. Bydd hyn yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y darn sylweddol o ymchwil a gyhoeddwyd gan Brosiect Mirabal ym mis Ionawr, y cyfeiriodd Mark Isherwood ato ac mae fy swyddogion i yn ei ystyried ar hyn o bryd. Ond, mae'n amlwg bod angen mwy o waith ymchwil.

Alongside any steps that will be taken through the national strategy in light of the evidence available, guidance under section 14 will also be published to ensure local delivery. The guidance will provide a more effective approach. It enables Ministers to react in accordance with the latest available evidence. As I have said, I committed, at Stage 2, to consider issuing guidance on perpetrator programmes under section 14, and my officials are working with the National Probation Service Wales to develop this guidance. It will cover work with perpetrators in various settings. Over the next few months, a draft of this guidance will be shared with a wide group of stakeholders before issuing it for consultation.

Ochr yn ochr ag unrhyw gamau a fydd yn cael eu cymryd trwy'r strategaeth genedlaethol yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael, bydd canllawiau o dan adran 14 hefyd yn cael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau darpariaeth leol. Bydd y canllawiau yn pennu ymagwedd fwy effeithiol. Mae'n galluogi Gweinidogion i ymateb yn unol â'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Fel yr wyf wedi'i ddweud eisoes, fe ymrwymais yng Nghyfnod 2, i ystyried cyhoeddi canllawiau ar raglenni i dramgwyddwyr o dan adran 14, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru i ddatblygu'r canllawiau hyn. Byddant yn ymdrin â gwaith gyda thramgwyddwyr mewn amrywiol leoliadau. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd drafft o'r canllawiau hyn yn cael ei rannu gyda grŵp eang o randdeiliaid cyn i'r canllawiau gael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad.

As I have said, my primary concern in making specific provision in the Bill for perpetrator programmes is the insufficient evidence around the effectiveness and appropriate content of such programmes. It remains a new and emerging area of work where the evidence base is still developing. Amendment 70, which would require provision of at least one Wales-wide perpetrator programme, is, therefore, inappropriate. I have discussed this with Mark Isherwood and I remain strongly of the view that further analysis of the issue is required. I'd like to see that included as an action in the national strategy. Furthermore, where there is an identified need for such programmes in local areas, local authorities and local health boards would need to consider what action they could take through their local strategy to address identified need, and their action will be informed by the guidance issued under section 14.

Fel yr wyf wedi'i ddweud, fy mhrif bryder wrth wneud darpariaeth benodol yn y Bil ar gyfer rhaglenni i dramgwyddwyr yw'r dystiolaeth annigonol ynglŷn ag effeithiolrwydd a chynnwys priodol rhaglenni o'r fath. Mae'n dal i fod yn faes newydd lle mae'r sylfaen dystiolaeth yn dal i ddatblygu. Mae gwelliant 70, a fyddai'n gofyn darparu o leiaf un rhaglen i dramgwyddwyr ar gyfer Cymru gyfan, yn amhriodol felly. Rwyf wedi trafod hyn â Mark Isherwood ac yr wyf yn dal i gredu'n gryf bod angen dadansoddiad pellach o'r mater. Hoffwn weld y cam gweithredu hwnnw'n cael ei gynnwys yn y strategaeth genedlaethol. Yn ogystal, lle mae angen wedi'i nodi ar gyfer rhaglenni o'r fath mewn ardaloedd lleol, byddai angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ystyried pa gamau y gallent eu cymryd trwy eu strategaethau lleol i fynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd, a bydd eu camau gweithredu yn cael eu llywio gan y canllawiau a gyhoeddir o dan adran 14.

The commissioning of perpetrator services would be supported by the decision to move to a regional funding approach. This approach must consider provision for perpetrators in order to meet the Welsh Government requirements of the funding. It will also encourage needs-based commissioning and the pooling of budgets. This model is being implemented in Gwent from April 2015. Whilst the National Probation Service Wales is content with the coverage of mandatory perpetrator programmes for those identified through the criminal justice system, we recognise there is less consistent coverage in relation to non-mandatory or voluntary programmes across Wales. This is also the case across the UK. However, some innovative programmes are being tested in Wales and we will be reflecting any learning in our guidance.

Byddai'r broses o gomisiynu gwasanaethau i dramgwyddwyr yn cael ei chefnogi gan y penderfyniad i symud i ddull ariannu rhanbarthol. Mae'n rhaid i'r ymagwedd hon ystyried darpariaeth ar gyfer tramgwyddwyr er mwyn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru o ran y cyllid. Bydd hefyd yn annog proses gomisiynu sy'n seiliedig ar anghenion, yn ogystal â chyfuno cyllidebau. Mae'r model hwn yn cael ei weithredu yng Ngwent o fis Ebrill 2015. Er bod Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru yn fodlon ar ddarpariaeth rhaglenni gorfodol i dramgwyddwyr trwy'r system cyfiawnder troseddol, rydym yn cydnabod bod y ddarpariaeth yn llai cyson ar gyfer rhaglenni gwirfoddol neu raglenni nad ydynt yn orfodol ledled Cymru. Mae hyn hefyd yn wir ledled y DU. Fodd bynnag, mae rhai rhaglenni arloesol yn cael eu profi yng Nghymru, a byddwn yn adlewyrchu unrhyw beth a ddysgwn yn ein canllawiau.

I've agreed to fund jointly, with National Probation Service Wales and the Welsh police forces, a significant piece of research into the management of high-risk and serial perpetrators of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. The research will help inform future collaborative responses to perpetrators across the criminal and social justice sectors. The research is scheduled to be completed by December 2015. My officials are also working with the National Probation Service to develop a publicity campaign specifically targeting perpetrators. Again, this is pioneering work with the potential to have a tangible impact. The campaign will launch on 23 March. For these reasons, I think we're taking action, and I'm unpersuaded of the need for specific provision in the Bill, and I do not consider amendments 70 and 71 to be appropriate.

Rwyf wedi cytuno i ariannu, ar y cyd â Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a heddluoedd Cymru, darn sylweddol o ymchwil sy'n edrych ar reoli tramgwyddwyr risg uchel a thramgwyddwyr parhaus o drais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd yr ymchwil yn helpu i lywio ymateb cydweithredol i dramgwyddwyr ar draws y sectorau cyfiawnder troseddol a chymdeithasol yn y dyfodol.  Disgwylir i'r ymchwil gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2015. Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ddatblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd sy'n targedu tramgwyddwyr yn benodol. Unwaith eto, mae hwn yn waith arloesol sydd â'r potensial i gael effaith bendant. Bydd yr ymgyrch yn cael ei lansio ar 23 Mawrth. Am y rhesymau hyn, rwyf o'r farn ein bod ni yn cymryd camau, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi o'r angen am ddarpariaeth benodol yn y Bil, ac nid wyf yn ystyried bod gwelliannau 70 a 71 yn briodol.

16:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood to reply to the debate.

Mark Isherwood i ymateb i'r ddadl.

16:24 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Well, the reason these amendments are both necessary and appropriate is because this is what those working with victims told committee, and what they've subsequently reinforced to me—not just one organisation, but a network of organisations. I suspect that the experience in north Wales is not dissimilar to that in all the other regions of Wales and beyond.

Diolch. Wel, y rheswm pam y mae'r gwelliannau hyn yn angenrheidiol ac yn briodol yw gan mai dyma beth ddywedodd y rheiny sy'n gweithio gyda dioddefwyr wrth y pwyllgor, a dyma beth maent wedi'i atgyfnerthu i mi - nid un sefydliad yn unig, ond rhwydwaith o sefydliadau. Rwy'n amau nad yw'r profiad yn y gogledd yn annhebyg i'r hyn a geir yn holl ranbarthau eraill Cymru a thu hwnt.

The Minister refers to where there is an identified need, and that gets to the root of the problem. There is an identified need everywhere. This is not an issue that only impact on certain groups, income levels, communities or types of human being. This impacts, sadly and tragically, everywhere. There is an identified need everywhere. You referred to evidence. The Mirabal report does not stand in isolation. There has been a series of reports, some of which have been copied to me over time, looking at this, developing the evidence base and leading to the often strongly worded findings of the Mirabal report.

Mae'r Gweinidog yn cyfeirio at angen a nodwyd, a dyma yw gwraidd y broblem. Mae angen wedi'i nodi ym mhob man. Nid yw hwn yn fater sy'n effeithio dim ond ar grwpiau penodol, lefelau incwm penodol, cymunedau penodol neu fathau penodol o bobl. Y gwir anffodus a thrasig amdani yw bod hyn yn cael effaith ym mhob man. Mae angen wedi'i nodi ym mhob man. Fe gyfeiriasoch chi at y dystiolaeth. Nid yw adroddiad Mirabal yn sefyll ar ben ei hun. Bu cyfres o adroddiadau, rhai ohonynt wedi eu hanfon ataf i dros amser, yn edrych ar hyn, yn datblygu sylfaen dystiolaeth ac yn arwain at y canfyddiadau sydd wedi'u geirio'n gryf yn aml yn adroddiad Mirabal.

Relate Cymru have told me that my suggested amendments are 'good' and that assurance is needed that the Welsh Government is committed to ensuring easy access in Wales to high-quality, pre-conviction help for perpetrators in order to increase the safety of women and children. They deliver violence perpetrator programmes and associated partner-support services, including Choose 2 Change, offering a perpetrator programme and parallel partner support across north Wales. Choose 2 Change, in fact, is the only fully Respect-accredited community-based programme in Wales at present. In this context, I did contact the domestic abuse safety unit on Deeside, which circulated this to other groups across the region. They responded that they did think that provision of perpetrator programmes, such as Choose 2 Change, where someone can self-refer into a rolling programme, are an important part of the whole picture, otherwise we are only addressing part of the problem.

Mae Relate Cymru wedi dweud wrthyf fod y gwelliannau yr wyf yn eu hawgrymu yn 'dda' a bod angen sicrwydd bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau mynediad hawdd yng Nghymru at gymorth cyn-euogfarn o safon uchel i dramgwyddwyr er mwyn gwella diogelwch menywod a phlant. Maent yn cyflwyno rhaglenni i'r rheiny sy'n cyflawni'r drais a gwasanaethau cymorth i bartneriaid cysylltiedig, gan gynnwys Choose 2 Change, sy'n cynnig cefnogaeth i dramgwyddwyr ochr yn ochr â chefnogaeth i bartneriaid ledled y gogledd. Choose 2 Change yw'r unig raglen gymunedol a achredir gan Respect yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwn, cysylltais ag uned ddiogelwch trais teuluol ar Lannau Dyfrdwy, a ledaenodd y gair i grwpiau eraill ar draws y rhanbarth. Eu hymateb oedd eu bod nhw o'r farn bod darparu rhaglenni i dramgwyddwyr, megis Choose 2 Change, lle gall rywun hunan-gyfeirio i raglen dreigl, yn rhan bwysig o'r darlun cyfan. Fel arall, dim ond rhan o'r broblem yr ydym yn mynd i'r afael â hi.

The Mirabal research does show positive outcomes, which are certainly better than doing nothing. The domestic abuse one-stop shops in north Wales have recently reached an agreement with Choose 2 Change, the programme evaluated by Mirabal, to provide the partner support for the programmes. They added that they were not sure why the research has not been accepted by the Minister as having relevance. On the basis that I'm representing them, as I hope we all are representing those organisations pan Wales and in our own regions and constituencies, I urge this Assembly to support these amendments.

Mae ymchwil Mirabal yn dangos canlyniadau cadarnhaol, ac yn sicr mae hyn yn well na gwneud dim. Yn ddiweddar, mae'r canolfannau cam-drin domestig yn y gogledd wedi dod i gytundeb â Choose 2 Change, y rhaglen a gafodd ei gwerthuso gan Mirabal, i ddarparu'r cymorth partner ar gyfer y rhaglenni. Fe wnaethant ychwanegu nad oeddent yn sicr pam nad oedd y Gweinidog yn derbyn bod yr ymchwil yn berthnasol. Ar y sail fy mod i'n eu cynrychioli hwy, fel yr wyf yn gobeithio ein bod ni i gyd yn cynrychioli'r sefydliadau hynny ledled Cymru ac yn ein rhanbarthau a'n hetholaethau ein hunain, yr wyf yn annog y Cynulliad hwn i gefnogi'r gwelliannau hyn.

16:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If amendment 70 is not agreed, amendment 71 falls. I understand that there will be objection. [Objection.] So, we move straight to the electronic vote on amendment 70. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I use my casting vote against and the amendment falls.

Os na dderbynnir gwelliant 70, mae gwelliant 71 yn methu. Deallaf y bydd gwrthwynebiad. [Gwrthwynebiad.] Felly, symudwn yn syth at y bleidlais electronig ar welliant 70. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, neb yn ymatal, 26 yn erbyn. Felly, yr wyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 70.

Result of the vote on amendment 70.

*Methodd gwelliant 71.*

*Amendment 71 fell.*

### Grŵp 8: Strategaethau Lleol—Gweithredu (Gwelliannau 2, 3 a 4)

### Group 8: Local Strategies—Implementation (Amendments 2, 3 and 4)

16:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Group 8 relates to the implementation of local strategies. The lead amendment in this group is amendment 2, and I call on Peter Black to move and speak to that lead amendment.

Mae grŵp 8 yn ymwneud â rhoi strategaethau lleol ar waith. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2, a galwaf ar Peter Black i gynnig a siarad am y prif welliant hwnnw.

*Cynigiwyd gwelliant 2 (Peter Black).*

*Amendment 2 (Peter Black) moved.*

16:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I think that this group of amendments and some amendments coming after it relate to the importance of process in terms of making sure that the intentions of this Bill are put in place. That process involves not just making sure that where local strategies are put in place, they are set to minimum requirements in terms of design, implementation and monitoring, but also making sure that there are people in place to drive those strategies forward and ensure that they are delivered appropriately, and, of course, that that action is monitored and reported back to the national adviser and to the Minister, so that we actually ensure that everybody who is trying to put in place the change of attitudes and the different change in approach to this particular subject to domestic violence, violence against women and children in particular, is working to the same set of requirements—the same song sheet, if you like—and is delivering them appropriately.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n credu bod y grŵp hwn o welliannau a rhai gwelliannau sy'n ei ddilyn yn ymwneud â phwysigrwydd proses, o ran gwneud yn siŵr bod bwriadau’r Bil hwn yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r broses yn golygu nid yn unig bod gofynion sylfaenol yn cael eu pennu o ran cynllunio, gweithredu a monitro sicrhau pan fo strategaethau lleol yn cael eu rhoi ar waith, ond hefyd yn sicrhau bod yna bobl wedi'u penodi i wthio’r strategaethau hynny ymlaen a sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn briodol, ac, wrth gwrs, bod camau gweithredu'n cael eu monitro a'u hadrodd yn ôl i'r cynghorwr cenedlaethol ac i'r Gweinidog, er mwyn i ni sicrhau bod pawb sy'n ceisio newid agweddau a dulliau tuag at y pwnc arbennig hwn, sef trais domestig, trais yn erbyn menywod a phlant yn arbennig, yn gweithio tuag at yr un gyfres o ofynion – yn canu’r un dôn, os mynnwch chi – ac yn eu cyflwyno yn briodol.

Therefore, these amendments 2, 3 and 4 are talking about making sure that there is going to be a minimum requirement for the design, implementation and monitoring of local strategies, making sure that we actually have a chance to discuss that in this Chamber, that those regulations should be subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales, and also making sure that each local authority must employ at least one officer whose role it is to ensure delivery of the local strategy for the area. I think that is important in terms of taking this forward. I will come back, of course, to that process in the next set of amendments. Thank you, Presiding Officer.

Felly, mae'r gwelliannau 2, 3 a 4 hyn yn ymwneud â sicrhau y bydd yna ofyniad sylfaenol ar gyfer cynllunio, gweithredu a monitro strategaethau lleol, gan wneud yn siŵr ein bod yn cael cyfle gwirioneddol i drafod hynny yn y Siambr hon, bod y rheoliadau hynny yn ddarostyngedig i'w diddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod yn rhaid i bob awdurdod lleol gyflogi o leiaf un swyddog i sicrhau bod y strategaeth leol yn cael ei chyflawni ar gyfer yr ardal. Rwyf o’r farn bod hyn yn bwysig o ran gwthio hyn yn ei flaen. Byddaf yn dychwelyd at y broses honno yn y gyfres nesaf o welliannau wrth gwrs. Diolch i chi, Lywydd.

16:29 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I heard what Peter Black had to say, but I do regard these amendments as unnecessary. Amendments 2 and 3 seek to provide for regulations on the design and implementation of local strategies. The Bill already makes provision in section 14 for Welsh Ministers to issue statutory guidance on any matter that promotes the purposes of the Bill. Statutory guidance on exactly these matters can, therefore, already be issued under section 14. His amendments are, in fact, a duplication of section 14 and, consequently, are not, in my view, required. A local strategy would have to comply with any requirements contained in guidance under section 14, unless authorities could demonstrate to the Welsh Ministers a more effective approach to the design and implementation of their strategies.

Lywydd, clywais yr hyn a oedd gan Peter Black i'w ddweud, ond rwyf yn ystyried y gwelliannau hyn fel bod yn rhai diangen. Mae gwelliannau 2 a 3 yn ceisio darparu ar gyfer rheoliadau ar gynllunio a gweithredu strategaethau lleol. Mae'r Bil eisoes yn gwneud darpariaeth yn adran 14 i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar unrhyw fater sy'n hyrwyddo dibenion y Bil. Gall canllawiau statudol ar yr union faterion hyn gael eu cyhoeddi eisoes, felly, o dan adran 14. Mewn gwirionedd, mae ei welliannau yn dyblygu adran 14 ac, o ganlyniad, meant yn ddiangen yn fy marn i. Byddai'n rhaid i strategaeth leol gydymffurfio ag unrhyw ofynion a nodir mewn canllawiau o dan adran 14, oni bai y gallai awdurdodau ddangos i Weinidogion Cymru ymagwedd fwy effeithiol tuag at gynllunio a gweithredu eu strategaethau.

Amendment 4 is also unnecessary. The Bill already includes provision under section 8(1) to require a local authority, in exercising its functions, to take all reasonable steps to achieve the objectives specified in the strategy. A local authority is, therefore, under a statutory duty to deliver the local strategy. As such, I do not consider it necessary to prescribe further how a local authority operationally fulfils this statutory duty. A failure to implement the duty could be subject to legal challenge, in the same way as a failure to employ an officer to deliver the strategy could be challenged. In addition, the local strategy is the joint responsibility of the local authority and a local health board. Whilst I do not consider it appropriate to prescribe staffing requirements in legislation, it also does not make sense to prescribe staffing requirements to one organisation and not the other, when they are jointly responsible for the local strategy. Accordingly, I urge Members to resist these amendments.

Mae gwelliant 4 hefyd yn ddiangen. Mae'r Bil eisoes yn cynnwys darpariaeth o dan adran 8 (1) i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau, gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth. Mae dyletswydd statudol ar awdurdod lleol, felly, i gyflawni'r strategaeth leol. Fel y cyfryw, nid wyf yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i ragnodi ymhellach sut mae awdurdod lleol yn cyflawni'r ddyletswydd statudol hon yn weithredol. Gallai methiant i weithredu'r ddyletswydd hon fod yn destun her gyfreithiol, yn yr un modd ag y gellid herio methiant i gyflogi swyddog i gyflawni'r strategaeth. Yn ogystal, mae'r strategaeth leol yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Er nad wyf yn ystyried ei bod yn briodol rhagnodi gofynion staffio mewn deddfwriaeth, nid yw ychwaith yn gwneud synnwyr i bennu gofynion staffio ar gyfer un sefydliad ac nid ar gyfer y llall, â hwythau'n gyd-gyfrifol am y strategaeth leol. Yn unol â hynny, rwyf yn annog yr Aelodau i wrthod y gwelliannau hyn.

16:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply to the debate.

Peter Black i ymateb i'r ddadl.

16:31 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. The Minister argues that this is a duplication of what is in section 14. I think that this sort of detail is not available in section 14. The Minister obviously can issue statutory guidance. I would argue that this is an amplification of section 14, setting out in some more detail on the face of the Bill what is required of local authorities. As was said—and I will come back to this in the next set of amendments—it is really important that, if we are deliver these strategies, there are people there on the ground who are driving them forward and making sure that they are applied consistently across the whole local authority in this particular case, and delivered appropriately. I think that that is a prerequisite in making sure that this approach is delivered successfully. For that reason, I will be pressing the amendments.

Diolch i chi, Lywydd. Mae'r Gweinidog yn dadlau mai dyblygu'r hyn sydd yn adran 14 yw hyn. Nid wyf yn credu y ceir y math hwn o fanylder yn adran 14. Yn amlwg, fe all y Gweinidog gyhoeddi canllawiau statudol. Byddwn yn dadlau mai ymhelaethu ar adran 14 fyddai hyn, gan nodi'n fanylach ar wyneb y Bil beth a ddisgwylir gan awdurdodau lleol. Fel y dywedwyd—a byddaf yn dychwelyd at hyn yn y gyfres nesaf o welliannau— mae'n bwysig iawn, os ydym yn cyflwyno'r strategaethau hyn, bod yna bobl yno ar lawr gwlad sy'n eu gwthio ymlaen ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws yr awdurdod lleol cyfan yn yr achos penodol hwn, ac yn cael eu darparu'n briodol. Credaf fod hynny'n rhagofyniad i wneud yn siŵr bod yr ymagwedd hon yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus. Am y rheswm hwnnw, byddaf yn parhau i wthio'r gwelliannau.

16:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you. If amendment 2 is not agreed, amendment 3 will fall. The question is that amendment 2 be agreed. Any objections? [Objection.] We will move straight to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I use my casting vote against and the amendment falls.

Diolch yn fawr. Os na dderbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 2 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Symudwn yn syth i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, neb yn ymatal, 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2.

Result of the vote on amendment 2.

*Methodd gwelliant 3.*

*Amendment 3 fell.*

16:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mark Isherwood, amendment 72.

Mark Isherwood, gwelliant 72.

*Cynigiwyd gwelliant 72 (Mark Isherwood).*

*Amendment 72 (Mark Isherwood) moved.*

16:32 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Move.

Cynnig.

16:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 72 be agreed to. Any objections? [Objection.] We move to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I will cast my vote against, and the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 72 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Symudwn i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, neb yn ymatal, 26 yn erbyn. Felly, byddaf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn, ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 72.](#)

[Result of the vote on amendment 72.](#)

16:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 23.

Weinidog, gwelliant 23.

*Cynigiwyd gwelliant 23.*

*Amendment 23 moved.*

16:33 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Move.

Cynnig.

16:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that 23 be agreed. Any objections? There are no objections; 23 is agreed.

Y cwestiwn yw bod 23 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau; 23 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 23 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 23 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Peter Black, amendment 4.

Peter Black, gwelliant 4.

*Cynigiwyd gwelliant 4.*

*Amendment 4 moved.*

16:33 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move.

Rwy’n cynnig.

16:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 4 be agreed. Are there any objections? [Objection.] An electronic vote: open the vote. Close the vote. In favour 14, 12 abstentions, 26 against. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Symudwn at bleidlais electronig: Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 14, 12 yn ymatal, 26 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 26, Ymatal 12.*

*Amendment not agreed: For 14, Against 26, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4.

Result of the vote on amendment 4.

## Grŵp 9: Addysg am Berthnasoedd Iach (Gwelliannau 5, 6, 7, 11 a 58)

## Group 9: Education about Healthy Relationships (Amendments 5, 6, 7, 11 and 58)

16:33

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now, we move to group 9, which relates to education about healthy relationships. The lead amendment in this group is amendment 4. I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and other amendments in that group. Peter Black

Nawr, symudwn at grŵp 9, sy'n ymwneud ag addysg am berthynas iach. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 4. Galwaf ar Peter Black i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwnnw. Peter Black

*Cynigiwyd gwelliant 5 (Peter Black).*

*Amendment 5 (Peter Black) moved.*

16:33

### Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. So far, the story of this Stage 3 is that amendments put forward by the opposition have been voted down on the recommendation of the Minister. As a result of that, we are making very little progress in terms of what we feel is necessary for this Bill. This amendment, in my view, goes to the very heart of what this Bill should be about: education, changing attitudes, changing behaviour. We are not moving an amendment, as we did in Stage 2, in relation to the curriculum, because of course we accept that that curriculum review is under way and that the Minister has already issued a very detailed statement and letter to Members in terms of what will be addressed in that curriculum review, and how we propose to take this forward in schools.

Diolch i chi, Lywydd. Hyd yn hyn, stori Cyfnod 3 yw bod gwelliannau a awgrymwyd gan yr wrthblaid wedi eu gwrthod mewn pleidlais ar argymhelliad y Gweinidog. O ganlyniad i hynny, ychydig iawn o gynnydd yr ydym yn ei wneud mewn cysylltiad â'r hyn yr ydym yn teimlo sy'n angenrheidiol ar gyfer y Bil hwn. Mae'r gwelliant hwn, yn fy marn i, yn mynd at wraidd yr hyn a ddylai fod wrth hanfod y Bil hwn: addysg, newid agweddau, newid ymddygiad. Nid ydym yn cynnig gwelliant, fel y gwnaethom yng Nghyfnod 2, mewn cysylltiad â'r cwricwlwm gan ein bod yn derbyn wrth gwrs, fod yr adolygiad hwnnw o'r cwricwlwm ar y gweill a bod y Gweinidog eisoes wedi cyhoeddi datganiad manwl iawn a llythyr at yr Aelodau o ran beth fydd yn cael sylw yn yr adolygiad o'r cwricwlwm, a sut yr ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn mewn ysgolion.

However, in terms of what I said previously, in my view—and I think that this comes from experience, and most Members have come across this themselves—in any particular school or educational establishment, if you don't have someone with responsibility for driving forward a policy and delivering that policy, for monitoring its effectiveness, making sure that it is applied consistently, and making sure that it is applied in a whole-school approach, it is very difficult to ensure that that policy is going to be applied in a manner that is consistent and which was intended by the guidance.

Fodd bynnag, o ran yr hyn a ddywedais o'r blaen, yn fy marn i—ac rwyf yn credu y daw hyn o brofiad, a bod y rhan fwyaf o Aelodau wedi gweld hyn eu hunain—mewn ysgol neu sefydliad addysgol penodol, os nad oes gennych chi rywun sy'n gyfrifol am wthio polisi yn ei flaen a chyflwyno'r polisi hwnnw, am fonitro ei effeithiolrwydd, am sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson, a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio drwy'r ysgol gyfan, mae'n anodd iawn sicrhau bod y polisi hwnnw yn mynd i gael ei ddefnyddio'n gyson ac yn y modd y bwriadwyd gan y canllawiau.

Often, schools are not able to do everything, of course, and, often, these things can fall by the wayside. That's why I believe this amendment is absolutely crucial. What this amendment ensures is that there will be one fully trained, go-to staff member in each school with expertise in violence against women and girls, and the knowledge and confidence to assist pupils in seeking assistance and information. This one member would be able to tackle difficult issues such as FGM, forced marriage and sexual violence, as well as having an understanding of domestic abuse. It ensures provision of comprehensive violence-against-women-and-girls and healthy-relationships training for all related professionals. That training, again, is crucial, and it is common practice in many schools for a member of staff to lead that training and ensure that takes place in a number of different issues that they have responsibility for.

Nid yw ysgolion yn gallu gwneud popeth, wrth gwrs, ac yn aml, gall y pethau hyn gael eu rhoi o'r neilltu. Dyna pam yr wyf yn credu bod y gwelliant hwn yn gwbl hanfodol. Yr hyn y mae’r gwelliant hwn yn ei sicrhau yw y bydd un aelod penodol o staff, wedi’i hyfforddi'n llawn, ym mhob ysgol a chanddo arbenigedd mewn trais yn erbyn menywod a merched, a'r wybodaeth a'r hyder i gynorthwyo disgyblion wrth iddynt chwilio am gymorth a gwybodaeth. Byddai’r aelod staff hwn yn gallu mynd i'r afael â materion anodd fel anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod a thrais rhywiol, yn ogystal â bod â dealltwriaeth o gam-drin domestig. Mae'n sicrhau hyfforddiant cynhwysfawr ar drais yn erbyn menywod a merched a hyfforddiant ar beth yw perthynas iach i bob gweithiwr proffesiynol cysylltiedig. Mae’r hyfforddiant hwnnw, unwaith eto, yn hollbwysig, ac mae'n arfer cyffredin mewn llawer o ysgolion i aelod o staff arwain yr hyfforddiant a sicrhau ei fod yn berthnasol i nifer o wahanol faterion y maent yn gyfrifol amdanynt.

It appoints a violence-against-women-and-girls champion amongst school governors and the student council. This may not be appropriate for all schools, especially primary schools, but the amendment says it's subject to governing body approval, which will allow it some flexibility, and it ensures that schools regularly collect data on all forms of violence against women and girls, including sexual harassment and bullying. It ensures that education on violence against women and on healthy relationships is available to children and young people not engaged in the formal education system, i.e. NEETs. And the amendment ensures that while the education initiatives outlined reflect the disproportionate impact of domestic abuse and sexual violence on women, there is scope for an equalities-based approach that teaches all young people about healthy relationships. NSPCC research shows that many children lack the skills, confidence and knowledge to seek help if they are abused. Age-appropriate healthy relationships education can teach young people about consent, equality, abusive behaviour, online safety and staying safe. I don't think there's any difference between me and the Minister in terms of the value of that particular education.

Mae'n penodi hyrwyddwr ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched ymhlith llywodraethwyr ysgol a chyngor y myfyrwyr. Efallai na fydd hyn yn briodol ym mhob ysgol, yn enwedig ysgolion cynradd, ond mae'r gwelliant yn nodi ei fod yn amodol ar gymeradwyaeth y corff llywodraethu, a fydd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd, ac mae'n sicrhau bod ysgolion yn casglu data’n rheolaidd ar bob math o drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys aflonyddu a bwlio rhywiol. Mae'n sicrhau bod addysg ar drais yn erbyn menywod ac ar berthynas iach ar gael i blant a phobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan yn y system addysg ffurfiol, hynny yw NEET. Ac mae'r gwelliant yn sicrhau bod y mentrau addysg a amlinellwyd, er eu bod yn adlewyrchu effaith anghymesur camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol ar fenywod, hefyd yn cynnwys ymagwedd sy'n seiliedig ar gydraddoldeb, sy'n dysgu pob person ifanc am berthynas iach. Mae ymchwil gan yr NSPCC yn dangos bod llawer o blant nad ydynt yn meddu ar y sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth i ofyn am help os ydynt yn cael eu cam-drin. Gall addysg sy'n briodol i oedran, am beth yw perthynas iach, addysgu pobl ifanc am ganiatâd, cydraddoldeb, ymddygiad camdriniol, diogelwch ar-lein ac aros yn ddiogel. Nid wyf yn credu bod unrhyw wahaniaeth rhyngof fi a'r Gweinidog o ran gwerth yr addysg arbennig honno.

An NSPCC study published in February 2015 reveals 40% of teenage girls have experienced sexual coercion, and physical violence and abuse is also a factor in 20% of relationships. A Cardiff University study, 'Boys and Girls Speak Out', shows patterns of harassment and coercion are increasingly an issue for younger primary school children. Since March 2012, NSPCC protect and respect services have worked with over 600 children, some as young as 10, who have been sexually exploited. Therefore, the proposed changes to the curriculum, which are unlikely to come into force for some time, it has to be said, are absolutely crucial, and I think that that needs to be put into place. But unless you actually have the people in the schools driving this forward and making sure this happens, it is my belief that this is not going to take place. I would say categorically that if the Bill does not contain these sorts of provisions—it doesn't have to be as I phrased them; it could be how the Minister wants to phrase them, if we were, for example, to go into a Report Stage—but if the Bill does not contain these provisions, it is my view that the Bill should not be supported, because it seems to me that the Bill is not doing what is fundamental here, which is making sure that the education about healthy relationships is being driven forward in an appropriate manner in schools across Wales. It does seem to me that that is fundamental in terms of making sure this agenda is delivered, and I hope the—

Mae astudiaeth gan yr NSPCC a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 yn dangos bod 40% o ferched yn eu harddegau wedi profi gorfodaeth rywiol, ac mae trais corfforol a cham-drin hefyd yn ffactor mewn 20% o berthnasoedd. Mae astudiaeth gan Brifysgol Caerdydd, 'Boys and Girls Speak Out', yn dangos bod patrymau o aflonyddu a gorfodaeth yn broblem gynyddol i blant iau mewn ysgolion cynradd. Ers mis Mawrth 2012, mae gwasanaethau amddiffyn a pharch yr NSPCC wedi gweithio gyda mwy na 600 o blant, rhai ohonynt mor ifanc â 10 oed, y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol. Felly, mae'n rhaid dweud bod y newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm, sy'n annhebygol o ddod i rym am beth amser, yn gwbl hanfodol, ac rwyf yn credu bod angen rhoi'r rheiny ar waith. Ond oni bai bod gennych bobl yn yr ysgolion yn gwthio hyn yn ei flaen ac yn gwneud yn siŵr ei fod hyn yn digwydd, ni fydd yn digwydd yn fy marn i. Byddwn yn dweud yn bendant, os nad yw'r Bil yn cynnwys y mathau hyn o ddarpariaethau—ac nid oes yn rhaid iddynt gael eu geirio fel yr wyf fi wedi'i wneud; gall y Gweinidog ddewis sut y mae ef eisiau eu geirio; pe byddem er enghraifft yn mynd i Gyfnod Adrodd—ond os nad yw'r Bil yn cynnwys y darpariaethau hyn, ni ddylid cefnogi'r Bil yn fy marn i, gan ei fod yn ymddangos i mi nad yw'r Bil yn gwneud yr hyn sy'n hollol sylfaenol yma, sef sicrhau bod yr addysg am berthnasoedd iach yn cael ei gwthio ymlaen mewn modd priodol mewn ysgolion ledled Cymru. Mae'n ymddangos i mi fod hynny'n hanfodol wrth sicrhau bod yr agenda hon yn cael ei chyflwyno, ac rwy'n gobeithio y-

16:38 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

16:38 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I will give way, yes.

Fe wnaf ildio, gwnaf.

16:38 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for giving way. Just on that point, I think I do support the amendment he is bringing forward, and I think he is making a very important point here, that he is setting out regulations that the Minister can bring forward, but he also puts on the face of the Bill what those regulations should contain. I just wondered whether there had been any indication at all from the Government that they were minded to bring forward something themselves, that maybe they didn't put on the face of the Bill in quite the prescriptive way that the Member does, but did have the regulations encrypted in the Bill so that we knew that this was definitely being done.

Diolch i chi am ildio. Ar y pwynt hwnnw, rwyf yn meddwl fy mod yn cefnogi'r gwelliant y mae'n ei gynnig, ac rwy'n meddwl ei fod yn gwneud pwynt pwysig iawn yn y fan yma, ei fod yn gosod rheoliadau y gall y Gweinidog eu cyflwyno, ond mae hefyd yn rhoi ar wyneb Bil yr hyn y dylai'r rheoliadau hynny ei gynnwys. Meddwl oeddwn i a fu unrhyw arwydd o gwbl gan y Llywodraeth ei bod yn bwriadu cyflwyno rhywbeth ei hun, efallai na chafodd ei roi ar wyneb y Bil yn y modd rhagnodol y mae'r Aelod yn ei wneud, ond bod y rheoliadau wedi'u cynnwys yn y Bil fel ein bod yn gwybod yn bendant bod hyn yn cael ei wneud.

16:39 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I had some discussions with the Minister and I think the Minister understands the point I'm making. I'm sure the Minister will be able to respond to this and indicate himself whether or not he believes this can be done through regulation. It's my view that this is so important, it needs to be on the face of the Bill, specifying the sort of regulations that need to come forward. For that reason, I would hope that Members in his Chamber can support this amendment. Thank you, Presiding Officer.

Wel, cefais rai trafodaethau â'r Gweinidog ac rwyf yn meddwl bod y Gweinidog yn deall y pwynt yr wyf yn ei wneud. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn gallu ymateb i hyn a nodi drosto ei hun pa un a yw'n credu y gall hyn gael ei wneud drwy reoleiddio. Rwyf i o'r farn ei fod mor bwysig, bod angen iddo fod ar wyneb y Bil, yn nodi'r math o reoliadau y mae angen iddynt gael eu cyflwyno. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn gobeithio y gall yr Aelodau yn y Siambr hon gefnogi'r gwelliant hwn. Diolch i chi, Lywydd.

16:39 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I speak on behalf of the Welsh Conservative group, and we fully support and endorse these amendments based on much of the evidence received for the committee Stage 1 report. This recommended that the Minister amend the Bill to make provision for compulsory whole-school age-appropriate education programmes based on healthy relationships. Welsh Conservatives believe that education and learning are crucial at the appropriate time in preventing violence against women and girls, and also, indeed, between both sexes. And where better than when inappropriate behaviour first presents? This is the right way to go about it.

Siaradaf ar ran grŵp Ceidwadwyr Cymru, ac rydym yn llwyr gefnogi ac yn cymeradwyo'r gwelliannau hyn yn seiliedig ar lawer o'r dystiolaeth a gafwyd ar gyfer adroddiad y pwyllgor yng Nghyfnod 1. Roedd hwnnw'n argymell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer rhaglenni addysg yn seiliedig ar berthynas iach, a hynny yn orfodol, ar gyfer ysgol gyfan ac yn briodol i oedran. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod addysg a dysgu yn hanfodol, ar yr adeg gywir, er mwyn atal trais yn erbyn menywod a merched, a hefyd, yn wir, rhwng y ddau ryw. A pha adeg fyddai'n well na phan fo ymddygiad amhriodol yn amlygu'i hun am y tro cyntaf? Dyma'r ffordd iawn i fynd o'i chwmpas hi.

Now, even with the Minister’s statement of last week, many remain unconvinced that what he outlined will go far enough. This Bill must legislate for the embedding of champions in every school across Wales to drive forward the healthy relationship agenda. The employment of at least one fully trained member of staff in each school, who pupils can call on for assistance and information on matters relating to violence against women, domestic abuse and sexual violence, will give children the confidence to discuss these issues regardless of changes to the curriculum. As I said before, it’s about when inappropriate behaviour first presents.

Nawr, hyd yn oed yn dilyn datganiad y Gweinidog yr wythnos diwethaf, mae llawer nad ydynt wedi’u hargyhoeddi bod yr hyn yr amlinellodd yn mynd yn ddigon pell. Mae'n rhaid i’r Bil hwn ddeddfu ar gyfer ymsefydlu hyrwyddwyr ym mhob ysgol ledled Cymru er mwyn gwthio agenda’r berthynas iach yn ei blaen. Mae cyflogi o leiaf un aelod o staff wedi’i hyfforddi’n llawn ym mhob ysgol, a hwnnw'n unigolyn y gall disgyblion alw arno am gymorth a gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn rhoi'r hyder i blant drafod y materion hyn, waeth pa newidiadau a wneir i'r cwricwlwm. Fel y dywedais o'r blaen, mae hyn yn ymwneud â’r adeg y mae ymddygiad amhriodol yn amlygu’i hun am y tro cyntaf.

In addition, the appointment of such a champion among school governors and student councils will reinforce the principles of this Bill even further. As such, we would like to see this new section added to the Bill, and we will be supporting the amendments of group 9 on education about healthy relationships.

Yn ogystal, bydd penodi hyrwyddwr o'r fath ymhlith llywodraethwyr ysgol a chynghorau myfyrwyr yn atgyfnerthu egwyddorion y Bil hwn hyd yn oed ymhellach. Fel y cyfryw, byddem yn hoffi gweld yr adran newydd hon yn cael ei hychwanegu at y Bil, a byddwn yn cefnogi gwelliannau grŵp 9 ar addysg ar berthynas iach.

16:41 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I regret the way in which Peter Black started to make his remarks on this matter this afternoon. Rather than being in a situation where, as you put it, little progress is being made during the debates that we’ve had on this Bill, in my view, considerable progress has been made, and this is an example of where the three Ministers who have dealt with this matter have constantly listened to the debate in an active fashion and have responded to the debate as it has unfolded following the discussions we’ve had. We’ve seen significant amendments to this Bill—probably a stronger series of amendments than we’ve seen in many Bills that have come before this Chamber—and we’ve seen the Bill significantly strengthened through the process of legislation. So, I’m sure that Peter Black would reflect on the wider process that we’ve followed, and how the process of legislating, both in committee and by way of this Chamber, has significantly improved and strengthened the Bill.

Rwyf yn gresynu at y ffordd y dechreuodd Peter Black wneud ei sylwadau ar y mater hwn y prynhawn yma. Yn hytrach na bod mewn sefyllfa lle, fel y dywedasoch, mai ychydig iawn o gynnydd sy'n cael ei wneud yn ystod y dadleuon yr ydym wedi’u cael ar y Bil hwn, yn fy marn i, mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud, a dyma enghraifft o bryd y mae’r tri Gweinidog sydd wedi ymdrin â'r mater hwn wedi gwrando yn gyson ar y ddadl mewn modd gweithredol, ac wedi ymateb i'r ddadl wrth iddi fynd rhagddi yn dilyn ein trafodaethau. Rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol i’r Bil hwn—cyfres gryfach o welliannau nag yr ydym wedi eu gweld mewn nifer o Filiau sydd wedi dod gerbron y Siambr hon yn ôl pob tebyg—ac rydym wedi gweld y Bil yn cael ei gryfhau yn sylweddol drwy’r broses ddeddfu. Felly, rwy'n siŵr y bydd Peter Black yn myfyrio ar y broses ehangach yr ydym wedi’i dilyn, a sut y mae'r broses ddeddfu, yn y pwyllgor ac yn y Siambr hon fel ei gilydd, wedi gwella a chryfhau’r Bil yn sylweddol.

I read the statement that was made last week, and I very much welcome that. I felt that it was a statement that was being made in the spirit of active listening, in the spirit of seeking to strengthen the Bill, and in the spirit of recognising the strength of the arguments that had been put, and the way that those arguments had been articulated—both at Stage 1 and at other times. I very much welcome that the Government will be bringing forward statutory guidance on these matters that will govern not only the provision of such education, but how that provision and how that education is to be provided, and how it is to be delivered—exactly the ambitions that many of us shared at the beginning of this process are being delivered as a part of this process. I think that's something that we should welcome this afternoon.

Darllenais y datganiad a wnaethpwyd yr wythnos diwethaf, ac yr wyf yn ei groesawu'n fawr. Roeddwn i'n teimlo ei fod yn ddatganiad a oedd yn cael ei wneud yn yr ysbryd o wrando gweithredol, yn yr ysbryd o geisio cryfhau'r Bil, ac yn yr ysbryd o gydnabod cryfder y dadleuon a gyflwynwyd, a'r ffordd y cafodd y dadleuon hynny eu mynegi—yng Nghyfnod 1 ac ar adegau eraill. Rwy'n croesawu'n fawr iawn y ffaith y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno canllawiau statudol ar y materion hyn, a fydd yn llywodraethu nid yn unig y ddarpariaeth o'r addysg honno ond hefyd sut y bydd y ddarpariaeth honno a'r addysg honno yn cael eu cyflwyno a'u cyflawni—mae'r union uchelgeisiau a rannwyd gan lawer ohonom ar ddechrau'r broses hon yn cael eu cyflwyno yn rhan o'r broses. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y dylem ni ei groesawu y prynhawn yma.

Additionally, I think the power to issue guidance to governing bodies of higher education and further education institutions delivers on this commitment in a much wider and more comprehensive way than perhaps we had assumed at the beginning of the process. I do accept the point that's been made that the Donaldson process and new curriculum will take some time to be delivered, but I think if we look at what was said last week, or the week before, when Donaldson reported about positive relationships based upon trust and mutual respect, that is precisely and exactly what our ambitions were at the beginning of the process. This is being delivered now in a more comprehensive way than we actually anticipated at the beginning of the process. When we spoke about education—I remember the conversations that we had at committee on this—we were not envisaging the statement that the Minister for Education and Skills made last week, and we did not envisage the comprehensive way in which that would be delivered.

Yn ogystal, rwyf yn meddwl bod grym i gyhoeddi canllawiau i gyrff llywodraethu sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn cyflawni'r ymrwymiad hwn mewn ffordd ehangach a mwy cynhwysfawr o lawer nag yr oeddem wedi ei dybio efallai ar ddechrau'r broses. Rwyf yn derbyn y pwynt sydd wedi ei wneud y bydd proses Donaldson a'r cwricwlwm newydd yn cymryd peth amser i'w rhoi ar waith, ond os edrychwn ar yr hyn a ddywedwyd yr wythnos diwethaf, neu'r wythnos cyn hynny, pan adroddodd Donaldson am berthnasoedd cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch y naill at y llall, rwyf yn meddwl mai dyna'n union ac yn hollol beth oedd ein huchelgeisiau ar ddechrau'r broses. Mae hyn yn cael ei gyflawni yn awr mewn ffordd fwy cynhwysfawr nag a ragwelwyd ar ddechrau'r broses. Pan oeddem yn siarad am addysg—rwyf yn cofio'r sgyrsiau a gawsom yn y pwyllgor ynglŷn â hyn—nid oeddem yn rhagweld y datganiad a wnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr wythnos diwethaf, ac nid oeddem yn rhagweld y ffordd gynhwysfawr y byddai'n cael ei gyflwyno.

So, in closing, Presiding Officer, I believe that there is a clear commitment to provide not only the educational function that was sought and has been delivered, but also the funding and the support structures for the delivery of that function. That is more comprehensive a response than the amendments that we have in front of us this afternoon, and for that reason, I would oppose those amendments.

Felly, i gloi, Lywydd, credaf fod ymrwymiad clir i ddarparu nid yn unig y swyddogaeth addysgol a geisiwyd ac a gyflawnwyd, ond hefyd y cyllid a'r strwythurau cefnogi er mwyn cyflawni'r swyddogaeth honno. Mae hynny'n ymateb mwy cynhwysfawr na'r gwelliannau sydd gennym ger ein bron y prynhawn yma, ac am y rheswm hwnnw, byddwn yn gwrthwynebu'r gwelliannau hynny.

16:44

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Healthy relationship education for everyone in Wales should be the backbone of this legislation. If this Bill is to be effective in setting up meaningful, preventative strategies that will tackle the incidence of violence against women, domestic abuse and sexual violence in our communities, then it must include education, schools and teachers. I will be supporting all of Peter Black's amendments on this issue and would have tabled them myself if he had chosen not to do so.

Dylai addysg am berthnasoedd iach i bawb yng Nghymru fod yn asgwrn cefn i'r ddeddfwriaeth hon. Er mwyn i'r Bil hwn fynd ati'n effeithiol i sefydlu strategaethau ystyrlon, ataliol a fydd yn mynd i'r afael â'r achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ein cymunedau, mae'n rhaid iddo gynnwys addysg, ysgolion ac athrawon. Byddaf yn cefnogi pob un o welliannau Peter Black ar y mater hwn a byddwn wedi eu cyflwyno fy hun pe bai wedi dewis peidio â gwneud hynny.

Since the Bill was initially published, the lack of healthy relationship education has been a glaring omission. Carl Sargeant's White Paper was celebrated for setting out an ambitious and genuinely groundbreaking approach to teaching all children and young people about respect, tolerance and healthy relationships, by effecting a whole-scale change in the culture of our schools. It's been disappointing to see the Government abandon that strategy. The evidence to committee on this was very strong indeed.

Ers i'r Bil gael ei gyhoeddi gyntaf, mae diffyg addysg am berthnasoedd iach wedi bod yn amlwg iawn. Dathlwyd Papur Gwyn Carl Sargeant am bennu ymagwedd uchelgeisiol a gwirioneddol arloesol tuag at ddysgu pob plentyn a pherson ifanc am barch, goddefgarwch a pherthnasoedd iach, drwy newid ar raddfa eang ddiwylliant ein hysgolion. Mae'n destun siom fod y Llywodraeth wedi rhoi'r gorau i'r strategaeth honno. Roedd y dystiolaeth i'r pwyllgor ar hyn yn gryf iawn yn wir.

I do not believe that this Bill can ever successfully achieve its purpose unless we see a statutory approach to sex and relationship education in schools. We have had, for many years, the current non-statutory system and it is failing to deliver. Young people who we've spoken to report the odd one-off lesson by a teacher who was uncomfortable with the subject, or perhaps a visiting expert that they never see again. They don't feel that they have ongoing support to cope with the challenges of navigating relationships as they grow up.

Nid wyf yn credu y gall y Bil hwn byth gyflawni ei ddiben yn llwyddiannus oni cheir ymagwedd statudol tuag at addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion. Mae'r system anstatudol hon gennym ers blynyddoedd lawer, ac nid yw'n cyflawni. Mae pobl ifanc yr ydym wedi siarad â hwy yn sôn am ambell wers yma ac acw gan athro sy'n anghyfforddus â'r pwnc, neu efallai arbenigwr gwadd nad ydynt byth yn ei weld eto. Nid ydynt yn teimlo eu bod yn cael cymorth parhaus i ymdopi â heriau dygymod â pherthnasoedd wrth iddynt dyfu i fyny.

Young people themselves have spoken out strongly in favour of this change. I'm sure Members here will have been as pleased as I was to at last receive a Valentine's card, although I have to say it was from young people from Merthyr to tell us how important healthy relationship education is to them and why it's important.

Mae pobl ifanc eu hunain wedi siarad yn gryf o blaid y newid hwn. Rwyf yn siŵr bod yr Aelodau yma yr un mor falch ag yr oeddwn innau o dderbyn cerdyn Sant Ffolant o'r diwedd, er bod yn rhaid imi ddweud mai oddi wrth bobl ifanc o Ferthyr yr oedd, yn dweud wrthym pa mor bwysig yw addysg am berthnasoedd iach iddynt a pham ei bod yn bwysig.

We know that even very young students experience gender inequality and stereotyping in school that affect their quality of education and their relationships with classmates. As girls get older, it's not unusual for them to experience persistent sexual harassment. This is unacceptable and something that the Government must address. Victims of abuse often report not even realising that they were being abused for many years. Recognising unhealthy relationships is vital.

Gwyddom fod hyd yn oed myfyrwyr ifanc iawn yn profi anghydraddoldeb ar sail rhywedd ac ystrydebu yn yr ysgol sy'n effeithio ar ansawdd eu haddysg a'u perthynas â'u cyd-ddisgyblion. Wrth i ferched dyfu'n hŷn, nid yw'n anghyffredin iddynt gael profiad o aflonyddu rhywiol parhaus. Mae hyn yn annerbyniol ac yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r Llywodraeth fynd i'r afael ag ef. Mae'r rhai sy'n cael eu cam-drin yn aml yn dweud nad oeddent hyd yn oed yn sylweddoli eu bod yn cael eu cam-drin am flynyddoedd lawer. Mae'n gwbl hanfodol adnabod perthnasau afiach.

The Minister has repeatedly said it would be inappropriate to act on including healthy relationship education in the Bill until the findings of the curriculum review were published. Firstly, the proposal for a whole-school approach to healthy relationship education does not require setting aside extra time in an already busy curriculum. Secondly, these proposals fit in well with the review's recommendations. We do not have time to wait 10 years to fit in with the review's implementation. Young people are asking us to take action now, in this Bill, and this Bill is our opportunity. We do not need to be shy about making this move.

Mae'r Gweinidog wedi dweud dro ar ôl tro y byddai'n amhriodol cymryd camau i gynnwys addysg am berthnasoedd iach yn y Bil hyd nes y cyhoeddir canfyddiadau adolygiad y cwricwlwm. Yn gyntaf, nid yw'r cynnig i gael ymagwedd ysgol gyfan tuag at addysg am berthnasoedd iach yn golygu neilltuo amser ychwanegol mewn cwricwlwm sydd eisoes yn brysur. Yn ail, mae'r cynigion hyn yn cyd-fynd yn dda ag argymhellion yr adolygiad. Nid oes gennym amser i aros 10 mlynedd i gyd-fynd â gweithredu'r adolygiad. Mae pobl ifanc yn gofyn inni gymryd camau yn awr, yn y Bil hwn, ac mae'r Bil hwn yn cynnig cyfle inni. Nid oes angen inni fod yn swil ynglŷn â gwneud hyn.

For me, this issue is non-negotiable. This Bill contains little that could not be achieved without legislation. Without substantive provision for healthy relationship education being included on the face of the Bill, I will struggle to see how it can be truly effective. The Minister—I've listened to him his afternoon—has urged Members many times this afternoon, so I urge the Government to either accept mine and Peter's amendments or to take this Bill to Report Stage in order to bring their own amendment that achieves the same aim. Either will have my full support. If both these options are rejected, I cannot see how I can support the Minister on this Bill.

I mi, mae'r mater hwn yn un nad yw'n agored i drafodaeth. Nid yw'r Bil hwn yn cynnwys fawr ddim na ellid ei gyflawni heb ddeddfwriaeth. Heb gynnwys darpariaeth sylweddol ar gyfer addysg am berthnasoedd iach ar wyneb y Bil, rwyf yn ei chael yn anodd gweld sut y gall fod yn wirioneddol effeithiol. Mae'r Gweinidog—rwyf wedi gwrando arno'r prynhawn yma—wedi annog Aelodau sawl gwaith y prynhawn yma, felly rwyf yn annog y Llywodraeth naill ai i dderbyn gwelliannau Peter a minnau neu i fynd â'r Bil hwn at Gyfnod Adrodd er mwyn cyflwyno'u gwelliant eu hunain sy'n cyflawni'r un nod. Byddaf yn cefnogi'r ddau opsiwn yn llawn. Os gwrthodir y ddau opsiwn hyn, ni allaf weld sut y gallaf gefnogi'r Gweinidog ar y Bil hwn.

16:48 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Every adult is the child grown and although only a minority of adults become perpetrators, every perpetrator was a child, many of whom didn't have the right value systems provided, didn't have the right understanding given to them, and didn't have the right support for their needs. It's for those young people that this goes to the core of the proposed legislation. Without it, the legislation will have a hole at the centre. The rest with little to attach itself to.

Y plentyn wedi tyfu yw pob oedolyn ac er mai dim ond lleiafrif o oedolion sy'n tramgwyddo, mae pob tramgwyddwr wedi bod yn blentyn, a llawer ohonynt heb ddysgu'r gwerthoedd iawn, heb ddysgu'r ddealltwriaeth iawn, a heb gael y cymorth iawn ar gyfer eu hanghenion. Ar gyfer y bobl ifanc hynny y mae hyn yn mynd at wraidd y ddeddfwriaeth arfaethedig. Hebddo, bydd twll yng nghanol y ddeddfwriaeth, a'r gweddill heb fawr i gydio ynddo.

Those of us, like myself, who have been out, for example, on Hafan Cymru's Spectrum project, teaching children and young people about healthy relationships, abuse and its consequences and where to seek help, know of the positive impact this can have, and how young men and young women who begin the session thinking it's a bit of a joke and thinking that they are neither the cause nor victim of any form of abuse or discrimination, very quickly begin recognising that some of the things that they do or accept being done to them are not acceptable, and that is what this is about. It's not a big stick forcing people into a classroom and giving them another exam to pass; it's about healthy relationships and awareness.

Mae'r rhai hynny ohonom, fel fi, sydd wedi bod allan, er enghraifft, ar brosiect Sbectrwm Hafan Cymru, yn dysgu plant a phobl ifanc am berthnasoedd iach, cam-drin a'i ganlyniadau a ble i gael cymorth, yn gwybod am yr effaith gadarnhaol y gall hyn ei chael, a bod rhai dynion a merched ifanc sy'n cychwyn y sesiwn yn meddwl ei fod yn dipyn o jôc ac yn meddwl nad ydynt yn achosi nac yn dioddef unrhyw fath o gam-drin neu wahaniaethu, yn gyflym iawn yn dechrau gweld nad yw rhai o'r pethau y maent yn ei wneud neu'n derbyn eu bod yn cael eu gwneud iddynt yn dderbyniol, a dyna beth yw hanfod hyn. Nid ffon fawr mohoni, i orfodi pobl i mewn i'r ystafell ddosbarth a gorfod pasio arholiad arall; mae'n ymwneud â pherthnasoedd iach ac ymwybyddiaeth.

Respondents to the committee said that

Dywedodd ymatebwyr i'r pwyllgor hwnnw mai

'education is the most crucial part of preventing gender-based violence and without the White Paper proposals the Bill cannot achieve its stated aims'.

addysg yw'r rhan fwyaf allweddol o atal trais ar sail rhywedd a heb gynigion y Papur Gwyn ni all y Bil gyflawni ei nodau datganedig.

Of course, the Welsh Government's White Paper initially included proposals to ensure that education on healthy relationships was delivered in schools, and responses to that White Paper welcomed those educational proposals—proposals that were not included then in the Bill. The committee received huge amounts of evidence regarding and expressing concern at the lack of provision for healthy relationships education in the Bill.

Wrth gwrs, roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru i ddechrau yn cynnwys cynigion i sicrhau bod addysg am berthnasoedd iach yn cael ei darparu mewn ysgolion, ac roedd ymatebion i'r Papur Gwyn hwnnw'n croesawu'r cynigion addysgol hynny—cynigion nad oedd wedi eu cynnwys bryd hynny yn y Bil. Derbyniodd y pwyllgor lawer iawn o dystiolaeth ynghylch diffyg darpariaeth addysg am berthnasoedd iach yn y Bil, ac yn mynegi pryder am hynny.

The children's commissioner said he expected the Welsh Government

Dywedodd y comisiynydd plant ei fod yn disgwyl i Lywodraeth Cymru

'to set out provisions in this Bill that provide children and young people with a comprehensive and robust framework for healthy relationships'.

nodi darpariaethau yn y Bil hwn sy'n rhoi i blant a phobl ifanc fframwaith cynhwysfawr a chadarn ar gyfer perthnasau iach.

Barnardo's Cymru told us it was 'disappointed' that a comprehensive programme of education and prevention in education settings and the community was absent from the Bill. NSPCC Cymru believed

Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym ei fod yn 'siomedig' fod rhaglen gynhwysfawr o addysg ac atal mewn lleoliadau addysgol ac yn y gymuned yn absennol o'r Bil. Roedd NSPCC Cymru o'r farn

'it is going to be very difficult to deliver on the strategic and generational aims of this piece of legislation unless that question of education is actually contained within this Bill'.

y bydd yn anodd iawn cyflawni nodau strategol a chenedliadol y darn hwn o ddeddfwriaeth oni chaiff addysg ei chynnwys yn y Bil hwn.

Children in Wales's evidence noted the education proposals from the White Paper should be included.

Roedd tystiolaeth Plant yng Nghymru yn nodi y dylid cynnwys cynigion addysg y Papur Gwyn.

Barnardo's considered that reneging on the healthy relationship education proposal was

Roedd Barnardo's o'r farn bod torri addewid ynglŷn â'r cynnig ar addysg am berthnasoedd iach yn

'a serious backward step for the preventative agenda of the Bill in its entirety'.

gam difrifol yn ôl ar gyfer agenda ataliol y Bil yn ei chyfanrwydd.

The Church in Wales said that personal and social education

Dywedodd yr Eglwys yng Nghymru nad addysg bersonol a chymdeithasol

'is not the only place in which attitudes to relationships, domestic and sexual abuse, potential targets of "hate crime", personal abuse or bullying should be tackled. Unhelpful stereotypes and attitudes can be encountered and should be challenged in all areas of the curriculum'.

yw'r unig le lle dylid ymdrin ag agweddau tuag at berthnasoedd, cam-drin domestig a rhywiol, targedau posibl "troseddau casineb", cam-drin personol neu fwlio. Ceir ystrydebau ac agweddau di-fudd ym mhob rhan o'r cwricwlwm, a dylid eu herio ym mhob rhan o'r cwricwlwm hefyd.

The committee therefore agreed unanimously with the United Nations handbook for legislation on violence against women that one of the most effective entry points to challenge discriminatory attitudes about gender equality and violence against women is the education system.

Roedd y pwyllgor felly'n cytuno'n unfrydol â llawlyfr y Cenhedloedd Unedig ar ddeddfwriaeth ar drais yn erbyn menywod mai un o'r mannau mwyaf effeithiol i herio agweddau gwahaniaethol am gydraddoldeb ar sail rhywedd a thrais yn erbyn menywod yw'r system addysg.

Jocelyn Davies referred to the e-mail that many of us received from young people, and it is hugely impressive that those numbers of young people took the time and effort to send those e-mails to Assembly Members. We must not allow this Assembly to let those young people down. Let us all show our support for what they're seeking to achieve.

Cyfeiriodd Jocelyn Davies at yr e-bost a dderbyniodd llawer ohonom gan bobl ifanc, ac mae'n hynod drawiadol fod y niferoedd hynny o bobl ifanc wedi rhoi eu hamser a'u hymdrechion i anfon y negeseuon e-bost hynny at Aelodau'r Cynulliad. Rhaid inni beidio â chaniatáu i'r Cynulliad hwn wneud cam â'r bobl ifanc hynny. Gadewch inni i gyd ddangos ein cefnogaeth i'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni.

16:52

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wasn't planning on contributing to this debate, so I'd like to thank Peter Black and Janet Finch-Saunders, Mark Isherwood and Jocelyn Davies for outlining the very powerful evidence that they heard in committee, which lies behind this amendment. It seems to me that this group of amendments is absolutely vital if the aims of the Bill are going to be achieved. It can only empower children if they learn about healthy relationships. It seems to me that this is the missing section that should have been in the Bill and wasn't in the Bill until it was tabled.

Nid oeddwn yn bwriadu cyfrannu at y ddadl hon, felly hoffwn ddiolch i Peter Black a Janet Finch-Saunders, Mark Isherwood a Jocelyn Davies am amlinellu'r dystiolaeth bwerus iawn a glywsant yn y pwyllgor, sy'n gefndir i'r gwelliant hwn. Mae'n ymddangos i mi fod y grŵp hwn o welliannau yn gwbl hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bil. Ni all dysgu am berthnasoedd iach ond grymuso plant. Mae'n ymddangos i mi mai dyma'r adran goll a ddylai fod wedi bod yn y Bil ac nad oedd yn y Bil hyd nes iddo gael ei gyflwyno.

The evidence that has been outlined is absolutely incontrovertible as to why we should be supporting this. It is key to give children information. When they have information and education, they have choices and they have the ability to identify when relationships are unhealthy. I do think it's important that the statutory guidance is outlined on the face of the Bill, and I'm particularly impressed that it does include those not in employment, education or training, the NEETs. I think that's incredibly important and, for all those reasons, I'm delighted that the Welsh Conservatives are supporting these amendments. I very much note what Jocelyn Davies says about the whole Bill being put at risk if these amendments aren't accepted.

Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i hamlinellu'n gwbl ddiymwad o ran pam y dylem fod yn cefnogi hyn. Mae'n allweddol rhoi gwybodaeth i blant. Pan fydd ganddynt wybodaeth ac addysg, mae ganddynt ddewisiadau a gallant weld pan fo perthnasoedd yn afiach. Credaf ei bod yn bwysig amlinellu'r canllawiau statudol ar wyneb y Bil, ac rwyf yn arbennig o falch ei fod y cynnwys y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, y NEETs. Credaf fod hynny'n hynod bwysig ac, am yr holl resymau hynny, rwyf wrth fy modd fod y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r gwelliannau hyn. Rwyf yn nodi'n fawr iawn yr hyn y mae Jocelyn Davies yn ei ddweud ynglŷn â pheryglu'r Bil cyfan drwy beidio â derbyn y gwelliannau hyn.

16:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, since we introduced the Bill, we have taken steps to strengthen the Bill in respect of education and, in the course of my remarks, I will explain precisely how we have done that. I have made my views clear on the importance of schools taking a whole-school approach to tackling violence against women, domestic abuse and sexual violence, and educating children and young people about healthy and respectful relationships and gender equality. My colleague the Member for Blaenau Gwent expressed his disappointment that Peter Black should take such a negative overall approach to the Bill if his amendment were to fail. I think this is an important Bill, I think the sector thinks this is an important Bill and I think the sector recognises how we as a Government have strengthened the Bill since we introduced it.

Lywydd, ers inni gyflwyno'r Bil, rydym wedi cymryd camau i gryfhau'r Bil o safbwynt addysg ac, yn ystod fy sylwadau, byddaf yn esbonio sut yn union yr ydym wedi gwneud hynny. Rwyf wedi nodi'n glir fy marn ynglŷn â phwysigrwydd ymagwedd ysgol gyfan mewn ysgolion tuag at fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a dysgu plant a phobl ifanc am berthnasoedd iach llawn parch a chydraddoldeb ar sail rhywedd. Lleisiodd fy nghyd-Aelod yr Aelod dros Flaenau Gwent ei siom fod Peter Black wedi mynegi ymagwedd mor negyddol at ei gilydd tuag at y Bil pe bai ei welliant yn methu. Rwyf yn credu bod hwn yn Fil pwysig, rwyf yn credu bod y sector yn credu bod hwn yn Fil pwysig ac rwyf yn credu bod y sector yn cydnabod y ffordd yr ydym ni fel Llywodraeth wedi cryfhau'r Bil ers inni ei gyflwyno.

As I explained in the detailed written statement that I issued last week, the Government has significantly strengthened the Bill in terms of education since its introduction. I introduced a new section, section 9, at Stage 2. This section provides the Welsh Ministers with the power to make regulations to place a duty on local authorities to report on how they are addressing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence in the exercise of their education functions, including within schools. This will provide the ministerial adviser with a Wales-wide picture of the current practice and the evidence base on which local authorities can be held to account, which will, I think, drive improvements.

Fel yr esboniais yn y datganiad ysgrifenedig manwl a gyhoeddais yr wythnos diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi cryfhau'r Bil yn sylweddol o safbwynt addysg ers ei gyflwyno. Cyflwynais adran newydd, adran 9, yng Nghyfnod 2. Mae'r adran hon yn rhoi i Weinidogion Cymru rym i wneud rheoliadau i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i adrodd ynglŷn â'r ffordd y maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol wrth arfer eu swyddogaethau addysg, gan gynnwys mewn ysgolion. Bydd hyn yn rhoi i'r cynghorydd gweinidogol ddarlun o'r arfer ar hyn o bryd yng Nghymru gyfan a sylfaen dystiolaeth ar gyfer dal awdurdodau lleol i gyfrif, a fydd, yn fy marn i, yn sbarduno gwelliannau.

I've also tabled a further amendment to build on this, which we will discuss as part of group 13 amendments today, and that covers the whole issue, of course, of champions at a local level, which was referred to by Janet Finch-Saunders.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno gwelliant pellach i adeiladu ar hyn, y byddwn yn ei drafod yn rhan o welliannau grŵp 13 heddiw, ac sydd, wrth gwrs, yn cwmpasu holl fater hyrwyddwyr ar lefel leol, y cyfeiriodd Janet Finch-Saunders ato.

Professor Graham Donaldson's review of the curriculum, 'Successful Futures', which was published last week, of course signals an entirely new and radical approach to the curriculum in Wales. The report makes it clear that the piecemeal tinkering with the curriculum that has occurred over the years cannot be sustained. It has led to a crowded curriculum, which has been counter-productive, and a much more strategic and holistic approach must be taken going forward.

Mae adolygiad yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm, 'Dyfodol Llwyddiannus', a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, wrth gwrs yn nodi ymagwedd hollol newydd a radical tuag at y cwricwlwm yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir na ellir dal ati i botsian yn dameidiog â'r cwricwlwm fel sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd. Mae wedi creu cwricwlwm gorlawn, ac mae hynny wedi bod yn wrthgynhyrchiol, ac mae'n rhaid wrth ymagwedd fwy strategol a chyfannol o lawer yn y dyfodol.

At the core of the new approach proposed by Professor Donaldson are six areas of learning and experience, one of which relates to health and wellbeing. This area of learning has equal status to the others and it is here healthy relationships would feature. And, as other colleagues have said, by taking forward the curriculum review, we have gone further than was intended at the outset.

Wrth wraidd yr ymagwedd newydd a gynigir gan yr Athro Donaldson mae chwe maes dysgu a phrofiad, un ohonynt yn ymwneud ag iechyd a lles. Mae statws y maes dysgu hwn yn gyfartal â'r lleill ac yma y byddai perthnasoedd iach yn ymddangos. Ac, fel y mae cydweithwyr eraill wedi'i ddweud, drwy fwrw ymlaen â'r adolygiad o'r cwricwlwm, rydym wedi mynd ymhellach nag a fwriadwyd ar y cychwyn.

The report recognises children and young people need to experience social, emotional and physical wellbeing to thrive and engage successfully with their education. This view is the crux of the rationale of healthy relationship education. Professor Donaldson's report suggests that the health and wellbeing area of learning and experience will help children and young people build the knowledge, understanding and skills that will enable them to develop positive and appropriate relationships, deal with the difficult issues and decisions they will face, and learn to live independently. This aim aligns directly with the principles of healthy relationship education.

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod angen i blant a phobl ifanc brofi lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol er mwyn ffynnu ac ymgysylltu'n llwyddiannus â'u haddysg. Mae'r farn hon yn ganolog i'r sail resymegol dros addysg am berthnasoedd iach. Mae adroddiad yr Athro Donaldson yn awgrymu y bydd maes iechyd a lles dysgu a phrofiad yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a phriodol, i ymdrin â'r materion a'r penderfyniadau anodd y byddant yn eu hwynebu, ac i ddysgu byw'n annibynnol. Mae'r nod hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag egwyddorion addysg am berthnasoedd iach.

The Minister for Education and Skills has announced a great debate on the report's recommendations. It is engagement in implementation of this wholesale new approach to the curriculum that will deliver results in terms of healthy relationship education. Therefore, I reject what has been said by Jocelyn Davies, that the Government has abandoned the approach set out in the White Paper, because, as I outlined in the written statement published last Thursday, the robust package of education measures being progressed to support the Bill, including around safeguarding, training and inspection, are now in addition to the future shape of the curriculum. These are major steps forward.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi dadl fawr ar argymhellion yr adroddiad. Ymgysylltu â gweithredu'r ymagwedd newydd gynhwysfawr hon tuag at y cwricwlwm fydd yn sicrhau canlyniadau o ran addysg am berthnasoedd iach. Felly, rwyf yn gwrthod yr hyn a ddywedodd Jocelyn Davies, fod y Llywodraeth wedi rhoi'r gorau i'r ymagwedd a nodwyd yn y Papur Gwyn, oherwydd, fel yr amlinellais yn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ddydd Iau diwethaf, mae'r pecyn cadarn o fesurau addysg sy'n mynd rhagddo i gefnogi'r Bil, gan gynnwys mesurau ynghylch diogelu, hyfforddi ac arolygu, yn awr yn ychwanegol at ffurf y cwricwlwm yn y dyfodol. Mae'r rhain yn gamau mawr ymlaen.

I intend to publish the whole-school approach good practice guide I have previously signalled ahead of the 2015-16 academic year. This is being taken forward for us by Welsh Women's Aid. It is on this basis, taken alongside the Government amendments that have been agreed and tabled, that I do not consider further provision on the face of the Bill to be necessary.

Rwyf yn bwriadu cyhoeddi'r canllawiau arfer da ar gyfer ymagwedd ysgol gyfan yr wyf wedi sôn amdanynt o'r blaen cyn blwyddyn academaidd 2015-16. Mae Cymorth i Fenywod Cymru'n bwrw ymlaen â hyn inni. Ar y sail hon, ynghyd â gwelliannau'r Llywodraeth y cytunwyd arnynt ac a gyflwynwyd, nid wyf o'r farn bod angen darpariaeth bellach ar wyneb y Bil.

Amendments 5 and 6 provide statutory guidance and regulation-making powers in respect of healthy relationship education and wider whole-school approach principles. In terms of the provision of education about healthy relationships, the amendments could not be effectively implemented without an accompanying change to the curriculum of maintained schools. The amendment does not define 'schools', and therefore would also extend to other types of schools, such as independent schools. For these amendments to be effective, steps would also need to be taken to prescribe detailed curriculum requirements of such schools, which is not currently the case. The other matters specified in the amendment to be addressed in regulations can already be addressed by a combination of legislative and other mechanisms and are therefore unnecessary.

Mae gwelliannau 5 a 6 yn darparu canllawiau statudol a phwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas ag addysg am berthnasoedd iach ac egwyddorion ymagwedd ysgol gyfan ehangach. O ran y ddarpariaeth addysg am berthnasoedd iach, ni fyddai modd gweithredu'r newidiadau'n effeithiol heb newid cwricwlwm ysgolion a gynhelir hefyd. Nid yw'r gwelliant yn diffinio 'ysgolion', a byddai felly'n berthnasol hefyd i fathau eraill o ysgolion, megis ysgolion annibynnol. Er mwyn i'r gwelliannau hyn fod yn effeithiol, byddai angen cymryd camau hefyd i ragnodi gofynion cwricwlwm manwl i ysgolion o'r fath, ac nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Gellir ymdrin eisoes â'r materion eraill y nodir yn y gwelliant y byddent yn cael sylw mewn rheoliadau drwy gyfuniad o ddulliau deddfwriaethol a dulliau eraill ac felly maent yn ddiangen.

In addition, the omission of gender-based violence perpetrated against male adults in amendment 5 also raises possible concerns as to competence on grounds of compatibility with the European Convention on Human Rights, because of the difference in treatment the amendment provides on grounds of sex.

Yn ogystal, mae hepgor trais ar sail rhywedd a gyflawnir yn erbyn oedolion gwrywaidd yng ngwelliant 5 hefyd yn codi pryderon posibl o ran cymhwysedd ar sail cydnawsedd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, oherwydd y gwahaniaeth o ran triniaeth y mae'r gwelliant yn ei ddarparu ar sail rhyw.

Amendment 7 would require the Welsh Ministers to lay a report, possibly produced by Estyn, on progress as regards healthy relationship education no later than five years from the date of Royal Assent. As there is currently no requirement for healthy relationship education, this would only be reporting on existing non-mandatory provision in schools. There is an existing power in sections 20 and 21 of the Education Act 2005 that enables the preparation of such a report. Indeed, a thematic review by Estyn is being supported for inclusion in its annual remit, which is given to Estyn by the Welsh Ministers, during the 2016-17 academic year, by which time the reforms we are taking forward will have had time to bed in. This amendment, therefore, duplicates existing provision.

Byddai gwelliant 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad, wedi'i lunio o bosibl gan Estyn, ar gynnydd o ran addysg am berthnasoedd iach heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol. Gan nad yw addysg am berthnasoedd iach yn ofynnol ar hyn o bryd, dim ond am ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes ac nad yw'n orfodol mewn ysgolion y byddai hyn yn adrodd. Mae grym ar hyn o bryd yn adrannau 20 a 21 o Ddeddf Addysg 2005 sy'n galluogi paratoi adroddiad o'r fath. Yn wir, cefnogir cynnwys adolygiad thematig gan Estyn yn ei gylch gwaith blynyddol, sy'n cael ei roi i Estyn gan Weinidogion Cymru, yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17, ac erbyn hynny bydd y diwygiadau yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy wedi cael amser i ymsefydlu. Mae'r gwelliant hwn, felly, yn dyblygu darpariaeth sy'n bodoli eisoes.

Amendment 11 would place a requirement on Estyn routinely to inspect schools in relation to the provision of education to pupils, advice and assistance to pupils, staff and teacher training, the appointment of pupil and governor champions and the collection of data in relation to healthy relationships. Well, there is already legislation in place to meet this amendment. Estyn inspects and considers the delivery of the curriculum in Wales as part of its usual cycle of inspections. Additionally, as part of its common inspection framework, Estyn considers areas such as wellbeing, including attitudes to keeping healthy and safe, and reaches judgments on the care, support and guidance offered to learners. Her Majesty's Chief Inspector of Education also reports the views of the inspectorate on key areas to Welsh Ministers in the form of their annual report.

Byddai gwelliant 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn fel mater o drefn arolygu ysgolion mewn perthynas â darparu addysg i ddisgyblion, cyngor a chymorth i ddisgyblion, hyfforddi staff ac athrawon, penodi hyrwyddwyr disgyblion a llywodraethwyr a chasglu data ynglŷn â pherthnasoedd iach. Wel, mae deddfwriaeth ar waith i fodloni'r gwelliant hwn eisoes. Mae Estyn yn arolygu ac yn ystyried darpariaeth y cwricwlwm yng Nghymru yn rhan o'i gylch arferol o arolygiadau. Yn ogystal, yn rhan o'i fframwaith arolygu cyffredin, mae Estyn yn ystyried meysydd megis lles, gan gynnwys agweddau tuag at gadw'n iach a diogel, ac mae'n llunio barn am y gofal, y cymorth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr. Mae Prif Arolygydd Addysg Ei Mawrhydi hefyd yn lleisio barn yr arolygiaeth am feysydd allweddol wrth Weinidogion Cymru yn ei hadroddiad blynyddol.

Additionally, Welsh Ministers can request specific reviews to be undertaken as part of an annual remit given to Estyn. In any event, such a move would be inappropriate ahead of full consideration of the recommendations coming from the curriculum review.

Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru ofyn am gynnal adolygiadau penodol yn rhan o'r cylch gwaith blynyddol a roddir i Estyn. Beth bynnag, byddai symudiad o'r fath yn amhriodol cyn rhoi ystyriaeth lawn i'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o'r cwricwlwm.

Amendment 58 would require the Welsh Ministers to make regulations to ensure the training of teachers in respect of education about healthy relationships. In fact, education staff are already listed as a priority profession under the national training framework, which we consulted on at the end of last year, and they will therefore be provided with training. Implementation of the framework is already underway, and statutory guidance will be issued under section 14 of the Bill. A draft of this, in fact, was published when the Bill was introduced. On this basis, amendment 58 is unnecessary.

Byddai gwelliant 58 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod athrawon yn cael hyfforddiant o ran dysgu am berthnasoedd iach. Yn wir, mae staff addysg eisoes yn cael eu rhestru fel proffesiwn blaenoriaeth o dan y fframwaith hyfforddiant cenedlaethol, yr ymgynghorasom arno ddiwedd y llynedd, a byddant felly yn cael hyfforddiant. Mae'r fframwaith eisoes yn cael ei roi ar waith, a bydd canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi dan adran 14 y Bil. Cafodd drafft o hyn ei gyhoeddi, a dweud y gwir, pan gafodd y Bil ei gyflwyno. Ar y sail hon, mae gwelliant 58 yn ddiangen.

So, I do urge all Members to read the detailed written statement that I issued last Thursday, outlining the comprehensive range of education measures we intend to adopt in support of this Bill, in respect of the curriculum, safeguarding guidance, training and professional development, and inspection. That statement has been generally welcomed by organisations within the sector. I think it is irresponsible of people to talk about voting down this Bill on the basis of an amendment's not being passed in this section and I hope Members will reject what has been said by Peter Black in that regard. I think everyone will recognise—[Interruption.]

Felly, rwyf yn annog pob Aelod i ddarllen y datganiad ysgrifenedig manwl a gyhoeddais ddydd Iau diwethaf, yn amlinellu ystod gynhwysfawr o fesurau addysg yr ydym yn bwriadu eu mabwysiadu i gefnogi'r Bil hwn, o ran y cwricwlwm, canllawiau diogelu, hyfforddiant a datblygu proffesiynol, ac arolygu. Mae'r datganiad hwnnw wedi cael croeso cyffredinol gan sefydliadau yn y sector. Credaf ei bod yn anghyfrifol sôn am wrthod y Bil hwn ar sail peidio â derbyn gwelliant yn yr adran hon ac rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n gwrthod yr hyn a ddywedwyd gan Peter Black yn hynny o beth. Rwyf yn credu y bydd pawb yn cydnabod—[Torri ar draws.]

17:02

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. Carry on, Minister.

Trefn, trefn. Ewch yn eich blaen, Weinidog.

17:02

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think everyone will recognise how far the Government has moved on these issues during the passage of the Bill.

Rwyf yn credu y bydd pawb yn cydnabod pa mor bell y mae'r Llywodraeth wedi symud ar y materion hyn yn ystod taith y Bil.

17:03

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply to the debate.

Peter Black i ymateb i'r ddadl.

17:03

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Clearly, the Minister's consensual approach has deserted him. But I do think that, on this particular issue, I read very carefully the statement that the Minister issued on this issue and I've also looked at the Donaldson review. The fact is that the Donaldson review is 10 years away and the fact is that this Bill is here now. What needs to happen now can be put into place, in large part, with the amendments that we have in front of us.

Diolch ichi, Lywydd. Yn amlwg, mae'r Gweinidog wedi rhoi'r gorau i'w ymagwedd gydsyniol. Ond rwyf yn meddwl, ar y mater penodol hwn, fy mod wedi darllen y datganiad a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ar y mater hwn yn ofalus iawn ac rwyf hefyd wedi edrych ar adolygiad Donaldson. Y gwir amdani yw bod adolygiad Donaldson 10 mlynedd i ffwrdd a'r gwir yw bod y Bil hwn yma yn awr. Gellir rhoi'r hyn y mae angen iddo ddigwydd yn awr ar waith, i raddau helaeth, gyda'r gwelliannau sydd gennym o'n blaenau.

It does seem to me, Presiding Officer, that, without this particular section, the Bill, effectively, also could be enacted through Executive action and without legislation, and I find it difficult to understand the value of the Bill if we don't start taking a whole-school approach to this particular agenda.

Mae'n ymddangos i mi, Lywydd, heb yr adran benodol hon, y gallai'r Bil, i bob pwrpas, hefyd gael ei ddeddfu drwy gamau Gweithredol a heb ddeddfwriaeth, ac rwyf yn ei chael yn anodd deall gwerth y Bil os nad ydym yn dechrau arfer ymagwedd ysgol gyfan tuag at yr agenda benodol hon.

Now, yes, Alun Davies is right; progress has been made. Amendments have come forward that have improved the Bill. But I don't believe that enough progress has been made, nor do I believe that the Bill has been changed sufficiently to make it something that cannot already be put in place through that Executive action that I have referred to.

Yn awr, ydy, mae Alun Davies yn iawn; mae cynnydd wedi'i wneud. Mae gwelliannau wedi eu cyflwyno sydd wedi gwella'r Bil. Ond nid wyf yn credu bod digon o gynnydd wedi ei wneud, ac nid wyf yn credu bod y Bil wedi ei newid yn ddigonol i'w wneud yn rhywbeth na ellir eisoes ei roi ar waith drwy'r camau Gweithredol yr wyf wedi cyfeirio ato.

The education Minister's statement did deal with the curriculum, but not the process, and the process is very important here: how do we drive this forward? How do we make sure that every school delivers on this particular agenda? The only way—the tried and tested way—is to make sure those schools have champions in place at the governing body level, and at staff level, who deliver training and who deliver a programme that the school is able to follow.

Roedd datganiad y Gweinidog addysg yn ymdrin â'r cwricwlwm, ond nid y broses, ac mae'r broses yn bwysig iawn yma: sut mae gyrru hynny yn ei flaen? Sut mae sicrhau bod pob ysgol yn cyflawni'r agenda benodol hon? Yr unig ffordd—y ffordd sydd wedi'i phrofi—yw sicrhau bod gan yr ysgolion hynny hyrwyddwyr ar waith ar lefel y corff llywodraethu, ac ar lefel y staff, sy'n cyflwyno hyfforddiant ac sy'n cyflwyno rhaglen y mae'r ysgol yn gallu ei dilyn.

Jocelyn Davies had it absolutely right when she referred to the agenda here that we are talking about, which has to be inculcated in our schools—respect, tolerance, healthy relationships—changing the culture of our schools. That is what this Bill should be about. As it is currently drafted, it is not about that. It is important that schools take a whole-school approach. So, if that's the case, why do you not support our amendment, which would drive that forward?

Roedd Jocelyn Davies yn llygad ei lle pan gyfeiriodd at yr agenda hon yr ydym yn sôn amdani, y mae'n rhaid ei chyflwyno yn ein hysgolion—parch, goddefgarwch, perthnasoedd iach—newid diwylliant ein hysgolion. Dyna'r hyn a ddylai fod wrth wraidd y Bil hwn. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw'n ymwneud â hynny. Mae'n bwysig bod ysgolion yn arfer ymagwedd ysgol gyfan. Felly, os yw hynny'n wir, pam nad ydych yn cefnogi ein gwelliant, a fyddai'n sbarduno hynny?

Section 9 has been referred to in terms of the duty on the local authority to report, but schools are, of course, self-managing, and need people within them to champion this. This is about the local authority reporting, not about the school reporting. That means champions need to be embedded within the school. The further amendment that the Minister refers to just deals with local authority champions, not champions in schools.

Cyfeiriwyd at adran 9 o ran y ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i adrodd, ond mae ysgolion, wrth gwrs, yn eu rheoli eu hunain, ac mae angen pobl ynddynt i hyrwyddo hyn. Mae hyn yn ymwneud ag adrodd gan yr awdurdod lleol, nid adrodd gan yr ysgol. Mae hynny'n golygu bod angen ymgorffori pencampwyr yn yr ysgolion. Mae'r gwelliant pellach y mae'r Gweinidog yn cyfeirio ato yn ymdrin â hyrwyddwyr awdurdodau lleol, nid hyrwyddwyr mewn ysgolion.

I believe that this amendment is absolutely crucial to this Bill being successful, and I cannot support a Bill that does not have this or something like it in it. Now, I accept the Minister may not be happy with some of the wording in the Bill, and the Minister made some points that could be addressed and discussed. If the Minister is not happy with this amendment, then I think he needs to give an undertaking that he will bring forward his own amendment to deliver the intent that is behind what I am moving today. If the Minister is not able to do that and that amendment does not come forward, I will not support this Bill. Thank you, Presiding Officer.

Credaf fod y gwelliant hwn yn gwbl hanfodol i lwyddiant y Bil hwn, ac ni allaf gefnogi Bil heb hyn neu rywbeth tebyg iddo ynddo. Yn awr, rwyf yn derbyn efallai na fydd y Gweinidog yn hapus â rhywfaint o eiriad y Bil, a gwnaeth y Gweinidog rai pwyntiau y gellid ymdrin â hwy a'u trafod. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon â'r gwelliant hwn, credaf fod angen iddo roi ymrwymiad y bydd yn cyflwyno ei welliant ei hun i gyflawni'r bwriad sydd y tu ôl i'r hyn yr wyf yn ei gynnig heddiw. Os nad yw'r Gweinidog yn gallu gwneud hynny ac os nad yw'r gwelliant hwnnw'n dod gerbron, ni fyddaf yn cefnogi'r Bil hwn. Diolch ichi, Lywydd.

17:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 5 is not agreed to, amendment 11 falls. So, the question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] Object. We move to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I use my casting vote against, and the amendment falls.

Os na dderbynnir gwelliant 5, mae gwelliant 11 yn methu. Felly, y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwn at bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid 26, dim ymatal, 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn, ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5

Result of the vote on amendment 5

*Methodd gwelliant 11.*

*Amendment 11 fell.*

17:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 6.

Peter Black, gwelliant 6.

*Cynigiwyd gwelliant 6 (Peter Black).*

*Amendment 6 (Peter Black) moved.*

17:06

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Cynigiaf.

17:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 6 be agreed to. Any objections? [Objection.] Object. Move to a vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I use my casting vote against, and the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symud at bleidlais. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid 26, dim ymatal, 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn, ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6.

Result of the vote on amendment 6.

17:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 7.

Peter Black, gwelliant 7.

*Cynigiwyd gwelliant 7 (Peter Black).*

*Amendment 7 (Peter Black) moved.*

17:07 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 7 be agreed to. Any objections? [Objection.] Object. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I use my casting vote against, and the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid 26, dim ymatal, 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn, ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7.

Result of the vote on amendment 7.

17:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 58.

Jocelyn Davies, gwelliant 58.

*Cynigiwyd gwelliant 58 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 58 (Jocelyn Davies) moved.*

17:07 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Cynigiaf.

17:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Moved. The question is that amendment 58 be agreed to. Any objections? [Objection.] Objections. Open the vote. [Interruption.] Sorry, have I said the wrong thing? I'm not going to close it. What was the—? Is there a query? Has everyone who wishes to vote voted? Are you sure? Right, you've all voted now. Thank you very much. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. I use my casting vote against; therefore, the amendment falls.

Wedi'i gynnig. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 58. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Agor y bleidlais. [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, a ydw i wedi dweud y peth anghywir? Nid wyf am ei chau. Beth oedd y—? A oes ymholiad? A yw pawb sy'n dymuno pleidleisio wedi pleidleisio? A ydych yn siŵr? Iawn, rydych i gyd wedi pleidleisio erbyn hyn. Diolch yn fawr iawn. Cau'r bleidlais. O blaid 26, dim ymatal, 26 yn erbyn. Rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn; felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 58.

Result of the vote on amendment 58.

## Grŵp 10: Dyletswyddau Cyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gwelliant 59)

## Group 10: Duties of Governing Bodies of Maintained Schools (Amendment 59)

17:08

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 10, which relates to duties of governing bodies of maintained schools. The only amendment in this group is amendment 59, and I call on Jocelyn Davies to move and speak to amendment 59 in her name.

Symudwn yn awr at grŵp 10, sy'n ymwneud â dyletswyddau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 59, a galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 59 yn ei henw ac i siarad amdano.

*Cynigiwyd gwelliant 59 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 59 (Jocelyn Davies) moved.*

17:08

### Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. The Government's failure to include healthy relationship education provisions within the Bill is an enormous disappointment, not only for those Members who supported the previous amendments, but also for the many external organisations that have campaigned for this change and the young people who have spoken out so strongly in favour of it. Now, I tabled amendment 59 as a back-up, should the Government reject the other, more wide-reaching amendments, so if we can't see all the changes that would put in place a whole-school approach to healthy relationship education, perhaps we can at least see governors taking a leadership role in driving forward cultural change in our schools. I hope that the Minister can see the value in my amendment.

Diolch ichi, Lywydd. Mae methiant y Llywodraeth i gynnwys darpariaethau addysg am berthnasoedd iach yn y Bil yn siom aruthrol, nid yn unig i'r Aelodau hynny a gefnogodd y gwelliannau blaenorol, ond hefyd i'r nifer o sefydliadau allanol sydd wedi ymgyrchu dros y newid hwn a'r bobl ifanc sydd wedi siarad yn gryf o'i blaid. Yn awr, cyflwynais welliant 59 fel gwelliant wrth gefn, pe byddai'r Llywodraeth yn gwrthod y gwelliannau eraill, mwy pellgyrhaeddol, felly os na allwn weld yr holl newidiadau a fyddai'n sefydlu ymagwedd ysgol gyfan tuag at addysg am berthnasoedd iach, efallai y gallwn o leiaf weld llywodraethwyr yn arwain er mwyn sbarduno newid diwylliant yn ein hysgolion. Rwyf yn gobeithio y gall y Gweinidog weld gwerth fy ngwelliant.

17:09

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I have just outlined in detail in relation to the previous group of amendments, I am in full agreement on the importance of education in ensuring lasting attitudinal and behavioural change in respect of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. However, as I've also set out, we are undertaking a substantial programme of work in relation to education, both within and, significantly, outside of the Bill to address this. As I've said, we've substantially strengthened the Bill in terms of education since its introduction. We introduced a new section at Stage 2 and a further amendment to section 14 is tabled for discussion today.

Fel yr wyf newydd ei amlinellu'n fanwl mewn perthynas â'r grŵp blaenorol o welliannau, rwyf yn cytuno'n llwyr fod addysg yn bwysig er mwyn sicrhau newid agwedd ac ymddygiad parhaol o safbwynt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, fel yr wyf hefyd wedi'i nodi, rydym yn cynnal rhaglen sylweddol o waith ynglŷn ag addysg, o fewn y Bil, ac, yn arwyddocaol, y tu allan i'r Bil, i ymdrin â hyn. Fel yr wyf wedi'i ddweud, rydym wedi cryfhau'r Bil yn sylweddol o ran addysg ers ei gyflwyno. Cyflwynasom adran newydd yng Nghyfnod 2 ac mae gwelliant pellach i adran 14 wedi'i gyflwyno i'w drafod heddiw.

Jocelyn Davies's amendment 59 would place a duty on governing bodies of maintained schools to take reasonable steps to contribute to the pursuit of the purpose of the Act. I believe that this is unnecessary given the work already under way. The new section 9, which was agreed at Stage 2, will result in local authorities reporting on how they are addressing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence within their education functions, including within schools. I expect these reports to cover the contribution governing bodies are making, and local authorities will be held to account on this.

Byddai gwelliant 59 Jocelyn Davies yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gymryd camau rhesymol i gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf. Credaf fod hyn yn ddiangen o ystyried y gwaith sydd eisoes ar y gweill. Bydd yr adran 9 newydd, y cytunwyd arni yng Nghyfnod 2, yn golygu bod awdurdodau lleol yn adrodd ynghylch y ffordd y maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu swyddogaethau addysg, gan gynnwys mewn ysgolion. Rwyf yn disgwyl i'r adroddiadau hyn ymdrin â'r cyfraniad y mae'r cyrff llywodraethu'n ei wneud, a bydd awdurdodau lleol yn cael eu dwyn i gyfrif am hyn.

As I've said, I've also now tabled a further amendment to section 14, which will be discussed later in group 13. If agreed, under this section, we will issue statutory guidance to ensure local authorities designate a member of staff for the purpose of championing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence matters in schools and other settings. I also envisage the guidance setting out how this role will link to governors with existing championing responsibilities.

Fel yr wyf wedi'i ddweud, rwyf hefyd yn awr wedi cyflwyno gwelliant pellach i adran 14, a fydd yn cael ei drafod yn nes ymlaen yn grŵp 13. Os caiff ei dderbyn, o dan yr adran hon, byddwn yn cyhoeddi canllawiau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn dynodi aelod o staff er mwyn hyrwyddo materion yn ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ysgolion a lleoliadau eraill. Rwyf hefyd yn rhagweld y bydd y canllawiau'n nodi sut y bydd y rôl hon yn berthnasol i lywodraethwyr sydd â chyfrifoldebau hyrwyddo ar hyn o bryd.

Further, the wider education measures being taken forward outside the Bill will also impact on the role of governors. For example, relevant governors will be trained under the national training framework on gender-based violence, domestic abuse and sexual violence, and their responsibilities in the context of safeguarding, of course, are set out in detail in the Department for Education and Skills's statutory guidance, 'Keeping Learners Safe', which my colleague the Minister for Education and Skills published in January. Given this, I do not consider amendment 59 to be necessary and I urge Members to resist it.

Hefyd, mae'r mesurau addysg ehangach sy'n mynd rhagddynt y tu allan i'r Bil hefyd yn effeithio ar swyddogaeth llywodraethwyr. Er enghraifft, bydd llywodraethwyr perthnasol yn cael eu hyfforddi o dan y fframwaith hyfforddi cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac mae eu cyfrifoldebau yng nghyd-destun diogelu, wrth gwrs, wedi eu nodi'n fanwl yng nghanllawiau statudol yr Adran Addysg a Sgiliau, 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel', a gyhoeddwyd gan fy nghydweithiwr y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Ionawr. O'r herwydd, nid wyf o'r farn bod gwelliant 59 yn angenrheidiol ac rwyf yn annog yr Aelodau i'w wrthod.

17:11

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies to reply to the debate.

Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

17:11

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Well, I've been trying to help the Government improve this Bill, because when it passes, of course, it stops being a Government Bill and, in fact, becomes this National Assembly's Act, so it's no longer the possession of the Government or the Government lawyers. So, it will have all our names on it and we must make it the best that we can. That is our job and we get paid very well for doing that job. Now, the sector also understands that we are trying to improve the Bill and I don't really understand why there's such a huge gap between the White Paper and the Bill. That's not our fault. I would strongly advise the Government to stop putting things in their White Paper that they're not prepared, then, to follow through in the legislation that they produce on the back of it, especially those parts of their White Paper that are universally welcomed and celebrated. So, don't forget that our amendments are delivering your intentions.

Diolch ichi, Lywydd. Wel, rwyf wedi bod yn ceisio helpu'r Llywodraeth i wella'r Bil hwn, oherwydd pan fydd yn pasio, wrth gwrs, mae'n peidio â bod yn Fil Llywodraeth ac, a dweud y gwir, yn dod yn Ddeddf y Cynulliad Cenedlaethol hwn, felly nid yw bellach ym meddiant y Llywodraeth neu gyfreithwyr y Llywodraeth. Felly, bydd ein henwau ni arni ac mae'n rhaid inni sicrhau ei bod cystal ag y gall fod. Dyna yw ein gwaith ac rydym yn cael ein talu yn dda iawn am wneud y gwaith hwnnw. Yn awr, mae'r sector hefyd yn deall ein bod yn ceisio gwella'r Bil ac a dweud y gwir nid wyf yn deall pam y mae bwlch mor fawr rhwng y Papur Gwyn a'r Bil. Nid ein bai ni yw hynny. Byddwn yn cynghori'r Llywodraeth yn gryf i beidio â rhoi pethau yn eu Papur Gwyn nad ydynt wedyn yn barod i fwrw ymlaen â hwy yn y ddeddfwriaeth y maent yn ei chynhyrchu yn ei sgil, yn enwedig y rhannau hynny o'u Papur Gwyn sy'n cael eu croesawu a'u dathlu ym mhob man. Felly, peidiwch ag anghofio bod ein gwelliannau ni yn cyflawni eich bwriadau chi.

The Minister keeps saying that 'it is not necessary on the face of the Bill'. That argument goes for the rest of the Bill. There's not much there that is necessary on the face of a Bill, but the Minister's resistance is not logical if you want us to support it. It is necessary for the support of the Assembly Members to pass your Bill. You have not been listening.

Mae'r Gweinidog yn dal i ddweud 'nid yw'n angenrheidiol ar wyneb y Bil'. Mae'r ddadl honno'n berthnasol i weddill y Bil. Nid oes llawer sy'n angenrheidiol ar wyneb Bil, ond nid yw gwrthwynebiad y Gweinidog yn rhesymegol os ydych am inni ei gefnogi. Mae'n angenrheidiol o ran cefnogaeth Aelodau'r Cynulliad i basio eich Bil. Nid ydych wedi bod yn gwrando.

17:13

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

17:13

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, sure.

Gwnaf, yn sicr.

17:13 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would the Member agree with me that there is a further illogicality in that the Government has brought forward its own amendments relating to the duties of governors of higher education institutions—amendment 24—and is not prepared to do it with school governors, whom are directly in the control of the Government?

A yw'r Aelod yn cytuno â mi fod elfen afresymegol arall yn y ffaith fod y Llywodraeth wedi cyflwyno ei gwelliannau ei hun o ran dyletswyddau llywodraethwyr sefydliadau addysg uwch—gwelliant 24—ac nad yw'n barod i wneud hynny gyda llywodraethwyr ysgolion, sydd yn uniongyrchol dan reolaeth y Llywodraeth?

17:13 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, sometimes, that the first option is to look for reasons to turn down rather than reasons to accept, but you can get a long way by including people. As I say, that's our job. I don't think that you've been listening, so you mustn't blame us for your failing to listen and you now know what the consequences will be.

Rwyf yn meddwl, weithiau, mai'r dewis cyntaf yw chwilio am resymau i wrthod yn hytrach na rhesymau i dderbyn, ond gallwch fynd yn bell drwy gynnwys pobl. Fel y dywedais, dyna ein gwaith. Nid wyf yn credu eich bod wedi bod yn gwrando, felly rhaid ichi beidio â gweld bai arnom ni am i chi fethu â gwrando ac rydych yn awr yn gwybod beth fydd y canlyniadau.

17:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 59 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] Objection. So, we'll move straight to a vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I use my casting vote and the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 59. A oes unrhyw Aelod yn
gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Felly, symudwn yn syth at bleidlais. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid 26, dim ymatal, 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 59.

Result of the vote on amendment 59.

17:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 24.

Weinidog, gwelliant 24.

*Cynigiwyd gwelliant 24 (Leighton Andrews).*

*Amendment 24 (Leighton Andrews) moved.*

17:14 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Cynigiaf.

17:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move. Now, if amendment 24 is not agreed to, amendment 53 falls. The question is that amendment 24 be agreed. Does anyone object? [Interruption.] Sorry, was that an objection? No. Therefore, amendment 24 is agreed.

Cynnig. Yn awr, os na dderbynnir gwelliant 24, mae gwelliant 53 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 24. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, ai gwrthwynebiad oedd hwnnw? Na. Felly, mae gwelliant 24 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 24 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 24 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 11: Dangosyddion Cenedlaethol (Gwelliannau 8, 9 a 10)

### Group 11: National Indicators (Amendments 8, 9 and 10)

17:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to group 11, which relates to national indicators. The lead amendment in this group is amendment 8. I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and others in the group. Peter Black.

Symudwn yn awr at grŵp 11, sy'n ymwneud â dangosyddion cenedlaethol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 8. Galwaf ar Peter Black i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt. Peter Black.

*Cynigiwyd gwelliant 8 (Peter Black).*

*Amendment 8 (Peter Black) moved.*

17:15 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. Can I associate myself with Jocelyn Davies's remarks? We are all trying to improve this Bill. I hope that these amendments in group 11 will also help to improve the Bill, in the sense of actually giving the Assembly itself more ownership over some of the regulations that come about as a result of it. These are amendments that fit in with recommendations from the Constitutional and Legislative Affairs Committee, that the affirmative procedure should be applied to the making of national indicators under section 10 of the Bill. It also seeks to remove two subsections to give Welsh Ministers the ability to review and revise national indicators at any time before publishing the revised indicators and laying them before the National Assembly, and it also applies the affirmative procedure to those national indicators. I think that it is important that, when you have a Bill of this importance, the national indicators that come about are the property of the Assembly, not just of the Government. For that reason, I hope that the Minister would be able to accept that this basic democratisation of part of his Bill is acceptable.

Diolch ichi, Lywydd. A gaf fi gytuno â sylwadau Jocelyn Davies? Rydym i gyd yn ceisio gwella'r Bil hwn. Rwyf yn gobeithio y bydd y gwelliannau hyn yng ngrŵp 11 hefyd yn helpu i wella'r Bil, drwy roi mwy o berchnogaeth wirioneddol i'r Cynulliad ei hun dros rai o'r rheoliadau sy'n deillio o hyn. Mae'r rhain yn newidiadau sy'n cyd-fynd ag argymhellion gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y dylai'r weithdrefn gadarnhaol gael ei chymhwyso i wneud dangosyddion cenedlaethol o dan adran 10 o'r Bil. Mae hefyd yn ceisio cael gwared ar ddwy isadran er mwyn i Weinidogion Cymru allu adolygu a diwygio'r dangosyddion cenedlaethol ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi'r dangosyddion diwygiedig a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae hefyd yn berthnasol i'r weithdrefn gadarnhaol o ran y dangosyddion cenedlaethol hynny. Credaf ei bod yn bwysig, pan fydd gennych Fil mor bwysig â hwn, fod y dangosyddion cenedlaethol yn eiddo i'r Cynulliad, nid dim ond i'r Llywodraeth. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu derbyn bod y democrateiddio sylfaenol hwn ar ran o'i Fil yn dderbyniol.

17:16 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think it's important to say at this point the extent to which the Government has listened throughout the passage of these proceedings. We have changed the title of the Bill. We have added a new section in respect of violence against women and girls. We added a new section on education. We added further amendments in respect of commissioning. We're proposing to add a new duty that will ensure that there will be championing at a local level. We've added new sections on further and higher education within the Bill. So, I think we've moved a very long way during the passage of this Bill, since its introduction. We have listened to Members in this Chamber. We've worked with the committee on its report, and we've worked with the sector as well to make a very significant number of improvements to this legislation.

Credaf ei bod yn bwysig dweud yma i ba raddau y mae'r Llywodraeth wedi gwrando drwy gydol hynt y trafodion hyn. Rydym wedi newid teitl y Bil. Rydym wedi ychwanegu adran newydd mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched. Rydym wedi ychwanegu adran newydd ar addysg. Rydym wedi ychwanegu rhagor o welliannau mewn perthynas â chomisiynu. Rydym yn bwriadu ychwanegu dyletswydd newydd a fydd yn sicrhau y bydd hyrwyddo'n digwydd ar lefel leol. Rydym wedi ychwanegu adrannau newydd ar addysg bellach ac addysg uwch yn y Bil. Felly, credaf ein bod wedi symud yn bell iawn yn ystod hynt y Bil hwn, ers ei gyflwyno. Rydym wedi gwrando ar Aelodau yn y Siambr hon. Rydym wedi gweithio gyda'r pwyllgor ar ei adroddiad, ac rydym wedi gweithio gyda'r sector hefyd i wneud nifer sylweddol iawn o welliannau i'r ddeddfwriaeth hon.

In respect of the specific amendments that are being proposed here by Peter Black, we had these discussions at Stage 2. I still take the view that these amendments are unnecessary. National indicators may change regularly to reflect relevant priorities at any given time. The approach outlined in the Bill will provide the necessary flexibility, and will allow us to revise national indicators where there is a changed evidence base. It will also be important, of course, that we engage with a wide range of stakeholders to determine which indicators are most important to them.

O ran y gwelliannau penodol sy'n cael eu cynnig yma gan Peter Black, cawsom y trafodaethau hyn yng Nghyfnod 2. Rwyf yn dal i fod o'r farn bod y gwelliannau hyn yn ddiangen. Gall dangosyddion cenedlaethol newid yn gyson i adlewyrchu blaenoriaethau perthnasol ar unrhyw adeg. Bydd yr ymagwedd a amlinellir yn y Bil yn cynnig yr hyblygrwydd angenrheidiol, a bydd yn ein galluogi i adolygu dangosyddion cenedlaethol lle y mae'r sylfaen dystiolaeth wedi newid. Bydd hefyd yn bwysig, wrth gwrs, ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn penderfynu pa ddangosyddion sydd bwysicaf iddynt.

Publication of the national indicators by the Welsh Ministers enables the legislation to work effectively and the indicators to be issued in a timely and flexible manner, ensuring the indicators remain both relevant and up to date. Establishing a formal procedure would remove the flexibility established in section 10, and require amending regulations each time the indicators change. The Bill does, however, require the Welsh Ministers to lay a copy of the indicators, and any revisions, before the Assembly. The approach to the publication of indicators in this Bill is consistent with that set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. To enable an integrated approach to the publication of indicators, the publication requirements in this Bill must be consistent with the approach in that Bill. I therefore urge Members to resist these amendments.

Mae cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol gan Weinidogion Cymru yn galluogi'r ddeddfwriaeth i weithio'n effeithiol ac i'r dangosyddion gael eu cyhoeddi mewn modd amserol a hyblyg, gan sicrhau bod y dangosyddion yn dal i fod yn berthnasol ac yn gyfoes. Byddai sefydlu gweithdrefn ffurfiol yn cael gwared ar yr hyblygrwydd a sefydlwyd yn adran 10, ac yn golygu bod yn rhaid diwygio rheoliadau bob tro y mae'r dangosyddion yn newid. Mae'r Bil, fodd bynnag, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o'r dangosyddion, ac unrhyw welliannau, gerbron y Cynulliad. Mae'r dull o gyhoeddi dangosyddion yn y Bil hwn yn cyd-fynd â'r hyn a nodir ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Er mwyn hwyluso ymagwedd integredig tuag at gyhoeddi dangosyddion, mae'n rhaid i'r gofynion cyhoeddi yn y Bil hwn fod yn gyson â'r ymagwedd yn y Bil hwnnw. Rwyf felly'n annog yr Aelodau i wrthod y gwelliannau hyn.

17:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply to the debate.

Peter Black i ymateb i'r ddadl.

17:18

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'm sorry if the Minister is feeling hard done by. I'm also sorry that he's resenting the fact that we are seeking to amend his Bill. It is, of course, our prerogative to bring those amendments forward, and I hope that the Minister accepts that we do so in the spirit of trying to improve the Bill and make it a better Bill. Of course, the amendments that we are bringing forward are very much in line not just with the committee report but his own Government's White Paper, which of course has long since been abandoned, it seems, in terms of how it is going to be legislated upon. I would hope that the Minister could see that these are minor improvements in terms of the Bill, in terms of democratising it and giving ownership of these national indicators to the Assembly itself. I understand he may want some flexibility as a result of that, but I do think that, in terms of the Bill as a whole, there isn't actually a great deal further the Minister needs to go for it to be acceptable to us. If you were able to incorporate the whole-school approach in the Bill, I am sure we can work together to make sure that we have a Bill that is fit for purpose, delivering the agenda that the Government originally set out in the White Paper.

Diolch ichi, Lywydd. Mae'n ddrwg gennyf os yw'r Gweinidog yn teimlo ei fod yn cael cam. Mae'n ddrwg gennyf hefyd ei fod yn gresynu ein bod yn ceisio newid ei Fil. Mae gennym hawl, wrth gwrs, i gyflwyno'r gwelliannau hynny, ac rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn ein bod yn gwneud hynny er mwyn ceisio gwella'r Bil a'i wneud yn Fil gwell. Wrth gwrs, mae'r gwelliannau yr ydym yn eu cyflwyno'n cyd-fynd nid yn unig ag adroddiad y pwyllgor ond â Phapur Gwyn ei Lywodraeth ei hun, sydd wrth gwrs wedi ei hen anghofio, mae'n debyg, o ran sut y caiff ei ddeddfu. Byddwn yn gobeithio y gallai'r Gweinidog weld mai mân welliannau yw'r rhain o safbwynt y Bil, o safbwynt ei ddemocrateiddio a rhoi perchnogaeth dros y dangosyddion cenedlaethol hyn i'r Cynulliad ei hun. Rwyf yn deall efallai ei fod am gael rhywfaint o hyblygrwydd o ganlyniad i hynny, ond rwyf yn credu, o safbwynt y Bil yn ei gyfanrwydd, nad oes angen mewn gwirionedd i'r Gweinidog fynd lawer ymhellach er mwyn iddo fod yn dderbyniol inni. Pe byddech yn gallu ymgorffori'r ymagwedd ysgol gyfan yn y Bil, rwyf yn sicr y gallwn weithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod gennym Fil sy'n addas at y diben ac sy'n cyflawni'r agenda a bennwyd gan y Llywodraeth yn wreiddiol yn y Papur Gwyn.

17:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 8 is not agreed, amendment 10 will fall. So, the question that amendment 8 be agreed. Does anyone object? [Objection.] Object. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. I cast my casting vote against, and therefore the amendment falls.

Os na dderbynnir gwelliant 8, bydd gwelliant 10 yn methu. Felly, y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes
gwrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid 26, dim ymatal, 26 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais fwrw yn erbyn, ac felly mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8.

Result of the vote on amendment 8.

*Methodd gwelliant 10.*

*Amendment 10 fell.*

17:20

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 9.

Peter Black, gwelliant 9.

*Cynigiwyd gwelliant 9 (Peter Black).*

*Amendment 9 (Peter Black) moved.*

17:20

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:20

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed. Does any Member object? [Objection.] Object. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I cast my vote against and the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid 26, dim ymatal, 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9.

Result of the vote on amendment 9.

### Grŵp 12: Adroddiadau Cynnydd Blynyddol (Gwelliannau 12 a 68)

### Group 12: Annual Progress Reports (Amendments 12 and 68)

17:20

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 12, which relates to annual progress reports. The lead amendment in this group is amendment 12. I call on Peter Black to move, and speak to, the lead amendment and other amendments in the group. Peter Black.

Symudwn yn awr at grŵp 12, sy'n ymwneud ag adroddiadau cynnydd blynyddol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 12. Galwaf ar Peter Black i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp, ac i siarad amdanynt. Peter Black.

*Cynigiwyd gwelliant 12 (Peter Black).*

*Amendment 12 (Peter Black) moved.*

17:20

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. This amendment, again, is seeking to improve the Bill. I think that it is important, when we talk about the process of reporting, and the process of delivering this agenda, that appropriate resources are put towards delivering it, and all my amendment 12 requires is that, when the report comes back, it includes details of the resources that have been made available to achieve the purpose of this Act. I would say, however, that amendment 68, put forward by Janet Finch-Saunders, is a far more comprehensive amendment than my own, and therefore I am happy to allow her amendment to proceed instead of mine.

Diolch ichi, Lywydd. Mae'r gwelliant hwn, unwaith eto, yn ceisio gwella'r Bil. Credaf ei bod yn bwysig, wrth sôn am y broses adrodd, a'r broses o gyflawni'r agenda hon, fod adnoddau priodol yn cael eu rhoi tuag at gyflawni hynny, a'r cyfan sy'n ofynnol yn ôl fy ngwelliant 12 yw bod yr adroddiad, pan ddaw yn ôl, yn cynnwys manylion am yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni diben y Ddeddf hon. Byddwn yn dweud, fodd bynnag, fod gwelliant 68, a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders, yn welliant mwy cynhwysfawr o lawer na fy un i, ac felly rwyf yn hapus i ganiatáu i'w gwelliant hi symud ymlaen yn lle fy un i.

17:21 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This amendment makes an addition to section 11 of the Bill on annual progress reports by the Welsh Ministers. It will require the Minister to publish a report each financial year of the financial resources made available to achieve the purposes of the Act. The amendment will also require the Minister to report on any increase or decrease in the cost of services provided by relevant authorities in complying with the Act. The purpose of the amendment is to ensure that the financial implications of the Act can be effectively scrutinised by this Assembly.

Mae'r gwelliant hwn yn gwneud ychwanegiad i adran 11 o'r Bil ar adroddiadau cynnydd blynyddol gan Weinidogion Cymru. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad ym mhob blwyddyn ariannol ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael i gyflawni dibenion y Ddeddf. Bydd y gwelliant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog adrodd ar unrhyw gynnydd neu ostyngiad yng nghost y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau perthnasol wrth gydymffurfio â'r Ddeddf. Diben y gwelliant yw sicrhau y gall y Cynulliad hwn graffu'n effeithiol ar oblygiadau ariannol y Ddeddf.

Evidence submitted to the committee during Stage 1 proceedings highlighted that there is likely to be an increase in the demand for services as a result of the Bill's implementation. The WLGA stated that extra demand for services does not appear to have been taken into account in the explanatory memorandum. In the light of this, the costs of the Bill might need to be revised. The Violence Against Women Action Group also raised concerns about the resources available to deliver the aims of the Bill. In our report, the committee noted that,

Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor yn ystod trafodion Cyfnod 1 yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn debygol y bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau o ganlyniad i weithredu'r Bil. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad yw'n ymddangos bod galw ychwanegol am wasanaethau wedi ei ystyried yn y memorandwm esboniadol. Oherwydd hyn, efallai y bydd angen diwygio costau'r Bil. Cododd y Grŵp Gweithredu Trais yn Erbyn Menywod bryderon hefyd ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni amcanion y Bil. Yn ein hadroddiad, nododd y pwyllgor,

'We also believe it is important for arrangements to be made to monitor the financial commitment of implementing the Bill'.

'Credwn hefyd ei bod yn bwysig gwneud trefniadau i fonitro ymrwymiad ariannol gweithredu'r Bil.'

Placing a requirement on the face of the Bill to publish a report on the financial resources and implications of the Act will ensure that financial outgoings and demand can be effectively monitored and scrutinised. It will also assist when planning budgetary allocations and ensure that appropriate levels of funding are allocated to the implementation of the Bill in the future, and I thank Peter Black for his comments in that regard.

Bydd gosod gofyniad ar wyneb y Bil i gyhoeddi adroddiad ar adnoddau ariannol a goblygiadau'r Ddeddf yn sicrhau y gellir monitro a chraffu'n effeithiol ar yr arian sy'n mynd allan a'r galw. Bydd hefyd o gymorth wrth gynllunio dyraniadau cyllidebol ac yn sicrhau bod lefelau priodol o gyllid yn cael eu dyrannu i roi'r Bil ar waith yn y dyfodol, a diolch i Peter Black am ei sylwadau yn hynny o beth.

17:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies. No? Minister.

Jocelyn Davies. Na? Weinidog.

17:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. We've already, I think, set out that we intend to devote further resources to this area, and indeed we've done so in respect of the provision, of course, for the ministerial adviser, which my predecessor, the then Minister for Local Government and Government Business, outlined at a very early stage.

Diolch ichi, Lywydd. Rydym eisoes, rwyf yn meddwl, wedi nodi ein bod yn bwriadu neilltuo adnoddau pellach i'r maes hwn, ac yn wir rydym wedi gwneud hynny mewn perthynas â'r ddarpariaeth, wrth gwrs, ar gyfer y cynghorydd gweinidogol, y gwnaeth fy rhagflaenydd, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, ei amlinellu'n gynnar iawn.

We've debated these amendments at Stage 2, and I've listened to the arguments put forward by Members then and now. I think that information about the allocation of Welsh Government resources is already publicly available, and therefore it is available for scrutiny by this Assembly. It's available when we bring forward the annual budget, of course, and it's available in the detailed scrutiny that committees in this Assembly make of Ministers in respect of their spending. I see no need to add an explicit reference on the face of the Bill and I consider these amendments to be unnecessary.

Rydym wedi trafod y newidiadau hyn yng Nghyfnod 2, ac rwyf wedi gwrando ar y dadleuon a gyflwynwyd gan yr Aelodau ddoe a heddiw. Credaf fod gwybodaeth am ddyrannu adnoddau Llywodraeth Cymru eisoes ar gael i'r cyhoedd, ac felly mae ar gael i'w harchwilio gan y Cynulliad hwn. Mae ar gael wrth inni gyflwyno'r gyllideb flynyddol, wrth gwrs, ac mae ar gael yn y craffu manwl y mae pwyllgorau'r Cynulliad yn ei wneud ar Weinidogion mewn perthynas â'u gwariant. Ni welaf ddim angen i ychwanegu cyfeiriad penodol ar wyneb y Bil ac rwyf o'r farn bod y gwelliannau hyn yn ddiangen.

17:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Peter Black to reply to the debate.

Peter Black i ymateb i'r ddadl.

17:24 **Peter Black** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Yes, thank you, Presiding Officer. The Minister is right, of course: you can get access to details of Government spending; unfortunately, the budget itself is not always as clear and does not go down to the level of detail that we're talking about. You can, of course, put down questions and do that, but it does seem to me that if you’re going to do a report on this, the least you can do is include the level of resources that are in there and some commentary on that. I think, in that regard, it is important that this does include it as part of the report.

Ie, diolch ichi, Lywydd. Mae'r Gweinidog yn iawn, wrth gwrs: gallwch gael manylion am wariant y Llywodraeth; yn anffodus, nid yw'r gyllideb ei hun bob amser mor glir â hynny ac nid yw'n cynnwys y manylder yr ydym yn sôn amdano. Gallwch, wrth gwrs, gyflwyno cwestiynau a gwneud hynny, ond mae'n ymddangos i mi, os ydych yn mynd i lunio adroddiad ar hyn, mai’r peth lleiaf y gallwch ei wneud yw cynnwys lefel yr adnoddau sydd yno a rhyw sylwebaeth ar hynny. Rwyf yn meddwl, yn hynny o beth, ei bod yn bwysig bod hyn yn cynnwys hynny fel rhan o'r adroddiad.

17:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Peter Black has indicated that he wishes to withdraw amendment 12. Does any Member object to the withdrawal? No.

Mae Peter Black wedi nodi ei fod yn dymuno tynnu gwelliant 12 yn ôl. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu hynny? Nac oes.

*Tynnwyd gwelliant 12 yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 12.27.*

*Amendment 12 withdrawn in accordance with Standing Order 12.27.*

17:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Therefore, Janet Finch Saunders, amendment 68.

Felly, Janet Finch Saunders, gwelliant 68.

*Cynigiwyd gwelliant 68 (Janet Finch-Saunders).*

*Amendment 9 (Janet Finch-Saunders) moved.*

17:24 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move.

Cynigiaf.

17:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you. The question is amendment 68 be agreed to. Does anyone object? [Objection.] Move to a vote. Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstentions; 26 against. Therefore, I use my casting vote against, and that amendment falls.

Diolch yn fawr. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 68. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Symud i bleidlais. Agor y bleidlais. Cau’r bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn, ac mae’r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 68.]

[Result of the vote on amendment 68.]

### Grŵp 13: Canllawiau Statudol (Gwelliannau 13, 67, 65, 14, 15 ac 16)

### Group 13: Statutory Guidance (Amendments 13, 67, 65, 14, 15 and 16)

17:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 13, which relates to statutory guidance. The lead amendment in this group is amendment 13. I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and others in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 13, sy'n ymwneud â chanllawiau statudol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 13. Galwaf ar Peter Black i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 13 (Peter Black).*

*Amendment 13 (Peter Black) moved.*

17:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Section 14 contains the power to issue statutory guidance. To amend the Bill, Welsh Ministers must issue guidance on how relevant authorities should exercise their functions when pursuing the purpose of the Bill. This change will ensure greater coherence, in my view, in the approach to the development of local strategies. Also, I think in this group, amendment 14 seeks to amend the Bill so that relevant authorities must exceed the requirements in the guidance before they can choose to disregard the issued guidance. This is a minor amendment, but it's very important in ensuring compliance and commitment from local authorities and the services they provide. It will make the legislation less subject to interpretation, and ensure that the only option to not follow the statutory guidance is where they're able to provide evidence that their practice exceeds requirements. It also removes the need for an authority that has already proved to the Welsh Minister that they exceed the requirements to go through the process of producing additional policy and directions, demonstrating how they exceed the requirements. The Welsh Minister may provide new best practice, which the Welsh Minister can then share with other authorities through their guidance.

Diolch ichi, Lywydd. Mae adran 14 yn cynnwys grym i gyhoeddi canllawiau statudol. I ddiwygio'r Bil, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y dylai awdurdodau perthnasol arfer eu swyddogaethau i ymgyrraedd at ddiben y Bil. Bydd y newid hwn yn sicrhau agwedd fwy cydlynol, yn fy marn i, tuag at ddatblygu strategaethau lleol. Hefyd, rwyf yn meddwl bod gwelliant 14 yn y grŵp hwn yn ceisio newid y Bil fel bod yn rhaid i awdurdodau perthnasol ragori ar y gofynion yn y canllawiau cyn y gallant ddewis diystyru'r canllawiau a gyhoeddwyd. Gwelliant bach yw hwn, ond mae'n bwysig iawn o ran sicrhau cydymffurfiad ac ymrwymiad awdurdodau lleol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Bydd yn gwneud y ddeddfwriaeth yn llai agored i'w dehongli, ac yn sicrhau mai'r unig adeg y gellir dewis peidio â dilyn y canllawiau statudol yw lle gellir darparu tystiolaeth bod ymarfer yn rhagori ar y gofynion. Mae hefyd yn cael gwared ar yr angen i awdurdod sydd eisoes wedi profi i Weinidog Cymru ei fod yn rhagori ar y gofynion fynd drwy'r broses o gynhyrchu polisi a chyfarwyddiadau ychwanegol, sy'n dangos sut y maent yn rhagori ar y gofynion. Caiff Gweinidog Cymru ddarparu arferion gorau newydd, y gall Gweinidog Cymru wedyn eu rhannu ag awdurdodau eraill drwy'r canllawiau.

The other amendments in this section are consequential to that. I move that amendment.

Mae'r gwelliannau eraill yn yr adran hon yn ganlyniadol i hynny. Cynigiaf y gwelliant hwnnw.

17:26 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to see a duty for Welsh Ministers to issue guidance to relevant authorities under this Bill that is as strong as possible. Now, we're being asked to pass legislation that asks Ministers to do little more, I suppose, than issue guidance to relevant authorities. That may address a number of issues, but I struggle to understand why we need legislation to achieve this when Ministers are already free to issue guidance. I will not be moving amendment 67 because it is incompatible with the Government's amendment 65, which introduces a designated member of staff in each local authority with responsibility for raising awareness of violence against women, domestic abuse and sexual violence. The domestic abuse co-ordinators have existed in local authorities now for about 10 years, but at least now—I'm assuming—that role is on a statutory footing. It's probably unnecessary, but I welcome the fact that there's a statutory duty now to do it.

Rwyf am weld dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol o dan y Bil hwn sydd mor gryf â phosibl. Yn awr, gofynnir inni basio deddfwriaeth sy'n gofyn i Weinidogion wneud fawr mwy, mae'n debyg, na chyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol. Efallai'n wir bod hynny'n ymdrin â nifer o faterion, ond rwyf yn ei chael yn anodd deall pam y mae angen deddfwriaeth i wneud hyn pan fo rhwydd hynt eisoes i Weinidogion gyhoeddi canllawiau. Ni fyddaf yn cynnig gwelliant 67 oherwydd ei fod yn anghydnaws â gwelliant 65 y Llywodraeth, sy'n cyflwyno aelod dynodedig o'r staff ym mhob awdurdod lleol sy'n gyfrifol am godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae cydgysylltwyr cam-drin domestig mewn awdurdodau lleol ers tua 10 mlynedd bellach, ond o leiaf yn awr—rwyf yn tybio—mae sylfaen statudol i'r swyddogaeth honno. Mae'n debyg ei fod yn ddiangen, ond croesawaf y ffaith bod dyletswydd statudol erbyn hyn i wneud hynny.

I'll also be supporting Peter Black's amendment in this group, amendment 14. As he said, it is of particular importance. There has been concern throughout the scrutiny of the Bill that authorities are allowed not to follow the guidance and strategies if they think there is a good reason for them not to do so. Without any definition of what a good reason might be, or any oversight of decision making, this is such a vague criterion that it could become meaningless. The test introduced by amendment 14 will ensure that a minimum standard has been met by all authorities and will help to ensure that everyone across Wales has access to the same services and support. Thank you.

Byddaf hefyd yn cefnogi gwelliant Peter Black yn y grŵp hwn, gwelliant 14. Fel y dywedodd, mae'n arbennig o bwysig. Bu pryder drwy gydol y craffu ar y Bil fod awdurdodau'n cael peidio â dilyn y canllawiau a'r strategaethau os ydynt yn credu bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Heb ddiffiniad o'r hyn y gallai rheswm da fod, neu oruchwylio ar wneud penderfyniadau, mae hwn yn faen prawf mor amwys nes y gallai fod yn ddiystyr. Bydd y prawf a gyflwynir gan welliant 14 yn sicrhau bod pob awdurdod wedi bodloni safon ofynnol a bydd yn helpu i sicrhau bod pawb ar hyd a lled Cymru'n cael yr un gwasanaethau a chymorth. Diolch.

17:28

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I start by thanking Jocelyn Davies for withdrawing her amendment in favour of the Government amendment? Amendment 65, tabled in my name, outlines our intention to issue statutory guidance to ensure that local authorities designate a member of staff for the purpose of championing issues of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence matters in schools and in other settings. We believe champions can play a key role in promoting and raising awareness around these issues and improving practice and standards. The guidance, let me say, would outline the steps local authorities would be expected to take, ensuring a consistent and comprehensive approach and resulting in all relevant parties being clear on their duties and responsibilities. I'd be very happy to discuss the development of that guidance with Jocelyn Davies, and indeed with other Members, as we take this forward. Through the guidance, which will build on the existing safeguarding statutory guidance, we would ensure all roles with championing responsibilities in the context of schools, including designated senior persons for child protection, headteachers, governors with lead responsibility for safeguarding, and local authority safeguarding leads, are clear how their roles link to the designated member of staff in a local authority. But more importantly, the guidance would set out the role of the designated member of staff in assisting these other persons in how they could contribute to the purpose of the Bill.

A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i Jocelyn Davies am dynnu'n ôl ei gwelliant o blaid gwelliant y Llywodraeth? Mae gwelliant 65, a gyflwynwyd yn fy enw i, yn amlinellu ein bwriad i gyhoeddi canllawiau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn dynodi aelod o staff er mwyn hyrwyddo materion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a materion trais rhywiol mewn ysgolion ac mewn lleoliadau eraill. Rydym yn credu y gall hyrwyddwyr chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y materion hyn a gwella arfer a safonau. Mae'r canllawiau, gadewch imi ddweud, yn amlinellu'r camau y byddai disgwyl i awdurdodau lleol eu cymryd, gan sicrhau ymagwedd gyson a chynhwysfawr a pheri bod yr holl bartïon perthnasol yn glir ynghylch eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Byddwn yn hapus iawn i drafod y gwaith o ddatblygu'r canllawiau hynny â Jocelyn Davies, ac yn wir ag Aelodau eraill, wrth inni fwrw ymlaen â hyn. Drwy'r canllawiau, a fydd yn adeiladu ar y canllawiau diogelu statudol presennol, byddem yn sicrhau bod yr holl swyddogaethau a chanddynt gyfrifoldebau hyrwyddo yng nghyd-destun ysgolion, gan gynnwys unigolion uwch dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, penaethiaid, llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb arweiniol dros ddiogelu, ac arweinwyr diogelu awdurdodau lleol, yn glir ynghylch y cysylltiad rhwng eu swyddogaeth hwythau a swyddogaeth yr aelod dynodedig o staff mewn awdurdod lleol. Ond yn bwysicach na hynny, byddai'r canllawiau'n nodi swyddogaeth yr aelod dynodedig o'r staff o ran cynorthwyo'r bobl eraill hyn ynghylch sut y gallent gyfrannu at ddiben y Bil.

Turning now to amendment 13, which seeks to replace 'may' issue statutory guidance under section 14 with 'must' issue statutory guidance; this is unnecessary. It is our intention to issue guidance. In fact, we've already published three draft pieces of guidance. The operation of the provisions contained in the Bill is not dependent on guidance being issued, and the scope of the guidance that could be issued under section 14 is extremely broad. It is therefore unnecessary to use 'must' in this instance.

A throi yn awr at welliant 13, sy'n ceisio disodli 'Caiff' gyhoeddi canllawiau statudol o dan adran 14 a rhoi yn ei le 'Rhaid' cyhoeddi canllawiau statudol; mae hyn yn ddiangen. Ein bwriad yw cyhoeddi canllawiau. Yn wir, rydym eisoes wedi cyhoeddi tri darn drafft o ganllawiau. Nid yw gweithrediad y darpariaethau sydd yn y Bil yn dibynnu ar gyhoeddi canllawiau, ac mae cwmpas y canllawiau y gellid eu cyhoeddi o dan adran 14 yn hynod o eang. Felly, mae'n ddiangen defnyddio 'rhaid' yn yr achos hwn.

Amendment 14 weakens the flexibility for a relevant authority to demonstrate innovation. The Bill, as drafted, enables a relevant authority to depart from the guidance if they are able to propose an alternative policy that the Welsh Ministers agree contributes to the purpose of the Bill and there is a good reason not to follow the guidance. For example, they may already have an effective multi-agency structure in place and it would be counter-productive to dismantle this in order strictly to adhere to our collaboration guidance. If the Welsh Ministers are not satisfied with this alternative, under section 18 they can direct an authority to follow the guidance. These provisions are therefore not designed to allow a relevant authority to opt out, but instead offer a degree of flexibility to a relevant authority to deliver more than what is set out in guidance.

Mae gwelliant 14 yn gwanhau'r hyblygrwydd i awdurdod perthnasol i ddangos blaengaredd. Mae'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn galluogi awdurdod perthnasol i wyro oddi wrth y canllawiau os all gynnig polisi arall y mae Gweinidogion Cymru yn cytuno ei fod yn cyfrannu at ddiben y Bil ac os oes rheswm da dros beidio â dilyn y canllawiau. Er enghraifft, efallai y bydd ganddynt eisoes strwythur amlasiantaeth effeithiol ar waith ac y byddai'n wrthgynhyrchiol datgymalu hwn er mwyn glynu'n gaeth wrth ein canllawiau cydweithio. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn fodlon â'r dewis arall hwn, o dan adran 18 gallant gyfarwyddo awdurdod i ddilyn y canllawiau. Felly, nid bwriad y darpariaethau hyn yw caniatáu i awdurdod perthnasol optio allan, ond yn hytrach gynnig rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdod perthnasol i gyflawni mwy na'r hyn a nodir yn y canllawiau.

Amendment 14 also weakens the guidance provisions in the Bill. It would, in practice, mean that relevant authorities may depart from the guidance where they already exceed the requirements of the course set out in the guidance. The remainder of the section, which outlines what actions must be taken instead, for example, determining an alternative policy and issuing a policy statement, are therefore omitted. An authority would therefore not be required, under this amendment, to publish the alternative policy that they intend to follow or publish their reasons for departing from the guidance. It also results in Welsh Ministers not being able to direct compliance with the guidance. I therefore cannot support these amendments that would significantly weaken the existing requirements.

Mae gwelliant 14 hefyd yn gwanhau'r darpariaethau ynghylch canllawiau yn y Bil. Yn ymarferol, byddai'n golygu y gall awdurdodau perthnasol wyro oddi wrth y canllawiau lle maent eisoes yn rhagori ar ofynion y cwrs a nodir yn y canllawiau. Mae gweddill yr adran, sy'n amlinellu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd yn lle hynny, er enghraifft, pennu polisi arall a chyhoeddi datganiad polisi, felly wedi eu hepgor. Ni fyddai angen i awdurdod felly, o dan y gwelliant hwn, gyhoeddi'r polisi amgen y mae'n bwriadu ei ddilyn na chyhoeddi ei resymau dros wyro oddi wrth y canllawiau. Mae hefyd yn golygu na allai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cydymffurfiaeth â'r canllawiau. Felly ni allaf gefnogi'r gwelliannau hyn a fyddai'n gwanhau'r gofynion presennol yn sylweddol.

As I have said, we are very willing to discuss with Members the nature of the guidance once the Bill has received Royal Assent and it will obviously also be important to involve the ministerial advisor in any such discussions. As I said, I'm grateful that Jocelyn Davies is withdrawing her amendment in favour of ours, but I urge the Assembly Members to resist the other amendments.

Fel yr wyf wedi'i ddweud, rydym yn barod iawn i drafod â'r Aelodau natur y canllawiau unwaith y bydd y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol, a bydd yn bwysig hefyd wrth gwrs cynnwys y cynghorydd gweinidogol mewn unrhyw drafodaethau o'r fath. Fel y dywedais, rwyf yn ddiolchgar i Jocelyn Davies am dynnu ei gwelliant yn ôl o blaid ein gwelliant ni, ond rwyf yn annog Aelodau'r Cynulliad i wrthod y gwelliannau eraill.

17:32

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply.

Peter Black i ymateb.

17:32

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I just have one point I wanted to take up from the Minister's response, which is to do with amendment 14. The Minister argues that the intention is that local authorities can only disregard the guidance when they are exceeding expectations. That is exactly what my amendment is proposing. So, if that is the intention, why not accept the amendment that actually puts that intention into effect on the face of the Bill?

Diolch ichi, Lywydd. Mae gennyf un pwynt yr oeddwn am ei godi yn sgil ymateb y Gweinidog, sy'n ymwneud â gwelliant 14. Mae'r Gweinidog yn dadlau mai'r bwriad yw sicrhau na all awdurdodau lleol ond anwybyddu'r canllawiau pan fyddant yn rhagori ar y disgwyliadau. Dyna'n union y mae fy ngwelliant yn ei gynnig. Felly, os dyna yw'r bwriad, beth am dderbyn y gwelliant sydd a dweud y gwir yn rhoi grym i'r bwriad hwnnw ar wyneb y Bil?

17:32

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 13 be agreed to. Any objections? [Objection.] Object. Move to the vote. Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstentions; 26 against. Therefore, I use my casting vote against and the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 13. Unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symud at y bleidlais. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 13.

Result of the vote on amendment 13.

17:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 67.

Jocelyn Davies, gwelliant 67.

17:33

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, thank you.

Na, dim diolch.

17:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not moving, fine.

Ddim yn cynnig, iawn.

*Ni chynigiwyd gwelliant 67 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 67 (Jocelyn Davies) not moved.*

17:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 65.

Weinidog, gwelliant 65.

*Cynigiwyd gwelliant 65 (Leighton Andrews.)*

*Amendment 5 (Leighton Andrews) moved.*

17:33

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Cynigiaf.

17:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 65 be agreed to. Any objections? Therefore, amendment 65 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 65. Unrhyw wrthwynebiad? Felly, mae gwelliant 65 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 65 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 65 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 14.

Peter Black, gwelliant 14.

*Cynigiwyd gwelliant 14 (Peter Black).*

*Amendment 14 (Peter Black) moved.*

17:33

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Cynigiaf.

17:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 14 be agreed. Any objections? [Objection] Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstentions; 26 against. Therefore, I use my casting vote and the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 14. Unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 14.

Result of the vote on amendment 14.

17:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 15.

Peter Black, gwelliant 15.

*Cynigiwyd gwelliant 15 (Peter Black).*

*Amendment 15 (Peter Black) moved.*

17:33

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Cynigiaf.

17:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 15 be agreed. Any objections? [Objection.] Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstentions; 26 against. Therefore, I use my casting vote against and the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 15. Unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 15.

Result of the vote on amendment 15.

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 16.

Peter Black, gwelliant 16.

*Cynigiwyd gwelliant 16 (Peter Black).*

*Amendment 16 (Peter Black) moved.*

17:34

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Cynigiaf.

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 16 be agreed. Any objections? [Objection.] Object. Move to a vote. Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstentions; 26 against. Therefore, I use my casting vote against the amendment and the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 16. Unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symud i bleidlais. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 16.

Result of the vote on amendment 16.

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 17.

Peter Black, gwelliant 17.

17:34

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not moving.

Ddim yn cynnig.

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You're not moving, thank you.

Nid ydych yn cynnig, diolch.

*Ni chynigiwyd gwelliant 17 (Peter Black).*

*Amendment 17 (Peter Black) not moved*

### Grŵp 14: Cynghorydd Gweinidogol (Gwelliannau 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 18, 62, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52 ac 20)

### Group 14: Ministerial Adviser (Amendments 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 18, 62, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52 and 20)

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 14. This group relates to the ministerial adviser. The lead amendment in this group is 25 and I call on the Minister to move, and speak to, the amendment and other amendments in the group. Minister.

Symudwn yn awr at grŵp 14. Mae'r grŵp hwn yn ymwneud â'r cynghorydd gweinidogol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw 25 a galwaf ar y Gweinidog i gynnig y gwelliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp, ac i siarad amdanynt. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 25 (Leighton Andrews).*

*Amendment 25 (Leighton Andrews) moved.*

17:34

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. This set of amendments is an illustration of another way in which the Government has been listening to the views of Assembly Members and the views of the sector throughout the proceedings on this Bill.

Diolch, Lywydd. Mae'r gyfres hon o welliannau yn enghraifft o ffordd arall y mae'r Llywodraeth wedi bod yn gwrando ar farn Aelodau'r Cynulliad a barn y sector trwy gydol trafodion y Bil hwn.

The amendments we're tabling seek to change the title of the ministerial adviser to 'national adviser', because during the discussions through the committee and elsewhere, there have been issues raised about the title of the role. I consider the new title better reflects the nature and prominence of the role and demonstrates the strong national focus on these issues that this individual will provide. I believe that the proposed change of name addresses the concerns expressed during both Stage 1 and Stage 2 consideration.

Mae'r gwelliannau yr ydym yn eu cyflwyno'n ceisio newid teitl y cynghorydd gweinidogol i 'cynghorydd cenedlaethol', oherwydd yn ystod y trafodaethau drwy'r pwyllgor ac mewn mannau eraill, codwyd materion ynghylch teitl y swydd. Credaf fod y teitl newydd yn adlewyrchu'n well natur ac amlygrwydd y rôl ac yn dangos y pwyslais cenedlaethol cryf ar y materion hyn y bydd yr unigolyn hwn yn ei ddarparu. Credaf fod y newid enw arfaethedig yn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd yn ystod ystyriaeth Cyfnod 1 a Chyfnod 2.

Amendment 18 seeks to remove the Welsh Ministers' oversight of the functions of the ministerial adviser. Since the primary focus of the adviser is to provide expert advice to Ministers, it is important we maintain a power of direction over the functions of the adviser and we maintain strategic oversight and leadership for tackling these issues. I believe that the amendment proposed weakens the Bill.

Mae gwelliant 18 yn ceisio cael gwared ar oruchwyliaeth Gweinidogion Cymru ar swyddogaethau'r cynghorydd gweinidogol. Gan fod y cynghorydd yn canolbwyntio'n anad dim ar ddarparu cyngor arbenigol i Weinidogion, mae'n bwysig ein bod yn cadw grym cyfarwyddo dros swyddogaethau'r cynghorydd ac yn cadw goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth strategol o ran mynd i'r afael â'r materion hyn. Credaf fod y gwelliant a gynigir yn gwanhau'r Bil.

I also consider amendment 62 to be unnecessary. Section 20(1)(d) of the Bill ensures that the adviser is working within the strategic framework provided by the Welsh Ministers in the national strategy. If the amendment were to be passed, the adviser would be free to advise and give assistance to anybody, such as UK Government departments, even where to do so would clearly not be appropriate and would divert the adviser's focus from working with Welsh Ministers to achieve the aims of the Bill in Wales. I therefore ask that Assembly Members support the amendments tabled in my name and resist amendment 18, tabled by Peter Black, and amendment 62, tabled by Jocelyn Davies.

Rwyf hefyd o'r farn bod gwelliant 62 yn ddiangen. Mae adran 20(1)(d) o'r Bil yn sicrhau bod y cynghorydd yn gweithio o fewn y fframwaith strategol a ddarperir gan Weinidogion Cymru yn y strategaeth genedlaethol. Pe bai'r gwelliant yn cael ei basio, byddai rhwydd hynt i'r cynghorydd gynghori a rhoi cymorth i unrhyw un, megis adrannau Llywodraeth y DU, hyd yn oed lle y byddai gwneud hynny'n amlwg yn amhriodol ac yn tynnu sylw'r cynghorydd oddi ar weithio gyda Gweinidogion Cymru i gyflawni amcanion y Bil yng Nghymru. Gofynnaf felly i Aelodau'r Cynulliad gefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd yn fy enw i a gwrthod gwelliant 18, a gyflwynwyd gan Peter Black, a gwelliant 62, a gyflwynwyd gan Jocelyn Davies.

17:36 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we vote to change the title of the ministerial adviser to the national adviser, we should perhaps pause to consider whether that is a fair title when the adviser will be constrained by having to ask permission from Welsh Ministers before offering advice or assistance to anyone else.

Wrth inni bleidleisio i newid teitl y cynghorydd gweinidogol yn gynghorydd cenedlaethol, efallai y dylem oedi ac ystyried a yw hynny'n deitl teg pan fydd y cynghorydd yn gorfod gofyn caniatâd gan Weinidogion Cymru cyn cynnig cyngor neu gymorth i rywun arall.

The scope of the adviser's role has been subject to considerable debate as this Bill has progressed. I remain convinced that if we are to improve services for victims of violence against women, domestic abuse and sexual abuse, there must be accountability for all service providers, local authorities and Welsh Government, and in order to achieve this, the adviser must have a degree of independence in their role, whatever you call that role.

Mae cwmpas swyddogaeth y cynghorydd wedi bod yn destun cryn ddadlau wrth i'r Bil hwn fynd rhagddo. Rwyf yn dal i fod yn argyhoeddedig, os ydym am wella gwasanaethau i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol, fod yn rhaid wrth atebolrwydd i'r holl ddarparwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ac er mwyn sicrhau hyn, mae'n rhaid bod gan y cynghorydd rywfaint o annibyniaeth yn ei swyddogaeth, beth bynnag y galwch y swyddogaeth honno.

I support Peter Black's amendment 18 and believe it works in tandem with my amendment 62 to grant the adviser freedom to exercise their functions without needing to wait for direction or ask permission from Welsh Ministers. If the adviser is to be successful in prompting real change on how we tackle violence against women, domestic abuse and sexual violence in Wales, they must be free to offer advice and assistance to any organisation or individual they feel can make a difference. They are hardly an adviser for the nation if they can only offer advice and assistance to anyone outside the Welsh Government after being granted permission by Welsh Ministers.

Rwyf yn cefnogi gwelliant 18 Peter Black ac yn credu ei fod yn gweithio law yn llaw â'm gwelliant 62 innau i roi rhyddid i'r cynghorydd i arfer ei swyddogaethau heb orfod aros am gyfarwyddyd neu ofyn caniatâd gan Weinidogion Cymru. Os yw'r cynghorydd am lwyddo i sicrhau newid gwirioneddol yn y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, mae'n rhaid i'r cynghorydd fod yn rhydd i gynnig cyngor a chymorth i unrhyw fudiad neu unigolyn y mae o'r farn y gall wneud gwahaniaeth. Prin ei fod yn gynghorydd i'r genedl os na all ond cynnig cyngor a chymorth i rywun y tu allan i Lywodraeth Cymru ar ôl cael caniatâd gan Weinidogion Cymru.

17:38 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister's opposition to amendments 18 and 62, I think, underlines a point that has been made by a number of Members of the opposition, which is that, effectively, this post and what is in the Bill as it currently stands can be delivered through executive action and most of it does not need legislation. If, however, you were to actually have a genuine national adviser as opposed to a ministerial adviser, and that national adviser would be exercising their functions without being subject to the direction of Welsh Ministers, and were able to give advice and assistance to any person on matters relating to pursuing the purpose of the Bill without needing the agreement of the Welsh Ministers, then I think you would actually have a post that is worthwhile having and one that actually would be seen by everybody in the sector as one that is actually useful and would add significantly to this whole agenda.

Mae gwrthwynebiad y Gweinidog i welliannau 18 a 62, yn fy marn i, yn tanlinellu pwynt a wnaed gan nifer o Aelodau'r wrthblaid, sef, i bob pwrpas, y gellir darparu'r swydd hon a'r hyn sydd yn y Bil fel y mae ar hyn o bryd drwy gamau gweithredol ac nad oes angen deddfwriaeth ar gyfer y rhan fwyaf ohono. Fodd bynnag, pe bai gennych gynghorydd cenedlaethol gwirioneddol yn hytrach na chynghorydd gweinidogol, a phe bai'r cynghorydd cenedlaethol yn arfer ei swyddogaethau heb fod yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru, ac yn gallu rhoi cyngor a chymorth i unrhyw un ar faterion sy'n gysylltiedig ag ymgyrraedd at ddiben y Bil heb fod angen cytundeb Gweinidogion Cymru, yna credaf y byddai gennych swydd sy'n werth ei chael mewn gwirionedd ac un a fyddai mewn gwirionedd yn cael ei gweld gan bawb yn y sector fel un sy'n wirioneddol ddefnyddiol ac a fyddai'n ychwanegu'n sylweddol at yr holl agenda hon.

It does seem to me, Presiding Officer, that, whilst I support the change of title from 'ministerial' to 'national' adviser, without having those two changes, that change is very much a cosmetic one and one that doesn't actually create the sort of independent person that I think everybody, or most people, who gave evidence to the committee and certainly a large number of members of the committee felt was necessary in terms of this particular role. It is, of course, the case that the Government is prepared to set in place a commissioner for sustainable development with a budget of around £1 million a year, and yet in terms of domestic abuse and violence, they propose a ministerial adviser, effectively on the cheap by comparison, but one who will be in hock to the Minister and will not have the sort of independence that, for example, the children's commissioner, the older person's commissioner or the sustainable development commissioner will have in terms of delivering their functions. I think amendments 18 and 62 would give some of that independence and would actually add to that role, and therefore I hope the Assembly is able to support them.

Mae'n ymddangos i mi, Lywydd, er fy mod yn cefnogi newid y teitl o gynghorydd 'gweinidogol' i gynghorydd 'cenedlaethol', heb gael y ddau newid hynny, fod y newid i raddau helaeth yn un cosmetig ac yn un nad yw mewn gwirionedd yn creu'r math o unigolyn annibynnol yr wyf yn meddwl bod pawb, neu'r rhan fwyaf o bobl, a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor ac yn sicr nifer fawr o aelodau'r pwyllgor yn teimlo oedd yn angenrheidiol o ran y swyddogaeth benodol hon. Wrth gwrs, mae'r Llywodraeth yn barod i sefydlu comisiynydd ar gyfer datblygu cynaliadwy â chyllideb o tua £1 miliwn y flwyddyn, ac eto o ran cam-drin a thrais domestig, maent yn cynnig cynghorydd gweinidogol, yn rhad i bob pwrpas mewn cymhariaeth, ond yn un a fydd yn ddyledus i'r Gweinidog ac na fydd ganddo'r un math o annibyniaeth, er enghraifft, â'r comisiynydd plant, y comisiynydd pobl hŷn neu'r comisiynydd datblygu cynaliadwy er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Credaf y byddai gwelliannau 18 a 62 yn darparu rhywfaint o'r annibyniaeth honno ac y byddai mewn gwirionedd yn ychwanegu at y rôl honno, ac felly rwyf yn gobeithio y gall y Cynulliad eu cefnogi.

17:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

17:40

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I think we've moved considerably during the passage of this Bill in respect of the adviser, and I think what we've sought to do with our amendments is to give clarity about the role that we're looking for; we're looking for someone with the expertise to ensure that we are able to take this area of policy forward. And, as I said, we started the passage of the Bill for this to be a ministerial adviser. I think giving it the status of national adviser is important and will be important to the sector, but it is, at the end of the day, the focus of that adviser to provide advice to Ministers and to ensure that we are able to take action to implement the implications of the Bill that we have before us. I hope colleagues will support our amendments today and reject the other two amendments.

Credaf ein bod wedi symud yn sylweddol yn ystod hynt y Bil hwn mewn perthynas â'r cynghorydd, ac rwyf yn credu mai'r hyn yr ydym wedi ceisio ei wneud gyda'n gwelliannau yw rhoi eglurder ynghylch y swyddogaeth yr ydym yn chwilio amdani; rydym yn chwilio am rywun â'r arbenigedd i sicrhau ein bod yn gallu bwrw ymlaen â'r maes polisi hwn. Ac fel y dywedais, ar ddechrau taith y Bil roedd hwn i fod yn gynghorydd gweinidogol. Rwyf yn credu fod rhoi statws cynghorydd cenedlaethol iddo yn bwysig ac y bydd yn bwysig i'r sector, ond, yn y pen draw, bydd y cynghorydd hwnnw'n canolbwyntio ar roi cyngor i Weinidogion a sicrhau ein bod yn gallu cymryd camau i weithredu goblygiadau'r Bil sydd gennym ger ein bron. Rwyf yn gobeithio y bydd fy nghyd-Aelodau'n cefnogi ein gwelliannau heddiw ac yn gwrthod y ddau welliant arall.

17:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I propose that amendments 25 to 32 are disposed of en bloc. Does any Member object? [Objection.] Thank you. So, if amendment 25 falls, we will then vote on amendments—. No, sorry. If amendment 25 is not agreed, amendments 26 to 52 and 20 will fall. So, open the vote on amendment 25. Close the vote.

Cynigiaf fod gwelliannau 25 i 32 yn cael eu gwaredu en bloc. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Diolch yn fawr. Felly, os yw gwelliant 25 yn methu, byddwn wedyn yn pleidleisio ar welliannau—. Na, mae'n ddrwg gennyf. Os na dderbynnir gwelliant 25, bydd gwelliannau 26 i 52 a 20 yn methu. Felly, agoraf y bleidlais ar welliant 25. Cau'r bleidlais.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 25.]

[Result of the vote on amendment 25.]

17:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We now move to amendment 26.

Symudwn yn awr at welliant 26.

*Cynigiwyd gwelliant 26 (Leighton Andrews).*

*Amendment 26 (Leighton Andrews) moved.*

17:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Amendment 26: 51 in favour, no abstentions, none against. Therefore, that amendment is carried.

Agor y bleidlais. Gwelliant 26: 51 o blaid, dim ymatal, neb yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 26.

Result of the vote on amendment 26.

17:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now we move to 27.

Yn awr symudwn at 27.

*Cynigiwyd gwelliant 27 (Leighton Andrews).*

*Amendment 27 (Leighton Andrews) moved.*

17:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does anyone object? [Objection.] Object. We move to a vote. Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstention; 26 against. Therefore, I use my casting vote against and that amendment falls.

A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwn at bleidlais. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn ac mae'r gwelliant hwnnw'n methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 27.

Result of the vote on amendment 27.

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to amendment 28.

Symudwn yn awr at welliant 28.

*Cynigiwyd gwelliant 28 (Leighton Andrews).*

*Amendment 28 (Leighton Andrews) moved.*

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does anyone object? [Objection.] Object. We'll move to the vote. Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstentions; 26 against. Therefore, I use my casting vote against, making it 27, so that amendment falls.

A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwn i bleidlais. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn, gan ei wneud yn 27, felly mae'r gwelliant hwnnw'n methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 28.

Result of the vote on amendment 28.

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to 29.

Rydym bellach yn symud i 29.

*Cynigiwyd gwelliant 29 (Leighton Andrews).*

*Amendment 29 (Leighton Andrews) moved.*

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Any objections? [Objection.] Object. Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstentions; 26 against. Therefore, I use my casting vote against and the amendment falls.

Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 29.

Result of the vote on amendment 29.

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to amendment 30.

Symudwn yn awr at welliant 30.

*Cynigiwyd gwelliant 30 (Leighton Andrews).*

*Amendment 30 (Leighton Andrews) moved.*

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Any objections? [Objection.] Objections. Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstentions; 26 against. Therefore, I use my casting vote against and the amendment falls.

Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiadau. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 30.

Result of the vote on amendment 30.

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to amendment 31.

Symudwn yn awr at welliant 31.

*Cynigiwyd gwelliant 31 (Leighton Andrews).*

*Amendment 31 (Leighton Andrews) moved.*

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Any objections? No objections, therefore amendment 31 is carried.

Unrhyw wrthwynebiadau? Dim gwrthwynebiad, felly caiff gwelliant 31 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 31 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 31 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Amendment 32.

Gwelliant 32.

*Cynigiwyd gwelliant 32 (Leighton Andrews).*

*Amendment 32 (Leighton Andrews) moved.*

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Any objections? No objections, therefore amendment 32 is carried.

Unrhyw wrthwynebiadau? Dim gwrthwynebiad, felly caiff gwelliant 32 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 32 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 32 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Peter Black, amendment 18.

Peter Black, gwelliant 18.

*Cynigiwyd gwelliant 18 (Peter Black).*

*Amendment 18 (Peter Black) moved.*

17:44

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move.

Rwy'n cynnig.

17:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

You move. The question is that amendment 18 be agreed. Any objections? [Objection.] Object. Open the vote. Close the vote. In favour, 26; no abstentions; 26 against. Therefore, I use my casting vote against and the amendment falls.

Rydych yn cynnig. Y cwestiwn yw bod gwelliant 18 yn cael ei dderbyn. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 26; dim ymatal; 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 18.](#)

[Result of the vote on amendment 18.](#)

### Grŵp 15: Swyddogaethau'r Cynghorydd Gweinidogol (Gwelliannau 60, 61 ac 19)

### Group 15: Functions of Ministerial Adviser (Amendments 60, 61 and 19)

17:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to group 15, which relates to the functions of the ministerial adviser. The lead amendment in this group is amendment 60, and I call on Jocelyn Davies to move and speak to the lead amendment and any others in that group.

Symudwn yn awr at grŵp 15, sy'n ymwneud â swyddogaethau'r cynghorydd gweinidogol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 60, a galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig a siarad am y prif welliant ac unrhyw rai eraill yn y grŵp hwnnw.

*Cynigiwyd gwelliant 60 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 60 (Jocelyn Davies) moved.*

17:44

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I have tabled two amendments in this group. First, amendment 60 gives the national adviser the responsibility for advising Welsh Ministers on their human rights obligations. Violence against women, domestic abuse and sexual violence must be understood as violations of human rights. Therefore, the national adviser's work must take a rights-based approach.

Diolch ichi, Lywydd. Rwyf wedi cyflwyno dau welliant yn y grŵp hwn. Yn gyntaf, mae gwelliant 60 yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r cynghorydd cenedlaethol am gynghori Gweinidogion Cymru ar eu dyletswyddau ym maes hawliau dynol. Mae'n rhaid i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael eu deall fel bod yn treisio hawliau dynol. Felly, mae'n rhaid i waith y cynghorydd cenedlaethol weithredu ar sail hawliau.

However, even when the Welsh Government is aware of its human rights obligations, it doesn't guarantee action. Later this afternoon, we will be debating, I think, including the removal of the reasonable punishment defence in this Bill. Now, this is widely considered to be an obligation for all states under international human rights law. The UN Committee on the Rights of the Child has told the UK that it should remove the reasonable punishment defence, repeatedly.

Fodd bynnag, hyd yn oed pan mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'i dyletswyddau ym maes hawliau dynol, nid yw'n gwarantu y bydd yn gweithredu. Yn ddiweddarach y prynhawn yma, rwy'n meddwl y byddwn yn dadlau ynghylch cynnwys darpariaeth i gael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol yn y Bil hwn. Nawr, ystyrir yn eang bod hon yn rhwymedigaeth i bob gwladwriaeth o dan gyfraith hawliau dynol rhyngwladol. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi dweud wrth y DU dro ar ôl tro y dylai gael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol.

In addition, the committee's general comment number 8 on the rights of the child to protection from corporal punishment and other cruel or degrading forms of punishment, emphasises that a ban is,

Yn ogystal, mae sylwadau cyffredinol rhif 8 y pwyllgor ar hawliau'r plentyn i gael ei amddiffyn rhag cosb gorfforol a mathau creulon neu ddiraddiol arall o gosb, yn pwysleisio bod gwaharddiad yn

'an immediate and unqualified obligation of States parties.'

'rhwymedigaeth ar unwaith a diamod ar bleidiau Gwladwriaethau'.

The Council of Europe is also leading a campaign on this issue, referencing commitments under the European convention on human rights and the Treaty of Lisbon, which introduced an objective for all EU member states to protect and promote children's rights. When the UNCRC reviewed children's rights in the UK in 2008, it welcomed the Welsh Government's stated principled stance against physical punishment of children, while noting that, under the terms of devolution at the time, it was not possible for the Assembly to enact the necessary legislation.

Mae Cyngor Ewrop hefyd yn arwain ymgyrch ar y mater hwn, gan gyfeirio at ymrwymiadau o dan y confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol a Chytuniad Lisbon, a gyflwynodd amcan y dylai holl aelod-wladwriaethau'r UE amddiffyn a hyrwyddo hawliau plant. Pan gynhaliodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn adolygiad o hawliau plant yn y DU yn 2008, croesawodd safiad egwyddorol Llywodraeth Cymru yn erbyn cosbi plant yn gorfforol, gan nodi ar yr un pryd nad oedd yn bosibl, o dan delerau datganoli ar y pryd, i'r Cynulliad ddeddfu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Of course, if the Government's position has changed—and their actions, I think, suggest that it has—I would ask them to notify the Committee on the Rights of the Child as soon as possible, so that they are in no doubt about the position of the current Welsh Government on this.

Wrth gwrs, os bydd safbwynt y Llywodraeth wedi newid—ac mae eu gweithredoedd, rwy'n meddwl, yn awgrymu ei fod wedi newid—byddwn yn gofyn iddi roi gwybod i'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn cyn gynted â phosibl, fel nad ydynt mewn unrhyw amheuaeth ynglŷn â safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ar hyn.

Now, I noted what the First Minister said earlier about this during questions, and perhaps the Minister, in responding, will make it very clear if the Welsh Government intends, at some point, to remove this defence, as a first step to protect children. I would hope that the national adviser, when appointed, would add their voice to the many individuals and organisations that are campaigning for this change.

Nawr, nodais yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog yn gynharach ynglŷn â hyn yn ystod y cwestiynau, ac efallai y bydd y Gweinidog, wrth ymateb, yn ei gwneud yn glir iawn a yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cael gwared ar yr amddiffyniad hwn, fel cam cyntaf i amddiffyn plant, ar ryw adeg. Byddwn yn gobeithio y byddai'r cynghorydd cenedlaethol, pan gaiff ei benodi, yn ychwanegu ei lais at yr unigolion a'r sefydliadau niferus sy'n ymgyrchu dros y newid hwn.

Secondly, as we have already argued this afternoon, education must be a central part of any strategy to prevent violence against women, domestic abuse and sexual violence. Therefore, I would like to see the adviser's function include a duty to advise Welsh Ministers on educational provisions that will contribute to the purpose of this Bill. Perhaps, to a certain extent, this is already understood to be part of the adviser's role, but amendment 61 would make this function explicit. It might not be absolutely necessary, but it would make it explicit.

Yn ail, fel yr ydym eisoes wedi dadlau brynhawn heddiw, rhaid i addysg fod yn rhan ganolog o unrhyw strategaeth i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Felly, byddwn yn hoffi gweld swyddogaeth y cynghorydd yn cynnwys dyletswydd i gynghori Gweinidogion Cymru ar ddarpariaethau addysgol a fydd yn cyfrannu at ddibenion y Bil hwn. Efallai y deellir, i ryw raddau, bod hyn eisoes yn rhan o rôl y cynghorydd, ond byddai gwelliant 61 yn gwneud y swyddogaeth hon yn eglur. Efallai na fydd yn gwbl angenrheidiol, ond byddai'n ei gwneud yn glir.

I will also be supporting Peter Black's amendment 19 to give the adviser a duty to produce an annual report. This will promote transparency and accountability and ensure that the National Assembly is kept informed about the work the adviser is doing. Thank you.

Byddaf hefyd yn cefnogi gwelliant 19 Peter Black i roi dyletswydd i'r ymgynghorydd baratoi adroddiad blynyddol. Bydd hyn yn hybu tryloywder ac atebolrwydd a sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae'r cynghorydd yn ei wneud. Diolch yn fawr.

17:48 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm happy to support Jocelyn Davies's amendments 60 and 61. Amendment 19, as Jocelyn has just said, is to require the national adviser to produce an annual report about their actions during the preceding year, to be laid before the National Assembly. It seems to me that this is a minimum requirement in terms of accountability and transparency and will enable the Assembly, and, of course, the committee, to properly scrutinise the work of the national adviser on the basis of the report that they have laid. Therefore, I would hope the Minister is able to accept that very modest amendment.

Rwy'n hapus i gefnogi gwelliannau 60 a 61Jocelyn Davies. Diben gwelliant 19, fel y mae Jocelyn newydd ei ddweud, yw ei gwneud yn ofynnol i'r cynghorydd cenedlaethol baratoi adroddiad blynyddol am ei weithredoedd yn ystod y flwyddyn flaenorol, a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ymddangos i mi bod hwn yn ofyniad sylfaenol o ran atebolrwydd a thryloywder a bydd yn galluogi'r Cynulliad, ac, wrth gwrs, y pwyllgor, i graffu ar waith y cynghorydd cenedlaethol yn briodol ar sail yr adroddiad y mae wedi'i osod. Felly, byddwn yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu derbyn y gwelliant cymedrol iawn hwn.

17:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry to disappoint Peter Black, but I do not believe we need amendment 19, because amendment 19 calls, essentially, for an annual report to be laid on the work of the ministerial adviser. Section 22 of the Bill already requires Welsh Ministers to publish every annual report sent to them by the ministerial adviser, and that must contain a statement of the activities of the ministerial adviser in the preceding year. Every other report prepared by the adviser that was mentioned in an approved annual plan must also be published. These reports could be subject to debate and scrutiny within the National Assembly, as has been the case for previous reports on 'The Right to be Safe' strategy.

Mae'n ddrwg gennyf siomi Peter Black, ond nid wyf yn credu bod angen gwelliant 19, oherwydd bod gwelliant 19, yn y bôn, yn galw am osod adroddiad blynyddol ar waith y cynghorydd gweinidogol. Mae Adran 22 o'r Bil eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob adroddiad blynyddol a anfonir atynt gan y cynghorydd gweinidogol, a rhaid i hynny gynnwys datganiad o weithgareddau'r cynghorydd gweinidogol yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid cyhoeddi hefyd pob adroddiad arall y mae'r cynghorydd yn ei baratoi a gafodd ei grybwyll mewn cynllun blynyddol a gymeradwywyd. Gallai'r adroddiadau hyn fod yn destun dadl a phroses graffu yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn yr un modd â'r adroddiadau blaenorol ar y strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel'.

In respect of amendments 60 and 61, these seek to amend the functions of the ministerial adviser, as set out in section 20. Both amendments are unnecessary. The adviser may give advice or assistance to the Welsh Ministers on any matters that assist in their pursuit of the purpose of the Bill. This would include, for example, advice regarding the role of education providers. However, it is not the intention to include an exhaustive list of such matters on the face of the Bill. I therefore ask that Assembly Members resist all the amendments in this group.

O ran gwelliannau 60 a 61, mae'r rhain yn ceisio diwygio swyddogaethau'r cynghorydd gweinidogol, fel y'u nodir yn adran 20. Mae'r ddau welliant yn ddiangen. Caiff y cynghorydd roi cyngor neu gymorth i Weinidogion Cymru ar unrhyw faterion sy'n eu cynorthwyo wrth iddynt fynd ar drywydd diben y Bil. Byddai hyn yn cynnwys cyngor, er enghraifft, ynglŷn â rôl darparwyr addysg. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad cynnwys rhestr gynhwysfawr o faterion o'r fath ar wyneb y Bil. Gofynnaf felly i Aelodau'r Cynulliad wrthod yr holl welliannau yn y grŵp hwn.

17:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies to reply to the debate.

Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

17:50 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I thank Peter for his explanation for his amendment in this group. It seems that the Government assumes support for its own changes while, of course, dismissing assurances sought by others. I can assure the Minister I will be supporting some of his amendments, and I will be rejecting others.

Diolch ichi, Lywydd. Diolch i Peter am ei esboniad o'i welliant yn y grŵp hwn. Mae'n ymddangos bod y Llywodraeth yn cymryd cefnogaeth yn ganiataol ar gyfer ei newidiadau ei hun ac, wrth gwrs, yn diystyru sicrwydd a geisir gan bobl eraill. Gallaf sicrhau'r Gweinidog y byddaf yn cefnogi rhai o'i welliannau, a byddaf yn gwrthod eraill.

17:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 60 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] Object. We'll move to a vote. Open the vote. Close the vote. In favour 14, 11 abstentions and 27 against. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 60 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwn i bleidlais. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 14, 11 yn ymatal a 27 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendment not agreed: For 14, Against 27, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 60.

Result of the vote on amendment 60.

17:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Jocelyn Davies, 61.

Jocelyn Davies, 61.

*Cynigiwyd gwelliant 61 (Jocelyn Davies.)*

*Amendment 61 (Jocelyn Davies) moved.*

17:50 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Amendment 61—yes, please.

Gwelliant 61—ie, os gwelwch yn dda.

17:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 61 be agreed to. Any objections? [Objection.] Objections. Move to a vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions and 26 against. Therefore, I use my casting vote against, so the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 61. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiadau. Symudwn i bleidlais. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, dim ymatal a 26 yn erbyn. Felly, rwyf yn defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn, felly mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 61.

Result of the vote on amendment 61.

17:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Jocelyn Davies, amendment 62.

Jocelyn Davies, gwelliant 62.

*Cynigiwyd gwelliant 62 (Jocelyn Davies.)*

*Amendment 62 (Jocelyn Davies) moved.*

17:51 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Move.

Rwy'n cynnig.

17:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 62 be agreed to. Any objections? [Objection.] Open the vote. Has everyone who wishes to vote voted? Thank you. Close the vote. In favour 26, no abstentions and 26 against. Therefore, I use my casting vote against, and the amendment falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 62. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Agorwch y bleidlais. A yw pawb sy'n dymuno pleidleisio wedi pleidleisio? Diolch yn fawr. Caewch y bleidlais. O blaid 26, dim ymatal a 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn, ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 62.

Result of the vote on amendment 62.

17:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 19.

Peter Black, gwelliant 19.

*Cynigiwyd gwelliant 19 (Peter Black).*

*Amendment 19 (Peter Black) moved.*

17:51

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 19 be agreed to. Are there any objections? [Objection.] Objections. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions and 26 against. Therefore, I use my casting vote and the amendment will therefore fall.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 19. A oes gwrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiadau. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, dim ymatal a 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw, a bydd y gwelliant felly yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 19.

Result of the vote on amendment 19.

17:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 33 to 52 are disposed of en bloc. Does any Member object? [Objection.] Object, okay. So, we start off with No. 33. Minister, 33.

Cynigiaf ein bod yn cael gwared â gwelliannau 33 i 52 gyda'i gilydd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad, iawn. Felly, rydym yn dechrau gyda Rhif 33. Weinidog, 33.

*Cynigiwyd gwelliant 33 (Leighton Andrews.)*

*Amendment 33 (Leighton Andrews) moved.*

17:52

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

17:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. In favour 52, no abstentions, none against. Therefore, that amendment is carried.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 52, dim ymatal, dim yn erbyn. Felly, derbynnir y gwelliant.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 33.

Result of the vote on amendment 33.

17:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, 34.

Weinidog, 34.

*Cynigiwyd gwelliant 34 (Leighton Andrews.)*

*Amendment 34 (Leighton Andrews) moved.*

17:52 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Moved.

Wedi cynnig.

17:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Moved. The proposal is that we—[Interruption.] Any objections? No objections. Therefore, that amendment is agreed. [Interruption.] I'm sorry, was that an objection? No.

Wedi cynnig. Y cynnig yw ein bod— [Torri ar draws.] Unrhyw wrthwynebiadau? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'r gwelliant hwnnw'n cael ei dderbyn. [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, ai gwrthwynebiad oedd hwnnw? Na

*Derbyniwyd gwelliant 34 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 34 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, 35.

Weinidog, 35.

*Cynigiwyd gwelliant 35 (Leighton Andrews.)*

*Amendment 35 (Leighton Andrews) moved.*

17:53 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Any objections to 35? No objections. Therefore, amendment 35 is carried.

Unrhyw wrthwynebiadau i 35? Dim gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 35 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 35 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 35 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, 36.

Weinidog, 36.

*Cynigiwyd gwelliant 36 (Leighton Andrews.)*

*Amendment 36 (Leighton Andrews) moved.*

17:53 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Moved. The motion is that amendment 36 be agreed to. [Objection.] Object. Move to the vote. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions and 26 against. I therefore use my casting vote against and the amendment falls.

Wedi cynnig. Y cynnig yw bod gwelliant 36 yn cael ei dderbyn. [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Symudwn i'r bleidlais. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, dim ymatal a 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 36.

Result of the vote on amendment 36.

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, 37.

Weinidog, 37.

*Cynigiwyd gwelliant 37 (Leighton Andrews.)*

*Amendment 37 (Leighton Andrews) moved.*

17:53

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Move.

Rwy'n cynnig.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

17:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Moved. Does anyone object? [Objection.] Object. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions and 26 against. Therefore, I use my casting vote and the amendment falls.

Wedi cynnig. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, dim ymatal a 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw ac mae'r gwelliant yn methu.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 37.](#)

[Result of the vote on amendment 37.](#)

17:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, 38.

Weinidog, 38.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Cynigiwyd gwelliant 38 (Leighton Andrews.)*

*Amendment 38 (Leighton Andrews) moved.*

17:54

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Moved.

Wedi cynnig.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

17:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Did you move?

A wnaethoch chi gynnig?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

17:54

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Do.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

17:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry. The proposal is that we agree amendment 38. Any objections? [Objection.] Objections. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions and 26 against. Therefore, I use my casting vote against and the amendment falls.

Mae'n ddrwg gennyf. Y cynnig yw ein bod yn derbyn gwelliant 38. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiadau. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, dim ymatal a 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw yn erbyn ac mae'r gwelliant yn methu.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 38.](#)

[Result of the vote on amendment 38.](#)

17:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, 39.

Weinidog, 39.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Cynigiwyd gwelliant 39 (Leighton Andrews.)*

*Amendment 39 (Leighton Andrews) moved.*

17:54

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Moved. The proposal is that we agree amendment 39. Any objections? [Objection.] Objections. Open the vote. Everyone who wishes to vote voted? Close the vote. In favour 25, no abstentions and 26 against. Therefore, the amendment falls.

Wedi cynnig. Y cynnig yw ein bod yn derbyn gwelliant 39. Unrhyw wrthwynebiadau? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiadau. Agorwch y bleidlais. Pawb sy'n dymuno pleidleisio wedi pleidleisio? Caewch y bleidlais. O blaid 25, dim ymatal a 26 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 39.

Result of the vote on amendment 39.

17:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 40.

Weinidog, gwelliant 40.

*Cynigiwyd gwelliant 40 (Leighton Andrews).*

*Amendment 40 (Leighton Andrews) moved.*

17:55

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's been moved. Does anyone object? [Objection.] Objection. Open the vote. Close the vote. In favour 26, no abstentions, 26 against. Therefore, I use my casting vote and the amendment falls.

Mae wedi cael ei gynnig. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 26, dim ymatal, 26 yn erbyn. Felly, rwy'n defnyddio fy mhleidlais fwrw ac mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 40.

Result of the vote on amendment 40.

17:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 41.

Weinidog, gwelliant 41.

*Cynigiwyd gwelliant 41 (Leighton Andrews).*

*Amendment 41 (Leighton Andrews) moved.*

17:55

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Number 41 has been moved. Any objections? Therefore, 41 is agreed.

Mae rhif 41 wedi cael ei gynnig. Unrhyw wrthwynebiadau? Felly, mae 41 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 41 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 41 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, 42. | Weinidog, 42.

*Cynigiwyd gwelliant 42 (Leighton Andrews).* | *Amendment 42 (Leighton Andrews) moved.*

17:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move. | Rwy'n cynnig.

17:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 42 has been moved. Does anyone object? No objections. Therefore, 42 is agreed.

Mae gwelliant 42 wedi cael ei gynnig. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae 42 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 42 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 42 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, 43. | Weinidog, 43.

*Cynigiwyd gwelliant 43 (Leighton Andrews).* | *Amendment 43 (Leighton Andrews) moved.*

17:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. | Rwy'n cynnig.

17:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 43 has been moved. Any objections? Therefore, 43 is agreed.

Mae gwelliant 43 wedi cael ei gynnig. Unrhyw wrthwynebiadau? Felly, mae 43 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 43 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 43 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, 44. | Weinidog, 44.

*Cynigiwyd gwelliant 44 (Leighton Andrews).* | *Amendment 44 (Leighton Andrews) moved.*

17:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move. | Rwy'n cynnig.

17:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 44 has been moved. Any objections? Therefore, amendment 44 is carried.

Mae gwelliant 44 wedi cael ei gynnig. Unrhyw wrthwynebiadau? Felly, mae gwelliant 44 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 44 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 44 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, 45. | Weinidog, 45.

*Cynigiwyd gwelliant 45 (Leighton Andrews).* | *Amendment 45 (Leighton Andrews) moved.*

17:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n symud.

I move.

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch. It's been moved. Does anyone object? Therefore, that amendment is carried.

Diolch. Mae wedi cael ei gynnig. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Felly, derbynnir y gwelliant hwnnw.

*Derbyniwyd gwelliant 45 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 45 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to the next amendment, which is 46. Minister.

Symudwn yn awr at y gwelliant nesaf, sef 46. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 46 (Leighton Andrews).*

*Amendment 46 (Leighton Andrews) moved.*

17:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 46 has been moved. Any objections? No objections. Therefore, amendment 46 is carried.

Mae gwelliant 46 wedi cael ei gynnig. Unrhyw wrthwynebiadau? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 46 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 46 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 46 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to 47. Minister.

Rydym nawr yn symud at 47. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 47 (Leighton Andrews).*

*Amendment 47 (Leighton Andrews) moved.*

17:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n symud eto.

I move again.

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Amendment 47 has been moved. Are there any objections? No objections. Amendment 47 is therefore agreed.

Diolch. Mae gwelliant 47 wedi cael ei gynnig. A oes gwrthwynebiad? Dim gwrthwynebiad. Mae gwelliant 47 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 47 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 47 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to amendment 48. Minister.

Symudwn yn awr at welliant 48. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 48 (Leighton Andrews).*

*Amendment 48 (Leighton Andrews) moved.*

17:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 48 has been moved. Are there any objections? No. Therefore, that one is agreed.

Mae gwelliant 48 wedi cael ei gynnig. A oes gwrthwynebiad? Na. Felly, mae hwnnw yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 48 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 48 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, 49.

Weinidog, 49.

*Cynigiwyd gwelliant 49 (Leighton Andrews).*

*Amendment 49 (Leighton Andrews) moved.*

17:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 49 has been moved. Are there any objections? No objections. Therefore, 49 is agreed.

Mae gwelliant 49 wedi cael ei gynnig. A oes gwrthwynebiad? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae 49 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 49 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 49 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to amendment 50. Minister.

Symudwn yn awr at welliant 50. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 50 (Leighton Andrews).*

*Amendment 50 (Leighton Andrews) moved.*

17:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 50 has been moved. Are there any objections? No objections. Therefore, amendment 50 is agreed.

Mae gwelliant 50 wedi cael ei gynnig. A oes gwrthwynebiad? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 50 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 50 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 50 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to amendment 51. Minister.

Symudwn yn awr at welliant 51. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 51 (Leighton Andrews).*

*Amendment 51 (Leighton Andrews) moved.*

17:57 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 51 has been moved. Are there any objections? Amendment 51 is therefore agreed.

Mae gwelliant 51 wedi cael ei gynnig. A oes gwrthwynebiad? Mae gwelliant 51 yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 51 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 51 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to amendment 52. Minister.

Symudwn yn awr at welliant 52. Weinidog.

*Cynigiwyd gwelliant 52 (Leighton Andrews).*

*Amendment 52 (Leighton Andrews) moved.*

17:57 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move.

Rwy'n cynnig.

17:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Amendment 52 has been moved. Are there any objections? Amendment 52 is therefore agreed.

Mae gwelliant 52 wedi cael ei gynnig. A oes gwrthwynebiad? Mae gwelliant 52 wedi cael ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 52 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 52 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Before we debate group 16, I will suspend proceedings for 15 minutes, in accorance with Standing Order 12.18. I would ask Members to come back. The bell will ring five minutes before we're due to reconvene. Thank you.

Cyn inni drafod grŵp 16, byddaf yn atal trafodion am 15 munud, yn unol â Rheol Sefydlog 12.18. Byddwn yn gofyn i Aelodau ddod yn ôl. Bydd y gloch yn canu bum munud cyn iddi fod yn bryd ailymgynnull. Diolch yn fawr.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 17:57.*

*Plenary was suspended at 17:57.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 18:11, gyda'r Dirprwy Lywydd yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 18:11, with the Deputy Presiding Officer in the Chair.*

18:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order. We now continue our Stage 3 discussion of the Bill.

Trefn. Rydym bellach yn parhau â'n trafodaeth Cyfnod 3 ar y Bil.

## Grŵp 16: Dileu'r Amddiffyniad Cosb Resymol (Gwelliant 66)

## Group 16: Removal of Reasonable Punishment Defence (Amendment 66)

18:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We arrive at group 16, a group that relates to the removal of the reasonable punishment defence. The only amendment in this group is amendment 66. Before I call Julie Morgan to move the amendment, can I just say that I have a great many speakers who wish to be called? I know that this is a matter of considerable public importance, so I will try and call as many people as possible. I will be assisted if you can be as succinct as possible and avoid lengthy repetition of points that have already been made. You can just refer to them as matters you agree and then move on with your substantial points. That will help a lot. I call on Julie Morgan to move and speak to the amendment.

Rydym yn cyrraedd grŵp 16, grŵp sy'n ymwneud â chael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 66. Cyn imi alw ar Julie Morgan i gynnig y gwelliant, a gaf i ddweud bod gennyf lawer iawn o siaradwyr sy'n dymuno cael eu galw? Gwn fod hwn yn fater o bwys cyhoeddus sylweddol, felly byddaf yn ceisio galw cynifer o bobl ag y gallaf. Bydd o gymorth imi os gallwch chi fod mor gryno â phosibl ac osgoi ailadrodd yn hirfaith bwyntiau sydd eisoes wedi cael eu gwneud. Gallwch gyfeirio atynt fel materion yr ydych yn cytuno â nhw ac yna symud ymlaen â'ch pwyntiau sylweddol. Bydd hynny'n help mawr. Rwy'n galw ar Julie Morgan i gynnig a siarad am y gwelliant.

*Cynigiwyd gwelliant 66 (Julie Morgan, gyda chefnogaeth Lindsay Whittle, Jocelyn Davies, Aled Roberts a Christine Chapman).*

*Amendment 66 (Julie Morgan, supported by Lindsay Whittle, Jocelyn Davies, Aled Roberts and Christine Chapman) moved.*

18:12 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I am very pleased to move amendment 66 today, regarding the removal of the defence of reasonable punishment. I would like to thank supporters of this amendment—Christine Chapman, Lindsay Whittle, Jocelyn Davies and Aled Roberts. This is an amendment that has cross-party support, and I actually believe it transcends party politics because this is first and foremost not about party politics. It's about protecting children and finally doing right by the children of Wales. A vote for this amendment today is a vote for all the children of Wales. If you think of the geography of Wales, it is a vote for the children from Holyhead to Cardiff; it's a vote from, in the west, Mwnt—a place very close to my heart—to Welshpool. It's about making Wales an even safer place for children than it already is.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn i gynnig gwelliant 66 heddiw, ynghylch dileu'r amddiffyniad cosb resymol. Hoffwn ddiolch i gefnogwyr y gwelliant hwn—Christine Chapman, Lindsay Whittle, Jocelyn Davies ac Aled Roberts. Mae hwn yn welliant sydd â chefnogaeth drawsbleidiol, ac rwyf wir yn credu ei fod tu hwnt i wleidyddiaeth plaid oherwydd nad yw'n ymwneud yn bennaf â gwleidyddiaeth plaid. Mae'n ymwneud ag amddiffyn plant a thrin plant Cymru'n anrhydeddus o'r diwedd. Mae pleidlais dros y gwelliant hwn heddiw yn bleidlais dros holl blant Cymru. Os ydych chi'n meddwl am ddaearyddiaeth Cymru, mae'n bleidlais dros blant o Gaergybi i Gaerdydd; mae'n bleidlais o, yn y gorllewin, Mwnt—lle sy'n agos iawn at fy nghalon—i'r Trallwng. Mae'n ymwneud â gwneud Cymru'n lle mwy diogel fyth i blant nag ydyw'n barod.

Why do I think that this amendment should be in this Bill? The Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill is the perfect place for an amendment that seeks to prohibit all physical punishment of children. This is a Bill about violence in the family. It is very hard to see how preventing children from being subject to such violence would not fall within the scope of this Bill. It most emphatically does. The Bill, quite rightly, has a focus on violence against women. Thankfully, such violence has been unlawful for many years. But, because of the reasonable punishment defence, which this amendment seeks to remove, children lack equal protection from such violence.

Pam rydw i'n credu y dylai'r gwelliant hwn fod yn y Bil hwn? Y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yw'r lle perffaith ar gyfer gwelliant sy'n ceisio gwahardd pob cosb gorfforol ar gyfer plant. Mae hwn yn Fil ynghylch trais yn y teulu. Mae'n anodd iawn gweld sut na fyddai atal plant rhag bod yn destun trais o'r fath yn dod o fewn cwmpas y Bil hwn. Mae, yn bendant iawn. Mae'r Bil, yn gwbl briodol, yn canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod. Diolch byth, mae trais o'r fath wedi bod yn anghyfreithlon ers blynyddoedd lawer. Ond, oherwydd yr amddiffyniad cosb resymol, y mae'r gwelliant hwn yn ceisio ei ddileu, nid yw plant yn cael eu hamddiffyn i'r un graddau rhag trais o'r fath.

Violent punishment against children is the only form of interpersonal violence permitted in the family, and this will remain lawful if this amendment doesn't pass today. How can we possibly justify saying to children, 'No, it's not right for your Dad to hit your Mum, or your Mum to hit your Dad, but it's okay for either of them to hit you'? It's a ridiculous and inconsistent message. Not only does it not make sense, it also leaves children vulnerable within the home and violates their human rights to respect for their human dignity and physical integrity. These are rights defined in the UN Convention on the Rights of the Child, which we, as an Assembly and as a Government, boldly enshrined into the law in 2011 in the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. It's not a question of just protecting these rights if we happen to feel like it: it is our absolute obligation to protect those rights.

Cosb dreisgar yn erbyn plant yw'r unig fath o drais rhyngbersonol a ganiateir yn y teulu, a bydd hyn yn parhau i fod yn gyfreithlon os na fydd y gwelliant hwn yn pasio heddiw. Sut ar y ddaear y gallwn ni gyfiawnhau dweud wrth blant, 'Na, nid yw'n iawn i'ch Tad daro eich Mam, neu i'ch Mam daro eich Tad, ond mae'n iawn i'r naill neu'r llall ohonynt eich taro chi'? Mae'n neges chwerthinllyd ac anghyson. Nid yw'n gwneud synnwyr, ond mae hefyd yn gadael plant yn agored i niwed yn y cartref ac yn treisio'u hawliau dynol i barch at eu hurddas dynol a'u cyfanrwydd corfforol. Mae'r rhain yn hawliau a ddiffinnir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gwnaethom ni, fel Cynulliad ac fel Llywodraeth, eu corffori'n eofn mewn cyfraith yn 2011 ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Nid yw'n fater o amddiffyn yr hawliau hyn dim ond os ydym yn digwydd bod yn teimlo felly: mae'n rhwymedigaeth absoliwt arnom i amddiffyn yr hawliau hynny.

This is not just about the present harm suffered by children who are physically punished either, but about the future lives of children, too. It's very important, I think, for us in this Assembly here today to recognise the link between the physical punishment of children and domestic abuse. It is well documented. The evidence clearly shows that an individual who has experienced physical punishment of herself or himself as a child is more likely to become either a perpetrator or a victim of domestic abuse. If we're really serious about stopping domestic abuse—and I believe we are with this Bill—we ignore this evidence at our peril. I just think it is essential that it is taken into account.

Nid yw hyn yn ymwneud yn unig â'r niwed presennol a ddioddefir gan blant sy'n cael eu cosbi'n gorfforol ychwaith. Mae hefyd yn ymwneud â bywydau plant yn y dyfodol. Mae'n bwysig iawn, rwy'n meddwl, i ni yn y Cynulliad hwn yma heddiw gydnabod y cysylltiad rhwng cosb gorfforol plant a cham-drin domestig. Mae cryn dystiolaeth. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod unigolyn sydd wedi profi cosb gorfforol ei hun yn blentyn yn fwy tebygol naill ai o gyflawni neu o ddioddef camdriniaeth ddomestig. Os ydym wirioneddol o ddifrif ynglŷn â rhoi'r gorau i gamdriniaeth ddomestig—ac rwy'n credu ein bod ni gyda'r Bil hwn—gwae ni os ydym yn anwybyddu'r dystiolaeth hon. Rwy'n meddwl ei bod yn hanfodol iddi gael ei hystyried.

So, in this Bill, it's not a case of either protecting women in particular from domestic abuse or protecting children. This is a case of both/and—of both protecting women and protecting children. Quite simply, we can do both today, and this would be an enormous step towards the prevention of all forms of violence against individuals, both adults and children. I think we can acknowledge that this is within our power to do. Why do we come here? You know, why do we come here as legislators unless to do what we are able to do?

Felly, yn y Bil hwn, nid yw'n fater o amddiffyn un ai menywod yn arbennig rhag trais domestig neu amddiffyn plant. Mae hwn yn fater o wneud y ddau—amddiffyn menywod ac amddiffyn plant. Yn syml, gallwn wneud y ddau heddiw, a byddai hwn yn gam enfawr tuag at atal pob math o drais yn erbyn unigolion, yn oedolion a phlant. Rwy'n meddwl y gallwn gydnabod bod hyn o fewn ein gallu. Pam rydym ni'n dod yma? Chi'n gwybod, pam rydym ni'n dod yma fel deddfwyr onid i wneud yr hyn y gallwn ei wneud?

I know some people have expressed concerns about what would happen if this amendment were passed today, but what we're looking at here in this amendment is an agreement in principle. We did have a bit of discussion, a bit of a debate, about that earlier in First Minister's questions, which was just referred to now. This is something that both the Welsh Government and the National Assembly have supported for 13 years now, and it's worth noting that when the Welsh Government and Assembly first supported this reform, in 2002, only 12 countries had prohibited the physical punishment of children. Since then, 32 countries have followed suit, making a total of 44 worldwide. Why should the children of Wales be any less protected than children in 44 other countries when we have got the power to do this? If passed, this amendment would only come into force when Ministers decide that it should. This is clear in the commencement arrangements in the Bill. There would be plenty of time to develop guidance in consultation with the public, with all the organisations involved in child protection, all of them strong supporters of this amendment, to make sure that the implementation is in the best interests of children and families. In addition, Wales already has many excellent programmes in place promoting positive, non-violent forms of discipline that work, and those who are leading programmes across Wales want us to pass this amendment today, because the justification of the reasonable punishment defence undermines their work. They all want this amendment to be passed. We have been consulting on this issue since 2000. We've had programmes in place for almost as long. The time has come to agree to the reform now and then to gradually roll it out. Why should the children of Wales wait any longer?

Rwy'n gwybod bod rhai pobl wedi mynegi pryderon am yr hyn a fyddai'n digwydd pe byddai'r gwelliant hwn yn cael ei basio heddiw, ond yr hyn yr ydym yn edrych arno fan hyn yn y gwelliant hwn yw cytundeb mewn egwyddor. Cawsom rywfaint o drafodaeth, rhywfaint o ddadl, am hynny yn gynharach yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog, y cyfeiriwyd ato nawr. Mae hwn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gefnogi ers 13 mlynedd bellach, ac mae'n werth nodi mai dim ond 12 o wledydd a oedd wedi gwahardd cosb gorfforol i blant pan wnaeth Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad gefnogi'r diwygiad hwn gyntaf, yn 2002. Ers hynny, mae 32 o wledydd wedi gwneud yr un peth, gan wneud cyfanswm o 44 ledled y byd. Pam y dylai plant Cymru gael eu diogelu ddim llai na phlant mewn 44 o wledydd eraill pan fo'r pŵer gennym i wneud hyn? Os caiff ei basio, byddai'r gwelliant hwn yn dod i rym dim ond pan fydd Gweinidogion yn penderfynu y dylai. Mae hyn yn amlwg yn y trefniadau cychwyn yn y Bil. Byddai digon o amser i ddatblygu canllawiau mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, â'r holl sefydliadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, pob un ohonynt yn cefnogi'r gwelliant hwn yn gryf, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu er lles gorau plant a theuluoedd. Yn ogystal, mae gan Gymru eisoes lawer o raglenni rhagorol ar waith i hyrwyddo ffurfiau cadarnhaol, di-drais o ddisgyblu sy'n gweithio, ac mae'r rhai sy'n arwain rhaglenni ar draws Cymru am inni basio'r gwelliant hwn heddiw, oherwydd bod cyfiawnhad yr amddiffyniad cosb resymol yn tanseilio eu gwaith. Maent i gyd am i'r gwelliant hwn gael ei basio. Rydym wedi bod yn ymgynghori ar y mater hwn ers 2000. Mae rhaglenni wedi bod ar waith gennym am bron gyn hired. Mae'r amser wedi dod i gytuno i'r diwygio nawr ac yna i'w gyflwyno'n raddol. Pam y dylai plant Cymru aros yn hwy?

I think we can be very proud of what the Assembly and the Welsh Government have done for children. Wales was the first to ban smacking in all early years care, and the first to include violence against children in the definition of domestic violence. In Wales, children are protected from being hit by teachers, by child minders, by local authority foster parents, et cetera, but they are not protected from being hit by their parents. They are also not protected from being hit by private foster carers is, by Sunday school teachers, by teachers in the madrassas. Either we think hitting children is a bad idea or we don't, and we can't have it both ways. How can any of us look children in Wales in the eye while we continue to delay in giving them the same protection from being hit and from being deliberately hurt as we take for granted for ourselves? All this amendment does is to extend to children, the most vulnerable of Welsh citizens, equal legal protection. We don't want to live in a country, I'm sure, where some are more equal than others.

Rwy'n meddwl y gallwn ni fod yn falch iawn o'r hyn y mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i blant. Cymru oedd y cyntaf i wahardd smacio ym mhob darpariaeth gofal y blynyddoedd cynnar, a'r cyntaf i gynnwys trais yn erbyn plant yn y diffiniad o drais domestig. Yng Nghymru, mae plant yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu taro gan athrawon, gan warchodwyr plant, gan rieni maeth awdurdod lleol ac ati, ond nid ydynt yn cael eu diogelu rhag cael eu taro gan eu rhieni. Hefyd, nid ydynt yn cael eu diogelu rhag cael eu taro gan ofalwyr maeth preifat, gan athrawon ysgol Sul, gan athrawon yn y madrasas. Rydym naill ai yn meddwl bod taro plant yn syniad gwael neu nid ydym, ac ni allwn ei chael hi bob ffordd. Sut y gall unrhyw un ohonom edrych ym myw llygad unrhyw blentyn yng Nghymru a pharhau i oedi cyn rhoi'r un amddiffyniad iddynt rhag cael eu taro a rhag cael eu brifo yn fwriadol ag yr ydym yn ei gymryd yn ganiataol i ni ein hunain? Y cyfan y mae'r gwelliant hwn yn ei wneud yw ymestyn amddiffyniad cyfreithiol cyfartal i blant, y rhai mwyaf agored i niwed o ddinasyddion Cymru. Nid ydym am fyw mewn gwlad, rwy'n siŵr, lle mae rhai yn fwy cyfartal nag eraill.

You can say—and many have done so—that you agree in principle that removing the defence of reasonable punishment is the right thing to do but that you don't want to vote for it today, and I regret that we haven't got a free vote within Labour on this issue today. To those who agree with this reform, but who are not planning to vote for it, I would ask this, really: what use is a principle unless you publicly support it and act upon it? What better principle to champion today than one that protects children, respects their rights, and makes their lives better? This amendment is not about us; it's about them.

Gallwch ddweud—ac mae llawer wedi gwneud hynny—eich bod yn cytuno mewn egwyddor mai cael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol yw'r peth iawn i'w wneud, ond nad ydych am bleidleisio drosto heddiw, ac rwy'n gresynu nad oes gennym bleidlais rydd o fewn y Blaid Lafur ar y mater hwn heddiw. I'r rhai sy'n cytuno â'r gwelliant hwn, ond nad ydynt yn bwriadu pleidleisio drosto, byddwn yn gofyn hyn, mewn gwirionedd: pa werth sydd i egwyddor oni bai eich bod yn ei chefnogi ac yn gweithredu yn gyhoeddus yn unol â hi? Pa well egwyddor i'w hyrwyddo heddiw nag un sy'n amddiffyn plant, yn parchu eu hawliau, ac yn gwneud eu bywydau'n well? Nid yw'r gwelliant hwn yn ymwneud â ni; mae'n ymwneud â nhw.

18:20 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm very grateful to contribute to the debate on this amendment, and I have to put on record that I have every respect for Julie Morgan, and all of the other AMs who have expressed support for the amendment publicly. I know that they do so on the basis of principle, and I do not doubt their sincerity. I'm particularly impressed with Julie Morgan and Christine Chapman because, of course, they are going to break a Government whip, and I do think it is a disappointment that, on this sort of issue, there is a whip being imposed on the Labour benches. That's certainly not the case on our benches.

Rwy'n ddiolchgar iawn am gael cyfrannu at y ddadl ar y gwelliant hwn, ac mae'n rhaid imi ddatgan bod gennyf bob parch at Julie Morgan, a phob un o'r ACau eraill sydd wedi mynegi cefnogaeth i'r gwelliant yn gyhoeddus. Rwy'n gwybod eu bod yn gwneud hynny ar sail egwyddor, ac nid wyf yn amau eu didwylledd. Rwy'n edmygus iawn o Julie Morgan a Christine Chapman oherwydd eu bod, wrth gwrs, yn mynd i dorri chwip y Llywodraeth, ac rwy'n meddwl ei bod yn siom, ar y math hwn o fater, bod chwip yn cael ei gosod ar feinciau'r Blaid Lafur. Nid yw hynny'n sicr yn wir ar ein meinciau ni.

That said, I am obviously going to express that I cannot support the amendment that is before us, which would of course result in a smacking ban here in Wales. Let's not forget that smacking is used on a widespread basis. It's a method of discipline that is used by the majority of parents in Wales, across all cultures and across all generations. A YouGov poll that was published today to coincide with today's debate reported that 68% of respondents had personally smacked their children. I ask us this question today: do we really want to stigmatise large numbers of people across Wales through the introduction of a smacking ban? I don't. The imposition of a ban would criminalise tens of thousands of decent, loving parents who use physical chastisement as a means of disciplining their children and teaching them to respect boundaries—often with the safety of those children in mind. So, instead of dictating to parents how they should discipline their children, I think that we need to give parents some credit for what they do and support them in their parenting roles. The reality is that the overwhelming majority of parents across Wales know where to draw the line between chastisement and abuse, and we should trust their judgment. I think that parents are best placed to care for their children, not the Government, and politicians should not be telling parents how to raise their children.

Wedi dweud hynny, rwy'n amlwg yn mynd i fynegi na allaf gefnogi'r gwelliant sydd ger ein bron, a fyddai wrth gwrs yn arwain at waharddiad smacio yma yng Nghymru. Gadewch inni beidio ag anghofio bod smacio'n cael ei ddefnyddio'n eang. Mae'n ddull o ddisgyblaeth sy'n cael ei ddefnyddio gan y rhan fwyaf o rieni yng Nghymru, ar draws pob diwylliant ac ar draws pob cenhedlaeth. Adroddodd arolwg YouGov a gyhoeddwyd heddiw i gyd-fynd â dadl heddiw fod 68% o'r ymatebwyr wedi smacio eu plant yn bersonol. Rwy'n gofyn y cwestiwn hwn inni heddiw: ydym ni wir eisiau stigmateiddio nifer fawr o bobl ar draws Cymru drwy gyflwyno gwaharddiad ar smacio? Nid wyf i. Byddai gwaharddiad yn gwneud troseddwyr o ddegau o filoedd o rieni gweddus, cariadus sy'n defnyddio cosb gorfforol fel ffordd o ddisgyblu eu plant a'u dysgu i barchu ffiniau—yn aml gyda diogelwch y plant hynny mewn golwg. Felly, yn hytrach na gorchymyn i rieni sut y dylent ddisgyblu eu plant, credaf fod angen inni roi rhywfaint o gydnabyddiaeth i rieni am yr hyn maent yn ei wneud a'u cefnogi yn eu swyddogaeth fel rhieni. Y gwir amdani yw bod y mwyafrif llethol o rieni ledled Cymru yn gwybod ble i dynnu'r llinell rhwng cerydd a cham-drin, a dylem ymddiried yn eu barn. Credaf mai rhieni sydd yn y sefyllfa orau i ofalu am eu plant, nid y Llywodraeth, ac ni ddylai gwleidyddion ddweud wrth rieni sut i fagu eu plant.

So, instead of dictating, instead of stigmatising parents who smack, we should instead be promoting alternatives to smacking. Julie Morgan made reference to some of the alternatives that are out there, and there are organisations that have a wealth of resources that we can tap into, including a home-grown organisation just up the road in Taff's Well, Care for the Family, which produces some fantastic resources that are put to good use across the country. We should be partnering, I think, as a National Assembly, as the Welsh Government in terms of the Welsh Government benches, and indeed local authorities, with organisations like Care for the Family and others to support them in their efforts to promote positive parenting techniques and alternatives to smacking for discipline.

Felly, yn hytrach na gorchymyn, yn hytrach na stigmateiddio rhieni sy'n smacio, dylem yn lle hynny fod yn hybu dewisiadau heblaw smacio. Cyfeiriodd Julie Morgan at rai o'r dewisiadau eraill sydd ar gael, ac mae sefydliadau'n bodoli sydd â chyfoeth o adnoddau y gallwn fanteisio arnynt, gan gynnwys sefydliad brodorol ychydig i fyny'r ffordd yn Ffynnon Taf, Care for the Family, sy'n cynhyrchu adnoddau gwych sy'n cael eu rhoi i ddefnydd da ledled y wlad. Dylem fod yn gweithio mewn partneriaeth, rwy'n meddwl, fel Cynulliad Cenedlaethol, fel Llywodraeth Cymru o ran meinciau Llywodraeth Cymru, ac yn wir awdurdodau lleol, gyda sefydliadau fel Caer for the Family ac eraill i'w cefnogi yn eu hymdrechion i hyrwyddo technegau rhianta cadarnhaol a dewisiadau heblaw smacio ar gyfer disgyblaeth.

Wales doesn't need a ban on smacking to prevent child abuse. There is comprehensive legislation that is already in place to protect children, and indeed reference was made to it by the opening speaker on this amendment. Those who fall foul of the law of course should face the full weight of the criminal justice system, and face the consequences of their action, and indeed many people have. Many people have been locked up as a result of child abuse, and cases are still going through the courts at the moment.

Nid oes ar Gymru angen gwaharddiad ar smacio i atal cam-drin plant. Mae deddfwriaeth gynhwysfawr eisoes ar waith i amddiffyn plant, ac yn wir cyfeiriwyd ati gan y siaradwr agoriadol ar y gwelliant hwn. Dylai'r rhai sy'n torri'r gyfraith wrth gwrs wynebu pwysau llawn y system cyfiawnder troseddol, ac wynebu canlyniadau eu gweithredoedd, ac yn wir mae llawer o bobl wedi gwneud hynny. Mae llawer o bobl wedi cael eu rhoi dan glo o ganlyniad i gam-drin plant, ac mae achosion yn dal i fynd drwy'r llysoedd ar hyn o bryd.

Let's not forget either that child abuse is not confined to physical abuse. Excessive use of other forms of discipline, such as locking a child into a room, or ignoring children for long periods of time, can also be abusive and cause long-term harm and damage to children. So, I believe that the law in this area works very well already and is being used successfully to prosecute parents, guardians and others who abuse children in their care.

Gadewch inni beidio ag anghofio chwaith nad yw cam-drin plentyn yn cael ei gyfyngu i gam-drin corfforol. Gall defnydd gormodol o ffurfiau eraill o ddisgyblaeth, megis cloi plentyn mewn ystafell, neu anwybyddu plant am gyfnodau hir o amser, hefyd fod yn fath o gamdriniaeth ac achosi difrod a niwed hirdymor i blant. Felly, rwy'n credu bod y gyfraith yn y maes hwn yn gweithio'n dda iawn yn barod ac yn cael ei defnyddio'n llwyddiannus i erlyn rhieni, gwarcheidwaid ac eraill sy'n cam-drin plant yn eu gofal.

Finally, in closing, if I can just say that we have no public mandate to introduce a smacking ban. Not one of the parties represented in this Chamber had within their manifesto for the 2007 Assembly election any commitment to introduce a smacking ban. I have not received a single e-mail in support of a smacking ban from any constituent of mine in the run-up to this debate this afternoon. I've received many telling me to vote against the ban, but not one person who is a constituent has contacted me to say that they support a ban. It's never been raised on the doorstep. I can hear the bleating from some, but it's never been raised on the doorstep with me as being an important issue. We have to respect the views of our constituents—we're here to represent their views. That is our job. We are elected representatives. The YouGov poll that was published today was very, very clear that an overwhelming majority of people in Wales do not want to see a ban: 72% of people in Wales do not want to see a ban, and they think that it should continue to be legal for parents to use their own judgment in terms of smacking.

Yn olaf, wrth gloi, os caf fi ddweud nad oes gennym fandad gan y cyhoedd i gyflwyno gwaharddiad ar smacio. Nid oedd gan yr un o'r pleidiau a gynrychiolir yn y Siambr hon unrhyw ymrwymiad i gyflwyno gwaharddiad ar smacio o fewn eu maniffesto ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2007. Nid wyf wedi derbyn yr un e-bost i gefnogi gwaharddiad ar smacio gan unrhyw un o fy etholwyr yn y cyfnod yn arwain at y ddadl y prynhawn yma. Rwyf wedi derbyn llawer yn dweud wrthyf am bleidleisio yn erbyn y gwaharddiad, ond nid oes yr un person sy'n etholwr wedi cysylltu â mi i ddweud eu bod yn cefnogi gwaharddiad. Nid oes neb erioed wedi ei godi ar garreg y drws. Gallaf glywed y cwyno gan rai, ond nid oes neb erioed wedi ei godi ar garreg y drws gyda mi fel mater pwysig. Mae'n rhaid inni barchu barn ein hetholwyr—rydym yma i gynrychioli eu barn. Dyna ein gwaith. Rydym yn gynrychiolwyr etholedig. Roedd arolwg YouGov a gyhoeddwyd heddiw yn glir iawn, iawn nad yw'r mwyafrif llethol o bobl yng Nghymru am weld gwaharddiad: nid yw 72% o bobl Cymru am weld gwaharddiad, ac maent yn credu y dylai barhau i fod yn gyfreithlon i rieni ddefnyddio eu barn eu hunain o ran smacio.

So, I welcome this debate but I do feel that, instead of criminalising decent, loving parents the length and breadth of Wales, we should be acknowledging what a difficult job they have in raising children. Instead of criminalising them, we should offer them support. We should partner with them so that they can be the very best parents that it's possible to be. I urge all Members to vote against the amendment before us.

Felly, rwy'n croesawu'r ddadl hon, ond rwy'n teimlo, yn hytrach na gwneud rhieni gweddus, cariadus ar hyd a lled Cymru yn droseddwyr, dylem fod yn cydnabod gwaith mor anodd sydd ganddynt wrth fagu plant. Yn lle eu gwneud yn droseddwyr, dylem gynnig cefnogaeth iddynt. Dylem weithio mewn partneriaeth â nhw er mwyn iddyn nhw fod y rhieni gorau y mae'n bosibl iddyn nhw fod. Rwy'n annog pob Aelod i bleidleisio yn erbyn y gwelliant ger ein bron.

18:25

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If I were to adequately describe how important this amendment is to me, I'd win the crown and the chair at the next National Eisteddfod. In supporting this amendment, I want to say that I fully support the landmark decisions made by the Welsh Government: the decision to impose a charge on plastic bags to protect the environment; the decision to ban smoking in public buildings in order to protect people from the danger of passive smoking; and now a ban on smoking in cars carrying children to protect them against the health hazards of passive smoking—all very worthy landmark decisions made by the Welsh Government. Today, today, in this amendment, we are urging this Assembly to make another landmark decision to protect children from being hit by parents. Remove that defence of reasonable punishment.

Pe bawn i'n disgrifio'n ddigonol pa mor bwysig yw'r gwelliant hwn i mi, byddwn i'n ennill y goron a'r gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol nesaf. Wrth gefnogi'r gwelliant hwn, hoffwn ddweud fy mod yn llwyr gefnogi'r penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru sydd wedi torri tir newydd: y penderfyniad i godi tâl am fagiau plastig i warchod yr amgylchedd; y penderfyniad i wahardd ysmygu mewn adeiladau cyhoeddus er mwyn amddiffyn pobl rhag y perygl o ysmygu goddefol; a nawr gwaharddiad ar ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant i'w hamddiffyn rhag peryglon iechyd ysmygu goddefol—pob un yn benderfyniad teilwng iawn a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac a dorrodd dir newydd. Heddiw, heddiw, yn y gwelliant hwn, rydym yn annog y Cynulliad hwn i wneud penderfyniad arall sy'n torri tir newydd, sef amddiffyn plant rhag cael eu taro gan rieni. Dileewch yr amddiffyniad cosb resymol hwnnw.

So, what then are the objections to this amendment? Well, the official line is that it threatens the passing of the Bill. How can it? How can it? When we introduced this amendment during the debate on the social services and wellbeing Bill, we were told it was not the right Bill to consider such an amendment and there would be another opportunity to introduce it. Well, here we are. Here we are. This Bill is not just about protecting women against violence; it's about domestic abuse, and hitting children is, without doubt, a form of domestic abuse.

Felly, beth yw'r gwrthwynebiadau i'r gwelliant hwn? Wel, y fersiwn swyddogol yw ei fod yn bygwth ein gallu i basio'r Bil. Sut y gall o? Sut y gall o? Pan wnaethom ni gyflwyno'r gwelliant hwn yn ystod y ddadl ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol a llesiant, dywedwyd wrthym nad hwnnw oedd y Bil iawn ar gyfer ystyried gwelliant o'r fath ac y byddai cyfle arall i'w gyflwyno. Wel, dyma ni. Dyma ni. Nid yw'r Bil hwn yn ymwneud yn unig ag amddiffyn menywod rhag trais; mae'n ymwneud â cham-drin domestig, ac mae taro plant, heb amheuaeth, yn fath o gam-drin domestig.

Another objection we've just heard is one about parental rights. What about the children's rights? What about conforming to the United Nations' demands that children have the right not to be hit? Despite some people's arguments, there is overwhelming evidence that hitting children inevitably leads to those children accepting that violence is an acceptable method of getting your own way. Their parents did it, so that's okay. What about the fear that, with elections not far off, a ban on parental rights to physically discipline their children will not go down well with potential voters? Well, lots of potential voters didn't want to be banned from smoking in pubs, but now they accept it. Lots of potential voters didn't want to use seat belts, but now that's fine.

Gwrthwynebiad arall yr ydym newydd ei glywed yw'r un am hawliau rhieni. Beth am hawliau plant? Beth am gydymffurfio â galwadau'r Cenhedloedd Unedig bod gan blant yr hawl i beidio â chael eu taro? Er gwaethaf dadleuon rhai pobl, mae tystiolaeth enfawr bod taro plant yn anochel yn achosi i'r plant hynny dderbyn bod trais yn ddull derbyniol o gael eich ffordd eich hun. Roedd eu rhieni'n gwneud hynny, felly mae popeth yn iawn. Beth am yr ofn, ag etholiadau heb fod ymhell i ffwrdd, na fydd gwaharddiad ar hawliau rhieni i ddisgyblu eu plant yn gorfforol yn cael croeso gan ddarpar bleidleiswyr? Wel, roedd llawer o ddarpar bleidleiswyr ddim eisiau cael eu gwahardd rhag ysmygu mewn tafarnau, ond erbyn hyn maent yn ei dderbyn. Nid oedd llawer o ddarpar bleidleiswyr am ddefnyddio gwregysau diogelwch, ond nawr mae hynny'n iawn.

There are times, Dirprwy Lywydd, when elected politicians should also have the right to vote according to what they believe is morally right and not just do what they are told to do and how to vote. I've been in elected public office—and you've heard me say this before—for close on 40 years, and it's my experience that people admire politicians who have the courage of their convictions. When you all examine your political life and reflect, will you be in a position to say, 'I did it because it was the right thing to do'? This week, the actor Michael Sheen said—and I'm quoting:

Mae adegau, Ddirprwy Lywydd, pryd y dylai gwleidyddion etholedig hefyd gael yr hawl i bleidleisio yn ôl yr hyn y maent yn credu sy'n foesol gywir ac nid dim ond gwneud yr hyn y dywedir wrthynt am ei wneud a sut y dywedir wrthynt am bleidleisio. Rwyf wedi bod mewn swydd gyhoeddus etholedig—ac rydych wedi fy nghlywed yn dweud hyn o'r blaen—am yn agos at 40 mlynedd, a fy mhrofiad i yw bod pobl yn edmygu gwleidyddion sy'n barod i sefyll dros eu hegwyddorion. Pan fyddwch i gyd yn archwilio eich bywyd gwleidyddol ac yn myfyrio, a fyddwch chi mewn sefyllfa i ddweud, 'Fe wnes i hynny oherwydd mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud'? Yr wythnos hon, ddywedodd yr actor Michael Sheen—ac rwy'n dyfynnu:

'Nye Bevan had cast iron integrity. He made no bones about how he felt. Politicians are today scared of alienating and upsetting part of the electorate. There is never an excuse not to stand up and say what you believe.'

Roedd gan Nye Bevan uniondeb cadarn fel dur. Nid oedd yn petruso rhag dangos sut roedd yn teimlo. Mae ar wleidyddion heddiw ofn dieithrio ac achosi gofid i ran o'r etholaeth. Nid oes fyth esgus dros beidio â sefyll i fyny a dweud beth yw eich barn.

End of Michael Sheen quote. Well, stand up for our children. I've said it before in this Chamber, where Wales leads, Scotland, England and Northern Ireland will surely follow. Dirprwy Lywydd, years ago, when this issue came before the Assembly on two occasions, that is exactly what happened, and a motion to withdraw the reasonable punishment clause was overwhelmingly supported with a free vote. Please do not turn this Senedd into nothing more than a talking shop. This shouldn't be a party matter. I know that the Welsh Government and all Members of this Assembly have, as one of their most important priorities, the need to protect vulnerable people: the elderly, women, disabled people. I beg you—I beg you, why not children? In the name of the child, act now.

Diwedd dyfyniad Michael Sheen. Wel, sefwch dros ein plant. Rwyf wedi dweud o'r blaen yn y Siambr hon, lle mae Cymru'n arwain, bydd yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn sicr o ddilyn. Ddirprwy Lywydd, flynyddoedd yn ôl, pan ddaeth y mater hwn gerbron y Cynulliad ar ddau achlysur, dyna'n union a ddigwyddodd, a chafodd y cynnig i ddileu'r cymal cosb resymol ei gefnogi gan fwyafrif llethol â phleidlais rydd. Peidiwch â throi'r Senedd hon yn ddim mwy na siop siarad. Ni ddylai hwn fod yn fater pleidiol. Gwn mai un o flaenoriaethau pwysicaf Llywodraeth Cymru a phob Aelod o'r Cynulliad hwn yw'r angen i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed: yr henoed, menywod, pobl anabl. Erfyniaf arnoch—erfyniaf arnoch, pam ddim plant? Yn enw'r plentyn, gweithredwch yn awr.

18:30

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will be brief. I will be speaking today against amendment 66, and can I say that I would be voting against amendment 66 today with or without a free vote for the Labour group? I also speak as someone who has always supported the need to reach a point where we can end the defence of reasonable punishment for children; where I differ from the people who have tabled this amendment today is how we actually get there. And I do respect the views of my colleagues, but, as I say, I do differ from them as to how we reach that point. I do feel strongly that it is not the right thing to do to tag an issue of this enormity onto another piece of legislation like this. There has been very little direct consultation with the public on an issue that is enormously contentious. Whatever the wording of the Bill, this is seen by the public as the introduction of a smacking ban and, as such, is worthy of a genuine, open consultation with the public in Wales—not just the groups that we asked about it in the consultation on the Social Services and Well-being (Wales) Bill or whatever groups were asked about it in the consultation on this piece of legislation. My preference is to see a free-standing piece of legislation on this, so that we can have that genuine consultation.

Byddaf yn gryno. Byddaf yn siarad heddiw yn erbyn gwelliant 66 ac a gaf i ddweud y byddwn yn pleidleisio yn erbyn gwelliant 66 heddiw pe byddai gan grŵp Llafur bleidlais rydd ai peidio? Rwyf hefyd yn siarad fel rhywun sydd bob amser wedi cefnogi'r angen i gyrraedd y pwynt pryd y gallwn gael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol ar gyfer plant; yr hyn sy'n wahanol rhyngof i a'r bobl sydd wedi cyflwyno'r gwelliant hwn heddiw yw sut i gyrraedd y pwynt hwnnw. Ac rwy'n parchu barn fy nghydweithwyr ond, fel y dywedais, rwy'n wahanol iddynt o ran sut mae cyrraedd y pwynt hwnnw. Rwy'n teimlo'n gryf nad y peth iawn i'w wneud yw atodi mater mor anferth â hwn i ddarn arall o ddeddfwriaeth fel hyn. Ni fu rhyw lawer o ymgynghori uniongyrchol â'r cyhoedd ar fater sy'n hynod ddadleuol. Beth bynnag yw geiriad y Bil, mae'r cyhoedd yn gweld hyn fel cyflwyno gwaharddiad ar smacio ac, fel y cyfryw, mae'n deilwng o ymgynghoriad gwirioneddol, agored â'r cyhoedd yng Nghymru—nid dim ond y grwpiau y gwnaethom ni eu holi am y peth yn yr ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) neu ba bynnag grwpiau a holwyd am y peth yn yr ymgynghoriad ar y darn hwn o ddeddfwriaeth. Fy newis i yw gweld darn o ddeddfwriaeth annibynnol ar y mater hwn, er mwyn inni allu cael yr ymgynghoriad dilys hwnnw.

My other major concern is that this is a groundbreaking piece of legislation that aims to tackle violence against women and girls, and I do have concerns that, by tabling this amendment today, we are conflating violence against women with a practice that, in many families, is seen as a loving part of family life and a way of disciplining children that has been acceptable for a long time—not always, but I am concerned about the message that we are sending there by conflating these two issues. But, above all, I am concerned that we are jeopardising this vital piece of legislation by including this amendment. I don't know if it'll be referred to the Supreme Court, but I am not prepared to take the risk on this. For me, this is about ending violence against women in Wales, it is about doing right by the two women who die every week at the hands of their partner in the UK, and it would be completely wrong, as far as I'm concerned, to risk that legislation today. So, I will be voting against amendment 66 today and I am quite happy that, by my conscience, I am doing the right thing by doing so.

Fy mhryder mawr arall yw bod hwn yn ddarn arloesol o ddeddfwriaeth sy'n ceisio mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, ac mae gennyf bryderon ein bod, trwy gyflwyno'r gwelliant hwn heddiw, yn cyfuno trais yn erbyn menywod ag arfer sy'n cael ei weld, mewn llawer o deuluoedd, yn rhan gariadus o fywyd teuluol ac yn ffordd o ddisgyblu plant sydd wedi bod yn dderbyniol am amser hir —nid bob amser, ond rwy'n pryderu am y neges yr ydym yn ei chyfleu drwy gyfuno'r ddau fater. Ond, yn anad dim, rwy'n pryderu ein bod yn peryglu'r darn hanfodol hwn o ddeddfwriaeth drwy gynnwys y gwelliant hwn. Nid wyf yn gwybod a fydd yn cael ei gyfeirio at y Goruchaf Lys, ond nid wyf yn barod i fentro yn hyn o beth. I mi, mae hyn yn ymwneud â rhoi diwedd ar drais yn erbyn menywod yng Nghymru, mae'n fater o drin yn anrhydeddus y ddwy fenyw sy'n marw bob wythnos wrth law eu partner yn y DU, a byddai'n gwbl anghywir, o'm safbwynt i, i beryglu'r ddeddfwriaeth honno heddiw. Felly, byddaf yn pleidleisio yn erbyn gwelliant 66 heddiw, ac rwy'n eithaf bodlon, yn ôl fy nghydwybod, fy mod yn gwneud y peth iawn drwy wneud hynny.

18:32

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have to agree with Julie Morgan; I think this Bill is the right vehicle to introduce this amendment. Of course, this isn't the first occasion when we've been told that a Bill is not the right vehicle. I have to say that I would have a bit more sympathy with the view expressed by Lynne Neagle had the Government actually brought legislation forward in this Assembly to actually deal with this particular instance, but it appears that there is reluctance for them to introduce any measures by way of a free-standing statute and, yet, whenever there is any attempt to introduce an amendment, whether in the social services Bill or, in fact, this Bill here today, we're told the reasons why it can't be introduced.

Mae'n rhaid imi gytuno â Julie Morgan; rwy'n credu mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng iawn i gyflwyno'r gwelliant hwn. Wrth gwrs, nid dyma'r tro cyntaf inni gael gwybod nad y Bil yw'r cyfrwng cywir. Mae'n rhaid imi ddweud y byddai gennyf ychydig yn fwy o gydymdeimlad â'r farn a fynegwyd gan Lynne Neagle pe byddai'r Llywodraeth mewn gwirionedd wedi cyflwyno deddfwriaeth yn y Cynulliad hwn i fynd i'r afael go iawn â'r mater penodol hwn, ond mae'n ymddangos eu bod yn amharod i gyflwyno unrhyw fesurau ar ffurf statud annibynnol ac, eto, pryd bynnag y ceir unrhyw ymgais i gyflwyno gwelliant, boed yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol neu, yn wir, yn y Bil hwn yma heddiw, rydym yn cael clywed y rhesymau pam na ellir ei gyflwyno.

I have to say, it appears to quite a few of us that it's an excuse, because we know full well that the majority of you on the Labour benches—as expressed on a number of occasions, and perhaps more easily expressed when you claimed that you didn't have the power to actually introduce this removal of the defence—. It's very easy to actually pretend that you're in favour of something when you don't have the power to do anything about it. The actual measure of a good Government is that you do something when you've actually got the power to address that situation.

Rhaid imi ddweud, mae'n ymddangos i nifer ohonom mai esgus yw hyn, gan ein bod yn gwybod yn iawn bod y rhan fwyaf ohonoch ar feinciau'r Blaid Lafur—fel a fynegwyd ar sawl achlysur, ac efallai wedi'i fynegi'n haws pan oeddech yn honni nad oedd gennych y pŵer mewn gwirionedd i ddileu'r amddiffyniad—. Mae'n hawdd iawn esgus eich bod o blaid rhywbeth pan nad oes gennych y pŵer i wneud dim am y peth. Y mesur gwirioneddol o Lywodraeth dda yw eich bod yn gwneud rhywbeth pan fod y pŵer gennych mewn gwirionedd i fynd i'r afael â'r sefyllfa honno.

I have to say that all the evidence I've heard—. I actually started off as an Assembly Member thinking the same as the views expressed by Lynne Neagle initially, because I felt at the time that it didn't make sense, but why then have we now got 44 countries that have assumed their responsibility under the UNCRC? We, mealy mouthed, are saying that we accept the UNCRC into Welsh law, yet when we have the opportunity to do something about it, we actually wring our hands, because that is what we are doing here today.

Rhaid imi ddweud bod yr holl dystiolaeth yr wyf wedi ei chlywed—. Fe ddechreuais fel Aelod Cynulliad yn meddwl yr un fath â'r farn a fynegwyd gan Lynne Neagle i ddechrau, oherwydd fy mod yn teimlo ar y pryd nad oedd yn gwneud synnwyr, ond pam felly bod gennym nawr 44 o wledydd sydd wedi derbyn eu cyfrifoldeb o dan y Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn? Rydym ni, yn wenieithus, yn dweud ein bod yn derbyn y Confensiwn i gyfraith Cymru, ac eto pan fyddwn yn cael y cyfle i wneud rhywbeth am y peth, rydym yn gwasgu ein dwylo, oherwydd mai dyna beth rydym ni'n ei wneud yma heddiw.

I have to say, Darren Millar, there are occasions when the law does intervene. You may suggest that it is not right for a legislature to actually, sort of, interfere in family life, but the very situation that you spoke about is a situation where the law now states that it won't actually accept the situation where a child is locked in a room for a number of hours—

Rhaid imi ddweud, Darren Millar, mae adegau pan fydd y gyfraith yn ymyrryd. Fe allech awgrymu nad yw'n iawn i ddeddfwrfa mewn gwirionedd ymyrryd, mewn ffordd, mewn bywyd teuluol, ond mae'r union sefyllfa yr oeddech yn siarad amdani yn sefyllfa lle mae'r gyfraith bellach yn datgan na fydd mewn gwirionedd yn derbyn y sefyllfa lle mae plentyn yn cael ei gloi mewn ystafell am nifer o oriau—

*Darren Millar a gododd—*

*Darren Millar rose—*

18:35

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

No, I haven't got sufficient time, I'm afraid.

Na, nid oes digon o amser, yn anffodus.

The law now says that it won't actually accept that situation. There are numerous occasions when we have to accept that the purpose of the law is to intervene and to say that things are not right and things are not acceptable. The reality is that a lot of these arguments would have been espoused in exactly the same way about the right of a man to actually hit his wife in years gone by, yet because we say that children have different rights to adults, we allow this reasonable chastisement defence. I can see, as a parent, as a parent who has actually at times lost control and hit my child, I now accept that I was in the wrong. [Interruption.] I listened to you, Darren Millar, when you were speaking, so perhaps you would give me the courtesy of listening to me.

Mae'r gyfraith nawr yn dweud na fydd mewn gwirionedd yn derbyn y sefyllfa honno. Mae'n rhaid inni dderbyn mai pwrpas y gyfraith, ar nifer o achlysuron, yw ymyrryd a dweud nad yw pethau yn iawn ac nad yw pethau'n dderbyniol. Y realiti yw y byddai llawer o'r dadleuon hyn wedi cael eu harddel yn union yr un ffordd am hawl dyn mewn gwirionedd i daro ei wraig yn y blynyddoedd a fu, ond oherwydd ein bod yn dweud bod gan blant hawliau gwahanol i oedolion, rydym yn caniatáu'r amddiffyniad hwn o gosbedigaeth resymol. Gallaf weld, fel rhiant, fel rhiant sydd mewn gwirionedd ar adegau wedi colli rheolaeth ac wedi taro fy mhlentyn, rwyf nawr yn derbyn fy mod yn anghywir.[Torri ar draws.] Gwrandewais arnoch chi, Darren Millar, pan oeddech chi'n siarad, felly efallai y byddech yn dangos cwrteisi a gwrando arnaf i.

It is a conscience issue, and that's why we have a free vote on this side. I've looked at my own conscience and I've actually come to the conclusion—. I did, actually, have people corresponding with me on the previous occasion when it was being discussed within the social services Bill; I haven't on this occasion. But another thing that saddened me was that those people were from one particular grouping in society and, as a practising Christian, I thought that it was very wrong for those individuals to actually suggest to me that it was their religious right to hit their child. I disagree; I have the right to disagree and I have the right to stand here and vote accordingly.

Mae'n fater o gydwybod, a dyna pam mae gennym bleidlais rydd ar yr ochr hon. Rwyf wedi edrych ar fy nghydwybod fy hun ac rwyf wedi dod i'r casgliad—. Fe wnaeth pobl, mewn gwirionedd, gyfathrebu â mi ar achlysur blaenorol pan oedd yn cael ei drafod o fewn y Bil gwasanaethau cymdeithasol; nid oes neb wedi gwneud ar yr achlysur hwn. Ond peth arall wnaeth fy nhristáu oedd bod y bobl hynny'n dod o un grŵp penodol yn y gymdeithas ac, fel Cristion mewn gair a gweithred, roeddwn yn meddwl ei bod yn anghywir iawn i'r unigolion hynny awgrymu i mi bod ganddynt hawl crefyddol i daro eu plentyn. Rwy'n anghytuno; mae gennyf hawl i anghytuno ac mae gennyf yr hawl i sefyll yma a phleidleisio yn unol â hynny.

18:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I do expect this debate to be conducted with passion, because it's a very, very important subject, but we need to be courteous to both sides. Generous hearts can take a very different view on this matter, so I do urge you to be as courteous as possible whilst expressing your strongly held views.

Rwy'n disgwyl i'r ddadl hon gael ei chynnal ag angerdd, oherwydd ei fod yn bwnc pwysig iawn, iawn, ond mae angen inni fod yn gwrtais i'r ddwy ochr. Gall calonnau weld y mater hwn mewn ffyrdd gwahanol iawn, felly rwy'n eich annog i fod mor gwrtais â phosibl ond gan fynegi eich barn gref ar yr un pryd.

18:37 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I too will be opposing this amendment, and I will be opposing it for two reasons. One of the reasons is the reason that I supported Peter Black's amendment earlier in the day: education has an absolutely key role to play here, and I think that much can be achieved through education that hasn't been achieved already through the system. It's quite clear from the Minister's response that, despite all the powers that Estyn have and all the other matters that he outlined in his response to Peter Black's amendment, they haven't actually been used and they haven't actually been applied.

Wel, byddaf innau hefyd yn gwrthwynebu'r gwelliant hwn, a byddaf yn gwrthwynebu am ddau reswm. Un o'r rhesymau yw'r rheswm fy mod wedi cefnogi gwelliant Peter Black yn gynharach: mae gan addysg rôl gwbl allweddol i'w chwarae yma, ac rwy'n meddwl y gellir cyflawni llawer drwy addysg sydd heb gael ei gyflawni eisoes drwy'r system. Mae'n eithaf clir o ymateb y Gweinidog, er gwaethaf yr holl bwerau sydd gan Estyn a'r holl faterion eraill a amlinellodd yn ei ymateb i welliant Peter Black, nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith mewn gwirionedd ac nad ydynt wedi cael eu defnyddio mewn gwirionedd.

The reality is that violence against children that causes bruising, a scratch—anything more than a temporary reddening of the skin—is already illegal. Violence, beating, battery, assault occasioning actual bodily harm—anything in that context is already illegal. What the reasonable chastisement defence allows the police and social services to do is to put a slap—and, by that, I mean a tap; something that causes nothing more than a temporary mark on the skin—into context and to look at why the parent administered that slap. If you remove the reasonable chastisement defence, you create a strict liability offence, which means that that parent is automatically criminalised for a slap. I think that that is wrong; I think it's unjustifiable. There is already protection for children against violence and abuse in a way that is not acceptable to us in society. So, I will be voting against this.

Y realiti yw bod trais yn erbyn plant sy'n achosi cleisio, crafiad—unrhyw beth mwy na gwneud i'r croen gochi dros dro—eisoes yn anghyfreithlon. Mae trais, curo, curfa, ymosodiad yn achosi gwir niwed corfforol—unrhyw beth yn y cyd-destun hwnnw eisoes yn anghyfreithlon. Yr hyn y mae'r amddiffyniad cosb resymol yn caniatáu i'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ei wneud yw rhoi slap—a, gan hynny, rwy'n golygu tap; rhywbeth sy'n achosi dim byd mwy na marc dros dro ar y croen—mewn cyd-destun ac ystyried pam y rhoddodd y rhiant y slap honno. Os byddwch yn dileu'r amddiffyniad cosb resymol, byddwch yn creu trosedd atebolrwydd caeth, sy'n golygu bod y rhiant hwnnw yn awtomatig yn cael ei wneud yn droseddwr am roi slap. Credaf fod hynny'n anghywir; rwy'n credu na ellir ei gyfiawnhau. Mae plant yn cael eu hamddiffyn yn barod rhag trais a chamdriniaeth mewn ffordd nad yw'n dderbyniol inni yn y gymdeithas. Felly, byddaf yn pleidleisio yn erbyn hyn.

Children don't have the same rights as adults. They can't drive a car at two; they can't marry at eight; they can't vote at 16, at the moment. There are many, many rights that children don't have and, for a parent who has watched their child put themselves in danger, very often, a short, sharp tap is what allows a message to be reinforced that 'You've put yourself in danger; don't do it again'. And it works. You can speak to endless parents around the country, and that's why 70% of people in the YouGov poll don't support the ban: because they know that it works. To take that parental tool out of the box is, quite simply, wrong. I won't be supporting it and I hope that many others won't.

Nid oes gan blant yr un hawliau ag oedolion. Nid ydynt yn cael gyrru car yn ddwy oed; nid ydynt yn cael priodi yn wyth oed; nid ydynt yn cael pleidleisio yn 16 oed, ar hyn o bryd. Mae nifer fawr iawn o hawliau nad oes gan blant ac, i riant sydd wedi gwylio eu plentyn yn rhoi ei hun mewn perygl, yn aml iawn, tap sydyn, byr yw'r hyn sy'n caniatáu i neges gael ei hatgyfnerthu 'Rwyt ti wedi rhoi dy hun mewn perygl; paid â gwneud hynny eto'. Ac mae'n gweithio. Gallwch siarad â rhieni di-ri o amgylch y wlad, a dyna pam nad yw 70% o bobl yn arolwg YouGov yn cefnogi'r gwaharddiad: oherwydd eu bod yn gwybod ei fod yn gweithio. Mae'n syml, yn anghywir tynnu'r teclyn rhianta hwnnw allan o'r bocs. Ni fyddaf yn ei gefnogi ac rwy'n gobeithio na fydd llawer o bobl eraill.

18:40 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I just say that I have—I won't say 'smacked'—hit my child? I really wish that a Government had dictated to me many years ago, because I thought it was the right thing to do, and I don't think it did any good whatsoever.

Gaf i ddweud fy mod—wnaf i ddim dweud 'smacio'—wedi taro fy mhlentyn? Byddai wir yn dda iawn gennyf pe byddai Llywodraeth wedi gorchymyn imi sut i ymddwyn flynyddoedd lawer yn ôl, gan fy mod yn meddwl ar y pryd mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ac nid wyf yn meddwl iddo wneud unrhyw ddaioni o gwbl.

In speaking in support of amendment 66, I truly believe that, if passed, it will enhance this much-needed Government Bill—not jeopardise it; enhance it. The issues of reasonable punishment are linked. As Kirsten Sandberg, the chair of the UN Committee on the Rights of the Child, stated recently, the prohibiting of violent punishment of girls and boys is fundamental to the prevention of all forms of violence against women and girls.

Wrth siarad o blaid gwelliant 66, rwyf wir yn credu y bydd, os caiff ei basio, yn gwella Bil hwn y Llywodraeth y mae mawr ei angen—nid yn ei beryglu; ei wella. Mae'r materion cosb resymol yn gysylltiedig. Fel y dywedodd Kirsten Sandberg, cadeirydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn ddiweddar, mae gwahardd cosb dreisgar ar gyfer merched a bechgyn yn sylfaenol i atal pob math o drais yn erbyn menywod a merched.

Now, lots of reasons have been put up as to why we shouldn't support amendment 66. To me, this is a conscience vote, but it's more than a conscience vote, it's also about rational thinking. Whilst I've carefully listened to them, none of the reasons given is strong enough to suggest that any further delay would be beneficial. This is absolutely the right Bill. Last week, one of the members of the Academics for Equal Protection said that the link between the physical punishment of children and domestic abuse is clear. Any individual who has experienced physical punishment himself or herself is more likely to become a perpetrator or victim of domestic abuse.

Nawr, mae llawer o resymau wedi eu cynnig o ran pam na ddylem gefnogi gwelliant 66. I mi, mae hon yn bleidlais cydwybod, ond mae'n fwy na phleidlais cydwybod, mae'n ymwneud hefyd â meddwl rhesymegol. Er fy mod wedi gwrando'n ofalus arnynt, nid yw'r un o'r rhesymau a roddwyd yn ddigon cryf i awgrymu y byddai unrhyw oedi pellach yn fuddiol. Dyma'n sicr yw'r Bil cywir. Yr wythnos diwethaf, dywedodd un o aelodau'r Academyddion dros Amddiffyniad Cyfartal fod y cyswllt rhwng cosb gorfforol i blant a cham-drin domestig yn glir. Mae unrhyw unigolyn sydd wedi profi cosb gorfforol ei hun yn fwy tebygol o gyflawni neu o ddioddef camdriniaeth ddomestig.

There is overwhelming support from social workers. I've heard lots of people say, 'Oh, well, social workers don't want it'; that's not true, If you saw the letter in the 'Western Mail' last week, the heads of the social worker organisations agree with this. They want the change because it will give much-needed clarity that it's not acceptable to use force or violence on a child.

Mae'r mwyafrif llethol o weithwyr cymdeithasol yn ei gefnogi. Rydw i wedi clywed llawer o bobl yn dweud, 'O, wel, dydy gweithwyr cymdeithasol ddim ei eisiau'; nid yw hynny'n wir. Pe byddech chi wedi gweld y llythyr yn y 'Western Mail' yr wythnos diwethaf, mae penaethiaid y sefydliadau gweithwyr cymdeithasol yn cytuno â hyn. Maent am weld y newid oherwydd y bydd yn ei gwneud yn eglur, fel sydd mawr ei angen, nad yw'n dderbyniol defnyddio grym neu drais ar blentyn.

The legal advice that we've received maintains that there will be no new criminal offence; the amendment would simply give children the same protection as adults currently enjoy. I know there's also been this fear that you would criminalise parents overnight. I don't agree with that. The main purpose of the law is to prevent children from being physically punished, not to prosecute parents. Criminalisation has not happened in any of the 44 countries that have banned physical punishment while we in Wales have just talked about it. We would anticipate that the existing threshold of significant harm would still exist and prosecutions would only proceed when in the public interest and the best interests of the child. I am not a lawyer, and I know there are lawyers here amongst us, but I don't think we should use the complexities of the law to prevent us from doing something that is inherently progressive and protective of our most vulnerable citizens. The law should be a tool, not a barrier.

Mae'r cyngor cyfreithiol a gawsom yn honni na fydd unrhyw drosedd newydd; byddai'r gwelliant yn syml rhoi'r un amddiffyniad i blant ag y mae oedolion yn ei fwynhau ar hyn o bryd. Rwy'n gwybod hefyd y bu'r ofn hwn y byddech yn gwneud rhieni'n droseddwyr dros nos. Nid wyf yn cytuno â hynny. Prif bwrpas y gyfraith yw atal plant rhag cael eu cosbi'n gorfforol, nid erlyn rhieni. Nid yw rhieni wedi cael eu gwneud yn droseddwyr yn unrhyw un o'r 44 o wledydd sydd wedi gwahardd cosb gorfforol tra ein bod ni yng Nghymru wedi gwneud dim ond siarad am y peth. Byddem yn rhagweld y byddai'r trothwy presennol o niwed arwyddocaol yn dal i fodoli ac na fyddai erlyniadau ond yn symud ymlaen pan fydd er lles y cyhoedd a lles y plentyn. Nid wyf yn gyfreithiwr, ac rwy'n gwybod bod cyfreithwyr yma yn ein plith, ond nid wyf yn meddwl y dylem ddefnyddio cymhlethdodau'r gyfraith i'n hatal ni rhag gwneud rhywbeth sydd yn ei hanfod yn flaengar ac amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed. Dylai'r gyfraith fod yn arf, nid yn rhwystr.

When I look back on my childhood—. I am old enough to remember some of the things that good parents and teachers did because they thought it was right, but which we now know are unacceptable. I'm very pleased that the Welsh Government has acted on some of these. I remember when it was okay for children and babies to grow up in a fug of smoke—I remember that—in a household. Mothers sometimes would smoke when they were breastfeeding. We didn't worry about sun cream; I remember getting really sunburnt on my first foreign holiday. We didn't think about it. People didn't think about those things. It was also common for parents a generation ago to put gin in babies' milk to get them to go to sleep. That was then, and that was done by loving parents because that was the thing to do. In schools, I remember witnessing children being punished and humiliated by the dap and the cane and even, in one case, one girl being physically turned upside down in the classroom as a reminder to invert her fractions—and I can see that scene today.

Wrth edrych yn ôl ar fy mhlentyndod—. Rwy'n ddigon hen i gofio rhai o'r pethau a wnaeth rhieni ac athrawon da oherwydd eu bod yn meddwl mai dyna'r peth iawn, ond yr ydym bellach yn gwybod eu bod yn annerbyniol. Rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar rai o'r rhain. Rwy'n cofio pan oedd yn iawn i blant a babanod dyfu mewn niwl o fwg—rwy'n cofio hynny—mewn cartref. Byddai mamau weithiau yn ysmygu wrth fwydo ar y fron. Doeddem ni ddim yn poeni am eli haul; rwy'n cofio llosgi'n ddrwg yn yr haul ar fy ngwyliau tramor cyntaf. Doeddem ni ddim yn meddwl am y peth. Nid oedd pobl yn meddwl am y pethau hynny. Roedd hefyd yn gyffredin i rieni genhedlaeth yn ôl roi jin mewn llaeth babanod i'w cael i fynd i gysgu. Ers talwm oedd hynny, ac roedd rhieni cariadus yn gwneud hynny oherwydd mai dyna oedd y peth i'w wneud. Mewn ysgolion, rwy'n cofio gweld plant yn cael eu cosbi a'u bychanu gan ddap a chansen a hyd yn oed, mewn un achos, un ferch yn cael ei throi wyneb i waered yn gorfforol yn yr ystafell ddosbarth i'w hatgoffa i wrthdroi ei ffracsiynau—a gallaf weld yr olygfa heddiw.

Now, you could argue that these were dedicated teachers and parents doing what they thought was the best way to do things then, but we know different now, don't we? We also know that using violence as a form of punishment is harmful. Lots of studies are showing us this. So, we know the evidence. I think, if we have this evidence—. I would say to Government that if the evidence is there, then they should act on this sooner rather than later to protect our children.

Nawr, gallech ddadlau bod yr athrawon a'r rhieni ymroddedig hyn yn gwneud pethau yn y ffordd orau o wneud pethau bryd hynny, yn eu barn nhw, ond rydym yn gwybod yn wahanol erbyn hyn, ond ydym? Rydym hefyd yn gwybod bod defnyddio trais fel math o gosb yn niweidiol. Mae llawer o astudiaethau yn dangos hyn inni. Felly, rydym yn gyfarwydd â'r dystiolaeth. Rwy'n meddwl, os yw'r dystiolaeth hon gennym—. Byddwn yn dweud wrth y Llywodraeth, os yw'r dystiolaeth yno, dylent weithredu ar hyn cyn gynted â phosibl i amddiffyn ein plant.

I think today is a great opportunity to give children the same protection as adults currently have—no more, no less. I totally support this Bill, but it is absolutely the right vehicle for this amendment. Remember that any progressive legislation has gone through a pretty tortuous route. If you look at the legislation on seat belts, domestic abuse itself, capital punishment—we should be mindful of our history on this. There will always be the naysayers who say that the public will not wear it. Perhaps we should start to trust the public a bit more, because I know that there is an awful lot of support out there from all sorts of quarters, including children and young people themselves.

Rwy'n credu bod heddiw yn gyfle gwych i roi'r un amddiffyniad i blant ag sydd gan oedolion ar hyn o bryd—dim mwy, dim llai. Rwy'n llwyr gefnogi'r Bil hwn, ond dyma'n sicr yw'r cyfrwng cywir ar gyfer y gwelliant hwn. Cofiwch fod unrhyw ddeddfwriaeth flaengar wedi gorfod dilyn llwybr eithaf troellog. Os ydych yn ystyried y ddeddfwriaeth ar wregysau diogelwch, cam-drin domestig ei hun, y gosb eithaf—dylem fod yn ymwybodol o'n hanes yn hyn o beth. Bydd rhai pobl negyddol i'w cael bob amser sy'n dweud na fydd y cyhoedd yn ei dderbyn. Efallai y dylem ddechrau ymddiried yn y cyhoedd ychydig yn fwy, gan fy mod yn gwybod bod llawer iawn o gefnogaeth o sawl cyfeiriad, gan gynnwys plant a phobl ifanc eu hunain.

Look, the public is crying out for leadership and clarity on this issue. This is a great opportunity today. We can really step up to the plate and do the right thing for the children of Wales. So, I'd ask for the support of Members here.

Edrychwch, mae'r cyhoedd yn crefu am arweiniad ac eglurder ar y mater hwn. Mae hwn yn gyfle gwych heddiw. Gallwn wir dderbyn cyfrifoldeb a gwneud y peth iawn ar ran plant Cymru. Felly, byddwn i'n gofyn am gefnogaeth yr Aelodau yma.

18:45

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

My reading of the amendment is that it seeks to amend section 58 of the Children Act 2004. So, I looked at this. The Children Act 2004 introduced a ban on hitting a child with an implement such as a cane or a belt. Section 58, referred to in the amendment, of the Act limits the use of the defence of reasonable punishment, so that it can no longer be used when people are charged with offences against a child, such as causing actual bodily harm or cruelty. During the passage of that Act, the then UK children's Minister gave a commitment that the UK Government would review the practical consequences of section 58 and seek parents' views on smacking two years after that legislation came into effect.

Fy nehongliad i o'r gwelliant yw ei fod yn ceisio diwygio adran 58 o Ddeddf Plant 2004. Felly, edrychais ar hyn. Cyflwynodd Deddf Plant 2004 waharddiad ar daro plentyn ag arf megis ffon neu wregys. Mae adran 58, y cyfeirir ati yn y gwelliant, o'r Ddeddf yn cyfyngu ar y defnydd o'r amddiffyniad cosb resymol, fel na ellir ei ddefnyddio mwyach pan fydd pobl yn cael eu cyhuddo o droseddau yn erbyn plentyn, megis achosi gwir niwed corfforol neu greulondeb. Yn ystod hynt y Ddeddf honno, rhoddodd Gweinidog plant y DU ymrwymiad y byddai Llywodraeth y DU yn adolygu canlyniadau ymarferol adran 58 a cheisio barn rhieni ar smacio ddwy flynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth honno ddod i rym.

The review, published in October 2007, concluded it was clear that section 58 had improved legal protection for children by restricting the use of the reasonable punishment defence in court proceedings. It also found that, whilst many parents said that they would not smack, a majority of parents said that smacking should not be banned outright. In response, the then UK Government stated it would retain the law in its current form to prevent the use of the defence of reasonable punishment in any proceedings for an offence of cruelty to a child or assault. The Crown Prosecution Service has interpreted that to state that, for minor assaults committed upon a child by an adult, which resulted in injuries such as grazes, scratches, abrasions, minor bruising, swelling, superficial cuts or a black eye, the appropriate charge would normally be actual bodily harm, for which the defence of reasonable chastisement is no longer available. However, if the injury amounts to no more than reddening of the skin and the injury is, quote, 'transient and trifling', and, therefore, only if the injury amounts to no more than reddening of the skin and is transient and trifling does the reasonable chastisement defence remain available, although the court, of course, might even disagree. Children in Wales are therefore already unbeatable under the existing legislation.

Daeth yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007, i'r casgliad ei bod adran 58 yn amlwg wedi gwella amddiffyniad cyfreithiol i blant drwy gyfyngu ar y defnydd o'r amddiffyniad cosb resymol mewn achosion llys. Canfu hefyd fod llawer o rieni yn dweud na fyddent yn smacio, ond bod y mwyafrif o rieni wedi dweud na ddylai smacio gael ei wahardd yn llwyr. Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth y DU ar y pryd y byddai'n cadw'r gyfraith ar ei ffurf bresennol i atal y defnydd o'r amddiffyniad cosb resymol mewn unrhyw achos am drosedd o greulondeb i blentyn neu ymosodiad. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi dehongli bod hynny'n datgan mai'r cyhuddiad priodol fel arfer, ar gyfer mân ymosodiadau a gyflawnir ar blentyn gan oedolyn, gan arwain at anafiadau megis sgriffiadau, crafiadau, mân achosion o gleisio, chwyddo, toriadau arwynebol neu lygad ddu, fyddai gwir niwed corfforol, ac nad yw'r amddiffyniad cosb resymol bellach ar gael ar gyfer hynny. Fodd bynnag, os nad yw'r anaf yn ddim mwy na chochni ar y croen a bod yr anaf yn un, ac rwy'n dyfynnu, dros dro a dibwys, ac, felly dim ond os yw'r anaf ddim mwy na chochni ar y croen ac yn un dros dro a dibwys y mae'r amddiffyniad cosb resymol yn dal i fod ar gael, er y gallai'r llys, wrth gwrs, anghytuno hyd yn oed. Felly, nid oes modd curo plant yng Nghymru eisoes o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

18:48

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In opposing this amendment, I wish to make it clear also that I do respect the sincerity of its supporters. But, on a point of principle and procedure, I must be consistent. I defended my own Bill against a possible challenge on the grounds of competence. I did so because of its importance in furthering the rights and protection of vulnerable people, including children in Wales. For the same reason, I must now defend this Bill. My position is, and always has been, that if this Assembly is to consider removing the defence of reasonable punishment, it would be best to do so on a cross-party basis—and I acknowledge that this amendment is cross-party—but also as a stand-alone piece of legislation. As well as ensuring that other much-needed legislation does not find itself tied up in Supreme Court consideration, this would allow for a genuine public consultation on this highly contentious matter.

Wrth wrthwynebu'r gwelliant hwn, rwyf am ei gwneud yn glir hefyd fy mod innau'n parchu didwylledd ei gefnogwyr. Ond, ar bwynt o egwyddor a gweithdrefn, rhaid imi fod yn gyson. Amddiffynnais fy Mil hun yn erbyn her posibl ar sail cymhwysedd. Gwnes i hynny oherwydd ei bwysigrwydd o ran diogelu pobl sy'n agored i niwed a hybu eu hawliau, gan gynnwys plant yng Nghymru. Am yr un rheswm, rhaid imi nawr amddiffyn y Bil hwn. Fy safbwynt nawr, fel y bu erioed, yw, os yw'r Cynulliad hwn yn ystyried cael gwared â'r amddiffyniad cosb resymol, y byddai'n well gwneud hynny ar sail drawsbleidiol—ac rwy'n cydnabod bod y gwelliant hwn yn drawsbleidiol—ond hefyd fel darn annibynnol o ddeddfwriaeth. Yn ogystal â sicrhau nad oes darn arall o ddeddfwriaeth mawr ei angen yn cael ei ddal dan ystyriaeth gan y Goruchaf Lys, byddai hyn yn caniatáu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gwirioneddol ar y mater dadleuol iawn hwn.

The amendment, as it is written, would therefore open up a great many parents possibly to at least potential prosecution. This, in my opinion, should not be done by tagging an amendment onto another piece of legislation at the eleventh hour, without public consultation and legal advice as to its consequences. We must remember that we are elected to this place as the representatives of our constituents. On a change as significant as this, the public must be fully consulted and the full procedure of legislation must be followed. Clearly, in this, I disagree with some Members.

Byddai'r gwelliant, fel y mae wedi'i ysgrifennu, felly yn gadael nifer fawr o rieni o bosibl yn agored i erlyniad posibl o leiaf. Ni ddylai hyn, yn fy marn i, gael ei wneud drwy atodi gwelliant i ddarn arall o ddeddfwriaeth ar yr unfed awr ar ddeg, heb ymgynghoriad cyhoeddus a chael cyngor cyfreithiol o ran ei ganlyniadau. Rhaid inni gofio ein bod yn cael ein hethol i'r lle hwn fel cynrychiolwyr ein hetholwyr. Mae'n rhaid ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd ynglŷn â newid mor sylweddol â hwn ac mae'n rhaid dilyn gweithdrefn gyflawn y ddeddfwriaeth. Yn amlwg, yn hyn o beth, rwy'n anghytuno â rhai Aelodau.

I am certain, however, that the one thing we all share is a wish to see the children of Wales benefit from the best parenting. Since the creation of this Assembly, successive Welsh Governments have tried to make this a reality through a number of initiatives. It has been argued by some that these schemes have taken us as far as we can possibly get with parenting support, but, in doing so, I believe that they miss a vital point. Flying Start, integrated family support services, Communities First, Families First, Help at Hand and others are all excellent projects, but all the ones that I've named have been targeted at families with complex needs and at seriously deprived communities. I am firm in my belief that the poor are no more likely to smack their children than the well-off, and that is why parenting support should be classless. Parenting support should be a universal entitlement, and furthermore should go beyond the alternatives to smacking to tackle the many other forms of abuse, such as emotional abuse and neglect that children suffer. And so, in ending, I would urge the Government to push on with developing a universal parenting plan that includes education.

Rwy'n sicr, fodd bynnag, mai un peth yr ydym i gyd yn ei rannu yw dymuniad i weld plant Cymru yn elwa o'r rhianta gorau. Ers creu'r Cynulliad hwn, mae Llywodraethau olynol Cymru wedi ceisio gwneud hyn yn realiti drwy nifer o fentrau. Mae rhai wedi dadlau bod y cynlluniau hyn wedi mynd â ni cyn belled ag y gallwn o ran cymorth rhianta, ond, wrth wneud hynny, rwy'n credu eu bod yn methu pwynt hollbwysig. Mae Dechrau'n Deg, gwasanaethau cymorth integredig i deuluoedd, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Help wrth Law ac eraill i gyd yn brosiectau rhagorol, ond mae'r holl rai rwyf i wedi eu henwi wedi cael eu targedu at deuluoedd ag anghenion cymhleth ac at gymunedau difrifol ddifreintiedig. Rwyf o'r farn gadarn nad yw'r tlawd ddim mwy tebygol o smacio eu plant na'r rhai gwell eu byd, a dyna pam y dylai cymorth rhianta fod yn ddi-ddosbarth. Dylai cymorth rhianta fod yn hawl gyffredinol, ac ar ben hynny dylai fynd y tu hwnt i'r dewisiadau heblaw smacio a mynd i'r afael â'r nifer o fathau eraill o gam-drin, megis cam-drin emosiynol ac esgeulustod y mae plant yn eu dioddef. Ac felly, wrth orffen, byddwn yn annog y Llywodraeth i fwrw ymlaen â datblygu cynllun rhianta cyffredinol sy'n cynnwys addysg.

18:52

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think I ought to start off by saying that, in the past, I've been a smacker and I did it because I loved my son, and I thought it was my duty to have a well-behaved child. If I had my time over again, I wouldn't put a hand on him, and I'm very proud of the fact that he doesn't hit his children. But I did it for the right reasons, and I understand the emotions around that—when you belong to a society and a culture that condones that, that is how you behave.

Rwy'n credu y dylwn i ddechrau drwy ddweud fy mod, yn y gorffennol, wedi bod yn smaciwr ac fe wnes i hynny oherwydd fy mod yn caru fy mab, ac roeddwn yn meddwl ei bod yn ddyletswydd arnaf i gael plentyn a oedd yn ymddwyn yn dda. Pe byddwn yn cael fy amser eto, ni fyddwn yn rhoi llaw arno, ac rwy'n falch iawn o'r ffaith nad yw'n taro ei blant ei hun. Ond fe wnes i hynny am y rhesymau iawn, ac rwy'n deall yr emosiynau ynghylch hynny—os ydych chi'n aelod o gymdeithas a diwylliant sy'n goddef hynny, dyna sut rydych chi'n ymddwyn.

This Bill is our opportunity to finally close the loophole in the law that was introduced by the Children Act 2004. Currently, a defence of reasonable punishment where the defendant is charged with common assault, the victim is a child and the defendant is the parent, or the person acting as parent, is permitted under section 57. I know that some Members will want to talk about the relative value of different parenting methods this afternoon, but, while that is a valuable discussion, I don't think it is what we are debating today. Amending the Children Act 2004 to remove this defence is not a smacking ban; it will not criminalise parents and it does not tell parents how they should look after their children. Until recently, I shared all those concerns, but I've looked at it carefully and I don't think that those concerns are founded.

Y Bil hwn yw ein cyfle i gau'r bwlch o'r diwedd yn y gyfraith a gyflwynwyd gan Ddeddf Plant 2004. Ar hyn o bryd, mae adran 57 yn caniatáu amddiffyniad cosb resymol pan fo'r diffynnydd yn cael ei gyhuddo o ymosodiad cyffredin, pan fo'r dioddefwr yn blentyn a phan mai'r diffynnydd yw'r rhiant neu'r sawl sy'n gweithredu fel rhiant. Gwn y bydd rhai Aelodau eisiau siarad am werth cymharol gwahanol ddulliau rhianta brynhawn heddiw, ond, er bod honno'n drafodaeth werthfawr, nid wyf yn credu mai dyna'r hyn yr ydym yn ei drafod heddiw. Nid gwahardd smacio y byddem yn ei wneud trwy ddiwygio Deddf Plant 2004 i gael gwared ar yr amddiffyniad hwn; ni fydd yn gwneud rhieni'n droseddwyr ac nid yw'n dweud wrth rieni sut y dylent ofalu am eu plant. Tan yn ddiweddar, roeddwn yn rhannu'r holl bryderon hynny, ond rwyf wedi edrych ar y mater yn ofalus ac nid wyf yn credu bod sail i'r pryderon hynny.

What it does is give children equal protection with adults under the law, and the law does not intervene in trivial matters. If an adult does something you don't like, frustrates you or upsets you, you are legally prohibited from hitting them, so why should children, who are much more vulnerable, not have equal protection from violence under the law, particularly given the unique position of power that parents and other carers have over children?

Yr hyn y mae'n ei wneud yw rhoi amddiffyniad cyfartal ag oedolion dan y gyfraith i blant, ac nid yw'r gyfraith yn ymyrryd mewn materion dibwys. Os yw oedolyn yn gwneud rhywbeth nad ydych yn ei hoffi, sy'n gwneud ichi deimlo'n rhwystredig neu'n achosi gofid ichi, mae'r gyfraith yn eich gwahardd rhag ei daro, felly pam na ddylai plant, sy'n llawer mwy agored i niwed, gael yr un amddiffyniad rhag trais o dan y gyfraith, yn enwedig o ystyried y grym unigryw sydd gan rieni a gofalwyr eraill dros blant?

The removal of this defence is only a small change in the law, and I can assure you would affect a tiny number of people. It means that the defence of reasonable punishment will no longer be available to the very few parents who end up in court because they've assaulted their children and then raised this as their defence. Mark mentioned earlier the review that was carried out in 2007, and I would recommend all of you read it. In those three years after the review was carried out, the reasonable punishment defence was used only in a small number of cases, and I can tell you that none of them involved smacking. None of them involved smacking.

Dim ond newid bach yn y gyfraith yw cael gwared ar yr amddiffyniad, a gallaf eich sicrhau mai dim ond ar nifer fach iawn o bobl y byddai'n effeithio. Mae'n golygu na fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael mwyach i'r ychydig iawn o rieni sy'n mynd i'r llys am eu bod wedi ymosod ar eu plant ac yna'n codi hyn fel eu hamddiffyniad. Soniodd Mark yn gynharach am yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2007, a byddwn yn argymell bod pob un ohonoch yn ei ddarllen. Yn y tair blynedd hynny ar ôl cynnal yr adolygiad, dim ond mewn nifer fach o achosion y cafodd yr amddiffyniad cosb resymol ei ddefnyddio, a gallaf ddweud nad oedd yr un ohonynt yn cynnwys smacio. Nid oedd yr un ohonynt yn cynnwys smacio.

We use that word because we don't like to say 'striking' or 'hitting', but none of them involved what we would normally term 'smacking'. The child victims in those cases were slapped around the head, they were made to eat soap, smacked on the bottom by a non-relative, pinned down by the neck, bruised on the arm, punched and strangled. Now, in some of these cases, the adults were almost certainly wrongly charged, because, obviously, some of these things are more than assault. Some of them weren't entitled to the defence in any case; I suppose that was the confusion around the law, but that's another good reason not to have this loophole in the law.

Rydym yn defnyddio'r gair hwnnw gan nad ydym yn hoffi dweud 'taro' neu 'hitio', ond nid oedd yr un ohonynt yn cynnwys yr hyn y byddem fel arfer yn ei alw'n 'smacio'. Roedd y plant yn yr achosion hynny wedi cael eu taro ar eu pen, eu gorfodi i fwyta sebon, eu smacio ar y pen-ôl gan rywun nad oedd yn berthynas iddynt, eu dal i lawr gerfydd y gwddf, eu cleisio ar y fraich, eu dyrnu a'u tagu. Nawr, mewn rhai o'r achosion hyn, roedd yr oedolion bron yn sicr wedi cael eu cyhuddo ar gam, oherwydd bod rhai o'r pethau hyn, yn amlwg, yn fwy nag ymosodiad. Nid oedd gan rai ohonynt hawl i'r amddiffyniad p'un bynnag; mae'n debyg mai dyna oedd y dryswch ynglŷn â'r gyfraith, ond mae hynny'n rheswm da arall i beidio â chael y bwlch hwn yn y gyfraith.

There were no cases between 2007 and 2009. So, the numbers involved here are incredibly small, and I do understand people's concerns about this, but there is no danger that changing the law will criminalise parents. The police and the Crown Prosecution Service will still follow the same guidelines as they do now when deciding whether or not to recommend charging and prosecution. As regards that report in 2007, what the review said was,

Nid oedd unrhyw achosion rhwng 2007 a 2009. Felly, mae'r niferoedd dan sylw yma yn anhygoel o fach, ac rwy'n deall pryderon pobl am hyn, ond nid oes perygl y bydd newid y gyfraith yn gwneud rhieni'n droseddwyr. Bydd yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dal i ddilyn yr un canllawiau ag y maent yn ei wneud nawr wrth benderfynu p'un ai argymell cyhuddo ac erlyn ai peidio. O ran yr adroddiad hwnnw yn 2007, yr hyn a ddywedodd yr adolygiad oedd,

'in determining how to deal with a case, a great deal depends on the discretion of the police and prosecutors, their judgment as to what is reasonable and what is best for the child, and all the other surrounding factors'

wrth benderfynu sut i ddelio ag achos, mae llawer iawn yn dibynnu ar ddisgresiwn yr heddlu ac erlynwyr, eu barn ynghylch yr hyn sy'n rhesymol a'r hyn sydd orau i'r plentyn, a'r holl ffactorau eraill

not on whether a defence is available.

nid ar p'un a oes amddiffyniad ar gael.

Police officers interviewed for the review said that they usually respond to a report of an assault of a child by talking to the parents about how their actions are unacceptable, referring them for further support from social services and so on, if appropriate. In deciding whether or not to recommend a charge, the public interest and the interest of the child must be taken into account. Now, the example often given is, you're panicking, you want to stop the child from running in the road or whatever, which would not incur criminal charges, even if the reasonable punishment defence was removed.

Mae swyddogion yr heddlu a gyfwelwyd ar gyfer yr adolygiad yn dweud eu bod fel arfer yn ymateb i adroddiad am ymosodiad ar blentyn drwy siarad â'r rhieni ynghylch sut mae eu gweithredoedd yn annerbyniol, gan eu cyfeirio i gael rhagor o gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ac ati, os yw'n briodol. Wrth benderfynu a ddylid argymell cyhuddo, rhaid ystyried budd y cyhoedd a budd y plentyn. Nawr, yr enghraifft a roddir yn aml yw, rydych yn mynd i banig, rydych am atal y plentyn rhag rhedeg i'r ffordd neu beth bynnag, ac ni fyddai hynny'n arwain at gyhuddiadau troseddol, hyd yn oed pe byddai'r amddiffyniad cosb resymol wedi ei ddileu.

Discretion, including the public and the child's interest, must be applied to all police and all prosecuting cases, not just those relating to section 58. So, that's the charging guideline, full stop. The change, in fact, is a modest one, but it is an important one. The current law is confusing and misunderstood and the UK Government's review found that many think that section 58 explicitly condones the physical punishment of children or, conversely, it's already illegal. So, the law does need clarification.

Rhaid defnyddio disgresiwn, gan gynnwys budd y cyhoedd a'r plentyn, ar gyfer pob un o achosion yr heddlu a phob achos erlyn, nid dim ond y rhai sy'n ymwneud ag adran 58. Felly, dyna'r arweiniad ar gyfer cyhuddo. Mae'r newid, mewn gwirionedd, yn un cymedrol, ond mae'n un pwysig. Mae'r gyfraith gyfredol yn ddryslyd ac yn cael ei chamddeall a chanfu adolygiad Llywodraeth y DU bod llawer yn meddwl bod adran 58 yn benodol yn caniatáu cosbi plant yn gorfforol neu, i'r gwrthwyneb, ei fod eisoes yn anghyfreithlon. Felly, mae angen i'r gyfraith fod yn fwy eglur.

Social workers interviewed for that review report that, were the defence of reasonable punishment removed for charges of common assault, they would find it easier to work with parents, because the message they get is that, 'It is legal for me to strike my child'. Removing the reasonable punishment defence would send a strong, clear message. While it's often said that the public is against legal reform on physical punishment, attitudes are changing quickly. A majority of people in England and Wales would support law reform if they were sure the parents wouldn't be prosecuted for trivial smacks. Behaviour is also changing. Younger parents are much less likely than older ones to use smacking; they use other methods of discipline, and that Government review that Mark mentioned earlier, and I am mentioning now, found that very few parents indeed think that it's the most effective form of discipline and even those who use it do not think that it's effective.

Mae gweithwyr cymdeithasol a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adolygiad yn dweud y byddent yn ei chael yn haws gweithio gyda rhieni pe byddai'r amddiffyniad cosb resymol yn cael ei ddileu ar gyfer cyhuddiadau o ymosodiad cyffredin, oherwydd mai'r neges y maent yn ei chael yw, 'Mae'n gyfreithlon imi daro fy mhlentyn'. Byddai cael gwared â'r amddiffyniad cosb resymol yn anfon neges gref, glir. Er y dywedir yn aml bod y cyhoedd yn erbyn diwygio'r gyfraith ym maes cosb gorfforol, mae agweddau'n newid yn gyflym. Byddai mwyafrif o bobl yng Nghymru a Lloegr o blaid diwygio'r gyfraith pe byddent yn siŵr na fyddai'r rhieni'n cael eu herlyn am smacio dibwys. Mae ymddygiad hefyd yn newid. Mae rhieni iau lawer llai tebygol na rhai hŷn o smacio; maent yn defnyddio dulliau eraill o ddisgyblaeth, a chanfu adolygiad y Llywodraeth a grybwyllodd Mark yn gynharach, ac yr wyf i'n ei grybwyll nawr, mai ychydig iawn o rieni sy'n meddwl mai dyma'r math mwyaf effeithiol o ddisgyblaeth ac nid yw'r rhai sy'n ei ddefnyddio hyd yn oed yn meddwl ei fod yn effeithiol.

Now, I don't think—I am just finishing, Deputy Presiding Officer—that the Welsh Government has dealt with this issue well. I'd like to remind you that, in 2009, you had—we had—16 priorities—just 16, and this was one of them. For all of Government, this was one of just 16 priorities that we had. The Welsh Government must have done a lot of work on this for it to have been one of just 16, so I don't think—. Well, if they didn't, if no work had been done, then it was just tokenism. If we change the law, very few people will be affected. I doubt anybody in Wales will be affected. Public opinion, though, would rapidly change and I can assure you that the children of Wales will thank us for it.

Nawr, nid wyf yn meddwl—rwyf ar fin dod i ben, Ddirprwy Lywydd—bod Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r mater hwn yn dda. Hoffwn eich atgoffa bod gennych chi—bod gennym ni—16 blaenoriaeth yn 2009—dim ond 16, ac roedd hwn yn un ohonynt. Ar gyfer yr holl Lywodraeth, roedd hwn yn un o ddim ond 16 o flaenoriaethau a oedd gennym. Rhaid bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o waith ar hwn iddo fod yn un o ddim ond 16, felly nid wyf yn meddwl—. Wel, os na wnaeth, os nad wnaed dim gwaith, yna nid oedd yn ddim ond sioe. Os byddwn yn newid y gyfraith, ychydig iawn o bobl fydd yn cael eu heffeithio. Rwy'n amau a fydd unrhyw un yng Nghymru yn cael ei effeithio. Byddai barn y cyhoedd, fodd bynnag, yn newid yn gyflym a gallaf eich sicrhau y bydd y plant Cymru yn diolch inni am hynny.

18:59

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcome the opportunity to contribute to this debate today on what is a groundbreaking piece of legislation being considered by this Assembly. I am very much in favour of the Bill. However, on the particular issue of amendment 66, I support the principle of its intentions, namely the protection of children, however, I do not believe that this is the right way to go about changing the law. A ban on smacking is not the intended focus of this Bill, even though you might think that that is the case if you listened only to the media recently. Nonetheless, I recognise the strength of feeling on this issue.

Rwy'n croesawu'n fawr y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon heddiw ar y darn arloesol o ddeddfwriaeth sy'n cael ei ystyried gan y Cynulliad hwn. Rwyf yn bendant iawn o blaid y Bil. Fodd bynnag, o ran gwelliant 66 yn benodol, rwy'n cefnogi egwyddor ei fwriadau, sef amddiffyn plant, fodd bynnag, nid wyf yn credu mai dyma'r ffordd gywir i fynd ati i newid y gyfraith. Nid gwaharddiad ar smacio yw'r pwyslais a fwriadwyd ar gyfer y Bil hwn, er y gallech feddwl bod hynny'n wir pe byddech yn gwrando ar y cyfryngau yn unig yn ddiweddar. Serch hynny, rwy'n cydnabod cryfder y teimlad ar y mater hwn.

Now, Lindsay Whittle, during his speech, referred to the smoking ban—the smoking ban in enclosed public spaces. I was a member of that all-party working group that received the evidence and carried out a deep consultation—I think Peter Black is the only other survivor of that group. Now, I would prefer the approach that we adopted during the second Assembly when it came to introducing the ban on smoking in public places. Nowadays, everyone accepts the value of that change. It is accepted that smoking, particularly in enclosed public spaces, is bad and must not happen, but that was certainly not the attitude at the time when that investigation and working group began. We had a lot of opposition, very often from ordinary members of the public as well as pub groups and clubs.

Nawr, cyfeiriodd Lindsay Whittle, yn ystod ei araith, at y gwaharddiad ar ysmygu—y gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig. Roeddwn yn aelod o'r gweithgor trawsbleidiol a dderbyniodd y dystiolaeth ac a gynhaliodd ymgynghoriad manwl—rwy'n meddwl mai Peter Black yw'r unig aelod arall o'r grŵp hwnnw sy'n dal yn Aelod o'r Cynulliad. Nawr, byddai'n well gennyf y dull a fabwysiadwyd gennym yn ystod yr ail Gynulliad o safbwynt cyflwyno gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Y dyddiau hyn, mae pawb yn derbyn gwerth y newid hwnnw. Derbynnir bod ysmygu, yn enwedig mewn mannau cyhoeddus caeedig, yn ddrwg a bod rhaid iddo beidio â digwydd, ond yn sicr nid dyna oedd yr agwedd ar yr adeg pan ddechreuodd y grŵp ymchwil a'r gweithgor hwnnw. Cawsom lawer o wrthwynebiad, yn aml iawn gan aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn ogystal â grwpiau tafarn a chlybiau.

Now, the process adopted then was a much more consultative, inclusive and well-publicised approach, which sought to engender—

Nawr, roedd y broses a fabwysiadwyd bryd hynny yn ddull llawer mwy ymgynghorol a chynhwysol ac roedd wedi'i hysbysebu'n dda, ac roedd yn ceisio ennyn—

19:01 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

19:01 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

In a moment. Let me just finish my sentence.

Mewn munud. Gadewch imi orffen fy mrawddeg.

It sought to engender a culture change in attitudes towards the issue concerned. Yes, I'll give way.

Roedd yn ceisio ennyn newid mewn diwylliant o ran agweddau tuag at y mater dan sylw. Gwnaf, fe ildiaf.

19:01 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Jeff. Can I just ask: are you misunderstanding what this amendment is asking for? The amendment talks about the principle, and then we could have a long lead-in time, a few years' time, like other countries, where you would actually enhance the consultation. This is not something that's going to happen overnight. I mean, nobody disagrees with that.

Diolch ichi, Jeff. Allaf i ofyn: a ydych chi'n camddeall yr hyn y mae'r gwelliant hwn yn gofyn amdano? Mae'r gwelliant yn sôn am yr egwyddor, ac yna gallem gael cyfnod rhagarweiniol hir, ychydig flynyddoedd, fel gwledydd eraill, lle byddech yn gwella'r ymgynghoriad. Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n mynd i ddigwydd dros nos. Ac yn wir, nid oes neb yn anghytuno â hynny.

19:01 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

No, I'm not misunderstanding the purpose of what you're seeking to achieve. The point I'm making is that I think, before you actually change the law and also work to change public attitudes, it's very important that people out there in a democracy understand what it is you're expecting them to do. Now, on this basis, I would say that the ban has been a success—the smoking ban—and will continue to be so. In terms of what you're proposing, during the last week I made it my business to speak to a number of ordinary constituents that I met when I was out and about. Not one of them actually said that they were in favour of a smacking ban, but what was clear was overwhelming confusion about what was being proposed, and what impact it could have on them and their normal family lives. So, if a ban on smacking is to succeed, I believe that it would need to follow the smoking-ban approach, not come about as the result of an amendment tagged on to a much bigger piece of legislation, and where it is, frankly, in my view, irrelevant to the purpose of the main piece of legislation.

Na, nid wyf yn camddeall diben yr hyn yr ydych yn ceisio'i gyflawni. Y pwynt rwy'n ceisio'i wneud yw fy mod yn credu ei bod hi'n bwysig dros ben, cyn i chi weithredu i newid y gyfraith a gweithio hefyd i newid agweddau'r cyhoedd, bod pobl mewn democratiaeth yn deall yr hyn yr ydych chi'n disgwyl iddynt ei wneud. Nawr, ar y sail hon, byddwn yn dweud bod y gwaharddiad wedi bod yn llwyddiant—y gwaharddiad ysmygu—ac y bydd yn parhau i fod felly. O ran yr hyn rydych yn ei gynnig, yn ystod yr wythnos ddiwethaf fe wnes i ofalu siarad â nifer o etholwyr cyffredin y cyfarfûm â nhw ar fy hynt. Ni ddywedodd yr un ohonynt yn blwmp ac yn blaen eu bod o blaid gwahardd smacio, ond yr hyn a oedd yn amlwg oedd dryswch llwyr ynglŷn â'r hyn oedd yn cael ei gynnig, a pha effaith y gallai ei chael arnynt ac ar eu bywyd teuluol arferol. Felly, er mwyn i waharddiad ar smacio lwyddo, credaf y byddai angen iddo ddilyn patrwm y gwaharddiad ar ysmygu, yn hytrach na digwydd o ganlyniad i ychwanegu gwelliant at ddarn o ddeddfwriaeth llawer mwy, lle y mae, a dweud y gwir, yn fy marn i, yn amherthnasol i ddiben y prif ddarn o ddeddfwriaeth.

Now, I don't agree with Darren Millar often, but I agree when he said that, currently, 72% of people in Wales are not in favour of a smacking ban. I want to change that. I want to reduce that figure enormously, and I believe the process that we adopted through the methodology of the smoking ban is the right process to follow if we are to change public attitudes and engender a feeling of change, not just change a law. That is why I will be voting against amendment 66 today.

Nawr, nid wyf yn cytuno â Darren Millar yn aml, ond rwy'n cytuno ag ef pan ddywedodd nad yw 72% o bobl Cymru o blaid gwahardd smacio ar hyn o bryd. Rwy'n dymuno newid hynny. Rwy'n dymuno lleihau'r ffigwr hwnnw'n aruthrol, a chredaf mai'r broses a fabwysiadwyd gennym drwy fethodoleg y gwaharddiad ar ysmygu yw'r broses gywir i'w dilyn os ydym am newid agweddau'r cyhoedd ac ennyn teimlad o newid, yn hytrach newid cyfraith yn unig. Dyna pam y byddaf yn pleidleisio yn erbyn gwelliant 66 heddiw.

19:03

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm really very grateful to participate in this very serious debate. We all have been a child once, and we know what parents are like. I don't think anyone can put their hand on their heart and say, 'My mother never hit me'. I was born in a family where there were nine of us. I swear on my life my father never touched any child, but mother did. All of my brothers-five-are fighter pilots and top of the range professionals: it actually works when father and mother discipline a child, especially mother. If you stop mother, this divine right, saying, 'Don't touch your child', God help the future of children here. We all know what's happening with this radicalisation these days—because we are not disciplining our children in this country. That is the biggest problem we are facing. I heard just one of the colleagues here saying part of the religion is saying we have a divine right to hit a child. That's not the religion. Muslims are never allowed to hit their children, but they do discipline their children if they go beyond their imagination, or do any naughty things that they don't want to see.

Rwy'n ddiolchgar iawn am gael cymryd rhan yn y ddadl ddifrifol iawn hon. Buom i gyd yn blant unwaith, a gwyddom sut y gall rhieni ymddwyn. Nid wyf yn credu y gall neb roi ei law ar ei galon a dweud, 'Ni wnaeth fy mam fy nharo i erioed'. Cefais fy ngeni i deulu o naw. Tyngaf ar fy llw na chyffyrddodd fy nhad mewn unrhyw blentyn erioed, ond fe wnaeth mam. Aeth fy mrodyr i gyd – pump ohonynt – yn beilotiaid awyrennau ymladd, penigamp: mae wir yn gweithio pan mae tad a mam yn disgyblu plentyn, yn enwedig y fam. Os byddwch yn atal y fam rhag yr hawl ddwyfol hon, gan ddweud, 'Peidiwch â chyffwrdd eich plentyn', Duw a helpo dyfodol plant yma. Rydym i gyd yn gwybod beth sy'n digwydd gyda'r radicaleiddio hwn y dyddiau hyn—oherwydd nad ydym yn disgyblu ein plant yn y wlad hon. Dyna'r broblem fwyaf yr ydym yn ei hwynebu. Clywais un o'r cydweithwyr yma'n dweud mai rhan o'r grefydd yw dweud bod gennym hawl ddwyfol i daro plentyn. Nid dyna'r grefydd. Ni chaiff Mwslimiaid fyth daro'u plant, ond maent yn disgyblu eu plant os ydynt yn mynd y tu hwnt i'w dychymyg, neu'n gwneud rhyw ddrygioni nad ydynt yn dymuno i'w plant ei wneud.

Why are you stopping it? Just tell me once. Only last week, Deputy Presiding Officer—last week—I walked into a local shop and the shopkeeper was shaking. I said, 'What happened?' He said that some of the children—five or six of them, under the age of 10 or 12—took sweets and crisps and ran away from the shop, in Newport. He was shaking. He got hold of one boy and the boy told him, 'You can't touch me'. This shopkeeper left the child and the child threw the sweets and crisps and ran away, but his colleagues, they got away with the sweets. When I was there, the policewoman turned up. This was last week. And those half a dozen children who ran away with these sweets and chocolates—he couldn't do anything and the policewoman did nothing. They only said, 'Okay, we'll do something. We'll come back and see the CCTV and do something'. That is not the right way to teach a child in this country. We all know when this country was a great Britain. The people in those days had a proper disciplinary act from the teachers and the parents. And that was the time—. [Interruption.] That was the time—. [Interruption.] No, the children must be disciplined by mothers. I've been saying this—

Pam yr ydych yn ei atal? Dywedwch wrthyf fi unwaith. Dim ond yr wythnos ddiwethaf, Ddirprwy Lywydd—wythnos ddiwethaf—cerddais i mewn i siop leol ac roedd perchennog y siop yn crynu. Dywedais, 'Beth sydd wedi digwydd?' Dywedodd fod rhai o'r plant—pump neu chwech ohonynt, o dan 10 neu 12 oed—wedi cymryd losin a chreision a rhedeg o'r siop, yng Nghasnewydd. Roedd yn crynu. Cafodd afael ar un bachgen a dywedodd y bachgen wrtho, 'Chewch chi ddim cyffwrdd ynof fi'. Gollyngodd gŵr y siop y plentyn a thaflodd y plentyn y losin a'r creision a rhedeg i ffwrdd, ond llwyddodd ei gymdeithion i ddianc â'r losin. Tra'r oeddwn i yno, cyrhaeddodd y blismones. Yr wythnos ddiwethaf oedd hyn. A'r hanner dwsin o blant yna wnaeth redeg i ffwrdd â'r losin a siocled—ni allai wneud dim ac ni wnaeth y blismones ddim. Dim ond dweud, 'Iawn, fe wnawn ni rywbeth. Fe ddown ni'n ôl ac edrych ar y teledu cylch cyfyng a gwneud rhywbeth'. Nid dyna'r ffordd iawn i addysgu plentyn yn y wlad hon. Rydym i gyd yn gwybod pryd roedd y wlad hon yn Brydain fawr. Roedd y bobl yn y dyddiau hynny yn derbyn disgyblaeth go iawn gan yr athrawon a'r rhieni. A dyna oedd yr amser—. [Torri ar draws.] Dyna oedd yr amser—. [Torri ar draws.] Na, mae'n rhaid i'r plant gael eu disgyblu gan famau. Rydw i wedi bod yn ei ddweud hyn—

19:06

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

19:06

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Let me finish this. The mothers have a divine right. When you are telling me this, it means you are putting the cart in front of the horse. How can a mother put a child in the right direction if she's not allowed to do things that she wants to do for what her child should do? Go on.

Gadewch imi orffen hyn. Mae gan famau hawl ddwyfol. Pan fyddwch yn dweud hyn wrthyf i, mae'n golygu eich bod yn rhoi'r cart o flaen y ceffyl. Sut gall mam roi ei phlentyn ar y trywydd cywir os nad yw hi'n cael gwneud pethau y mae'n dymuno'u gwneud ar gyfer beth y dylai ei phlentyn ei wneud? Cerwch ymlaen.

19:06

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for taking the intervention. The word 'discipline' is derived from the word 'disciple', which means to provide an example to follow. Would you like the children of Wales to be following the example of physical violence being a way to resolve conflict?

Diolch ichi am gymryd yr ymyriad. Mae'r gair 'disgyblaeth' yn tarddu o'r gair 'disgybl', sy'n golygu rhoi esiampl i'w dilyn. A fyddech yn hoffi i blant Cymru fod yn dilyn esiampl o drais corfforol fel ffordd i ddatrys gwrthdaro?

19:06

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

No, I'm not talking—. Have you heard the word 'violence' from me? I said a 'smack'. Mum should have a right. That is my point to all my colleagues here. Don't stop it, for God's sake, so that a mother cannot touch a child of her own, because she gave birth to the child and you're telling her not to do it, criminalising the mother. I think we are all living in a cuckoo's land. We should not pass a Bill where a child cannot be put in the right direction by their parents. That is my request to you all. We must tell our children the right direction. No parent wants to see a child who is not disciplined or not going in the right direction. Every parent has some expectation from their child, whether it is a girl or a boy, and when they do the right thing they are rewarded—they get stars and everything, sweets and everything. But, when they do naughty things, they do have a smack. Why are we stopping it? Why are we making a law? I just cannot understand. This is not right, and the radicalisation—we all hear it. We do not want our future generation going in the wrong direction. A free-for-all is not good enough. We must learn from history, and we must learn here what we're doing. This is not the right thing to do.

Na, dydw i ddim yn siarad—. A ydych chi wedi clywed y gair 'trais' gen i? 'Smacio' ddywedais i. Dylai Mam gael yr hawl. Dyna fy mhwynt i fy holl gydaelodau yma. Peidiwch â'i atal, er mwyn Duw, fel na all mam gyffwrdd â'i phlentyn ei hun, oherwydd fe roddodd hi enedigaeth i'r plentyn ac rydych yn dweud wrthi am beidio â gwneud hynny, ac yn gwneud y fam yn droseddwraig. Rwy'n credu ein bod i gyd yn byw mewn paradwys ffŵl. Ni ddylem basio Bil sy'n dweud na all rhieni roi eu plentyn ar y trywydd cywir. Dyna fy nghais i chi i gyd. Mae'n rhaid inni ddweud wrth ein plant beth yw'r trywydd cywir. Nid oes unrhyw riant am weld plentyn sydd ddim yn cael ei ddisgyblu neu ddim ar y trywydd cywir. Mae gan bob rhiant rai disgwyliadau ynglŷn â'i blentyn, boed yn ferch neu fachgen, a phan fyddant yn gwneud y peth iawn maen nhw'n cael eu gwobrwyo—maen nhw'n cael sêr a phopeth, melysion a phopeth. Ond, pan maent yn gwneud drygioni, maent yn cael eu smacio. Pam rydym yn ei atal? Pam rydym yn gwneud cyfraith? Rwy'n methu'n lân â deall. Nid yw hyn yn iawn, ac mae'r radicaleiddio—rydym i gyd yn clywed amdano. Nid oes arnom eisiau i'n cenhedlaeth ddilyn y trywydd anghywir. Nid yw rhyddid i bawb wneud fel y mynno ddim yn ddigon da. Rhaid inni ddysgu oddi wrth hanes, a rhaid inni ddysgu yma beth rydym yn ei wneud. Nid dyma'r peth iawn i'w wneud.

Also, Deputy Presiding Officer, there is something we are all here agreed on: a child should not be hurt by any third party. I agree with you that, at every point in the law, no third person should touch a child. Father and mother—they gave birth to the child—especially mum. [Interruption.] That's what I'm saying all along. I know some of her colleagues are very passionately saying that a child must not be touched, that we've made a law in the world, in 44 countries. Mothers, I'm talking about. They should have a complete right and it's a divine right they've got because they gave birth, and they never hurt—. I mean, real, extreme violence—no, nothing. A mother never hurts like that. Also, this is something where I would be very grateful if colleagues think twice about supporting this Bill. I'm not going to support this because we are going backwards, not forwards when we say that we have to criminalise when somebody hits a child. That's not the right thing. That's exactly not the right thing.

Hefyd, Ddirprwy Lywydd, mae rhywbeth yr ydym i gyd yma'n gytûn yn ei gylch: ni ddylai plentyn gael ei frifo gan unrhyw drydydd parti. Rwy'n cytuno â chi na ddylai unrhyw drydydd person gyffwrdd â phlentyn, ar bob pwynt yn y gyfraith. Tad a mam—maen nhw wedi rhoi genedigaeth i'r plentyn—yn enwedig mam. [Torri ar draws.] Dyna beth yr wyf wedi bod yn ei ddweud gydol yr amser. Rwy'n gwybod bod rhai o'i chydaelodau'n dweud yn angerddol iawn na ddylid cyffwrdd â phlentyn, ein bod wedi gwneud cyfraith yn y byd, mewn 44 o wledydd. Rwy'n siarad am famau. Dylent fod â hawl llwyr ac mae'n hawl ddwyfol sydd ganddyn nhw oherwydd eu bod wedi rhoi genedigaeth, ac nid ydyn nhw byth yn brifo—. Trais gwirioneddol, eithafol rwy'n ei olygu—na, dim. Nid yw mam byth yn rhoi loes felly. Hefyd, mae hyn yn rhywbeth lle y byddwn yn ddiolchgar iawn pe byddai cydaelodau'n meddwl ddwywaith am gefnogi'r Bil hwn. Nid wyf yn mynd i gefnogi hyn oherwydd ein bod yn mynd tuag yn ôl, nid ymlaen pan ddywedwn bod rhywun yn droseddwr os yw'n taro plentyn. Nid dyna'r peth cywir. Nid dyna'r peth cywir o gwbl.

Finally, we do not want radicalised and undisciplined future children. Believe me, nobody will forgive us. Get a referendum on this and you can see what people are going to say in Wales. No mother is going to say anything. So, Deputy Presiding Officer, that's why I don't want to see that this Bill is going to be passed.

Yn olaf, nid oes arnom eisiau plant heb ddisgyblaeth ac wedi eu radicaleiddio yn y dyfodol. Credwch fi, ni fydd neb yn maddau inni. Cynhaliwch refferendwm ar hyn a chewch weld beth mae pobl yn mynd i'w ddweud yng Nghymru. Nid oes unrhyw fam yn mynd i ddweud dim. Felly, Ddirprwy Lywydd, dyna pam nad wyf am weld y Bil hwn yn cael ei basio.

19:10 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to first of all put on the record that I have every respect for people who have put this amendment forward, but I will ask for the same respect for those people who have taken part in the debate and given a reason for not supporting it, and I will not be supporting it. I won't be supporting it because it is, after all, a landmark Bill. It is a seminal piece of legislation, and it is aimed at keeping women and girls safe from violence and domestic abuse. I also want to put another figure out. The time that we have taken here today to discuss this will have seen over 100 women call for help. That is how intense this subject is, and that is why I support this Bill.

Rwy'n dymuno'n gyntaf gofnodi'r ffaith bod gennyf bob parch at y bobl sydd wedi rhoi'r gwelliant hwn gerbron, ond byddaf yn gofyn am yr un parch tuag at y bobl hynny sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl ac wedi rhoi rheswm dros beidio â'i gefnogi, ac ni fyddaf i'n ei gefnogi. Ni fyddaf yn ei gefnogi oherwydd ei fod, wedi'r cyfan, yn Fil a fyddai'n torri tir newydd. Mae'n ddarn arloesol o ddeddfwriaeth, a'i fwriad yw diogelu menywod a merched rhag trais a cham-drin domestig. Rwy'n dymuno cyflwyno ffigwr arall hefyd. Yn ystod yr amser y buom yn trafod hyn yma, bydd dros 100 o fenywod wedi galw am help. Dyna pa mor ddifrifol yw'r pwnc hwn, a dyna pam yr wyf yn cefnogi'r Bil hwn.

I can't take route 66 on this issue because I'm afraid that is a wrecking motion at worst and it's a delaying motion, most certainly. But I will, however, willingly take part in any future movement or debate that examines all aspects to remove the defence of reasonable chastisement. But it is essential, and many people have said it before me, that we take all the public with us on this and that we give clarity of purpose. I know, from the conversations that I have had—the sorts of conversations that Jeff Cuthbert talked about earlier—that people aren't clear about what this means. There is no clarity. And I'm more than concerned that this—and it has been an eleventh hour amendment to this Bill—has denied the opportunity to discuss what that amendment is intended to do.

Ni allaf ddilyn 'route 66' ar y mater hwn gan fy mod yn ofni ei fod, ar ei waethaf, yn gynnig sydd â'r bwriad o ddinistrio ac mae'n bendant wedi ei fwriadu i achosi oedi. Ond byddaf, fodd bynnag, yn barod i gymryd rhan mewn unrhyw gam neu ddadl yn y dyfodol sy'n archwilio pob agwedd er mwyn cael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol. Ond mae'n hanfodol, ac mae llawer o bobl wedi dweud hyn cyn i mi ddweud, ein bod yn mynd â'r cyhoedd i gyd gyda ni yn hyn o beth a'n bod yn sicrhau bod ein diben yn eglur. Rwy'n gwybod, o'r sgyrsiau yr wyf wedi'u cael—y mathau o sgyrsiau y soniodd Jeff Cuthbert amdanynt yn gynharach—nad yw pobl yn glir ynglŷn â beth mae hyn yn ei olygu. Nid oes unrhyw eglurder. Ac rwy'n fwy na phryderus bod hyn—ac mae hwn wedi bod gwelliant unfed awr ar ddeg i'r Bil—wedi golygu na chafwyd cyfle i drafod yr hyn y bwriedir i'r gwelliant ei wneud.

So, I can't support it. I can support the principles and I do think that we need to move forward from here; there has been a debate in Wales and I think that is welcome, but I think that it needs to be, as Gwenda Thomas said earlier, a standalone Bill. Most definitely it needs to be a standalone Bill. I agree with Darren Millar when he said that this is not in any party's manifesto—and it isn't in any party's manifesto—and that also concerns me.

Felly, ni allaf ei gefnogi. Gallaf gefnogi'r egwyddorion ac rwy'n credu bod angen inni symud ymlaen o'r man hwn; mae dadl wedi digwydd yng Nghymru, a chredaf fod hynny'n rhywbeth i'w groesawu, ond rwy'n meddwl bod angen iddo fod yn Fil annibynnol, fel y dywedodd Gwenda Thomas yn gynharach. Yn bendant mae angen iddo fod yn Fil annibynnol. Rwy'n cytuno â Darren Millar pan ddywedodd nad yw hyn yn ym maniffesto unrhyw blaid—ac nid yw ym maniffesto unrhyw blaid—ac mae hynny hefyd yn peri pryder imi.

19:12 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

19:12 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a minute. We need to be clear about what we're doing, and what we are doing here today is actually protecting women and girls from domestic abuse and violence. This Bill never was intended to be, and is not, a Bill about preventing smacking or banning smacking of children. All the headlines that I have read today have been disappointing because all those headlines that I've read today have focused on that, and they have completely lost the focus about what this Bill is really about. I commend this Bill to the Assembly, and I really hope people will support it, because in the time that I've taken to speak, there have been another 10 phone calls to the police to ask for help on domestic abuse.

Mewn munud. Mae angen inni fod yn glir ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud, a'r hyn yr ydym yn ei wneud yma heddiw mewn gwirionedd yw amddiffyn menywod a merched rhag cam-drin domestig a thrais. Nid yw'r Bil hwn, ac ni fu'n fwriad erioed iddo fod, yn Fil ynglŷn ag atal smacio neu wahardd smacio plant. Mae pob un o'r penawdau yr wyf i wedi'u darllen heddiw wedi fy siomi oherwydd bod yr holl benawdau hynny yr wyf wedi'u darllen heddiw wedi canolbwyntio ar hynny, ac maent wedi colli ffocws ar wir ddiben y Bil hwn yn llwyr. Rwy'n cymeradwyo'r Mesur hwn i'r Cynulliad, ac rwyf wir yn gobeithio y bydd pobl yn ei gefnogi, oherwydd yn ystod yr amser y bûm yn siarad, bu 10 o alwadau ffôn arall i'r heddlu i ofyn am gymorth ynglŷn â cham-drin domestig.

19:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I call the Minister.

A galwaf y Gweinidog.

19:14 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, there are many good arguments for ending the defence of reasonable punishment, but the Government has been clear that this Bill is not the right place to address this issue and we remain strongly of that view. As has been stated from the outset, this Bill is not seeking to address criminal justice matters, but seeks to complement existing criminal law, focusing on the social issues within the areas of prevention, protection and support.

Ddirprwy Lywydd, mae llawer o ddadleuon da dros gael gwared â'r amddiffyniad cosb resymol, ond mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir nad y Bil hwn yw'r lle cywir i fynd i'r afael â'r mater hwn ac rydym yn parhau'n bendant i fod o'r farn honno. Fel y dywedwyd o'r dechrau, nid yw Bil hwn yn ceisio mynd i'r afael â materion cyfiawnder troseddol, ond yn hytrach mae'n ceisio ategu cyfraith droseddol sydd eisoes yn bodoli, gan ganolbwyntio ar y materion cymdeithasol o fewn meysydd atal, amddiffyn a chefnogi.

Prior to introduction, the Government undertook a comprehensive consultation on the proposals contained in the Bill. That consultation did not address the possible removal of the defence of reasonable punishment. Therefore, no public consultation has been undertaken by the Government on this issue since the Bill's introduction. The Government has taken steps separately from this legislation to begin the process of moving forward on the issue of ending the defence of reasonable punishment. There has been a vote in this Chamber to start the process of further consideration and consultation, through the establishment of a committee to consider the implications of a change in the law and the views of key stakeholders. Despite agreement to establish the committee, we have had continued opposition to beginning that process. As a result, the Minister for Finance and Government Business has written to the Chair of the Children, Young People and Education Committee to propose that the removal of the defence of reasonable punishment be considered by that committee.

Cyn ei gyflwyno, cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad cynhwysfawr ar y cynigion yn y Bil. Ni wnaeth yr ymgynghoriad hwnnw ymdrin â'r posibilrwydd o ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. Felly, nid yw'r Llywodraeth wedi cynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwn ers cyflwyno'r Bil. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau ar wahân i'r ddeddfwriaeth hon i ddechrau'r broses o symud ymlaen ar y mater o ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. Bu pleidlais yn y Siambr hon i gychwyn y broses o wneud mwy o waith ystyried ac ymgynghori, drwy sefydlu pwyllgor i ystyried goblygiadau newid yn y gyfraith a barn rhanddeiliaid allweddol. Er y cytunwyd i sefydlu'r pwyllgor, rydym wedi cael gwrthwynebiad parhaus i ddechrau'r broses honno. O ganlyniad, mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gynnig bod y pwyllgor hwnnw'n ystyried mater cael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol.

It is worth reminding this Chamber of what we said in our manifesto at the last Assembly election in 2011. We did not make any commitment to ending the defence of reasonable punishment. Our manifesto stated that we would

Mae'n werth atgoffa'r Siambr hon o'r hyn a ddywedwyd gennym yn ein maniffesto yn etholiad diwethaf y Cynulliad yn 2011. Ni wnaethom unrhyw ymrwymiad i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. Nododd ein maniffesto y byddem yn

'work to make physical punishment of children and young people unacceptable through the promotion of positive alternatives.'

'gweithio i wneud cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol yn annerbyniol trwy hyrwyddo dewisiadau amgen cadarnhaol.'

That is the policy on which we went to the electorate.

Dyna'r polisi a gynigiwyd gennym i'r etholwyr.

Since that time, my party has had a working group, which reported in March 2014 that the defence should, in due course, be removed. But, the working group warned that, and I quote,

Ers hynny, mae fy mhlaid wedi sefydlu gweithgor, a gyflwynodd adroddiad ym mis Mawrth 2014 gan nodi y dylai’r amddiffyniad gael ei ddileu, maes o law. Ond, rhybuddiodd y gweithgor hwnnw, ac rwy’n dyfynnu,

‘A rush to law could have serious and unintended consequences for a wide range of people.’

Gallai rhuthro i gyfraith arwain at ganlyniadau difrifol a rhai nas bwriadwyd, i amrywiaeth eang o bobl.

It also said, and again I quote:

Dywedodd hefyd, ac unwaith eto rwy’n dyfynnu:

‘great care is required in the detailed and extensive guidance that would need to accompany such a change in law’.

mae angen gofal mawr yn y canllawiau manwl a helaeth y byddai eu hangen i gyd-fynd â newid o'r fath yn y gyfraith.

That working group recommended considerable additional work prior to legislating, work that has not yet been done, to include formal discussions with the police, prosecutors, social services and education authorities. Most crucially, it recommended engagement with parents and children. It said, and I quote again:

Argymhellodd y gweithgor fod angen gwneud gwaith ychwanegol sylweddol cyn deddfu, gwaith sydd heb ei wneud eto, gan gynnwys trafodaethau ffurfiol â'r heddlu, erlynwyr, y gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau addysg. Yn hollbwysig, roedd yn argymell ymgysylltu â rhieni a phlant. Dywedodd, a dyfynnaf eto:

‘This issue is not owned by a single political party, pressure group or sector and the conclusions that are reached by the National Assembly for Wales must be owned by the people of Wales and their children.’

Nid yw'r mater hwn yn eiddo i un blaid wleidyddol, na charfan ymgyrchu na sector ac mae’n rhaid i bobl Cymru a’u plant fod yn berchen ar y casgliadau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu cyrraedd.

The working group also recommended that the risks to the rest of the programme of legislation should be minimised by developing a stand-alone Bill on this issue, with a full scrutiny process, including drafts of the statutory guidance. That has not been done in the case of this amendment, and tacking this issue on to a wider piece of legislation, through an amendment, would not be the responsible way to take the issue forward.

Argymhellodd y gweithgor hefyd y dylid lleihau’r risgiau i weddill y rhaglen ddeddfwriaeth trwy ddatblygu Bil annibynnol ar y mater hwn, gyda phroses graffu gyflawn, gan gynnwys drafftiau o'r canllawiau statudol. Nid yw hynny wedi cael ei wneud yn achos y gwelliant hwn, ac nid ychwanegu’r mater hwn at ddarn ehangach o ddeddfwriaeth, trwy welliant, mo’r ffordd gyfrifol i fwrw ymlaen â’r mater.

Serious issues have been raised as to competence for these draft provisions on grounds of compatibility with article 8 of the European Convention on Human Rights, the protection of private and family life, because of the extra interference with parental control.

Codwyd materion difrifol ynglŷn â chymhwysedd y darpariaethau drafft hyn ar sail cydnawsedd ag erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, amddiffyn bywyd preifat a theuluol, oherwydd yr ymyrraeth ychwanegol â rheolaeth rhieni.

Under the existing section 58 law, the defence would not be available if a child is subjected to being hit and is caused anything more than trivial or transient injury, so, for example, any bruise or mark would be sufficient to remove the defence on the current law as it stands. Under this provision, any forcible touching of a child, including to restrain, would arguably become a criminal offence, and it would be very difficult to draw the line and for parents to understand what they could and couldn’t do.

O dan y gyfraith bresennol yn adran 58, ni fyddai'r amddiffyniad ar gael pe byddai plentyn yn cael ei daro ac yn dioddef unrhyw beth mwy nag anaf bach neu dros dro, felly, er enghraifft, byddai unrhyw glais neu farc yn ddigon i ddileu’r amddiffyniad yn ôl y gyfraith bresennol fel ag y mae. Gellid dadlau y byddai unrhyw achos o gyffwrdd â’r plentyn drwy rym, gan gynnwys i’w atal, yn dod yn drosedd o dan y ddarpariaeth hon, a byddai'n anodd iawn tynnu’r llinell ac i rieni ddeall yr hyn y maent yn cael a’r hyn nad ydynt yn cael ei wneud.

Reference by the Attorney-General is highly likely, and we have seen that reference on limited aspects of a Bill can have much broader consequences. In terms of the Attorney-General, regardless of the views of the Welsh Government and the Assembly on competence, the UK Government has in the past expressed the view that legislating to remove the defence of reasonable punishment would be outside the Assembly's legislative competence. The Attorney-General has the power to refer Assembly Bills to the Supreme Court if he considers they are outside the Assembly's competence. A referral to the Supreme Court could result in a significant delay to Royal Assent for this Bill. This would delay the Bill's coming into force and its implementation. For example, this would delay the appointment of the adviser and the publication of the first national and local strategies. Thus, given their extremely controversial nature as to competence, amendment to this Bill is not the right place to make these significant changes in the law not otherwise addressed by the Bill.

Mae'n debygol iawn y gallai'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r Bil, ac rydym wedi gweld y gellir arwain at ganlyniadau llawer ehangach trwy gyfeirio Bil oherwydd agweddau cyfyngedig arno. O ran y Twrnai Cyffredinol, waeth beth yw barn Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad ynglŷn â chymhwysedd, mae Llywodraeth y DU yn y gorffennol wedi mynegi'r farn y byddai y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i ddeddfu i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. Mae gan y Twrnai Cyffredinol y pŵer i gyfeirio Biliau'r Cynulliad at y Goruchaf Lys os yw o'r farn eu bod yn y tu hwnt i gymhwysedd y Cynulliad. Gallai arwain at oedi sylweddol cyn cael Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y Bil hwn pe byddai'n cael ei gyfeirio at y Goruchaf Lys. Byddai hyn yn achosi oedi cyn i'r Bil ddod i rym a chael ei weithredu. Er enghraifft, byddai hyn yn achosi oedi cyn penodi'r ymgynghorydd a chyhoeddi'r strategaethau cenedlaethol a lleol cyntaf. Felly, o ystyried eu natur hynod ddadleuol o ran cymhwysedd, nid gwelliant i'r Bil hwn yw'r lle cywir i wneud y newidiadau sylweddol hyn yn y gyfraith nad yw'r Bil yn ymdrin â nhw eisoes.

This violence against women, domestic abuse and sexual violence Bill is a landmark Bill. It is groundbreaking legislation—the first of its kind in the UK, and the first in Europe to focus explicitly on violence against women. We must keep a focus on the issues that this Bill seeks to address: that one in four women in Wales has suffered violence or abuse in a relationship, and that, every year, 150 women die in the UK at the hands of their partner or former partner. Preventing this, protecting and supporting victims is the purpose of the Bill in front of you today.

Mae'r Bil hwn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn Fil pwysig dros ben. Mae'n torri tir deddfwriaethol newydd—y cyntaf o'i fath yn y DU, a'r cyntaf yn Ewrop i ganolbwyntio'n benodol ar drais yn erbyn menywod. Mae'n rhaid inni barhau i ganolbwyntio ar y materion y mae'r Bil hwn yn ceisio ymdrin â nhw: bod un o bob pedair menyw yng Nghymru wedi dioddef trais neu gam-drin mewn perthynas, a bod 150 o fenywod yn marw yn y DU bob blwyddyn dan ddwylo eu partner neu gyn-bartner. Atal hyn, ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr yw diben y Bil o'ch blaen chi heddiw.

Let me remind you how we have strengthened this Bill: adding a new section specifically dealing with the disproportionate impact of violence against women and girls; changing the title of the Bill to reflect that; amending the Bill in respect of education, enabling the Welsh Ministers to place a duty on local authorities to report on how they are addressing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence in the exercise of their educational functions, including schools; strengthening the preventative aspects with the amendment to clarify that awareness-raising guidance, to be issued under section 14, will be focused on changing attitudes; inclusion of provisions to ensure consultation with relevant stakeholders on both national and local strategies; amendments to provide additional examples of the guidance that the Welsh Ministers could issue under section 14—the provisions therefore now refer to workplace policies and the commissioning of services; additional amendments in respect of further and higher education; an amendment in relation to the designation of a member of staff by a relevant authority for the purpose of taking steps to increase awareness, or change attitudes—such guidance could outline the steps that we would want a local authority to take to designate a member of staff as a champion to support the purposes of the Bill; and, in direct response to the comments of the communities committee, amendments to change the name of the ministerial adviser to 'national adviser', reflecting the important national independent focus of the role.

Gadewch imi eich atgoffa sut rydym wedi cryfhau Bil hwn: ychwanegu adran newydd sy'n ymdrin yn benodol ag effaith anghymesur trais yn erbyn menywod a merched; newid teitl y Bil i adlewyrchu hynny; diwygio'r Bil mewn cysylltiad ag addysg, gan alluogi Gweinidogion Cymru i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad ar sut maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol wrth arfer eu swyddogaethau addysgol, gan gynnwys ysgolion; cryfhau'r agweddau ataliol trwy gyfrwng y gwelliant ynglŷn ag egluro y bydd canllawiau codi ymwybyddiaeth, i'w cyhoeddi o dan adran 14, yn canolbwyntio ar newid agweddau; cynnwys darpariaethau i sicrhau yr ymgynghorir â rhanddeiliaid perthnasol ar strategaethau cenedlaethol a lleol; gwelliannau i ddarparu enghreifftiau ychwanegol o'r canllawiau y gallai Gweinidogion Cymru eu cyhoeddi o dan adran 14—mae'r darpariaethau nawr yn cyfeirio at bolisïau gweithle ac at gomisiynu gwasanaethau felly; gwelliannau ychwanegol o ran addysg bellach ac uwch; gwelliant mewn cysylltiad â'r angen i awdurdodau perthnasol ddynodi aelod o staff i gymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth, neu newid agweddau—gallai canllawiau o'r fath amlinellu'r camau y byddem yn dymuno i awdurdod lleol eu cymryd i ddynodi aelod o staff yn hyrwyddwr i gefnogi dibenion y Bil; ac, mewn ymateb uniongyrchol i sylwadau'r pwyllgor cymunedau, gwelliannau i newid enw'r cynghorydd gweinidogol i 'cynghorydd cenedlaethol', gan adlewyrchu ffocws annibynnol cenedlaethol pwysig y rôl.

We should not put this Bill in jeopardy over this issue. As a Government, we are strongly of the view that taking the step of removing the defence of reasonable punishment should only be on the basis of a robust mandate from the people of Wales. Therefore, I urge Members to resist this amendment.

Ni ddylem beryglu'r Bil hwn dros y mater hwn. Fel Llywodraeth, rydym yn bendant o'r farn mai ar sail mandad cadarn oddi wrth bobl Cymru yn unig y dylid cymryd y cam o ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i wrthod y gwelliant hwn.

19:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Julie Morgan to reply to the debate.

Rwy'n galw ar Julie Morgan i ymateb i'r ddadl.

19:21

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I think it's been a very robust debate, and I think people have all spoken very passionately about things that are very close to their hearts.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n credu iddi fod yn ddadl gadarn iawn, a chredaf fod pobl wedi siarad yn angerddol iawn i gyd am bethau sy'n agos iawn at eu calonnau.

Just dealing, to begin with, with the Minister's comments, the Minister referred to the Labour Party working group, of which I was a member, and he referred to the lack of a manifesto commitment. The Labour Party working group felt that progress could be made in this Assembly term, based on a manifesto that strongly endorsed the rights of children, and that was very strongly specified in our manifesto, and also in the context of the fact that the established policy of the Welsh Government for many years was to remove the defence of reasonable punishment.

I ddelio, i ddechrau, â sylwadau'r Gweinidog, cyfeiriodd y Gweinidog at weithgor y Blaid Lafur, yr oeddwn i'n aelod ohono, a chyfeiriodd at y ffaith nad oedd ymrwymiad yn y maniffesto. Teimlai gweithgor y Blaid Lafur y gellid symud ymlaen yn ystod tymor y Cynulliad hwn, yn seiliedig ar faniffesto sy'n cymeradwyo hawliau plant yn gryf, a nodwyd hynny'n gryf iawn yn ein maniffesto, a hefyd yng nghyd-destun y ffaith mai polisi sefydledig Llywodraeth Cymru ers blynyddoedd lawer oedd dileu'r amddiffyniad cosb resymol.

There has been endless consultation on this issue. The consultation issue has also been raised many times, and not just the consultation that has arisen as a result of the committees that have looked at different aspects of this Bill—the health committee, the children's committee, the communities and local government committee—but also endless Welsh Government consultations that took place when it was the established policy of the Government. There were many documents that this Welsh Government looked at; I think Jocelyn Davies referred to the fact that it was one of the core principles—one of the core aims—of the Welsh Labour-led Government that the defence of reasonable punishment should be removed, and how we would get there was what was being discussed. So, I think, to say that this hasn't been discussed is not relevant.

Bu ymgynghori diddiwedd ar y mater hwn. Codwyd cwestiwn yr ymgynghoriad hefyd sawl gwaith, ac nid dim ond yr ymgynghoriad a gododd o ganlyniad i'r pwyllgorau sydd wedi edrych ar wahanol agweddau ar y Bil—y pwyllgor iechyd, y pwyllgor plant, pwyllgor cymunedau a llywodraeth leol—ond hefyd yr ymgynghoriadau di-ben-draw gan Lywodraeth Cymru a ddigwyddodd pan oedd yn bolisi sefydledig y Llywodraeth. Edrychodd y Llywodraeth Cymru bresennol ar lawer o ddogfennau; rwy'n credu bod Jocelyn Davies wedi cyfeirio at y ffaith ei fod yn un o egwyddorion craidd—un o amcanion craidd—Llywodraeth Cymru a arweiniwyd gan Blaid Lafur Cymru y dylai'r amddiffyniad cosb resymol gael ei ddileu, ac roeddem yn trafod sut i gyrraedd y pwynt hwnnw. Felly, rwy'n meddwl nad yw'n berthnasol dweud nad yw hyn wedi cael ei drafod.

*Simon Thomas a gododd—*

*Simon Thomas rose—*

19:23

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ie.

19:23

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to Julie Morgan for giving way on that point. She will remember the 2004 Act discussions in Parliament, when I was there and she was there, and we've heard about it today again, where it was clearly stated that the wish of the Assembly at that stage—and the Assembly Government at that stage—was to see the legislation that she is now seeking through this amendment. Here, we have the opportunity to do it ourselves, not to rely on another Parliament to do it, and that's why I'm supporting her amendment 100%.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Julie Morgan am ildio ar y pwynt hwnnw. Bydd yn cofio'r trafodaethau yn y Senedd ynglŷn â Deddf 2004, pan oeddwn i yno ac roedd hithau yno, ac rydym wedi clywed am y peth heddiw eto, pryd y datganwyd yn glir mai dymuniad y Cynulliad bryd hynny—a Llywodraeth y Cynulliad bryd hynny—oedd gweld y ddeddfwriaeth y mae hi nawr yn ceisio'i sefydlu drwy'r gwelliant hwn. Yma nawr, mae gennym y cyfle i wneud hyn ein hunain, heb ddibynnu ar Senedd arall i'w wneud, a dyna pam rwy'n cefnogi ei gwelliant hi 100%.

19:23 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I agree with the Member. I find it deeply ironic that I was actually in Westminster, putting forward what the Welsh Labour Government here wanted, and lobbying the Westminster Government to do that, but when I'm trying now to do it here, years later, it is not proceeding. So, I think that is deeply ironic. Because it was the established policy of the Welsh Government, and I don't think we can ignore that, when we look at how much consultation and how much discussion there's been.

Ydw, rwy'n cytuno â'r Aelod. Rwy'n ei gweld yn hynod o eironig fy mod i yn San Steffan, yn cyflwyno'r hyn yr oedd Llywodraeth Lafur Cymru yma'n ei ddymuno, ac yn lobïo Llywodraeth San Steffan i wneud hynny, ond nawr pan rydw i'n ceisio ei wneud yma, flynyddoedd yn ddiweddarach, nid yw'n symud yn ei flaen. Felly, credaf fod hynny'n eironig dros ben. Oherwydd roedd yn bolisi sefydledig gan Lywodraeth Cymru, ac nid wyf yn meddwl y gallwn ni anwybyddu hynny, wrth edrych ar faint o ymgynghori a faint o drafodaeth sydd wedi bod.

The other issue I wanted to raise was the issue of public opinion. I'm not a bit surprised that 72% said whatever they said in that Welsh Government poll, because, in all the countries that have brought this legislation in, there was never public support for it before it happened, but it is the sort of legislation where, after it happens, public opinion changes, and that's quite clearly happened in all the countries that have brought this legislation in and that have got any length of history where it's happened—public opinion has changed. It's changed as a result of the law being changed, and none of this legislation has been done anywhere else with the public cheering the Government on. The Government has had to lead in those other countries: the Government has had to decide that it is wrong that children are not equal to adults and that they don't have the equal protection, and they have to take that step and lead, and that's what I would like this Government to do here.

Y mater arall yr oeddwn yn dymuno'i godi oedd mater y farn gyhoeddus. Nid wyf wedi fy synnu o gwbl bod 72% wedi dweud beth bynnag y gwnaethant ei ddweud yn y pôl hwnnw gan Lywodraeth Cymru, oherwydd nad oedd cefnogaeth gyhoeddus iddi fyth cyn iddi ddigwydd, yn yr holl wledydd sydd wedi cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, ond mae'r math o ddeddfwriaeth lle mae'r farn gyhoeddus yn newid ar ôl iddi gael ei phasio, ac mae hynny'n wedi digwydd yn glir iawn yn yr holl wledydd sydd wedi cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ac sydd â hanes weddol hir ohoni—mae'r farn gyhoeddus wedi newid. Mae wedi newid o ganlyniad i newid y gyfraith, ac nid oes deddfwriaeth fel hon wedi cael ei phasio yn unman arall gyda'r cyhoedd yn annog y Llywodraeth i weithredu. Mae'r Llywodraeth wedi gorfod arwain yn y gwledydd eraill hynny: mae'r Llywodraeth wedi gorfod penderfynu ei bod yn anghywir nad yw plant yn gyfartal ag oedolion ac nad oes ganddynt amddiffyniad cyfartal, ac maent wedi gorfod cymryd y cam hwnnw ac arwain, a dyna beth yr hoffwn i'r Llywodraeth hon ei wneud yma.

The other point that was made—a lot of people made the point—was about the positive parenting and all the different schemes that are in existence to try to help parents. Gwenda Thomas made the important point, I thought, that many of those were aimed at the Communities First areas where less well-off families live, and this is an issue for all parents. I absolutely think that it is absolutely essential to believe that.

Y pwynt arall a wnaed—mae llawer o bobl wedi gwneud y pwynt—oedd ynglŷn â rhianta cadarnhaol a'r holl wahanol gynlluniau sy'n bodoli i geisio helpu rhieni. Gwnaeth Gwenda Thomas y pwynt pwysig, yn fy marn i, fod llawer o'r rheini wedi eu hanelu at yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf lle mae teuluoedd llai cefnog yn byw, ac mae hon yn broblem i bob rhiant. Rwy'n meddwl yn bendant ei bod yn gwbl hanfodol credu hynny.

Of course, we do have a universal service that goes to every family and every child. All the children are born under the national health service—the vast majority of children. They all have midwives. We have a health service—a very important health service—that goes to children up to the age of five years old. We've got a system there in place for universal provision. We've got a system for working with children that's already there. So, there is universal provision there, and there is universal provision to help with parenting. If this amendment were passed and this law changed, it would then be possible to use that system that already exists to explain to parents what the impact of this law is, and to be able to give the clear message that everybody who works closely with parents wants to have.

Wrth gwrs, mae gennym wasanaeth cyffredinol sy'n cael ei ddarparu i bob teulu ac i bob plentyn. Mae'r plant i gyd yn cael eu geni o dan y gwasanaeth iechyd gwladol—y mwyafrif helaeth o blant. Mae ganddynt i gyd fydwragedd. Mae gennym wasanaeth iechyd—gwasanaeth iechyd pwysig iawn—sy'n cael ei ddarparu i blant hyd at bum mlwydd oed. Mae gennym system yn ei lle ar gyfer darpariaeth gyffredinol. Mae gennym system ar gyfer gweithio gyda phlant sy'n bodoli eisoes. Felly, mae darpariaeth gyffredinol yno, ac mae darpariaeth gyffredinol i helpu gyda rhianta. Petai'r gwelliant hwn yn cael ei basio a'r gyfraith hon yn newid, byddai wedyn yn bosibl defnyddio'r system honno sy'n bodoli eisoes i esbonio i rieni beth yw effaith y gyfraith, ac i allu rhoi'r neges glir y mae pawb sy'n gweithio'n agos gyda rhieni yn dymuno'i chael.

The other point I wanted to make is on the voice of what the children think. I don't think perhaps we've covered that enough here today. For those of you who were at our meeting earlier last week, when we had children from Plasmawr school there, they said quite clearly what they felt about the fact that they could be hit by their parents. The children find it deeply humiliating and are deeply hurt by the fact that it is possible for parents to hit children, while adults cannot be hit with impunity.

Y pwynt arall yr oeddwn am ei wneud yw ynglŷn â llais plant a beth maen nhw'n ei feddwl. Nid wyf yn credu ein bod wedi trafod digon ar hynny yma heddiw. I'r rhai ohonoch a oedd yn ein cyfarfod yn gynharach yr wythnos ddiwethaf, pan roedd plant o ysgol Plasmawr yno, dywedodd y plant yn eglur iawn sut roeddynt yn ei deimlo ynglŷn â'r ffaith y gallent gael eu taro gan eu rhieni. Roedd y plant yn teimlo eu bod wir yn cael eu bychanu ac yn cael eu brifo'n fawr gan y ffaith ei bod yn bosibl i rieni daro plant, er na ellir taro oedolion heb ddioddef cosb.

So, this amendment is not a wrecking amendment and it's not a delaying amendment, and I don't want anybody to go away thinking that. It is an absolutely genuine and honest way of trying to improve this Bill. It is trying to ensure that the children in Wales have a good deal. We have got the power here to do this. We can do this and make their lives much better. So, I feel that this is completely in line with all the policies that the Welsh Government has ever had, and a step forward to remove the defence of reasonable punishment, to work closely with the families, to develop procedures and to develop guidelines is completely in tune with what the policies of this Welsh Government have ever been. So, I move this amendment not as a wrecking or delaying amendment or in trying to spoil the Bill or anything like that, but genuinely to support the children in Wales.

Felly, nid gwelliant dinistriol mo'r gwelliant hwn ac nid yw'n welliant â'r bwriad o achosi oedi, ac nid oes arnaf eisiau neb i fynd oddi yma'n meddwl hynny. Mae'n ffordd gwbl ddidwyll ac onest o geisio gwella'r Bil hwn. Mae'n ceisio sicrhau bod plant Cymru'n cael tegwch. Mae gennym y pŵer yma i wneud hyn. Gallwn wneud hyn a gwneud eu bywydau'n llawer gwell. Felly, rwy'n teimlo bod hyn yn cyd-fynd yn hollol â'r holl bolisïau a fu gan Lywodraeth Cymru erioed, a'i fod yn gam ymlaen i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol, i weithio'n agos gyda'r teuluoedd, i ddatblygu gweithdrefnau ac i ddatblygu canllawiau sy'n cydweddu'n llwyr â'r hyn a fu'n bolisi i'r Llywodraeth hon yng Nghymru erioed. Felly, rwy'n cynnig y gwelliant hwn, nid fel gwelliant dinistriol na gohiriol nac i geisio difetha'r Bil nac unrhyw beth felly, ond yn ddidwyll er mwyn cefnogi plant yng Nghymru.

19:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 66 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 66 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Bydd pleidlais electronig.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 36, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 66.

Result of the vote on amendment 66.

### Grŵp 17: Ystyr Camdriniaeth (Gwelliant 63)

### Group 17: Meaning of Abuse (Amendment 63)

19:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 17—the meaning of abuse. This is the final group of amendments, and the only amendment in this group is amendment 63, and I call on Jocelyn Davies to move and speak to the amendment.

Symudwn nawr at grŵp 17—ystyr camdriniaeth. Dyma'r grŵp olaf o welliannau, a'r unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 63, a galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig a siarad am y gwelliant.

*Cynigiwyd gwelliant 63 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 63 (Jocelyn Davies) moved.*

19:29

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I've had concerns about the definition of domestic abuse used in the Bill throughout the scrutiny process. Because the Bill redefines abuse in a way that does not match existing definitions, either legal or those found in other Government guidance, I've had concerns that if we are codifying the definition, it is too narrow and out of sync with that in other countries in the UK.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi pryderu am y diffiniad o gamdriniaeth ddomestig a ddefnyddir yn y Bil gydol y broses graffu. Oherwydd bod y Bil yn ailddiffinio camdriniaeth mewn ffordd nad yw'n cyd-fynd â diffiniadau presennol, naill ai rhai cyfreithiol neu rai a geir yng nghanllawiau eraill y Llywodraeth, Rwyf wedi pryderu bod y diffiniad yn rhy gul, os ydym yn ei godeiddio, ac nad yw'n cyd-fynd â'r diffiniad yng ngwledydd eraill y DU.

Now, we know that abusive behaviour can be hard to define. The domestic violence charity SafeLives recently published an analysis of their database of cases, which found that 85% of victims had been in contact with an average of five professionals in the year before they got effective help from a specialist practitioner. So, we need broad and flexible definitions to ensure that as many people as possible suffering from abusive behaviour can recognise it and be eligible for help as quickly as possible.

Nawr, rydym yn gwybod y gall ymddygiad camdriniol fod yn anodd ei ddiffinio. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr elusen trais domestig, SafeLives, ddadansoddiad o'u cronfa ddata o achosion, a chanfuwyd bod 85% o'r dioddefwyr wedi bod mewn cysylltiad â chyfartaledd o bump o weithwyr proffesiynol yn y flwyddyn cyn iddynt gael cymorth effeithiol gan ymarferydd arbenigol. Felly, mae angen diffiniadau eang a hyblyg i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl sy’n dioddef o ymddygiad camdriniol yn gallu ei adnabod ac yn gymwys i gael help cyn gynted ag y bo modd.

At Stage 2, the Minister reassured us that the definitions used on the face of the Bill would capture the wide range of abusive behaviours victims experience. However, I still believe that the threat to other people, the threat to property and the threat to pets can be a frightening element of abuse and a powerful warning sign, and I’m sure that many Members here will be aware of the triple murder in my area, where failures by numerous agencies to take multiple threats to burn down a house seriously ended in tragedy. Pets can be an incentive to stay in a dangerous relationship. The RSPCA run PetRetreat, an advice and pet fostering service for families fleeing domestic abuse, for this reason. Family pets are often used as a tool to manipulate and control victims of domestic abuse and to prevent victims feeling able to move safely to a refuge where, of course, they are not allowed to take their pet. At Stage 2, the Minister suggested that he may be willing to include this in the explanatory memorandum. Obviously, at this stage, I’d like to see an acknowledgement from the Minister that threats to other people—and those other people may not be aware of those threats—threats to property and threats to pets are a component of abuse that we should recognise. I would obviously like to hear the commitment from the Minister to put this in the explanatory memorandum if the Minister has come to the extraordinary conclusion that my amendment may be unnecessary. [Laughter.]

Yn ystod Cyfnod 2, rhoddodd y Gweinidog sicrwydd inni y byddai'r diffiniadau a ddefnyddir ar wyneb y Bil yn cynnwys yr ystod eang o ymddygiad camdriniol y mae dioddefwyr yn ei brofi. Er hynny, rwyf yn dal i gredu y gall y bygythiad i bobl eraill, i eiddo ac i anifeiliaid anwes fod yn elfen frawychus o gamdriniaeth ac yn rhybudd pwerus, ac rwy'n siŵr y bydd llawer o Aelodau yma yn ymwybodol o'r tri a lofruddiwyd yn fy ardal i, lle gwelwyd trasiedi o ganlyniad i fethiannau gan nifer o asiantaethau i gymryd o ddifrif fygythiadau niferus i losgi tŷ’n ulw. Gall anifeiliaid anwes fod yn gymhelliant i aros mewn perthynas beryglus. Am y rheswm hwn, mae'r RSPCA yn rhedeg PetRetreat, sef gwasanaeth cynghori a maethu anifeiliaid anwes i deuluoedd sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig. Defnyddir anifeiliaid anwes y teulu yn aml fel ffordd o reoli pobl sy’n dioddef camdriniaeth ddomestig ac o rwystro dioddefwyr rhag teimlo y gallant symud yn ddiogel i loches lle nad ydynt, wrth gwrs, yn cael cadw eu hanifail anwes. Yn ystod Cyfnod 2, awgrymodd y Gweinidog y gallai fod yn barod i gynnwys hyn yn y memorandwm esboniadol. Yn amlwg, ar yr adeg hon, byddwn yn hoffi gweld y Gweinidog y cydnabod bod bygythiadau i bobl eraill—ac mae’n bosibl nad yw’r bobl eraill hynny’n ymwybodol o'r bygythiadau hynny—bygythiadau i eiddo a bygythiadau i anifeiliaid anwes yn elfennau o gam-drin y dylem eu cydnabod. Byddwn yn amlwg yn hoffi clywed ymrwymiad gan y Gweinidog i roi hyn yn y memorandwm esboniadol os yw'r Gweinidog wedi dod i'r casgliad rhyfeddol efallai nad oes angen fy ngwelliant. [Chwerthin.]

19:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

19:31

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. There has been an honest discussion between me and Jocelyn Davies since Stage 2 around the issue of the definitions. We believe that the current definition of abuse in the Bill is sufficiently wide to include threatening behaviour of the kind that she mentions, where the threats are ultimately aimed at abusing the victim, but, as she rightly says, I did undertake at Stage 2 to include a specific reference to property and pets within the explanatory notes—not the explanatory memorandum. The revised version of the explanatory notes published last week does in fact include such a reference. So, in light of the fact that I have yet again listened to the views of Members in this Chamber, I hope that Jocelyn Davies will not pursue her amendment today.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Bu trafodaeth onest rhyngof fi a Jocelyn Davies ers Cyfnod 2 ynglŷn â’r diffiniadau. Rydym yn credu bod y diffiniad presennol o gamdriniaeth yn y Bil yn ddigon eang i gynnwys ymddygiad bygythiol o'r math y mae’n sôn amdano, lle mae bygythiadau wedi eu hanelu yn y pen draw at gam-drin y dioddefwr, ond, fel y mae hi’n ei ddweud yn hollol gywir, fe wnes i ymgymryd yng Nghyfnod 2 i gynnwys cyfeiriad penodol at eiddo ac anifeiliaid anwes yn y nodiadau esboniadol—nid y memorandwm esboniadol. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r nodiadau esboniadol a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn cynnwys cyfeiriad o'r fath. Felly, yn wyneb y ffaith fy mod unwaith eto wedi gwrando ar farn yr Aelodau yn y Siambr hon, rwy’n gobeithio na fydd Jocelyn Davies yn parhau â’i gwelliant heddiw.

19:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to reply.

Rwy'n galw ar Jocelyn Davies i ymateb.

19:32 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Obviously, I've failed to convince the Minister to accept the amendment in the Bill, but I am delighted that the explanatory notes now contain these things and I think that that will be important for practitioners on the ground. So, I'm happy not to push for a vote on this amendment.

Diolch yn fawr. Yn amlwg, rwyf wedi methu ag argyhoeddi'r Gweinidog i dderbyn y gwelliant yn y Bil, ond rwyf wrth fy modd fod y nodiadau esboniadol bellach yn cynnwys y pethau hyn a chredaf y bydd hynny'n bwysig i ymarferwyr ar lawr gwlad. Felly, rwy'n hapus i beidio â gwthio am bleidlais ar y gwelliant hwn.

19:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 63 has been moved, but the Member wishes to withdraw it. Does anyone object to that? The amendment is therefore withdrawn.

Mae gwelliant 63 wedi ei gynnig, ond mae'r Aelod yn dymuno ei dynnu'n ôl. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu i hynny? Felly, mae'r gwelliant yn cael ei dynnu'n ôl.

*Tynnwyd gwelliant 63 yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 12.27.*

*Amendment 63 withdrawn in accordance with Standing Order 12.27.*

19:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 53.

Weinidog, gwelliant 53.

*Cynigiwyd gwelliant 53 (Leighton Andrews).*

*Amendment 53 (Leighton Andrews) moved.*

19:33 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

19:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 53 be agreed. Does any Member object? Then amendment 53 is agreed.

Y cwestiwn a ddylid derbyn gwelliant 53. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna mae gwelliant 53 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 53 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 53 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:33 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Jocelyn Davies, amendment 64.

Jocelyn Davies, gwelliant 64.

I don't want to move it.

Nid wyf yn dymuno ei gynnig.

19:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

It has been moved, but—. Oh I beg your pardon. It has not been moved, therefore it is—it does not exist. [Laughter.]

Mae wedi cael ei gynnig, ond—. O mae'n ddrwg gennyf. Nid yw wedi cael ei gynnig, felly mae'n cael ei—nid yw'n bodoli. [Chwerthin.]

*Ni chynigiwyd gwelliant 64 (Jocelyn Davies).*

*Amendment 64 (Jocelyn Davies) not moved.*

19:33 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 20.

Weinidog, gwelliant 20.

*Cynigiwyd gwelliant 20 (Leighton Andrews).*

*Amendment 20 (Leighton Andrews) moved.*

19:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 20 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 20 is agreed.

Y cwestiwn a ddylid derbyn gwelliant 20. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna mae gwelliant 20 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 20 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill. I declare that all sections of and schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Rwy'n datgan y bernir fod pob adran o'r Bil ac o'r atodlenni iddo wedi'u derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

*Barnwyd y cytunwyd ar bob adran o'r Bil.*

*All sections of the Bill deemed agreed.*

19:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

And that brings today's proceedings to a close.

Ac mae hynny'n dod â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 19:34.*

*The meeting ended at 19:34.*